Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| | |
|---|---|
| **GŴYS A RHAGLEN** | **SUMMONS AND AGENDA** |
| **ar gyfer** | **for a** |
| **CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN** | **MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL** |
| **ar** | **on** |
| **DYDD MAWRTH, 12 MEDI 2023** | **TUESDAY, 12 SEPTEMBER 2023** |
| **am 2:00 o'r gloch yp** | **at 2:00 pm** |

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiad canlynol:-

- 23 Mai 2023 (Cyfarfod Cyffredinol) - 10:30 am
- 23 Mai 2023 (Cyfarfod Blynyddol) - 2:00 pm

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

**4. CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

**5. ASESIAD DIGONOLRWYDD GOFAL PLANT**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 27 Mehefin 2023.

**6. HUNAN ASESIAD CORFFORAETHOL 2023**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

**7. YMESTYN CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 28 Mehefin, a'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf 2023.

**8. CYNLLUN RHEOLI ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL (AHNE) – DRAFFT TERFYNOL**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf 2023.

**9. MABWYSIADU CYNLLUN DEISEBAU DRAFFT**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swydogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 18 Gorffennaf 2023.

**10. PENODI CYNGHORYDD SIR I'R PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro.

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU ARCHWILIO 2022-23 – ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Mehefin 2023.

**12. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

**13. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A SGRIWTINI 2022/23**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 23 Mai 2023

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas Massie Fowlie, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, Carwyn Jones, John Ifan Jones, R Ll Jones, A M Jones, G O Jones, Dyfed Wyn Jones, Jackie Lewis, Llinos Medi, Euryn Morris, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen, Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Keith Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Sonia Williams, Liz Wood ac Arfon Wyn |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Rheoli Perfformiad (ar gyfer eitem 8),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mrs Sandra Thomas – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (ar gyfer eitem 7) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Alwen P Watkin a Robin Williams.<br><br>Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151. |

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2023 yn gywir.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Dim wedi'u derbyn.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Dim wedi'u derbyn. Eglurwyd gan y Cadeirydd y byddai'r cyhoeddiadau'n cael eu gwneud yn ystod y Cyfarfod Blynyddol yn y prynhawn.

## 4. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13 .1 Y CYFANSODDIAD

- Cyflwynwyd - y Rhybudd o Gynnig isod gan y Cynghorydd Llinos Medi:-

  *'Rydym fel Cyngor Sir Ynys Môn yn gwahodd Eisteddfod Genedlaethol yr URDD i Ynys Môn yn 2026 mewn egwyddor . Mae'r Eisteddfod yn un o brif ddigwyddiadau ieuenctid drwy Ewrop a does unman gwell na Môn er mwyn llwyfannu digwyddiad Cymreig i bobl ifanc Cymru.'*

  Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Aled M Jones gan ei fod yn croesawu gwahodd Eisteddfod Genedlaethol yr URDD i Ynys Môn.

  Cefnogwyd y Cynnig i wahodd Eisteddfod Genedlaethol yr URDD i Ynys Môn yn 2026 yn unfrydol gan y Cyngor Sir gan ei fod yn ddigwyddiad ieuenctid o bwys rhyngwladol a bydd hefyd yn hyrwyddo'r Gymraeg.

  Mynegodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Llinos Medi ei gwerthfawrogiad i'r Cyngor llawn am eu cefnogaeth ac aeth ymlaen i ddweud bod y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc Cymru wedi cael profiadau cadarnhaol drwy'r URDD dros y blynyddoedd.

  **PENDERFYNWYD derbyn y Cynnig yn unfrydol.**

- Cyflwynwyd – y Rhybudd o Gynnig isod gan y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas:-

  *'Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailystyried y penderfyniad i ddod â chymorth ariannol BES3 ar gyfer bysiau cyhoeddus i ben ar 24/07/23. Mae'r arian hwn yn hanfodol bwysig i ddiogelu gwasanaethau bws ar yr Ynys.".'*

  Eiliwyd y Cynnig gan y Cynghorydd Gary Pritchard a ddywedodd bod lleihau gwasanaethau bysiau mewn ardaloedd gwledig yn effeithio ar allu pobl i fynd i'r gwaith, yr henoed a phobl agored i niwed.

  Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas bod Llywodraeth Cymru wedi sylweddoli yn ystod y pandemig na fyddai modd cynnal nifer o wasanaethau bws heb gymorth ariannol a bod y cyllid yn hanfodol bwysig er mwyn diogelu gwasanaethau bws ar yr ynys. Nododd bod trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol i gymunedau lleol. Aeth ymlaen i ddweud bod gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus mewn rhannau gwledig o Ynys Môn yn wahanol i ddinasoedd mwyaf Cymru. Dywedodd y Cynghorydd Thomas er bod Llywodraeth Cymru'n adolygu'r mater mae'n hanfodol bod y cyllid hwn yn cael ei ddiogelu er mwyn cefnogi'r cwmnïau bysys ar yr adeg hon gan ei bod yn amhosibl iddynt gynllunio o flaen llaw o dan y system bresennol.

  Cefnogwyd y Cynnig y dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y penderfyniad i ddod â chymorth ariannol BES3 ar gyfer bysiau cyhoeddus i ben ar 24/7/23.

  **PENDERFYNWYD derbyn y Cynnig yn unfrydol.**

## 5. CYFLWYNO DEISEBAU

Dim deisebau wedi'u derbyn.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR AR GYFER 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor ar gyfer 2022/2023.

Yn gyntaf diolchodd yr Arweinydd i staff y Cyngor am eu gwaith ac ymrwymo i sicrhau bod yr awdurdod yn llwydd a bod gwasanaethau o safon dda yn cael eu darparu i drigolion Ynys Môn.  Dywedodd bod llawer wedi'i gyflawni drwy gydweithio a bod hynny dangos grym a gallu ein hynys fach i weddill Cymru.

Amlygodd Arweinydd y Cyngor yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, fel y nodir yn ei hadroddiad, a hynny mewn perthynas â'r Economi, Gwasanaethau Cymdeithasol, Hamdden, Tai, yr Hinsawdd a'r Amgylchedd. Cyfeiriodd at y cwmnïau ar yr Ynys sydd wedi cau yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i gostau ynni uchel, chwyddiant a'r ansicrwydd cyffredinol yn economi'r DU. Roedd cau ffatri 2 Sisters yn Llangefni yn ergyd drom i'r 700 o bobl a oedd yn gweithio yno ynghyd â'u teuluoedd yn ogystal ag economi'r Ynys. Mynegodd ei diolch i'r sefydliadau partner a oedd wedi cefnogi'r gweithlu yn ystod y cyfnod anodd hwnnw.

Ar nodyn cadarnhaol, roedd yr Arweinydd yn falch bod y Cyngor, ar ôl gweithio'n agos â Stena Line, wedi llwyddo i gwblhau'r cam cyntaf er mwyn sicrhau statws Porthladd Rhydd i'r Ynys. Aeth ymlaen i gyfeirio at agor ysgol newydd Ysgol Corn Hir, Llangefni sydd wedi gwireddu gweledigaeth yr Awdurdod i ddarparu'r cyfleodd gorau posib i blant a staff yr ysgol. Dywedodd hefyd ei bod wedi gweithio ar lefel ranbarthol ac ar lefel genedlaethol yng Nghymru a'r DU i sicrhau'r buddion gorau posib i'r Cyngor ac i'r Ynys.

The Council was given the opportunity to ask questions of the Leader on the contents of the Annual Report.

Er bod y Cynghorydd Jeff Evans yn croesawu llwyddiannau'r Cyngor, dywedodd bod y Cyngor angen mynd i'r afael â chyfleusterau i bobl ifanc gan fod ymddygiad gwrthgymdeithasol ac, yn fwy diweddar, e-sigaréts yn broblem.  Cyfeiriodd at y problemau y mae pobl yn eu hwynebu wrth geisio cael apwyntiad â'r meddyg, diffyg deintyddion a swyddogion yr heddlu ynghyd â'r broblem o recriwtio gweithwyr gofal, a dywedodd bod angen mynd i'r afael â'r problemau hyn. Yn ei hymateb dywedodd Arweinydd y Cyngor bod 10 mlynedd o lymder ariannol wedi gadel ei ôl ar wasanaethau cyhoeddus. Dywedodd bod y gwasanaeth ieuenctid bellach yn rhan o'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau mwy o wydnwch o fewn y gwasanaeth. Aeth ymlaen i ddweud ei bod hi'n bwysig bod cymunedau'n gwneud yn siŵr bod cyfleusterau ar gael i bobl ifanc yn lleol. Cyfeiriodd at y sylwadau ynglŷn â diffyg heddweision a dywedodd bod gwaith wedi cael ei wneud ar y cyd â'r heddlu yn ddiweddar fel rhan o'r rhaglen *Safer Streets* er mwyn gwneud ein cymunedau'n llefydd mwy diogel i bobl.

Croesawyd yr adroddiad gan aelodau'r Cyngor Sir a oedd yn gwerthfawrogi llwyddiannau'r Cyngor dros y flwyddyn ddiwethaf.

## 7. CYNLLUN LLESIANT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN 2023-28

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr ar Gynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn 2023-28 i'w ystyried.

Adroddodd Arweinydd y Cyngor bod y drafft diweddaraf o'r Cynllun Llesiant yn amlinellu sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu gwneud gwahaniaeth amlwg i fywydau trigolion drwy gydweithio i sicrhau canlyniadau ar gyfer yr ardal gyfan. Trwy ddefnyddio'r dystiolaeth o'r asesiadau llesiant, mae'r Bwrdd wedi nodi tri amcan Llesiant sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Nododd bod hyrwyddo'r Gymraeg rhan annatod o waith

y Bwrdd,  yn enwedig gweithio gyda chymunedau i'w helpu i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.

**7.** **PENDERFYNWYD yn unfrydol i fabwysiadu Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd Ac Ynys Môn 2023-28.**

**8.** **HUNAN-ASESIAD CORFFORAETHOL 2023**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid ar Hunanasesiad 2023 i'w ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer bod yr adroddiad yn adlewyrchu ail hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.  Mae'r adroddiad yn adlewyrchu allbwn y fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad corfforaethol ac yn darparu sail dystiolaethol o ran y modd y mae'r Cyngor wedi perfformio, sut mae'r Cyngor yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo a sut y mae'n rheoli a lliniaru risgiau cysylltiedig.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r ddogfen fel 'drafft gweithredol' a gwahodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ystyried ei chynnwys ymhellach yn ei gyfarfod ar 29 Mehefin, 2023.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 pm

**CYNGHORYDD DAFYDD ROBERTS**
**CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol hybrid a gynhaliwyd ar 23 Mai 2023

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Glyn Haynes, Llinos Medi, A M Jones, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, G O Jones, John Ifan Jones, R Ll Jones, Jackie Lewis, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Llio Angharad Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret M Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Sonia Williams, Liz Wood ac Arfon Wyn |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Ieuenctid a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Alwen P Watkin a Robin Williams<br><br>Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff. |

Cyflwynodd y Cadeirydd, y Cynghorydd Dafydd Roberts rodd i Gyn-gadeiryddion Cyngor Sir Ynys Môn – y Cynghorydd Margaret M Roberts a’r Cynghorydd Glyn Haynes gan nad oedd wedi bod yn bosibl cydnabod eu gwasanaeth oherwydd y pandemig.

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Margaret Murley Roberts yn Gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2023/2024.**

Wrth dderbyn y fraint o gael ei phenodi, rhoddodd y Cynghorydd Margaret M Roberts sicrwydd i’r Cyngor y byddai’n gwneud pob ymdrech i gyflawni ei dyletswyddau fel Cadeirydd hyd orau ei gallu. Diolchodd i’w rhagflaenydd, y Cynghorydd Dafydd Roberts, am y ffordd urddasol ac anrhydeddus yr oedd wedi cyflawni ei ddyletswyddau dinesig fel Cadeirydd y Cyngor Sir.

Diolchodd y Cyn-gadeirydd, y Cynghorydd Dafydd Roberts i'w etholwyr yn Ward Bodowyr ac i'r holl Aelodau a Swyddogion am eu cymorth yn ystod ei gyfnod fel Is-gadeirydd a Chadeirydd y Cyngor Sir. Cyfeiriodd at y ffaith bod y cymorth gan y Gwasanaethau Democrataidd wedi newid yn ddiweddar ac roedd yn dymuno diolch i Mrs Carys Bullock am ei chymorth. Roedd hefyd yn dymuno diolch i Mrs Debbie Jones a Miss Chloe Hughes yn y Gwasanaethau Democrataidd am eu cymorth ac i Mr Dyfan Sion a benodwyd yn Bennaeth Democratiaeth yn ddiweddar. Bu iddo gydnabod y gwaith a gyflawnwyd gan Swyddogion y Cyngor yn ystod cyfnod anodd y pandemig a'r argyfwng costau byw. Amlygodd y Cynghorydd Dafydd Roberts ei uchafbwyntiau fel Cadeirydd a chyfeiriodd yn arbennig at gael agor pabell fawr Cyngor Sir Ynys Môn yn Sioe Amaethyddol Ynys Môn. Cyfeiriodd hefyd at y fraint o gael diolch i'r Cyn-gynghorydd Noel Thomas, wedi oedi hir, a chydnabod yr anghyfiawnder yr oedd wedi'i ddioddef.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Glyn Haynes yn Is-gadeirydd y Cyngor Sir ar gyfer 2023/2024.**

**3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**4. CYHOEDDIADAU**

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:-

- Llongyfarchiadau i Ysgol Corn Hir ac Ysgol y Borth am gyrraedd rownd derfynol pencampwriaeth pêl-rwyd yr Urdd yn Aberystwyth. Ysgol Corn Hir oedd yn fuddugol gydag Ysgol Borth yn dod yn ail.

- Llongyfarchiadau i nifer o unigolion o Ynys Môn a gwblhaodd y ras am fywyd 5k yng Nghaernarfon ar 14 Mai, 2023 a chodi arian at achosion da.

- Llongyfarchiadau i Mr Stuart Jewell, o'r adran TG am redeg Marathon Llundain i godi arian i Awyr Las – Ysbyty Penrhos Stanley.

- Llongyfarchiadau i Mr Martin Roberts o'r Adran Gyllid ar gael ei ddewis i ddyfarnu yn nhwrnamaint Nations Cup UEFA yn Sbaen fis nesaf.

- Llongyfarchiadau i Thea Scowcroft-Roberts o Ysgol Rhoscolyn a oedd yn fuddugol mewn cystadleuaeth i greu logo newydd ar gyfer Coleg Treftadaeth Caergybi – y coleg cyntaf o'i fath yng Nghymru.
- Llongyfarchiadau i Mr Alan Carter a Mr John Pritchard sydd wedi cynrychioli Clwb Pêl-droed Cerdded Cymru i bobl dros 65 oed ym mhencampwriaeth ryngwladol Cwpan 5 bob ochr y Byd yn Zurich. Llwyddodd y ddau i helpu Cymru ddod yn ail yn y gystadleuaeth.

- Llongyfarchiadau i Keith a Rhian o dîm Maethu Cymru Ynys Môn ac i Sioned a Ffion o'r tîm Teuluoedd Gwydn am ddringo'r Wyddfa, Cader Idris a Phen y

Fan mewn 21 awr a 40 munud. Llongyfarchiad hefyd i un o Ofalwyr Maeth yr Awdurdod, Alina Williams am ymuno â'r tîm i ddringo'r Wyddfa.

- Llongyfarchiadau i'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ac i Action for Children am dderbyn canmoliaeth uchel am eu gwaith gyda gofalwyr ifanc yma ar Ynys Môn yn ystod seremoni wobrwyo Gofal Cymdeithasol Cymru yng Nghaerdydd yn ddiweddar.

- Dymuniadau gorau i'r plant a'r bobl ifanc o Ynys Môn a fydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri ddiwedd y mis.

- Dymuniadau gorau i bawb o Ynys Môn a fydd yn cymryd rhan yng Ngemau'r Ynysoedd yn Gurnsey ym mis Gorffennaf.

- Llongyfarchiadau i bawb sydd â chyswllt ag Ynys Môn a fydd yn cael eu derbyn i'r Orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

* * * * *

Cydymdeimlwyd a theulu, ffrindiau a chydweithwyr Ms Angela Bennett a oedd yn gweithio yn yr Adran Refeniw a Budd-daliadau.

Cydymdeimlwyd â theulu'r ddau Gyn-gynghorydd Sir, Mr Keith Thomas a Mr Eric Roberts.

Cydymdeimlwyd â Chyn-arweinydd y Cyngor, Mr Gareth Winston Roberts ar golli ei wraig yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd hefyd ag unrhyw Aelod neu aelod o staff y Cyngor a oedd wedi cael profedigaeth.

Cafwyd munud o dawelwch a safodd yr Aelodau a Swyddogion fel arwydd o barch.

* * * * *

Gyda chytundeb y Cadeirydd, rhoddodd y Cynghorydd Robert Ll Jones deyrnged i Mr Sean Burns, a oedd wedi'i eni a'i fagu ym Mae Trearddur, Ynys Cybi, a fu farw'n ddiweddar. Treuliodd Mr Burns 12 mlynedd yn gwasanaethu fel Gweinyddwr Tristan da Cunha ac Ynys y Dyrchafael a Phennaeth Swyddfa'r Llywodraethwr ar Ynys Santes Helena. Dywedodd y Cynghorydd Jones bod Ynys Môn yn agos at galon Mr Burns a'i fod bod amser yn hyrwyddo'r ynys ble bynnag oedd yn mynd.

* * * * *

**5. AELODAETH O'R PWYLLGOR GWAITH**

**Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2.7 o’r Cyfansoddiad, cael gwybod gan yr Arweinydd enwau’r Cynghorwyr y mae hi wedi eu dewis i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio:-**

**Cynghorydd Llinos Medi (Arweinydd)** Portffolio Datblygu Economaidd;

**Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd)** Portffolio Cyllid;

**Cynghorydd Ieuan Williams (Dirprwy Arweinydd)** Portffolio Addysg a’r Gymraeg;

**Cynghorydd Neville Evans** Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;

**Cynghorydd Carwyn Jones** Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer;

**Cynghorydd Gary Pritchard** Portffolio Plant (Gwasanaethau Cymdeithasol), Ieuenctid a Gwasanaethau Tai;

**Cynghorydd Alun Roberts** Portffolio Gwasanaethu Oedolion (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Diogelwch Cymunedol;

**Cynghorydd Nicola Roberts** Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd;

**Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

**6. ETHOL CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

**Yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 o’r Cyfansoddiad Penderfynwyd Ethol y Cynghorydd Keith Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**

**7. CADARNHAU’R CYNLLUN DIRPRWYO**

**Yn unol â Rhan 3.2 o’r Cyfansoddiad PENDERFYNWYD cadarnhau’r rhan honno o’r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor yw cytuno arni.**

**8. CADARNHAU PWYLLGORAU**

Cadarnhaodd y Cadeirydd ailbenodi’r strwythur Pwyllgorau y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â’r canlynol:-

- Panel Penodi i'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)
- Is-bwyllgor Indemniadau

**9. RHAGLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR SIR AR GYFER 2023/24**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo’r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd arferol y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod:-**

- **12 Medi, 2023 - 2.00 pm**
- **26 Hydref, 2023 - 2.00 pm**
- **5 Rhagfyr, 2023 - 2.00 pm**
- **Mai 2024 (Cyfarfod Blynyddol) – dyddiad i'w gadarnhau**

## 10. TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL YN Y CYNGOR

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth mewn perthynas â threfniadau cydbwysedd gwleidyddol.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddi a ddyrennir i bob un o'r Grwpiau yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;**
- **Bod Arweinyddion y Grwpiau yn hysbysu'r Dirprwy Brif Weithredwr a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted ag y bo modd os bydd unrhyw newid o ran Aelodaeth Grwpiau ar Bwyllgorau.**

## 11. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Pennaeth Democratiaeth mewn perthynas â phenodi i Gyrff Allanol.

**PENDERFYNWYD cytuno ar a chadarnhau'r penodiadau fel y nodir yn yr atodlen i'r adroddiad.**

## 12. PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GYFER 2023- 2024

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth mewn perthynas â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-2024.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Derbyn penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2023-2024;**

- **Cadarnhau y bydd deilyddion yr un Swyddi â 2022-2023 â'r hawl i dderbyn uwch gyflogau yn 2023-2024, hy:-**

  **Cadeirydd y Cyngor;**
  **Is-gadeirydd y Cyngor;**
  **Arweinydd y Cyngor;**
  **Dirprwy Arweinydd y Cyngor;**
  **Aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith (7);**

**Arweinydd Grŵp yr Wrthblaid fwyaf;**
**Cadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini (2);**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.**

- **Awdurdodi swyddogion i newid Rhan 6 o Gyfansoddiad y Cyngor (Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau) i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023-2024.**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm

**CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**CADEIRYDD**

| **Cyngor Sir Ynys Môn** | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Cyngor Sir** |
| Dyddiad: | 12.9.2023 |
| Pwnc / Testun: | Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Gary Pritchard |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Fon Roberts |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | Danielle Thomas<br>01407 767785 / 07971 578100<br>daniellethomas@anglesey.gov.wales |
| Aelodau Lleol: | Pob un – cyfrifoldeb statudol y Cyngor Sir |

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|
| Mae Adran 22 o Ddeddf Gofal Plant 2006 yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru, mewn partneriaeth â rhan ddeiliaid eraill lleol (statudol, cymunedol a sector preifat), gweithwyr proffesiynol, a darparwyr: i sicrhau gofal plant digonol, hygyrch ac o safon uchel ar gyfer plant 0-14 oed yn eu hardal leol, cyn belled ag y bo'n ymarferol i rieni sy'n gweithio, rhieni/gofalwyr sy'n astudio neu'n hyfforddi ar gyfer cyflogaeth.<br><br>Mae Canllaw Asesu Digonolrwydd Gofal Plant Deddfol 2016 yn nodi bod gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru gwblhau a chyflwyno copi o ddwy ddogfen i Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2022, sef: i. Dogfen Asesu Digonolrwydd Gofal Plant; ii. Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant, sydd angen 'nodi'r camau gweithredu, blaenoriaethau a prif nodau i gynnal cryfderau a mynd i'r afael â diffygion a nodir yn yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant' ynghyd â'r adroddiad cynnydd blynyddol yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y camau gweithredu, blaenoriaethau a'r prif nodau yn y Cynllun Gweithredu (2022).<br><br>Yn ogystal, mae'r Cynllun Digonolrwydd Gofal Plant yn cael ei gynnwys yn Gyfansoddiad (dan y Fframwaith Polisi) y Cyngor fel mater a gadwyd i gael ei gymeradwyo gan y Cyngor yn llawn. |

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Rhan o Gyfansoddiad y Cyngor dan Fframwaith Polisi i gyflwyno adroddiad ar gyfer cymeradwyaeth llawn gan y Cyngor. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Nid yw chwiliad ar-lein wedi yn datgelu unrhyw drafodaeth hanesyddol ynglŷn â'r Cynlluniau blaenorol gan y Cyngor llawn; ond mae rhai adroddiadau wedi'u cyflwyno ym mis Ebrill 2014, mis Mawrth 2015, mis Ebrill 2017, mis Ionawr 2019 - y Cynllun a/neu adroddiadau diweddaru. Fel awdurdod lleol, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ar draws holl wasanaethau, o ran yr adroddiad hwn, rydym wedi cael barn gan y Gwasanaethau Dysgu, y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ac mae wedi cael ei drafod yn y cyfarfod Uwch Arweinyddiaeth hefyd. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydan rydym yn ystyried bod yr adroddiad hwn yn cysylltu â'r Cynllun Cyngor sydd newydd gael ei gyhoeddi. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Wedi'i nodi yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 a'r Adolygiad a'r Cynllun 2023, nodwyd y prif amcanion a fydd yn helpu i gefnogi twf a chadw darparwyr Gofal Plant ar Ynys Môn. Yn eu tro, bydd hyn yn sicrhau sector Gofal Plant cynaliadwy sy'n cynnig cyfleoedd datblygu sylfaenol i blant gan gefnogi rhieni/gofalwyr i weithio.<br><br>Wrth benderfynu os yw darpariaeth gofal plant yn ddigonol i ddiwallu gofynion Deddf Gofal Plant 2006, sydd yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau gofal plant digonol yn eu hardal er mwyn galluogi rhieni i weithio neu aros yn y gwaith neu i gynnal addysg a hyfforddiant er mwyn cael gwaith. Trwy gefnogi rhieni/gofalwyr i weithio, mae hyn yn cefnogi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi, er bod tlodi yn dal i fodoli. Yn ogystal, mae rhaglen Llywodraeth Cymru - Cynnig Gofal Plant ar gyfer plant 2 oed, yn cynnig cymorth pellach i rieni/gofalwyr i ddychwelyd i'r gwaith yn gynt, gan frwydro yn erbyn argyfwng cost byw. Trwy gynnal yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant hwn, darperir gwybodaeth hanfodol a nodir anghenion datblygu penodol Gofal Plant ar draws Ynys Môn. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Ceisiadau am gymeradwyaeth ar gyfer yr Asesiad. Nid oes unrhyw asesiad o gostau i'r awdurdod. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Ydi mae'r holl sectorau sy'n ymwneud â darpariaeth a datblygiad gofal plant ynghlwm ac mae ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda rhieni a gofalwyr yn 2022. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Ydyn cafodd ymgynghoriad llawn a thorfol ei gwblhau gyda adborth a chanlyniadau a nodwyd yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar | Mae ystyriaethau penodol sy'n asesu'r effaith ar blant ag anableddau i sicrhau |

| | | |
|---|---|---|
| | y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | mynediad at ofal plant a chynnal ymgynghoriad gyda grwpiau penodol a allai gael eu heffeithio gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd gymdeithasol. | Ceisir cymeradwyaeth ar gyfer yr Asesiad a'r cynllun ac effaith bosibl ar y garfan economaidd gymdeithasol yn deillio o ddiffyg gofal plant sy'n rhwystr i'r gwaith. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Fel rhan o'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, un o'r prif amcanion yw cadw, tyfu a defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant. Fel rhan o Ddeddf Gofal Plant 2006, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ystyried: darparu gofal plant sy'n cynnwys defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn naturiol yn gofyn i awdurdodau lleol gael rhan ganolog yn datblygu darpariaeth gofal plant dwyieithog a chyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd, mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol. Darperir cymorth i'r sector gofal plant i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn cyfeirio at fusnesau sy'n darparu'r adnodd ychwanegol hwn. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Dim sylw pellach |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol a nodwyd y tu hwnt i'r cynlyn presennol. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Nid yw'n berthnasol, ac eithrio am adlewyrchu'r cyfrifoldeb statudol i gynhyrchu'r Asesiad, cymeradwyo a chyhoeddi'r fersiwn derfynol. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Nid yw'n berthnasol. |
| 5 | Eiddo | Nid yw'n berthnasol. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Nid yw'n berthnasol, eithrio beth sydd wedi ei gyhoeddi ar dudalen we'r Cyngor. |
| 7 | Caffael | Nid yw'n berthnasol. |
| 8 | Sgriwtini | Wedi derbyn sylw Uwch Dim |
| 9 | Aelodau Lleol | Nid yw'n berthnasol oherwydd bod hwn ar draws y sir. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Gweler yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2022 a'r Adolygiad / Cynllun CSA 2023 a atodwyd |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
| --- |
| Fel yr uchod |

**Ffurflen Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022**

**Enw’r Awdurdod Lleol: Cyngor Sir Ynys Môn**

**Enw’r Swyddog Cyfrifol: Danielle Thomas**

**Dyddiad Cwblhau:** Mehefin 2022



DRAFFT

## Cynnwys


| | Tudalennau |
|---|---|
| Cyflwyniad, Cyd-destun a Chefndir | 1 - 7 |
| Gweithio Mewn Partneriaeth ac Ymgynghori | 8 |
| Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg | 9 - 12 |
| Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoedd | 13 - 22 |
| Anghenion Rhieni/Gofalwyr – y galw am ofal plant | 23 - 35 |
| Canlyniadau Ymgynghori â Rhanddeiliaid a Chyflogwyr | 36 - 38 |
| Canlyniadau Ymgynghori â Phobl Ifanc | 39 - 44 |
| Canlyniadau Ymgynghori ag Ysgolion | 45 - 49 |
| Dosbarthiad Daearyddol | 50 - 53 |
| Cynaliadwyedd | 54 - 64 |
| Dadansoddiad Trawsffiniol | 65 |
| Effeithiau COVID-19 | 66 - 68 |
| Poblogaeth a Demograffeg Allweddol | 69 - 83 |
| Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Chynlluniau Lles Lleol | 84 |
| Dadansoddiad o'r Bylchau | 85 - 91 |
| Crynodeb o Anghenion Nas Diwallwyd | 92 - 93 |
| Rhwystrau i Ddarpariaeth Gofal Plant | 94 - 99 |
| Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu | 100 - 104 |
| Cynllun Gweithredu'r ADGP | 105 - 111 |


DRAFFT

DRAFFT

## 1 Cyflwyniad, Cyd-destun a Chefndir

Mae Adran 22 o Ddeddf Gofal Plant 2006 yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid, gweithwyr proffesiynol a darparwyr (yn y sectorau statudol, cymunedol a phreifat): i sicrhau gofal plant digonol, hygyrch ac o safon uchel i blant 0-14 oed yn eu hardal leol, cyn belled ag sy’n rhesymol ymarferol ar gyfer rhieni sy’n gweithio, rhieni/gofalwyr sy’n astudio ar gyfer hyfforddiant a chyflogaeth.

Yn ogystal, mae rheoliadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru o dan adran 26 o’r Ddeddf, yn gofyn i awdurdodau lleol ymgymryd ag Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant (ADGP) ar gyfer eu hardal. Mae’r rheoliadau hyn yn pennu’r broses a’r cylch cynllunio, y gofynion o ran ymgynghori a chyhoeddi, gan gynnwys manylion y wybodaeth y mae’n rhaid ei chipio mewn asesiad cylchol (o 2017 ymlaen, bob pum mlynedd).

Yn unol â hynny, mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswydd statudol i weithio gyda darparwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant o fewn ei sectorau preifat, gwirfoddol, annibynnol a’r sector a gynhelir i greu gofal plant hygyrch, cynaliadwy, fforddiadwy, o ansawdd uchel, i ddiwallu anghenion pob rhiant a gofalwr. Bydd y Cyngor Sir yn cymharu’r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn yn 2022, o’r galw ymhlith rieni am ofal plant, gyda gwybodaeth am argaeledd lleoedd gofal plant o’r fath (sef y cyflenwad). Felly, mae’r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant (ADGP) hwn yn 2022 yn dilyn ymlaen o’r asesiad blaenorol, sef Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2017, y gellir gweld ei Gynllun Gweithredu yn: https://democracy.anglesey.gov.uk/documents/s11389/Binder1.pdf?LLL=0.

Mae Canllawiau ADGP Statudol 2016 yn amlinellu bod gofyn i Awdurdodau Lleol gwblhau a chyflwyno copi o dair dogfen i Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2022, h.y.: dogfen Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant; ii. Cynllun Gweithredu Digonolrwydd Gofal Plant, y mae’n *‘rhaid i hyn roi manylion y camau gweithredu, y blaenoriaethau a'r cerrig milltir i gynnal y cryfderau a datrys y diffygion a nodwyd yn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.’;* a iii. (wedyn yn 2023) adroddiad cynnydd blynyddol sy’n nodi’r cynnydd sydd wedi’i wneud yn erbyn y camau gweithredu, y blaenoriaethau a’r cerrig milltir yn y Cynllun Gweithredu (2022), gan gynnwys unrhyw faterion pwysig neu newidiadau sydd wedi digwydd dros y flwyddyn honno, sydd wedi effeithio neu ddylanwadu ar y farchnad ofal plant mewn unrhyw fodd - er enghraifft, datblygiad tai newydd. Mae’r Canllawiau’n ymhelaethu: *‘Yn benodol, bydd angen i Awdurdodau Lleol gydgysylltu â Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i sicrhau bod ganddynt ddarlun diweddar o'r galw am ofal plant a'r ddarpariaeth sydd ar gael’.*
Mae’r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn yn 2022 yn mynegi barn am ddigonolrwydd gan ddefnyddio data ar y galw am ofal plant (yn dilyn effeithiau gwaethaf pandemig 2020 COVID-19) a faint o ofal plant sydd ar gael ar yr ynys yng ngwanwyn 2022 (h.y. y cyflenwad o fathau o ofal plant ffurfiol).

Hefyd, mae Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru yn 2016, i awdurdodau lleol, yn nodi'r modd y dylai'r Awdurdod Lleol (a'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hwn) barhau i ystyried:

(a) anghenion gofal plant rhieni yn ei ardal
(b y ddarpariaeth gofal plant y mae'r elfen gofal plant o'r credyd treth gwaith neu gredyd cynhwysol yn daladwy ar ei chyfer
(c) y ddarpariaeth gofal plant yng nghyswllt cymorth cyflogwr neu ofal plant di-dreth
(d) y ddarpariaeth gofal plant sy'n addas ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol arbennig neu sydd angen gofal arbenigol oherwydd anabledd
(e) y ddarpariaeth gofal plant sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg
(f) y ddarpariaeth gofal plant sy'n eu galluogi i gael mynediad at y ddarpariaeth addysg gynnar cyfnod sylfaen y mae ganddynt hawl iddi, ynghyd ag
(g) y ddarpariaeth gofal plant sy'n eu galluogi i gael mynediad at y gofal plant am ddim y mae ganddynt hawl iddi.

DRAFT

Yn ychwanegol i Ganllawiau Statudol Llywodraeth Cymru, ym Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau atodol i awdurdodau lleol ar gyfer eu proses o ran Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant (ADGP) 2022. Roedd hyn yn cyfarwyddo, yn eu hasesiad llawn yn 2022, y byddai angen i awdurdodau lleol yng Nghymru adrodd ar sut mae COVID-19 wedi effeithio ar gyflenwi gofal plant, y galw am ofal plant a chynaliadwyedd darparwyr gofal plant sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â sut y byddant yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn.
Mae'r ddogfen atodol yn nodi hefyd: *"O ystyried amseriad yr Asesiad llawn yn 2022, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd rhieni o bosibl yn dal i fod yn ansicr ynghylch eu gofynion gofal plant yn y dyfodol. Efallai y bydd angen i awdurdodau lleol ddod i rai casgliadau ar sail tueddiadau yn y galw ac ar sail yr wybodaeth orau sydd ar gael iddynt ar y pryd. Mae gan awdurdodau lleol y cyfle i adolygu eu Cynllun Gweithredu bob blwyddyn fel rhan o'r adroddiad blynyddol ar gynnydd, a chydnabyddir efallai y bydd angen ailymweld â rhai o'r amcanion a nodir yng Nghynllun Gweithredu 2022 yng ngoleuni rhagor o wybodaeth a datblygiadau mewn cysylltiad â'r feirws".*

Yn bwysig iawn, darparodd yr ADGP hwn gyfle i bennu'r graddau yr oedd COVID-19 yn wir yn ffactor (ar lefel leol) ym mhob un o 11 ward Ynys Môn - gan gynnwys o safbwynt llai o alw am fusnesau gofal plant ffurfiol. Cwestiwn allweddol i bob awdurdod lleol yng Nghymru fu: *Os yw'r newid hwn yn arferion rhieni am barhau, a fydd marchnad blynyddoedd cynnar a gofal plant Ynys Môn yn gallu addasu i'r newid hwn o ran galw, a pharhau i fod yn gynaliadwy?*

Yn y bôn, bu’r ADGP hwn yn 2022 yn gyfle ar gyfer:

- Pennu’r graddau y mae pandemig COVID-19 yn wir wedi effeithio: (a) y *cyflenwad* o ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant (o safbwynt ardaloedd lleol penodol); (b) y galw am ofal plant ar safleoedd (ac felly); (c) cynaliadwyedd darparwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant sy’n bodoli eisoes
- Canfod barnau rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid lleol am ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a gofal plant, yn enwedig o ran y galw yn y dyfodol (o’u safbwynt hwy) ynghyd ag angen/anghenion penodol. Mae’r uchelgais hwn yn ymgorffori: (a) ardal gyfan Ynys Môn, gan ystyried tueddiadau (lleol) o ran y galw am ddarpariaeth a’r cyflenwad sydd ar gael; ynghyd â (b) chanfod bylchau penodol o ran grwpiau/teuluoedd a chanddynt amgylchiadau penodol, i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o ofal plant - i bob teulu - ledled ardal yr awdurdod lleol
- Canfod y galw am ddarpariaeth yn y dyfodol, a’r cyflenwad sydd ar gael, o ran rhaglen Dechrau’n Deg Ynys Môn - ac felly **llywio trefniadau perthnasol at y dyfodol o ran comisiynu gofal plant**
- Helpu i sicrhau bod teuluoedd lleol yn gallu cael mynediad i ofal plant yn yr ardal leol sy’n diwallu eu hanghenion, ac yn eu galluogi i wneud dewisiadau go iawn o ran gwaith a’u **cyflogadwyedd**
- O ran y galw am ofal plant o safbwynt rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid, canfod *faint sydd ei angen, o ba fath, ar ba adegau, ac ym mha ardaloedd ym Môn,* ynghyd â phennu unrhyw ofynion penodol eraill sydd gan y rhieni hynny, gan gynnwys mynediad i’r tri math o leoedd addysg blynyddoedd cynnar a ariennir
- Darparu arweiniad pellach i Gyngor Sir Ynys Môn fod yn *rhagweithiol* ac yn *arloesol* o ran archwilio a diogelu cyllid i gefnogi mentrau lleol a chenedlaethol, ac o ran sicrhau yr anogir teuluoedd i hawlio’r cymorth ariannol sydd ar gael
- Nodi cynllun gweithredu a rhoi hwnnw ar waith i gryfhau, gwella a chynyddu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg
- Canfod y graddau y mae nanis a darparwyr gofal plant amgen yn y cartref yn cael eu cyflogi o fewn yr ardal leol

Mae Cynllun Gweithredu’r ADGP (gweler tudalen 105) yn ymgorffori cydnabyddiaeth hanfodol y bydd:

- **Gwaith partneriaeth parhaus rhwng partneriaid a rhanddeiliaid lleol perthnasol yn parhau i fod yn ffordd ymlaen sy’n galluogi diwallu anghenion gofal plant ar yr ynys**
- **Efallai y bydd COVID-19 yn parhau i effeithio'r sector gofal plant a blynyddoedd cynnar lleol, yn enwedig o safbwynt cynaliadwyedd**
- **Bydd mynediad parhaus i gyllid grant yn dal i fod yn ffactor o fewn yr uchelgais i gynnal darparwyr gofal plant sy’n bodoli eisoes**

DRAFFT

Mae'r Cynllun Gweithredu hefyd yn cydnabod bod darpariaeth ar gyfer plant dwyflwydd oed yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ei datblygu yn dilyn adduned Llywodraeth Cymru yn Nhachwedd 2021 i gynnig gofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oed, ynghyd â chynlluniau i hybu gofal plant cyfrwng Cymraeg[1]. Ar hyn o bryd, dim ond plant dwyflwydd oed yng Nghymru, â'r rheiny o gefndiroedd difreintiedig, sy'n gallu hawlio 12.5 awr yr wythnos o ofal plant am ddim o dan raglen Dechrau'n Deg. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru a Plaid Cymru wedi cyhoeddi cynllun i ehangu ei gynnig o 'ofal plant am ddim' i bob plentyn dwyflwydd oed. Caiff y cynllun i ddarparu gofal plant a ariennir ei gyflwyno'n raddol o fis Medi 2022.

Yn olaf, ac fel cyd-destun hanfodol, yn Ionawr 2022, cyhoeddodd Senedd Cymru yr adroddiad: *Gwarchod y dyfodol: Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio*[2]. Argymhellion allweddol o'r adroddiad hwn oedd:

- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi ei chynllun i gynnig gofal cofleidiol i bawb, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol a all gynnig cyfleoedd i bawb sydd am fanteisio arnynt
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r meini prawf cymhwysedd yn y Cynnig Gofal Plant i'w gwneud yn haws i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol, megis gwaith ansicr, gwaith shifftiau neu waith ar gontractau dim oriau, i gael mynediad at ddarpariaeth
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu gweithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r cymorth gofal plant sydd ar gael i rieni newydd. Gallai dulliau posibl gynnwys: ysgrifennu at rieni newydd neu hybu'r cymorth sydd ar gael pan fydd rhieni'n cofrestru genedigaeth eu plentyn; a darparu gwybodaeth i rieni mewn digon o amser cyn diwedd absenoldeb mamolaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau doeth ynghylch gofal plant
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi cynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â'r bwlch gofal plant rhwng diwedd absenoldeb mamolaeth a chymhwystra ar gyfer y Cynnig Gofal Plant. Dylai hyn gynnwys amserlenni enghreifftiol, a gwerthusiad o'r ffactorau ariannol ac ymarferol y byddai angen eu hystyried wrth fynd i'r afael â'r bwlch hwn
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi cynlluniau i sicrhau mwy o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar safleoedd ysgolion, o ystyried bod y dilyniant o ofal plant cyfrwng Cymraeg i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn uwch pan fydd hyn yn digwydd
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynlluniau i weithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu adnoddau mewn ieithoedd cymunedol heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn ychwanegol atynt

DRAFFT

[1] https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-11/cooperation-agreement-2021.pdf - page 5.
[2] https://business.senedd.wales/documents/s122062/Report.pdf

- Er mwyn mynd i'r afael â *phryderon cyffredin* ynghylch diffyg amrywiaeth ethnig yn y sector, bod Llywodraeth Cymru yn nodi ei chynlluniau ar gyfer ei huned gwahaniaethau ar sail hil i gronni sylfaen dystiolaeth ynghylch lefel y gynrychiolaeth o leiafrifoedd ethnig yn y gweithlu gofal plant
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi cynllun sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gofal plant ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth, fel yr hyn y mae CWLWM yn ei ddatblygu, a sicrhau y daw'n rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y sector
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi cynllun i ddatblygu a chryfhau'r ddarpariaeth gofal plant i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys cynyddu faint o arian sydd ar gael drwy Grant Cymorth Ychwanegol Cynnig Gofal Plant Cymru i wella'r ddarpariaeth i blant ag anableddau a/neu anghenion ychwanegol neu gymhleth
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y bydd yn sicrhau bod cyllid digonol ar gael i ehangu'r cynnig gofal plant dan y Cytundeb Cydweithio i alluogi plant dwyflwydd oed ag anghenion ychwanegol neu gymhleth i gael mynediad llawn at ddarpariaeth.
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi yn ei hymateb ei chynllun i sicrhau cynnydd digonol yn y tâl fesul awr i ddarparwyr dan y Cynnig Gofal Plant i alluogi cynnydd yng nghyflogau'r staff, ac amserlen ar gyfer talu'r cyflog byw gwirioneddol i bob gweithiwr gofal plant, gan ddysgu o'r ffordd yr ymgorfforodd Llywodraeth yr Alban hyn yn ei chynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth gofal plant.
- Bod Llywodraeth Cymru yn nodi cynllun i sicrhau bod ymgyrch recriwtio gofal plant arfaethedig Gofal Cymdeithasol Cymru yn cyrraedd ac yn denu grwpiau megis lleiafrifoedd ethnig a siaradwyr Cymraeg sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu gofal plant.



DRAFFT

## 2 Gweithio Mewn Partneriaeth ac Ymgynghori

Fel rhan o gynhyrchu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Ynys Môn 2022, ymgymerwyd â gwaith ymgynghori ansoddol a meintiol strwythuredig gyda sbectrwm eang o bartneriaid, rhanddeiliaid, gweithwyr proffesiynol ac addysgwyr. Ymgynghorwyd hefyd â phlant a phobl ifanc[3], rhieni/gofalwyr, darparwyr gofal plant, unigolion â diddordeb mewn gofal plant, ynghyd â'u cynrychiolwyr, cyflogwyr lleol, ac unigolion sy'n eu cynrychioli, a sefydliadau cyflogwyr, awdurdodau lleol a sefydliadau addysgol cyfagos, gan gynnwys yr ysgolion a leolir ar yr ynys.

Yn Adran A o'r ddogfen ADGP hon, gellir darllen rhagor o fanylion am bartneriaid penodol yr ymgynghorwyd â hwy er mwyn llunio ADGP cadarn a chynhwysfawr, a oedd yn dwyn ynghyd sbectrwm eang o adborth a safbwyntiau. Yn nhermau adborth gan yr awdurdod lleol a'i swyddogion a'i weithwyr proffesiynol perthnasol, ymgynghorwyd â'r:

- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd: Teulu Môn
- Partneriaid yr Awdurdod Lleol
- Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru
- Cynrychiolwyr y Gwasanaethau Ieuenctid
- Partneriaid CWLWM sy'n cynnwys Clybiau Plant Cymru Kids Club's, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, PACEY Cymru a'r Mudiad Meithrin
- Cynrychiolwyr Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (WESP)
- Y rheiny sy'n gweithio ag oedolion ar thema cyflogadwyedd a hyfforddiant
- Ysgolion
- Y rheiny sy'n gweithio gyda theuluoedd difreintiedig, yn enwedig yn ardaloedd Caergybi, a gan gynnwys ar themâu fel rhaglen Dechrau'n Deg, rhianta a'r gwasanaethau cymdeithasol

Yn ei hanfod, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn hyderus ei fod wedi ymgynghori i raddau sy'n sicrhau bod Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022 yn gadarn - a fydd yn helpu i lywio'r gwaith parhaus i adfer presenoldeb a safle'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant ar ôl yr heriau a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19 2020-2022.

DRAFFT

[3] Yn 2022, roedd Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn ymgymryd ag Asesiad Digonolrwydd Chwarae ac roedd y prosiect hwn wedi cyd-gynhyrchu'r rhan fwyaf o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys ar thema gofal plant a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol.

DRAFT

## 3 Cynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg

Cyflwynodd Deddf Gofal Plant 2006 ddyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau digon o ofal plant yn eu hardal i alluogi rhieni i fanteisio ar gyfleoedd i weithio, neu i barhau i weithio neu i ymgymryd ag addysg neu hyfforddiant er mwyn cael gwaith. Wrth benderfynu a yw’r ddarpariaeth o ofal plant yn ddigonol i gyflawni’r gofynion hyn, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru ystyried: y ddarpariaeth o ofal plant sy’n cynnwys defnydd o’r Gymraeg.
Roedd hyn yn naturiol yn gofyn i awdurdodau lleol gyflawni rôl ganolog yn natblygiad darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn eu hardaloedd, mewn partneriaeth â sefydliadau perthnasol.

Felly mae’r asesiad hwn yn ystyriol o’r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar Gynlluniau Strategol Cymraeg Mewn Addysg (WESPs) ar 27 Ionawr 2021[4]. Mae’r canllawiau hynny’n nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru yn nhermau sut y bydd awdurdodau lleol, gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol, yn cynllunio ar gyfer dilyniant addysg cyfrwng Cymraeg i gefnogi gwireddu’r weledigaeth o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Disgwylir i awdurdodau lleol osod targed deng mlynedd trosfwaol a fydd yn amlinellu’r cynnydd disgwyliedig yn y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol.

Wrth wneud hynny, dylai awdurdodau lleol nodi a chynllunio camau i gryfhau ac ehangu’r ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg sydd yn yr ardal er mwyn sicrhau llwybr di-dor at addysg cyfrwng Cymraeg, ynghyd â sicrhau bod Gwasanaeth Teulu Môn (ymhlith fforymau a sefydliadau eraill) yn darparu gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog a defnyddio’r Gymraeg yng nghartref y teulu. I gefnogi’r broses gynllunio, mae Llywodraeth Cymru’n darparu data perthnasol i awdurdodau lleol.

Roedd ffigurau a gyhoeddwyd gan StatsCymru ym Medi 2021 yn dangos bod gan ardal Ynys Môn un o’r canrannau uchaf o ran ei phoblogaeth sy’n gallu siarad Cymraeg (63.3%). Hyd yn oed o ystyried maint cymharol y ganran honno, mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i sicrhau bod y defnydd o’r Gymraeg yn uchelgais ag iddi broffil uchel ar gyfer ei hardal leol.

---

[4] Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 (O.S. 2020/1194 (Cy. 271)) ("Rheoliadau 2020") a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2020 yn gwneud newidiadau i ddyddiad dechrau'r cylch CSCA nesaf. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyflwyno'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg deng mlynedd cyntaf i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo erbyn 31 Ionawr 2022 fan bellaf a bydd y Cynllun deng mlynedd cyntaf yn dechrau ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032. Bydd arweinwyr Gofal Plant a Chwarae o fewn awdurdodau lleol am gymryd sylw o'r newidiadau hyn; sicrhau bod ymgysylltu ag arweinwyr CSCA awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol yn digwydd ar adeg amserol yn y cylch cynllunio ac yn cynnwys amcanion yn eu ADGP 2022 sydd wedi'u cysylltu'n glir â chynlluniau'r awdurdod lleol ar gyfer twf a pharhad mewn addysg Gymraeg a'r targed 10 mlynedd o ran plant Blwyddyn 1. Mae hefyd yn ofynnol i'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ystyried ADGP yr awdurdod lleol. Bydd cyfleoedd i awdurdodau lleol ddiweddaru ac ailgyflwyno eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru pe bai unrhyw faterion neu gyfleoedd yn cael eu nodi fel rhan o'u hadolygiadau blynyddol a gellir nodi newidiadau cysylltiedig yn y diweddariadau ADGP blynyddol.

Ceir cyfeiriad at y bwriad hwn yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol (WESP) – sydd i'w weld yn:
https://www.anglesey.gov.wales/en/Residents/Schools-and-learning/Strategic-Plan-for-Welsh-in-Anglesey-Education-2017-2020.aspx

Mae WESP Cyngor Sir Ynys Môn yn amlinellu gweledigaeth: bod holl blant a phobl ifanc Môn yn hyfedr ddwyieithog ac yn meddu ar y gallu i ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal ar ddiwedd eu gyrfa addysgol gan sicrhau nad oes yr un disgybl yn cael ei amddifadu o'r gallu na'r haeddiant hwnnw.

Mae ganddo nod ychwanegol i sicrhau: bod pob disgybl sy'n mynd drwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn cyrraedd 16 oed, ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal yn y byd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol. Ategir y nod hwn gan set o amcanion sy'n cydweddu â phob carfan, ac ar gyfer y blynyddoedd cynnar, mae hyn yn cynnwys uchelgais i sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin pwrpasol a phriodol (gan gynnwys dulliau trochi), y rhoddir i bob plentyn (beth bynnag yw ei gefndir ieithyddol) sylfaen gadarn yn y Gymraeg cyn gynted â phosibl.

Ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, mae'r WESP yn amlinellu amcan i *"adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cyfnod meithrin a derbyn drwy barhau i ddatblygu gafael pob disgybl ar y Gymraeg"* ac ar gyfer Cyfnod Allweddol 2: *"parhau i ddatblygu gafael y plant ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu hyder yn eu sgiliau ieithyddol".*

Mae'r WESP ar gyfer Ynys Môn hefyd yn ymgorffori ac yn cydymffurfio â pholisïau a strategaethau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Strategaeth Iaith Gymraeg 2016 – 2021 Cyngor Sir Ynys Môn
- Polisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn
- Strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru 'Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyhead y dylai bob disgybl fod yn hyfedr ddwyieithog i allu cyfathrebu, gweithio a chwarae rhan lawn yn niwylliant yr ynys. Yn ei hanfod, mae pob un o ganlyniadau WESP yr ynys yn cyfrannu at y nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
Maent yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, sicrhau bod mwy o blant yn defnyddio'r iaith wrth symud o'r cyfnod meithrin i'r ysgol gynradd, bod mwy o ddisgyblion yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg, ynghyd â chreu rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau.

DRAFT

Y ogystal, mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2021-2026[5] Cyngor Sir Ynys Môn yn nodi, o ran plant a phobl ifanc, y dylid datblygu hyfedredd yn y Gymraeg yn gynnar trwy:

- Drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu
- Y blynyddoedd cynnar hyd at bum mlwydd oed
- Addysg orfodol
- Addysg ôl-orfodol a pharatoi ar gyfer y byd gwaith

Mae'r Strategaeth yn nodi *"rhaid i ni sianelu ein hymdrechion at feithrin patrymau iaith cadarnhaol yn gynnar ym mywyd plant. Mae angen i ni estyn allan i ddarpar rieni yn ystod cyfnodau beichiogrwydd, mamolaeth a thadolaeth er mwyn rhannu negeseuon cadarnhaol am fanteision cyflwyno a throsglwyddo'r Gymraeg i'w babanod".*

Mae'n egluro ymhellach bod gan ymarferwyr blynyddoedd cynnar rôl ddylanwadol ym mywydau llawer o rieni newydd, ac y bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda Menter Iaith Môn fel rhan o Bartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd Môn i'w harfogi gyda gwybodaeth ac adnoddau priodol. Hefyd, mae ein swyddogion Dechrau'n Deg yn cynnig cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant o dan dair oed a'u teuluoedd, fel rhan o raglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru. Prif ganolbwynt y rhaglen honno yw hyrwyddo sgiliau cymdeithasol, emosiynol, gwybyddol ac iaith, datblygiad corfforol ac adnabod anghenion ychwanegol yn gynnar - ac mae'n anelu at sicrhau bod negeseuon cadarnhaol am fanteision defnyddio'r Gymraeg gyda'u plant yn cael eu rhannu â rhieni sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaeth.

Yn ogystal â Dechrau'n Deg, mae'r Fenter Iaith, Mudiad Meithrin ac ysgolion yn gweithio i sicrhau bod darparwyr blynyddoedd cynnar yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ddylanwadu'n gadarnhaol ar batrymau iaith y plant ifanc yn eu gofal. Caiff yr uchelgais hon ei hybu gan y ffaith bod gan Mudiad Meithrin (sef prif ddarparwr cyfleoedd trochi iaith) bresenoldeb cryf ar yr ynys. Er enghraifft, yn ogystal â'r nifer o Gylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi sy'n gweithredu ar yr ynys, mae un o feithrinfeydd dydd y mudiad wedi ei lleoli yn Llangefni.

Gellir nodi hefyd bod pob un o ysgolion cynradd Ynys Môn, ac eithrio dwy, yn ysgolion cymunedol dan awdurdodaeth y Cyngor. Mae hyn yn golygu mai'r Gymraeg yw'r prif gyfrwng addysgu ar gyfer 87% o ddisgyblion cynradd.

[5] https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Council/Democracy/Welsh-Standards/Welsh-Language-Promotion-Strategy-2021-2026.pdf

DRAFT

Yn olaf, gellir nodi y bydd polisi iaith dwyieithog holl ysgolion a lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar Ynys Môn yn cael ei hatgyfnerthu gyda chyflwyniad Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg newydd yn 2022, sydd wedi'i ddiweddaru.

Fel rhan o'r ymchwil a wnaed er mwyn llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hwn, yn hydref 2021, estynnwyd gwahoddiad gan Gyngor Sir Ynys Môn i gynrychiolwyr darparwyr sy'n darparu trwy *leoliadau* gofal plant blynyddoedd cynnar i ddatgan p'un a oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg a gynigiwyd ganddynt. Roedd yn galonogol gweld bod 41% yn datgan bod ganddynt naill ai gynlluniau pendant ar waith i wneud hyn, neu ei fod yn rhywbeth y byddent efallai'n ei ystyried.
Dywedodd 100% o'r holl leoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar (h.y. darparwyr gofal dydd llawn, ynghyd â darparwyr gofal sesiynol) eu bod yn hapus bod ganddynt ddigon o staff ar y pryd a oedd yn hyfedr yn y Gymraeg.

Roedd arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymatebion ar thema gofal plant cyfrwng Cymraeg: roedd 63% (bron i ddwy ran o dair) o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn datgan eu bod ar y pryd yn defnyddio gofal plant sy'n darparu trwy gyfrwng y Gymraeg, a nododd 5%, yn ddelfrydol, y byddai hyn yn rhywbeth y byddent yn hoffi ei wneud – er enghraifft:

*"Pan fydda i'n gorffen absenoldeb mamolaeth, dwi am ddefnyddio clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol cyfrwng Cymraeg".*

*"Pan fydd fy mab yn mynd i'r Cylch, bydd yn un cyfrwng Cymraeg wrth gwrs… bydd yn defnyddio 10 awr yno ac 20 awr mewn meithrinfa breifat".*

*"Rydw i am ddefnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg ar ôl i mi orffen absenoldeb mamolaeth" - ac yn yr un modd:*

*"Rydw i'n fwy na thebyg am ddefnyddio gofal plant cyfrwng Cymraeg ar ôl gorffen absenoldeb mamolaeth".*

DRAFFT

# 4 Trosolwg – Mathau o Ofal Plant, Gwasanaethau a Lleoedd

## 4.1 Y Cyflenwad Sylfaenol o Ofal Plant Cofrestredig ar Ynys Môn

Mae'r adran sy'n dilyn yn amlinellu metreg sylfaenol sy'n cyfateb i'r cyflenwad o ofal plant o fewn ardal leol Ynys Môn - gan gynnwys manylion sy'n canolbwyntio ar nifer y lleoedd sydd ar gael/fesul math a nifer y darparwyr gofal plant sydd ar gael ar draws yr ardal leol.

Tabl 1 – Yn haf 2022, roedd y nifer a ganlyn o ddarparwyr gofal plant a oedd **wedi cofrestru ag AGC** ar gael ar Ynys Môn.
Ffynhonnell: CSYM

| Math o ofal plant | Nifer y darparwyr gofal plant | Nifer o leoedd gofal plant cofrestredig |
|---|---|---|
| Gofal dydd llawn/Meithrinfa Ddydd Breifat | 35 | 1,115 |
| Gofal sesiynol | 20 | 417 |
| Gwarchodwyr plant | 40 | 352 |
| Gofal y tu allan i'r ysgol | 15 | 386 |
| Crèche | 0 | 0 |
| Cyfanswm | 110 | 2,270 |

Gellir nodi ei bod yn hysbys bod 0 nanis ac *au-pairs* yn weithredol ar Ynys Môn.
Mae 0 o crèches cofrestredig yn gweithredu ar yr ynys. Yn olaf, lleolir 0 o gynlluniau chwarae mynediad agored ar yr ynys.

4.2 Wedyn mae Tabl 2 isod yn dangos nifer y lleoedd hygyrch ym mhob un o'r 11 ward yn yr ardal leol - yn ôl y pedwar prif fath o ofal plant cofrestredig, h.y.: 1. gofal dydd llawn/meithrinfa ddydd breifat; 2. gofal sesiynol, e.e. grwpiau chwarae a Chylch[oedd] Meithrin; 3. gwarchodwyr plant cofrestredig; a 4. darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol.

DRAFT

Tabl 2 - Y cyflenwad sylfaenol o leoedd gofal plant cofrestredig (ag AGC) ar draws ardal leol Ynys Môn yn haf 2021

Ffynhonnell: CSYM SASS

| Enw'r ward | Nifer y darparwyr gofal dydd llawn/ meithrinfeydd dydd preifat | Nifer y lleoedd gofal dydd llawn/ meithrinfeydd dydd preifat yn y ward | Nifer y darparwyr gofal sesiynol | Nifer y darparwyr gofal sesiynol a leolir yn y ward | Nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig a leolir yn y ward | Nifer y lleoedd gyda gwarchodwyr plant cofrestredig yn y ward | Nifer o darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol a leolir yn y ward | Nifer y lleoedd gofal plant y tu allan i'r ysgol yn y ward | Cyfanswm y Lleoedd Gofal Plant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aethwy | 3 | 137 | 0 | 0 | 4 | 35 | 2 | 70 | 242 |
| Bro Aberffraw | 0 | 0 | 1 | 16 | 2 | 14 | 0 | 0 | 30 |
| Bro Rhosyr | 3 | 109 | 5 | 106 | 1 | 10 | 2 | 43 | 268 |
| Caergybi | 2 | 56 | 1 | 26 | 2 | 18 | 1 | 30 | 130 |
| Canolbarth Môn | 5 | 216 | 4 | 86 | 5 | 41 | 4 | 107 | 450 |
| Llifon | 6 | 201 | 1 | 20 | 3 | 24 | 3 | 76 | 321 |
| Lligwy | 1 | 17 | 1 | 16 | 5 | 45 | 0 | 0 | 78 |
| Seiriol | 4 | 122 | 4 | 73 | 3 | 30 | 2 | 44 | 269 |
| Talybolion | 4 | 75 | 0 | 0 | 2 | 18 | 0 | 0 | 93 |
| Twrcelyn | 2 | 47 | 0 | 0 | 13 | 117 | 1 | 16 | 180 |
| Ynys Gybi | 5 | 135 | 3 | 74 | 0 | 0 | 0 | 0 | 209 |
| **Cyfanswm Ynys Môn** | **35** | **1,115** | **20** | **417** | **40** | **352** | **15** | **386** | **2,270** |

## 4.3 Gofal Plant Anffurfiol

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Ynys Môn - Teulu Môn - yn dal gwybodaeth am ddarparwyr gofal anffurfiol sy'n gweithredu ar yr ynys, yn enwedig grwpiau mam a'i phlentyn/grwpiau rhiant a phlentyn ar gyfer teuluoedd sydd â phlant 0-4 oed. Enghraifft yw grŵp rhiant a phlentyn Mini Rockers a leolir yng Nghaergybi, lle anogir plant i chwarae a chanu.

DRAFT

4.4 **Presenoldeb amcangyfrifedig yn hydref 2021**

Mae Tabl 3 isod yn dangos union nifer y plant a oedd yn cyrchu/mynychu lle gofal plant wedi hynny, o ran y math(au) o ofal plant yn ôl yr ymatebion a dderbyniwyd i SASS Gorffennaf 2021.

Tabl 3 - Nifer y plant a oedd yn mynychu darpariaeth(au) gofal plant ffurfiol ar draws Ynys Môn yn hydref 2021

Ffynhonnell: SASS Gorffennaf 2021

| Ardal | Nifer y plant sy'n amlwg yn mynychu gofal dydd llawn a gofal sesiynol | Nifer y plant sy'n mynychu lleoedd gyda Gwarchodwyr Plant[6] | Nifer y plant sy'n mynychu lleoedd Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol | Nifer y plant sy'n mynychu lleoedd mewn Crèche |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Ynys Môn | 1,462 | 336 | 380 | Amherthnasol |

4.5 Mae Teulu Môn (y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd) yn wasanaeth cynhwysol, rhad ac am ddim, i deuluoedd ym Môn. Dyma'r pwynt cyswllt cyntaf i'r holl blant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol gael gwybodaeth, cyngor a chymorth mewn perthynas â phlant neu deuluoedd plant, 0-25 oed.

Mae'r GGiD yn helpu i ganfod gofal plant i rieni a gofalwyr, gan addasu eu chwiliad yn ôl eu hanghenion unigol.

Mae'r GGiD hefyd yn darparu gwybodaeth reolaidd i ddarparwyr gofal plant ynghylch hyfforddiant, grantiau, cynlluniau, yn ogystal ag unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru.

DRAFT

[6] Ym Mehefin 2021, roedd gwarchodwyr yn gweithredu sydd bellach wedi dadgofrestru.

4.6 **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Roedd data SASS Gorffennaf 2021 yn dangos, ar draws holl ddarparwyr gofal plant Ynys Môn **- a ymatebodd i'r arolwg -** bod cyfanswm o 120 o blant ag **anghenion dysgu ychwanegol** yn mynychu darpariaeth gofal plant.

- Dywedodd 44 o'r darparwyr (o'r 94 a ymatebodd) fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad oedd ag anabledd gwybyddol a dysgu
- Dywedodd 48 o ddarparwyr fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad oedd ag anhawster ymddygiad, emosiynol a datblygiad cymdeithasol
- Dywedodd 54 o ddarparwyr fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad oed ag anhawster cyfathrebu a rhyngweithio
- Dywedodd 38 o ddarparwyr fod ganddynt o leiaf un plentyn yn mynychu eu lleoliad oedd ag anabledd synhwyraidd a/neu gorfforol.

4.7 **Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg**



Roedd Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS Gorffennaf 2021 hefyd yn dangos bod 29 o ddarparwyr gofal plant (o'r 94 a ymatebodd) yn cyflwyno gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg, fel *prif* iaith.

Yr unig ddwy iaith amlwg yr oedd gofal plant yn cael ei ddarparu trwyddynt oedd Cymraeg a/neu Saesneg, gyda 41 o leoliadau/darparwyr yn amlinellu bod eu lleoliad yn darparu ar gyfer y ddwy iaith.

Fodd bynnag, o safbwynt y thema berthnasol a phwysig o ofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg, roedd yr arolwg yr ymgymerwyd ag ef â darparwyr gofal plant a leolir ym Môn yn hydref 2021 yn amlygu, dros y 18 mis nesaf (h.y. hyd at wanwyn 2023), roedd gan 24% o'r ymatebwyr o ddarpariaeth gofal plant mewn lleoliadau/grwpiau gynlluniau ar waith i ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg a gynigiwyd ganddynt. Roedd canran is o warchodwyr plant cofrestredig, 15%, yn dweud bod ganddynt fwriad o'r fath.

4.8 Mae **rhaglen gofal plant Dechrau'n Deg** ar gyfer Ynys Môn yn darparu o fewn yr ardaloedd a restrir isod - sydd hefyd yn ymgorffori'r lleoedd 2.5 awr/12.5 awr yr wythnos a gomisiynir.

- Ardal leol Gwalchmai = 12 o leoedd a gomisiynir
- Ardal leol Niwbwrch = 24 o leoedd a gomisiynir

DRAFFT

- Ardal Leol Llangefni = 48 o leoedd a gomisiynir
- Ardal Leol Caergybi = 100 o leoedd a gomisiynir, a ddarperir gan 3 lleoliad ar draws y dref honno

### 4.9 **Gofal Plant Di-dreth**

O safbwynt ffynhonnell cymorth dybiedig arall tuag at gael mynediad i ofal plant o ansawdd dda, mewn ymateb i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd â darparwyr gofal plant yn hydref 2021, dywedodd 58% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar, h.y. darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr sesiynol, eu bod wedi cofrestru i roi cymorth i rieni/gofalwyr gael mynediad i Ofal Plant Di-dreth. O ran y rheiny nad oeddynt wedi cofrestru, nodwyd dro ar ôl tro bod y rhesymau am hynny yn cynnwys:

… ran amlaf: *"Dydw i ddim ond yn cynnig lleoedd a ariennir gan Dechrau'n Deg".*

*"Dydw i ddim yn gwybod beth ydi o"* (fel y nodwyd gan gynrychiolydd o ddau leoliad).
Hefyd, yn hydref 2021, nododd 81% o warchodwyr plant cofrestredig eu bod wedi cofrestru ar gyfer rhoi cymorth i rieni/gofalwyr gael mynediad i Ofal Plant Di-dreth. O ran y rheiny nad oeddynt wedi cofrestru, roedd y rhesymau am hynny, a nodwyd dro ar ôl tro, *yn cynnwys*:

*"Rydw i yn y broses o gofrestru"*

*"Dydw i ddim yn gwybod beth ydi o".*

Yn nhermau *hyrwyddo* Gofal Plant Di-dreth, dywedodd 78% o warchodwyr plant cofrestredig (hefyd) eu bod yn mynd ati i wneud hynny.

Yn olaf, yn hydref 2021, roedd 92% o ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol yn dweud eu bod wedi'u cofrestru i roi cymorth i rieni/gofalwyr gael mynediad i Ofal Plant Di-dreth. Roedd un cynrychiolydd a ran darparwr nad oedd wedi cofrestru yn dweud *"dydan ni ddim wedi cofrestru oherwydd dydan ni ddim yn cynnig digon o oriau".*

Yn nhermau *hyrwyddo* Gofal Plant Di-dreth, yr oedd pob un ond un o'r darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol yn dweud (hefyd) eu bod yn mynd ati i wneud hynny.

DRAFFT

DRAFT

Gan fynd i'r adborth o ymatebion SASS Gorffennaf 2021, dywedodd 59% (iach) o'r darparwyr gofal dydd llawn a'r darparwyr sesiynol a ymatebodd (hyd y gwyddent) bod rhieni'r plant yr oeddynt yn gofalu amdanynt (yng Ngorffennaf 2021) yn derbyn gofal plant di-dreth neu'n defnyddio talebau gofal plant.

4.10 **Addysg Blynyddoedd Cynnar Rhan Amser**

Fel rhan o'r ymateb i broses SASS Gorffennaf 2021 SASS, roedd 58% o ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar (h.y. darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr gofal sesiynol) yn nodi eu bod yn derbyn cyllid i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar rhan amser.

4.11 Mae Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru 2016 yn rhoi cyfarwyddyd y dylai'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant grynhoi ystod oed y plant sy'n gallu mynychu'r ystod o fathau o ofal plant – a chyflwynir y fetreg hon yn Nhabl 4 isod.

Tabl 4 - Nifer y darparwyr gofal plant **a ymatebodd** a leolir yn ardal leol Ynys Môn y mae grwpiau oed penodol o blant yn cael mynediad iddynt yng Ngorffennaf 2021

Ffynhonnell: SASS Gorffennaf 2021

| Y math o ddarparwr gofal plant a oedd ***wedi ymateb*** | Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i blant 0- 12 mis ac 1 oed | Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i blant 2 oed | Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i blant 3-4 oed | Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i blant 5-11 oed | Nifer y lleoliadau sy'n gallu darparu gofal plant ffurfiol i blant 12-14 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Darparwyr Gofal Dydd Llawn (32 o ymatebwyr) | 12 | 31 | 32 | 0 | 0 |
| Gofal Sesiynol (20 o ymatebwyr) | 0 | 16 | 17 | 0 | 0 |
| Gwarchodwyr Plant (37 o ymatebwyr) | 22 | 25 | 31 | 24 | 1 |
| Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol (4 o ymatebwyr) | 0 | 0 | 4 | 4 | 4 |

## 4.12 **Defnydd o Ofal Plant**

O ran yr arolwg a gynhaliwyd yn hydref 2021, gwahoddodd Cyngor Sir Ynys Môn ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar i nodi a oedd ganddynt restr aros. (O safbwynt y galw am leoedd yn unig) dywedodd 10% o ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar, h.y. darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr sesiynol, bod ganddynt restr aros (yr ardal y lleolir darparwr perthnasol ynddi amlaf oedd Caergybi), a dywedodd 33% o warchodwyr plant cofrestredig bod ganddynt restr aros (yr ardal y lleolir darparwr perthnasol ynddi amlaf oedd Canolbarth Môn).

Mae Tabl 5 yn dangos y graddau yr oedd y ddau fath o ddarparwr gofal plant *perthnasol* yn dweud bod eu rhestr aros wedi newid yn ystod y cyfnod rhwng Mawrth 2021 – Hydref 2021.

Tabl 5 – Y graddau yr oedd rhestrau aros wedi newid yn ystod y cyfnod rhwng Mawrth 2021 – Hydref 2021
Ffynhonnell: ADGP Ynys Môn 2021-2022 – cyfweliadau strwythuredig gyda darparwyr gofal plant

| Dosbarthiad | Canran y darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a nododd hyn | Canran y gwarchodwyr plant cofrestredig a nododd hyn |
|---|---|---|
| Ydy – mae wedi lleihau | 0 | 11% |
| Ydy – mae wedi cynyddu | 50% | 33% |
| Nac ydy – mae wedi aros fwy neu lai yr un maint | 50% | 56% |

DRAFT

4.13 Yn hydref 2021, gwahoddodd Cyngor Sir Ynys Môn bob darparwr gofal plant i nodi a oedd ganddynt leoedd gwag.

- Dywedodd 50% o ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar fod ganddynt leoedd gwag – ran amlaf yn ward Canolbarth Môn
- Dywedodd (canran gymharol is, sef) 33% o warchodwyr plant cofrestredig fod ganddynt leoedd gwag – ran amlaf yn ward Twrcelyn
- Dywedodd 67% o glybiau ar ôl ysgol bod ganddynt leoedd gwag (na chafodd eu nifer eu pennu yn ôl metreg) – ran amlaf yn ward Llifon
- Dywedodd 60% o glybiau brecwast nad ydynt wedi'u lleoli mewn ysgol, bod ganddynt leoedd gwag

O ran y darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a chanddynt leoedd gwag, y nifer gyfartalog oedd 4.2 o leoedd.
O ran y gwarchodwyr plant cofrestredig hynny a chanddynt leoedd gwag, y nifer gyfartalog oedd 1 lle.[7]

Yn y bôn, mae Tabl 6 yn dangos yr adborth y darparodd y tri math o ddarparwyr gofal plant yn unol â lefelau defnydd:

| Math y darparwr gofal plant | Nodwyd: Mae ein lefelau defnydd wedi cynyddu yn nhymor yr hydref 2021 | Nodwyd: Mae ein lefelau defnydd wedi lleihau yn nhymor yr hydref 2021 | Nodwyd: Mae ein lefelau defnydd wedi dychwelyd i lefelau arferol cyn COVID-19 | Nodwyd: Mae'n anodd dosbarthu ein sefyllfa o ran ein lefelau defnydd | Heb ddweud |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar | 15% | 48% | 30% | 7% | 0 |
| Gwarchodwr Plant | 22% | 48% | 30% | 0 | 0 |
| Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol | 31% | 23% | 46% | 0 | 0 |

[7] Nid oedd Darparwyr Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol yn dueddol o roi adborth am eu metreg o ran lleoedd gwag.

4.14 **Ffioedd o ran gofal plant am dâl**

Cafwyd darlun cliriach o gyfraddau safonol fesul diwrnod o ganlyniad i arolwg hydref 2021 Cyngor Sir Ynys Môn o ddarparwyr gofal plant.

Ar gyfer y darparwyr/lleoliadau darparwyr gofal plant a ymatebodd – o ran lleoedd *y telir ffi* ar eu cyfer:

- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 0-12 mis ac 1 oed oedd £48.00 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £48.00 hefyd
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 2 oed oedd £17.40 (oherwydd y 'ffactor' gofal sesiynol) a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd (ffi sesiynol o) £8.00
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 3 a 4 oed oedd £17.40 (oherwydd y 'ffactor' gofal sesiynol) a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd, unwaith eto, (ffi sesiynol o) £8.00

Ar gyfer y gwarchodwyr plant cofrestredig a ymatebodd – am leoedd y telir ffi ar eu cyfer:

- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 0-12 mis oedd £32.30 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £35.00
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 1 oed oedd £30.70 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd, unwaith eto, £30.00
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 2 oed oedd £30.40 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £35.00
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 3 a 4 oed oedd £35.00 a'r ffi ddyddiol fwyaf cyffredin oedd £35.00
- o ran y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer plant 5-8 oed, y *ffi sesiynol* mwyaf cyffredin oedd £12.00

Ar gyfer darparwyr/lleoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol a ymatebodd – am leoedd y telir ffi ar eu cyfer:

- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer clwb ar ôl ysgol oedd £10.10
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer clwb brecwast oedd £3.70
- y ffi ddyddiol gyfartalog ar gyfer cynllun chwarae yn ystod y gwyliau oedd £32.40

DRAFFT

4.15 **Amseroedd Agor a Hygyrchedd**

Trwy arolwg Cyngor Sir Ynys Môn o ddarparwyr gofal plant yn hydref 2021, cafwyd cadarnhad o amseroedd agor.
O ran y darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a ymatebodd, yr amser agor mwyaf cyffredin oedd 9.00yb, a'r amser agor cyfartalog oedd 8.48am.
Yr amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 3:00yp, a'r amser gorffen cyfartalog oedd 14:48pm.

Ar gyfer y gwarchodwyr plant cofrestredig a ymatebodd, yr amser agor mwyaf cyffredin oedd 8.00yb, a'r amser agor cyfartalog oedd 7.22am.
Yr amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 18:00yh, a'r amser gorffen cyfartalog oedd 17:36pm.

O ran nifer y clybiau ar ôl ysgol ar Ynys Môn, yr amser agor mwyaf cyffredin oedd 15:00yp. Yr amser gorffen mwyaf cyffredin oedd 18:00 pm.

4.16 Yn hydref 2021, gwahoddwyd pob darparwr gofal plant i nodi a oeddent wedi gweld neu brofi unrhyw dueddiadau nodedig (newydd) o ran y galw am: (a) y mathau o leoedd yr oeddent yn eu cynnig; neu'r (b) mathau o oriau yn eu lleoliad.

Dywedodd 45% o'r holl ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar eu bod wedi profi hynny, ac yn nhrefn amlder, y rhai a ailadroddwyd oedd:

- Rhieni yn gofyn am fwy o hyblygrwydd
- Cynnydd yn y galw am leoedd rhan amser i blant 2 oed
- Cynnydd yn y galw am ofal cofleidiol

Dywedodd 44% o'r holl warchodwyr plant cofrestredig eu bod wedi profi hynny, ac yn nhrefn amlder, y rhai a ailadroddwyd oedd:

- Llai o alw am leoedd amser llawn a...
- Cynnydd yn y galw am leoedd rhan amser
- Llai o alw am godi plant ar ôl ysgol

Dywedodd 46% o'r holl ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol eu bod wedi profi hynny, ac yn nhrefn amlder, y rhai a ailadroddwyd oedd:

- Gostyngiad cyffredinol yn y galw am leoedd
- Rhieni'n gofyn am ehangu oriau agor ac amseroedd cau

DRAFFT

## 5 Anghenion Rhieni/Gofalwyr – y galw am ofal plant

Mae'r naratif isod yn amlinellu canlyniadau'r dadansoddiad o arolwg rhieni Llywodraeth Cymru a gafodd gyfnod ymateb o 5 wythnos ym mis Hydref 2021 a dechrau mis Tachwedd 2021. Cynlluniwyd yr arolwg hwn gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y gallu i sicrhau sylw i rai o'r ffactorau sy'n seiliedig ar alw y dylid mynd i'r afael â hwy yn ôl cyfarwyddyd Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru 2016 mewn unrhyw Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.

5.1 Cafwyd **286 o ymatebion** i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru, sy'n cyd-fynd â wardiau Ynys Môn fel a ganlyn.

Tabl 7 - Ardal breswyl rhieni/gofalwyr sy'n ymateb

| Enw'r ward | Nifer y rhieni/gofalwyr a ymatebodd | Canran o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Aethwy [EH] | 15 | 5% |
| Bro Aberffraw | 14 | 5% |
| Bro Rhosyr | 22 | 7.5% |
| Caergybi | 20 | 7% |
| Canolbarth Môn | 41 | 14.5% |
| Llifon | 16 | 5.5% |
| Lligwy | 14 | 5% |
| Seiriol Talybolion | 16 | 5.5% |
| Twrcelyn | 13 | 4.5% |
| Ynys Gybi | 16 | 5.5% |
| Nid oedd y cod post wedi'i gynnwys[8] | 99 | 35% |

[8] Er y nodwyd gan yr ymatebwyr hyn eu bod yn byw ym Môn.





DRAFT

5.2 O ran y math o aelwyd(ydd), yr ymateb mwyaf cyffredin a roddwyd gan rieni/gofalwyr a ymatebodd oedd eu bod: yn rhannu'r cyfrifoldeb am fy mhlentyn/mhlant gyda rhywun yr wyf yn byw gydag ef (72% o ymatebwyr), yna fesul amlder gan riant/gofalwyr yn dweud mai fi oedd yn llwyr gyfrifol am fy mhlentyn/mhlant - roedd 21% mewn gwirionedd yn rhieni sengl.

5.3 Roedd yn amlwg mai 1.8 oedd nifer gyfartalog y plant a oedd yn cael eu magu gan yr holl ymatebwyr (0.1) *uwchlaw* cyfartaledd y Deyrnas Gyfunol sy'n 1.7).

5.4 Roedd yn amlwg mai'r garfan oedran a oedd yn cael ei magu fynychaf, o'r rhieni a ymatebodd, oedd 5-8 oed (dywedodd 38% o rieni eu bod yn magu plentyn o'r oedran hwn), ac yna plant 2 oed (28%).

5.5 Dywedodd 5.5% o'r gofalwyr a ymatebodd eu bod yn gofalu am/magu o leiaf un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu salwch hirdymor.

5.6 Dywedodd yr holl rieni/gofalwyr a ymatebodd i Lywodraeth Cymru beth oedd eu statws cyflogaeth ar hyn o bryd.

Tabl 8 – Statws cyflogaeth rhieni/gofalwyr a ymatebodd

| Statws | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Yn chwilio am swydd – ond ddim yn gweithio eto | 2.5% |
| Cyflogedig | 76% |
| Hunangyflogedig | 5% |
| Mewn addysg neu hyfforddiant | 4.5% |
| Ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am swydd | 9.5% |
| Yn methu gweithio | 2.5% |

Noder: roedd y rhieni'n gallu darparu nifer o ymatebion.

Roedd yn amlwg bod gan 79% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd bartner, a disgrifiwyd eu statws cyflogaeth gan yr ymatebydd fel a ganlyn:

DRAFT

Tabl 9 – Statws cyflogaeth partneriaid

| Statws | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Yn chwilio am swydd – ond ddim yn gweithio eto | 0 |
| Cyflogedig | 67% |
| Hunangyflogedig | 8.5% |
| Mewn addysg neu hyfforddiant | 8.5% |
| Ddim yn gweithio a ddim yn chwilio am swydd | 1% |
| Yn methu gweithio | 0 |
| Ddim yn berthnasol (gan nad oes ganddynt bartner) | 15% |

5.7 Mae tabl 10 yn nodi nifer yr achosion o rieni/gofalwyr a ymatebodd yn nodi eu hincwm cartref gros yr wythnos (cyn didyniadau/treth).

Tabl 10 - Incwm gros aelwydydd yr wythnos (cyn didyniadau/treth)

| Incwm wythnosol aelwydydd | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd | Y math o ofal plant ffurfiol a nodir amlaf a ddefnyddir yn ystod y tymor |
|---|---|---|
| Hyd at £100 | 2% | Cylch Meithrin |
| £100 i £149 | 20% | Cylch Meithrin |
| £150 i £249 | 10% | Cylch Meithrin |
| £250 i £349 | 7% | Cylch Meithrin |
| £350 i £500 | 9% | Meithrinfa Ddydd Breifat |
| £500 i £580 | 9% | Meithrinfa Ddydd Breifat |
| £581 i £750 | 10% | Meithrinfa Ddydd Breifat |
| £750 i £999 | 10% | Meithrinfa Ddydd Breifat |
| Mwy na £1,000 | 15% | Cylch Meithrin |
| Mae'n well gennyf beidio â dweud | 8% | Meithrinfa Ddydd Breifat |

DRAFT

5.8 Mae Tabl 11 yn nodi nifer yr achosion o rieni/gofalwyr a ymatebodd yn nodi cefndiroedd ethnig penodol.

| Ethnigrwydd Datganedig | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Gwyn | 98.5% |
| Grwpiau Cymysg/Aml-ethnig | 1.5% |
| Asiaidd/Asiaidd Prydeinig | 0 |
| Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig | 0 |
| Grŵp ethnig arall | 0 |
| Heb ddweud | 0 |

Roedd yn amlwg mai'r math mwyaf cyffredin o ymatebydd ‘Cymysg’ oedd: Cymysg Gwyn a Du Caribïaidd (tri rhiant/gofalwr a ymatebodd).

5.9 Dywedodd 73% o’r holl rieni/gofalwyr a ymatebodd (a chanddynt o leiaf un plentyn 3 a/neu 4 oed) eu bod yn defnyddio lle addysg gynnar wedi'i ariannu mewn ysgol neu feithrinfa neu mewn cylch chwarae sesiynol.

Dywedodd 21% o’r holl rieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio lle o dan y Cynnig Gofal Plant, a dywedodd 4% o'r rhieni a ymatebodd eu bod yn bwriadu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant yn y blynyddoedd i ddod.

5.10 Dywedodd 10% o’r rhieni a ymatebodd i’r arolwg eu bod yn defnyddio lle gofal plant y rhaglen Dechrau’n Deg. Roedd rhieni a gofalwyr oedd â phlentyn 2 a/neu 3 oed, yr oedd y ddau’n gymwys – neu ddim yn gymwys – i ddefnyddio lle gofal plant Dechrau’n Deg, wedi darparu adborth, a oedd yn cynnwys (fesul amlder):

*“Oherwydd fy mod i’n defnyddio’r Cynnig Gofal Plant yn lle hynny”.*

*“Mae’n amlwg nad ydi o ar gael yn y feithrinfa yr ydw i’n ei defnyddio”.*

*“Dwi **ychydig** y tu allan i ardal ‘gymwys’”.*

DRAFT

5.11 Mae Tabl 12 isod yn dangos pa mor aml y dywedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant **yn ystod y tymor**.

Tabl 12 - Amlder y dywedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant yn ystod y tymor

| Math o ofal plant wedi'i gofrestru neu heb ei gofrestru | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Gwarchodwr Plant | 4.5% |
| Clwb Cyn Ysgol neu Glwb Brecwast | 20% |
| Clwb ar ôl Ysgol | 18% |
| Meithrinfa Ddydd Breifat | 34% |
| Meithrinfa Mewn Ysgol | 8.5% |
| Cylch Chwarae Sesiynol | 4% |
| Cylch Meithrin | 27% |
| Crèche â Gwasanaeth Gollwng | 3% |
| Nani | 0 |
| Au-pair | 0 |
| Teulu/Ffrindiau (â thâl) | 0 |
| Teulu/Ffrindiau (di-dâl) | 45% |
| Rhai a ddywedodd *dim yn ystod y tymor* | 9% |

DRAFFT

5.12 Yn gyfatebol, mae Tabl 13 isod yn nodi pa mor aml y dywedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant **yn ystod amseroedd gwyliau**.

Tabl 13 - Pa mor aml y dywedodd rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio mathau penodol o ofal plant yn ystod y gwyliau

| Math o ofal plant wedi'i gofrestru neu heb ei gofrestru | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd | % y gwahaniaeth gydag amser tymor ysgol |
|---|---|---|
| Gwarchodwr Plant | 4.5% | Dim newid |
| Clwb Gwyliau neu Gynllun Chwarae | 7% | Amherthnasol |
| Meithrinfa Ddydd Breifat | 29% | -5% |
| Ysgol Breifat paratoi cyn ysgol | 0 | Amherthnasol |
| Cylch Chwarae Sesiynol | 0 | -4% |
| Cylch Meithrin | 6% | -21% |
| Crèche â Gwasanaeth Gollwng | 3% | Dim newid |
| Nani/Au-pair | 0 | Dim newid |
| Cynllun Chwarae | 0 | Dim newid |
| Teulu/Ffrindiau (â thâl) | 0.5% | +0.5% |
| Teulu/Ffrindiau (di-dâl) | 20% | -25% |
| Rhai a ddywedodd *dim yn ystod gwyliau'r ysgol* | 22% | +13% |

DRAFT

5.13 Gwahoddwyd pob rhiant/gofalwr a ymatebodd i nodi faint yr oeddent yn ei wario mewn wythnos gyfartalog ar ofal plant (â thâl, di-dâl). Mae Tabl 14 yn dangos mai'r swm a nodwyd amlaf (o ychydig) oedd £100.00 - £199.99 yr wythnos, a nodwyd gan bron i 20% o'r holl rieni a ymatebodd.

Tabl 14 – Maint y gwariant wythnosol ar ofal plant

| Swm a wariwyd ar gyfartaledd/wythnos[diwrnodau] | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| £0 | 28% |
| Hyd at £10 | 2% |
| £10-£49 | 16% |
| £50-£99 | 14.5% |
| £100-£199 | 19% |
| £200-£299 | 6% |
| £300 neu fwy | 2% |
| Heb ddweud | 12.5% |

Y wardiau a oedd yn cyfrif am yr amlder uchaf o rieni yn dweud: £300.00 neu fwy/wythnos oedd ward Bro Rhosyr, ac yna o ran amlder, ward Bro Aberffraw.

Gellir nodi y gofynnwyd i bob rhiant/gofalwr nodi a oeddent yn derbyn unrhyw gymorth tuag at dalu cost eu gofal plant a…

- Dywedodd 8.5% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd: (oeddent) elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith/Credyd Cynhwysol
- Dywedodd 22% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd: (oeddent) Talebau Gofal Plant[9]/Gofal Plant Di-dreth
- Dywedodd 0 o rieni/gofalwyr a ymatebodd: (oeddent, y) Grant Gofal Plant i Fyfyrwyr a
- Dywedodd 0 o rieni/gofalwyr a ymatebodd: ((oeddent) cyfraniad Cyflogwr

[9] Yn wahanol i'r Cynnig Gofal Plant – h.y. NID yr un rhaglen yw'r rhain.



DRAFT

5.14 Gwahoddwyd pob rhiant/gofalwr a ymatebodd i nodi nifer yr oriau o ofal plant yr oeddent yn eu defnyddio, ar gyfartaledd, mewn wythnos arferol.
O'r rhieni hynny a ymatebodd i'r cwestiwn:

Ar gyfer y tymor ysgol:
Cyfartaledd yr oriau a nodwyd gan rieni/gofalwyr preswyl Ynys Môn oedd 18 awr a 45 munud/wythnos.
Y swm a nodwyd amlaf o ran oriau oedd 30 awr/wythnos, ac yna o ran amlder, 10 awr/wythnos.

Ar gyfer y cyfnod gwyliau:
Cyfartaledd yr oriau a nodwyd gan rieni/gofalwyr preswyl Ynys Môn oedd 18 awr a 20 munud/wythnos.
Y swm a nodwyd amlaf o ran oriau oedd 10 awr/wythnos, a gydag amlder cyfartal: 20 awr/wythnos.

5.15 Gwahoddwyd rhieni/gofalwyr i nodi pa mor fodlon yr oeddent ar hyn o bryd gyda'u sefyllfa ofal plant bresennol.

Tabl 15 – Lefelau Boddhad


| Pa mor fodlon oedd rhiant/gofalwr: | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Bodlon Iawn | 64% |
| Eithaf Bodlon | 17% |
| Eithaf Anfodlon | 2% |
| Anfodlon Iawn | 1% |
| (Dywedodd) Amherthnasol | 9% |
| Heb ddweud | 7% |

Roedd rhieni/gofalwyr a ddywedodd eu bod yn Eithaf Anfodlon neu'n Anfodlon Iawn (o ran cyfran), yn preswylio amlaf yn ardal Orllewinol yr ynys, ac yng Nghaergybi.

DRAFT

5.16 Gwahoddwyd yr holl rieni/gofalwyr a ymatebodd i ddweud a allent siarad, darllen a/neu ysgrifennu'r Gymraeg.

Diagram 1 - Mynychder hyfedredd yn y Gymraeg






Yn y pen draw, dywedodd 62% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd eu bod yn defnyddio gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Dywedodd 5% fod hyn yn rhywbeth yr hoffent ei wneud yn ddelfrydol, ond roedd yn amlwg bod nifer fechan o rai ffactorau'n cael eu profi gan gyfran o'r ymatebwyr, gyda:

- 0.5% yn nodi bod pellter i leoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi bod yn rhwystr rhag manteisio arno
- 2% yn nodi bod diffyg lle(oedd) cyfrwng Cymraeg wedi gweithredu fel rhwystr i allu manteisio
- 0 yn datgan bod gallu Cymraeg y staff wedi gweithredu fel rhwystr rhag manteisio
- 0 yn datgan bod cost gofal plant cyfrwng Cymraeg wedi bod yn rhwystr i fanteisio arno a
- Dywedodd 1% nad oeddent wedi gallu dod o hyd i ddigon o oriau gan ddarparwr gofal plant Cymraeg.

DRAFT

5.17 Gwahoddwyd yr holl rieni/gofalwyr a ddywedodd nad oeddent – yn hydref 2021 – yn defnyddio unrhyw ofal plant i nodi pam, gan gynnwys yr achosion o rwystrau. Gellir darllen rhagor o fanylion - gan gynnwys adborth ansoddol - am y ddeinameg a'r ffactor allweddol hwn yn Adran 15 o'r ADGP hwn.

Tabl 16 - Y rhesymau a nodwyd ynghylch pam nad oedd rhiant/gofalwr yn cyrchu/derbyn cymorth gyda gofal plant

| Rhesymau/Rhwystrau | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Mae fy mhlentyn ar restr aros ar gyfer darparwr ac rydym yn aros i le ddod ar gael | <0.5% |
| Rwy'n defnyddio gofal plant anffurfiol fel aelod o'r teulu neu ffrind | 8% |
| Rwy'n dewis peidio â defnyddio unrhyw ofal plant | <0.5% |
| Rwy'n rhiant sy'n aros gartref ac felly nid oes angen gofal plant arnom | 4% |
| Mae fy mhlant yn ddigon hen i ofalu amdanynt eu hunain | 1.5% |
| Nid oes gofal plant o ansawdd digonol | <0.5% |
| Nid oes darpariaeth Gymraeg addas | 1% |
| Dim darpariaeth addas yn ein hiaith, nad yw'n Gymraeg nac yn Saesneg | <0.5% |
| Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion | 3% |
| Mae cost gofal plant yn rhy ddrud | 7.5% |
| Mae amseroedd gofal plant yn anaddas | 3% |
| Nid oes gofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn | 2% |
| Mae problem gyda thrafnidiaeth | 1% |
| Nid oes gofal plant yn lle mae ei angen arnaf | 1% |
| Nid oes gofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn | 0.5% |
| Dim ond ar sail ad hoc rydw i'n defnyddio gofal plant ac mae'n amhosibl cynllunio | 2% |
| Arall | 1.5% |

O ran yr ymatebion 'Arall':

*"Dwi ar absenoldeb mamolaeth, ond y tymor nesaf mi fydda i'n defnyddio gwarchodwr plant neu ofal plant teuluol di-dâl".*

DRAFT

*"Does dim digon o ofal plant ar gael yn ystod y gwyliau".*

5.18 Ar thema debyg, gwahoddwyd rhieni/gofalwyr i nodi a oedd materion yn ymwneud â gofal plant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi effeithio arnynt hwy eu hunain neu unrhyw bartner[iaid]:

Dywedodd 26% fod gofal plant wedi: achosi problemau yn y gwaith
Dywedodd 5.5% fod mater gofal plant wedi: atal parhad gwaith
Dywedodd 9% bod mater gofal plant wedi: eu hatal rhag gweithio/cael swydd
Dywedodd 7% bod mater gofal plant wedi: eu hatal rhag cyrchu hyfforddiant

DRAFT

DRAFT

5.19 Gwahoddwyd yr holl rieni/gofalwyr a ymatebodd i nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno â neu (yn lle hynny) yn anghytuno â detholiad o ddatganiadau am ddarpariaeth gofal plant.


Tabl 17 - Meddyliau cyffredinol rhieni ar agweddau ar ofal plant yn ardal leol Ynys Môn

| Datganiad | Cytuno'n Gryf | Tueddu i Gytuno | Tueddu i Anghytuno | Anghytuno'n Gryf | Ddim yn berthnasol i mi |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwy'n fodlon â'm gofal plant yn ystod y tymor ysgol | 60% | 19.5% | 2.5% | 0 | 18% |
| Rwy'n fodlon â'm gofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol | 47% | 16.5% | 4.5% | 5% | 27% |
| Mae ansawdd gofal plant yn uchel | 61% | 18% | 2% | 0 | 19% |
| Mae dewis da o ofal plant yn fy ardal i | 26% | 33% | 15% | 9.5% | 16.5% |
| Mae gofal plant wedi'i leoli'n dda | 41% | 31% | 10% | 3.5% | 14.5% |
| Mae gofal plant yn darparu ar gyfer anghenion fy mhlant i | 48% | 26.5% | 3% | 1.5% | 21% |
| Hoffwn i'm plentyn fynychu mwy o ofal plant cofrestredig | 16.5% | 18% | 15% | 16% | 34.5% |
| Mae gofal plant yn rhy ddrud | 48% | 26% | 7.5% | 3% | 14.5% |
| Byddai'n well gennyf ddefnyddio teulu/ffrindiau ar gyfer gofal plant | 14% | 21% | 25% | 17% | 23% |
| Mae gennyf broblem gyda threfniadau gofal plant sy'n annibynadwy | 4% | 5.5% | 19% | 38.5% | 33% |
| Mae gofal plant yn rhwystr i mi gael gwaith neu hyfforddiant | 12% | 14.5% | 19% | 26% | 28.5% |
| Rwy'n gwybod lle i gael gwybodaeth am ofal plant | 24% | 44% | 9.5% | 7% | 15.5% |
| Rwy'n gwybod lle i gael gwybodaeth am gymorth ariannol ar gyfer gofal plant | 16.5% | 38% | 18% | 11% | 16.5% |

Nodwyd yr ymateb 'cytuno'n *gryf:* mae gofal plant yn rhy ddrud', amlaf gan rieni/gofalwyr a oedd yn byw yn ward Canolbarth Môn.
Nodwyd yr ymateb 'cytuno: mae gofal plant yn rhwystr i mi gael gwaith neu hyfforddiant', amlaf gan rieni/gofalwyr a oedd yn byw yn ward Bro Aberffraw.
Nodwyd yr ymateb yn 'anghytuno'n gryf' a 'thueddu i anghytuno' o ran: 'mae dewis da o ofal plant yn fy ardal i', amlaf unwaith eto gan rieni sy'n byw yn ward Canolbarth Môn, ac yna, o ran amlder, gan ward Llifon.

5.20 Yn y pen draw, cafwyd ymateb allweddol gan rieni/gofalwyr i'r cwestiwn: Ydych chi'n rhagweld y bydd angen mwy neu lai o ofal plant arnoch yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf?

Diagram 2 - Ystyriaeth o b'un a ddefnyddir mwy neu lai o ofal plant yn ystod y 2 flynedd nesaf




Roedd y rhieni/gofalwyr hynny a ddywedodd 'Mwy', yn preswylio amlaf yn ward Canolbarth Môn.

Gofynnwyd hefyd i'r rhieni hynny a ddwedodd 'Mwy' ddatgan y mathau o ofal plant y byddent yn ceisio ei gyrchu o ddilyn y bwriad hwnnw, a'r tri math mwyaf cyffredin oedd:

- Clwb ar ôl Ysgol – 20% o'r rhieni perthnasol
- Clwb Cyn Ysgol/Brecwast – 17% o'r rhieni perthnasol
- Cylch Meithrin – 16.5% o'r rhieni perthnasol

DRAFT

## 6 Canlyniadau Ymgynghori â Rhanddeiliaid

Mae Canllawiau Asesu Digonolrwydd Gofal Plant Llywodraeth Cymru 2016 yn cyfarwyddo y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori â rhanddeiliaid lleol a sefydliadau partner i sefydlu eu safbwynt ar flaenoriaethau sy'n cyd-fynd â sicrhau bod digon o ddarpariaeth gofal plant yn eu hardal. Dylai'r rhanddeiliaid hyn gynnwys sefydliadau ymbarél cenedlaethol sy'n gwneud cyfraniad allweddol i gynorthwyo'r awdurdod lleol, h.y.: Cyngor Sir Ynys Môn.

Felly mae Adran A Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Ynys Môn 2022 yn amlinellu'r adborth a gafwyd drwy gyfres o e-gyfweliadau rhithwir gyda rhanddeiliaid allweddol, partneriaid a gweithwyr proffesiynol yn ystod diwedd 2021 a dechrau 2022, gan gynnwys cynrychiolwyr o:

- Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru
- Cynrychiolwyr cyflogadwyedd Cyngor Sir Ynys Môn
- Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles Cyngor Sir Ynys Môn
- Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid Cyngor Sir Ynys Môn
- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Teulu Môn

### 6.1 **Cryfderau canfyddedig: gofal plant yn ardal leol Ynys Môn**

6.1.1 Disgrifiodd dau a gyfwelwyd eu cred bod gwaith a rôl y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd: Teulu Môn yn gryfder arbennig ar gyfer Ynys Môn, yn enwedig o ran ffiniau esblygol ei gymorth a'i allu i gysylltu teuluoedd â darparwyr a mathau penodol o gymorth.

6.1.2 Ystyriwyd mai ail gryfder oedd bod y Cynnig Gofal Plant wedi cael effaith fuddiol nodedig, yn nhermau'r cymorth a ddarparwyd ganddo i deuluoedd yr ynys sy'n gweithio – er bod dau a gyfwelwyd wedi amlygu y caiff y modd y bydd y cynnydd sydd i ddod o ran ei gwmpas (yn nhermau teuluoedd cymwys) ei groesawu, yn enwedig o ran rhieni/gofalwyr sy'n oedolion sy'n dysgu.

6.1.3 Trydydd cryfder a amlygwyd gan ddau a gyfwelwyd oedd eu bod yn ystyried bod (gan ddefnyddio geiriau i'r perwyl) *"ymdeimlad o bositifrwydd a brwdfrydedd parhaus ymhlith y rheiny a oedd yn aros o fewn gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant Ynys Mon".*

DRAFFT

6.2 **Meysydd canfyddedig i'w gwella: gofal plant yn ardal leol Ynys Môn**

6.2.1 Dywedodd dau a gyfwelwyd eu bod yn ymwybodol bod rhai rhieni/gofalwyr wedi adrodd materion a phroblemau yn nhermau lleoli a chyrchu gofal plant addas trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd yn amlwg hefyd bod hon yn thema arbennig (rhwystr rhag cyrchu gofal plant o ddewis rhiant/gofalwr) yr oedd Teulu Môn yn derbyn ymholiadau yn ei chylch yn rheolaidd. Roedd un a gyfwelwyd yn credu bod y mater hwn yn ymwneud yn arbennig â'r sector gwarchodwyr plant, ac y gallai hyn fod yn destun sylw gwaith cychwynnol gan yr awdurdod lleol i wella gallu teuluoedd i gyrchu darpariaeth gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg.

6.2.2 Amlinellodd dau a gyfwelwyd eu dealltwriaeth bod y galw am gymorth gan warchodwyr plant wedi bod yn cynyddu hefyd, gan gynnwys y canfyddiad bod rhieni/gofalwyr yn gofyn am fwy o hyblygrwydd o ran amseroedd a diwrnodau. Yn ogystal, roedd y rhai hyn a gyfwelwyd yn amlygu eu canfyddiad bod y galw hwn yn canolbwyntio ar gefnogaeth i blant 2-3 oed – sef yr oedran sy'n berthnasol i raglen Dechrau'n Deg.

6.2.3 Roedd tri o'r rhai a gyfwelwyd yn amlygu'r mater nad oedd nifer o ysgolion ar yr ynys yn rhedeg clwb ar ôl ysgol, a bod hwn yn fwlch posibl, o ran bod teuluoedd (sy'n gweithio) sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle'r oedd yr ysgol yn *"gwbl allweddol iddynt o safbwynt gofal plant"* yn profi heriau yn nhermau eu harferion gweithio a'u cyflogadwyedd. Roedd un a gyfwelwyd yn credu, os nad oedd modd i ysgolion perthnasol sefydlu darpariaeth gofal plant y tu allan i'r ysgol, yna efallai y bydd rhaid i'r awdurdod lleol archwilio datrysiad arall, sef cynyddu'r cymorth sydd ar gael o ran darparu cludiant – mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol/cymunedol – i alluogi disgyblion perthnasol i gyrraedd ysgol arall, sydd yn darparu clwb ar ôl ysgol, erbyn 3.00yp – 3.30yp.

6.2.4 Amlinellodd dau a gyfwelwyd bod y mater o recriwtio a chadw staff, sef problem a oedd yn esblygu ar draws y wlad, yn dod yn fater allweddol ar yr ynys. Dywedodd un a gyfwelwyd *"does dim ciw yn union o bobl yn chwilio am swydd yn fy sector i, ac mae hyn yn dechrau creu anhawster go iawn".* Roedd y ddau a gyfwelwyd (yr oedd y ddau ohonynt yn cynrychioli'r sector gofal plant cyfrwng Cymraeg) yn amlygu'r modd yr oedd y sefydliad a gynrychiolwyd ganddynt hefyd yn wynebu heriau o ran recriwtio gwirfoddolwyr a phobl i fod ar bwyllgorau. Cynigiodd un a gyfwelwyd, o fewn strategaeth wedi'i hadfywio, y dylai'r awdurdod lleol barhau i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor a'r sector Addysg Bellach lleol, gan gynnwys yng nghyswllt yr angen allweddol i bobl ifanc sydd â diddordeb yn y proffesiwn gael cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3.

DRAFFT

## 6.3 **Camau gweithredu/blaenoriaethau strategol canfyddedig: gofal plant yn ardal leol Ynys Môn**

6.3.1 Darparodd y mwyafrif o'r rhai a gyfwelwyd adborth y gellid ei grynhoi orau gan ddatganiad bod *"gweithio adref wedi newid popeth"* a bod rhaid i sector gofal plant a blynyddoedd cynnar Ynys Môn fabwysiadu meddylfryd a oedd yn tueddu mwy tuag at yr angen am fwy o hyblygrwydd o fewn eu modelau cyflenwi.

6.3.2 Roedd dau a gyfwelwyd yn cynnig y dylai swyddogion perthnasol o fewn yr awdurdod lleol barhau â'u rolau yn nhermau *"sganio'r gorwel",* gan gynnwys hynny o safbwynt y modd y mae demograffeg Ynys Môn yn esblygu, ynghyd â'r ffaith bod nifer y perchnogion ail gartrefi yn cynyddu, ac unwaith eto, y modd y gall hyn ddylanwadu ar themâu fel hyblygrwydd a phrisiau opsiynau o ran gofal plant.

6.3.3 O ran adborth gan gyflogwyr – yn genedlaethol, ledled Cymru, bu cynnydd yn nifer y gweithwyr sy'n gweithio adref a ddim yn gweithio mewn gofod neu amgylchedd swyddfa. Mae'r cynnydd hwn yn nifer yr achosion o weithio'n 'hyblyg' o adref wedi golygu bod rhai rhieni/gofalwyr (hefyd) wedi bod yn darparu eu gofal plant (eu hunain) yn eu cartref, yn enwedig ar gyfer plant cyn oed ysgol, yn hytrach na'u bod yn defnyddio darparwyr gofal plant ffurfiol, megis meithrinfa gofal dydd lawn neu warchodwr plant.

Ym mis Tachwedd 2021, canolbwyntiodd Cyngor Sir Ynys Môn ar gael adborth o'i sector cyflogaeth amrywiol, a rhoddodd gyhoeddusrwydd eang i arolwg ar-lein, ac aeth ati i'w hyrwyddo. Amlinellodd y cyflogwyr a ymatebodd, gan gynnwys Safle Maes Awyr RAF - RAF y Fali (sy'n cyflogi 1,800 o bobl), nifer o ffactorau a phwyntiau, *gan gynnwys*:

- Roedd nifer y gweithwyr sy'n gweithio patrymau shifftiau yn cynyddu
- Gweithio cyfunol, adref neu yn y gweithle – roedd canran gyfartalog o 50% o weithwyr yn gwneud hyn
- Cynlluniau amlwg bod gweithwyr yn meddwl am yr hyn a elwid ganddynt yn "gymorth cofleidiol"
- Bod ganddynt ddealltwriaeth dda o waith a rôl Teulu Môn

## 6.4 Canlyniadau Ymgynghori â Phobl Ifanc

Ar ddechrau 2022, cynhaliodd Cyngor Sir Ynys Môn ymgynghoriad meintiol ac ansoddol â phlant a phobl ifanc sy'n preswylio ledled y sir ar gyfer yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac ar gyfer prosiect cysylltiedig: cynhyrchu Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, yn yr un modd â'r ADGP, y cyfarwyddir pob awdurdod lleol yng Nghymru i'w cynhyrchu. Roedd yr ymgynghoriad meintiol yn cynnwys cwestiynau penodol sy'n cyd-fynd â'r thema gofal plant y tu allan i'r ysgol.

Ymatebodd 805 o ddisgyblion, o blith carfanau cynradd ac uwchradd, i arolwg ar-lein, a rhoddodd adborth gwerthfawr ar thema gofal plant y tu allan i'r ysgol.
Ceir crynodeb o'u hadborth *perthnasol* isod:

6.4.1 Gwahoddwyd plant a phobl ifanc i ymateb i gwestiwn allweddol: *Pan nad ydych yn yr ysgol, pa leoedd fyddwch chi'n mynd iddynt i chwarae neu i dreulio amser?*

Tabl 18 – Lleoedd y mae plant a phobl ifanc yn hoffi mynd iddynt i dreulio amser: 5-11 oed

| Lleoedd a Gweithgareddau | Canran y plant a phobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Clwb Ieuenctid | 4% |
| **Clwb Brecwast** | **21%** |
| **Clwb ar ôl Ysgol** | **14%** |
| **Clwb Gwyliau** | **1.5%** |
| Fy nhŷ i neu dŷ ffrind | 58% |
| Fy ngardd i neu gardd ffrind | 39% |
| Yn y strydoedd wrth ymyl fy nhŷ | 2% |
| Ar lecyn gwyrdd lleol â glaswellt | 28% |
| Mewn man chwarae gyda siglenni, sleidiau ac offer i chwarae arno | 39% |
| Yn y coed wrth ymyl fy nhŷ | 13% |

DRAFT

| Lleoedd a Gweithgareddau | Canran y plant a phobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Ar gae pêl-droed neu gae chwaraeon | 2% |
| Ym maes chwarae fy ysgol | 16.5% |
| Rhywle gyda dŵr neu dywod ynddo | 20% |
| Yn y parc beics neu sglefrio | 22.5% |
| Mewn neuadd neu ganolfan hamdden | 10.5% |
| Mewn maes chwarae antur neu gynllun chwarae | 10% |
| Yn nhŷ gwarchodwr plant | 3.5% |
| Canolfan chwarae neu ganolfan chwarae meddal o dan do | 20% |
| Yn rhywle arall | 21% |



O'r rhai 5-11 oed a nododd 'clwb ar ôl ysgol': dywedodd 62% y cynhaliwyd hwn yn eu hysgol
O'r rhai 5-11 oed a ddywedodd 'clwb brecwast': dywedodd 80% y cynhaliwyd hwn yn eu hysgol
O'r rhai 5-11 oed a ddywedodd 'clwb gwyliau': dywedodd 70% y cynhaliwyd hwn yn eu hysgol

Tabl 19 - Lleoedd y mae plant a phobl ifanc yn hoffi mynd iddynt i dreulio amser: 12-16 oed

| Lleoedd a Gweithgareddau | Canran y plant a phobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Clwb Ieuenctid | 13.5% |
| **Clwb Brecwast** | **0** |
| **Clwb ar ôl Ysgol** | **14%** |
| **Clwb Gwyliau** | **1%** |
| Fy nhŷ i neu dŷ ffrind | 58% |
| Fy ngardd i neu gardd ffrind | 10% |

DRAFFT

| Lleoedd a Gweithgareddau | Canran y plant a phobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Yn y strydoedd wrth ymyl fy nhŷ | 32% |
| Ar lecyn gwyrdd lleol â glaswellt | 25% |
| Mewn man chwarae gyda siglenni, sleidiau ac offer i chwarae arno | 19% |
| Ar gae pêl-droed neu gae chwaraeon | 7% |
| Ym maes chwarae fy ysgol | 21% |
| Rhywle gyda dŵr neu dywod ynddo | 5% |
| Yn y parc beics neu sglefrio | 10% |
| Mewn neuadd neu ganolfan hamdden | 15% |
| Mewn maes chwarae antur neu gynllun chwarae | 1% |
| Yn nhŷ gwarchodwr plant | 5% |
| Canolfan chwarae neu ganolfan chwarae meddal o dan do | 0 |
| Yn rhywle arall | 0 |
| Ar gae pêl-droed neu gae chwaraeon | 22% |

O’r rhai 12-16 oed a nododd ‘clwb ar ôl ysgol’: dywedodd 38% y cynhaliwyd hwn yn eu hysgol
O’r rhai 12-16 oed a ddywedodd ‘clwb brecwast’: dywedodd 0% y cynhaliwyd hwn yn eu hysgol
O’r rhai 12-16 oed a ddywedodd ‘clwb gwyliau’: dywedodd 0% y cynhaliwyd hwn yn eu hysgol

DRAFFT

6.4.2 Gwahoddwyd plant a phobl ifanc i ymateb i'r cwestiwn: *A fydd unrhyw un o'r mathau o bobl a ganlyn yn gofalu amdanoch pan nad ydych yn yr ysgol?*

Tabl 20 – Mathau o bobl a oedd yn gofalu am blant a phobl ifanc pan nad oeddynt yn yr ysgol: 5-11 oed

| Mathau o bobl | Canran y plant a phobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Teidiau a neiniau | 53% |
| Brawd/chwaer hŷn | 21% |
| Rhywun arall yn fy nheulu | 30% |
| Ffrindiau mam/dad | 18% |
| Cymdogion mam/dad | 6% |
| Dim un o'r uchod | 10% |

Tabl 21 - Mathau o bobl a oedd yn gofalu am blant a phobl ifanc pan nad oeddynt yn yr ysgol: 12-16 oed

| Mathau o bobl | Canran y plant a phobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Teidiau a neiniau | 33% |
| Brawd/chwaer hŷn | 15.5% |
| Rhywun arall yn fy nheulu | 26% |
| Ffrindiau mam/dad | 7% |
| Cymdogion mam/dad | 0 |
| Dim un o'r uchod | 15% |

DRAFFT

6.4.3 Gwahoddwyd plant a phobl ifanc i ymateb i gwestiwn penagored: *oes yna unrhyw beth yr hoffech ei wneud yn ystod gwyliau'r haf nad oedd ar gael i chi ei wneud yr haf hwn?*

Yn nhrefn eu hamlder, yr ymatebion a chanddynt thema a oedd yn cyd-fynd â'r hyn a ystyrir yn weithgareddau traddodiadol y byddid yn eu gwneud ar adeg gwyliau oedd:

*"Parc dŵr, gyda sleidiau dŵr"*

*"Mynd i nofio"*

*"Mynd i wersyll haf"*

*"Chwarae mewn twrnameintiau pêl-droed"*

*"Mynd i badlfyrddio"*

*"Mynd i'r traeth"*

DRAFFT

6.4.2 Yn olaf, mewn perthynas â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant hwn: Gofynnwyd i blant a phobl ifanc: *Gan feddwl am COVID-19, pa un, os o gwbl, sy'n cyfleu beth yr ydych yn ei feddwl?*

Tabl 22 – Beth mae plant a phobl ifanc 5-11 oed yn ei feddwl am COVID-19

| Ymateb | Canran y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Dwi'n teimlo rhywbeth arall sy'n wahanol i'r isod | 5% |
| Dwi ddim wir yn meddwl am y peth! | 28% |
| Dwi yn meddwl am y peth – ond wneith o ddim fy stopio rhag mynd i glybiau a gweithgareddau | 32% |
| Dwi'n poeni amdano – efallai y bydd yn gwneud i mi feddwl ddwywaith am fynd i glybiau | 17% |
| Dim ymateb | 18% |

Tabl 23 – Beth mae plant a phobl ifanc 12-16 oed yn ei feddwl am COVID-19

| Ymateb | Canran y plant a'r bobl ifanc a ymatebodd |
|---|---|
| Dwi'n teimlo rhywbeth arall sy'n wahanol i'r isod | 9% |
| Dwi ddim wir yn meddwl am y peth! | 18% |
| Dwi yn meddwl am y peth – ond wneith o ddim fy stopio rhag mynd i glybiau a gweithgareddau | 25% |
| Dwi'n poeni amdano – efallai y bydd yn gwneud i mi feddwl ddwywaith am fynd i glybiau | 14% |
| Dim ymateb | 36% |



DRAFT

## 6.5 Canlyniadau Ymgynghori ag Ysgolion

Mae Canllaw Asesu Digonolrwydd Gofal Plant Llywodraeth Cymru 2016 yn cyfarwyddo y dylai Awdurdodau Lleol ymgynghori â'u rhanddeiliaid lleol ac y dylai hyn gynnwys ysgolion lleol.

Ar Ynys Môn, mae yna 40 ysgol gynradd, 5 ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig, y'u rhestrir fel a ganlyn:

- 1 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg
- 38 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg
- 1 ysgol gynradd dwy ffrwd
- 1 ysgol gynradd cyfrwng Saesneg
- 3 ysgol uwchradd dwy ffrwd
- 1 ysgol arbennig: Ysgol Y Bont



Ym mis Ionawr 2021, gwahoddwyd pob un o'r ysgolion a leolir ar Ynys Môn i gwblhau arolwg ar-lein a oedd yn canolbwyntio ar thema gofal plant a barnau ar themâu penodol yn gysylltiedig â'r pwnc. Cyflwynodd cyfanswm o 16 o ysgolion (35%) ymateb i'r arolwg ar-lein a cheir crynodeb o'u hadborth cyfunol isod.

Tabl 24 – Yr ysgolion a ymatebodd oedd:

| Ysgol | Ward |
|---|---|
| Ysgol Gymuned Bryngwran | Ward Canolbarth Môn |
| Ysgol Gynradd Kingsland | Ynys Gybi |
| Ysgol Uwchradd Caergybi | Caergybi |
| Ysgol Gynradd Santes Gwenfaen - Rhoscolyn | Ynys Gybi |
| Ysgol Gynradd Llanbedrgoch | Lligwy |
| Ysgol y Graig | Canolbarth Môn |
| Ysgol Gymuned Y Ffridd | Canolbarth Môn |
| Ysgol Gynradd Llangoed | Seiriol |

DRAFFT

| Ysgol | Ward |
| --- | --- |
| Ysgol Gynradd Cemaes | Twrcelyn |
| Ysgol Gymuned Bodffordd | Canolbarth Môn |
| Ysgol y Tywyn | Llifon |
| Ysgol Gynradd Amlwch | Twrcelyn |
| Ysgol Corn Hir | Canolbarth Môn |
| Ysgol Santes Dwynwen | Bro Aberffraw |
| Ysgol Esceifiog | Bro Rhosyr |
| Ysgol Gynradd Llandegfan | Seiriol |

6.5.1 Gwahoddwyd (cynrychiolwyr) pob ysgol i ddatgan a oedd ganddynt ofal plant ar eu safle. Dywedodd 94% bod ganddynt, ac mae Tabl 25 yn cyflwyno pa mor aml y nodwyd mathau penodol o ofal plant.

Tabl 25 - Pa mor aml y lleolwyd mathau penodol o ofal plant ffurfiol mewn ysgolion

| Math o ofal plant | Canran yr ysgolion sydd â'r gofal plant hwn ar y safle |
| --- | --- |
| Clwb ar ôl Ysgol (cynnal gan yr ysgol) | 25% |
| Ar ôl Ysgol (preifat) | 25% |
| Gofal Cofleidiol Meithrinfa | 25% |
| Cylch Chwarae / Cylch Meithrin | 56% |
| Gofal Plant Gwyliau | 19% |
| Clwb Brecwast Am Ddim | 94% |
| Clwb Brecwast â Ffioedd Taladwy | 81% |
| Lleoedd Gofal Plant Dechrau'n Deg | 19% |
| Arall [10] | 19% |

[10] Ymatebion eraill oedd – Clwb *chwarter awr* i blant Cyfnod Sylfaen; clwb gofal Medra ar ôl ysgol; *clwb hwyluso.*



DRAFT

Mae Tabl 25 yn amlinellu mai clwb brecwast am ddim (di-dâl) yw'r math mwyaf cyffredin o ofal plant ffurfiol sydd wedi'i leoli *mewn ysgol* ar Ynys Môn. Dilynir hwn o ran amlder gan glwb brecwast y telir ffi ar ei gyfer.

6.5.2 Gwahoddwyd pob cynrychiolydd ysgol *perthnasol* i ddatgan a oeddent yn credu ei bod yn fuddiol (i'w hysgol) gael gofal plant ar y safle: dwedodd 81% o ysgolion ei fod o fudd[11], gyda dim ond un yn dweud *nad oedd* yn fuddiol, ac mai hwnnw oedd y rheswm pam eu bod wedi gweithio gyda darparwyr gofal plant lleol i ddefnyddio eu gwasanaethau oddi ar y safle. Roedd adborth penodol arall ar bwnc gofal plant ar y safle *yn cynnwys*:

*"Rydym yn gweld bod plant yn dod yn gynefin â'r lleoliad ac yn arfer â phethau'n haws".*

*"Mae cael popeth ar yr un safle'n gwneud pethau'n llawer haws. Mae staff ein hysgol yn gweithio yn y clwb, felly ceir gwasanaeth parhaus ar ôl i'r ysgol gau."*

*"Mae cael darpariaeth gofal yn caniatáu i rieni fynd i weithio. Rydym yn gweld fod neiniau a theidiau'n gweithio erbyn hyn hefyd - felly tydi'r opsiwn hwn ddim ar gael."*

*"Rydym yn gweld ei fod yn ymwneud â hwylustod i rieni – ac mi fyddant yn dewis ysgol oherwydd hyn."*

6.5.3 Dywedodd hanner y cynrychiolwyr ysgol a holwyd bod COVID-19, i raddau sylweddol, wedi effeithio gallu eu darpariaeth gofal plant i weithredu, a'r rheswm a nodwyd amlaf dros hyn oedd bod rhaid i glybiau gau yn ystod y cyfnodau clo.

6.5.4 Gan ddychwelyd i'r thema o ollwng a chasglu mewn ysgolion, mae Tabl 26 yn nodi pa mor aml y bu darparwyr penodol yn gweithio gydag ysgolion i roi hyn ar waith.

DRAFFT

[11] Nid oedd dwy ysgol wedi ateb y cwestiwn hwn

Tabl 26 – Pa mor aml yr oedd mathau penodol o ddarparwyr gofal plant ffurfiol yn dynodi eu bod yn gweithio gydag ysgolion i ollwng ac wedyn casglu o'r ysgol

| Math y gofal plant | Canran yr ysgolion a ymatebodd a oedd yn dynodi eu bod yn gweithio gyda darparwr o'r fath i weithredu gwasanaeth gollwng a chasglu o'r ysgol |
|---|---|
| Gwarchodwr/Gwarchodwyr Plant | 50% |
| Meithrinfa/Meithrinfeydd Dydd | 38% |
| Cylch Chwarae / Cylch Meithrin | 31% |

6.5.5 Gwahoddwyd yr holl gynrychiolwyr ysgolion i nodi - yn eu barn/profiad nhw - a oedd angen mwy o fathau penodol o leoedd gofal plant yn eu hardal leol/agos. Mae Tabl 27 yn cyflwyno eu hymatebion cyfunol.



Tabl 27 - Amlder cred bersonol cynrychiolwyr bod 'angen' am fwy o fathau o ofal plant yn ardal leol eu hysgol

| Math y gofal plant | Canran y cynrychiolwyr ysgol a ddywedodd: Oes | Canran y cynrychiolwyr ysgol a ddywedodd: Nac oes | Canran y cynrychiolwyr ysgol a ddywedodd: Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Clwb ar ôl Ysgol | 38% | 31% | 6% |
| Gofal Cofleidiol Meithrinfa | 44% | 13% | 13% |
| Cylch Chwarae / Cylch Meithrin | 19% | 38% | 6% |
| Gofal Plant yn ystod y Gwyliau (Dim Cynllun Chwarae) | 69% | 13% | 0 |
| Clwb Brecwast Am Ddim | 6% | 56% | 0 |
| Lleoedd Gofal Plant Dechrau'n Deg | 25% | 13% | 25% |

Mae Tabl 27 yn dangos mai rhagor o ofal plant yn ystod y gwyliau yw'r hyn y credai cynrychiolwyr ysgol oedd ei angen (yn eu barn bersonol nhw).

DRAFFT

6.5.6 Gwahoddwyd yr holl gynrychiolwyr ysgol i ddatgan - hyd eithaf eu gwybodaeth - a allai fod (unrhyw) lle ar gael ar eu safle ysgol – lle y gellid o bosib sefydlu darpariaeth gofal plant newydd: Atebodd 44% fod yna le (gyda dwy o'r ysgolion hyn hefyd wedi eu lleoli yn ward Seiriol Talybolion) ac roedd yr hyn oedd yn cymhwyso'r ymateb hwn *yn cynnwys*:

*"Cafodd y dosbarth meithrin ei foderneiddio a'i ymestyn yn ddiweddar. Mae'n lle braf, gyda thoiled a chyfleusterau coginio, yn ogystal â man awyr agored diogel i blant gael chwarae a threulio amser ynddo."*

*"Mae gennym ddosbarthiadau a allai ddarparu cyfleusterau gofal plant ar ôl ysgol, gan gynnwys clybiau a mannau chwarae..."*

*"Mae gennym ddwy ystafell gymunedol sydd ar gael am dri diwrnod yr wythnos. Mae gennym ystafell Dechrau'n Deg (sy'n darparu ar gyfer plant Niwbwrch) sy'n wag o 11:30 bob dydd."*

Roedd chwech o'r saith ymatebwr a atebodd yn gadarnhaol, yn cadarnhau y byddent yn falch cael derbyn cyngor a chymorth ar gyfer datblygiad posibl o'r fath.

6.5.7 Gwahoddwyd yr holl gynrychiolwyr ysgol i ddatgan a oeddent yn ymwybodol o fodolaeth y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Dywedodd 44% eu bod yn ymwybodol o Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Ynys Môn - ac mae'n amlwg felly nad oedd 56% yn ymwybodol.[12]

DRAFFT

[12] Nid oedd dwy ysgol wedi ymateb i'r cwestiwn hwn.

## 7 Dosbarthiad Daearyddol

### 7.1 Delwedd 1 - **Lleoliad Darparwyr Gofal Dydd Llawn ar Ynys Môn**




7.2 Delwedd 2 - **Lleoliad Darparwyr Gofal Sesiynol ar Ynys Môn**



Tudalen 66

7.3 Delwedd 3 - **Lleoliad Gwarchodwyr Plant Cofrestredig ar Ynys Môn**



7.4 Delwedd 4 - **Lleoliad Darparwyr Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol ar Ynys Môn**




## 8 Cynaliadwyedd

Mae'r naratif a'r dadansoddiad isod yn cyflwyno canlyniadau arolwg strwythuredig hydref 2021 gyda nifer y darparwyr gofal plant ar draws ardal leol Ynys Môn sy'n canolbwyntio ar thema cynaliadwyedd, gan gynnwys adolygiad o sut mae cyllid cynaliadwyedd yn amlwg yn cefnogi'r sector.

8.1 Fel rhan o arolwg y Cyngor Sir gyda darparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar yn hydref 2021, gwahoddwyd pob lleoliad i ddatgan p'un a oedd eu busnes wedi profi (neu os yw'n parhau i brofi) unrhyw un o'r problemau canlynol o ganlyniad i COVID-19.


<u>Diagram 3 - Amlder y problemau a brofwyd gan ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar o ganlyniad i COVID-19</u>




DRAFT

Y lleoliad a oedd â’r achosion uchaf o ddarparwr yn nodi 'gostyngiad/colli refeniw' oedd: Canolbarth Môn
Y lleoliad a oedd â’r achosion uchaf o ddarparwr yn nodi 'effeithio ar niferoedd y plant' oedd ardal Canolbarth Môn hefyd

Diagram 4 - Amlder y problemau a brofwyd gan warchodwyr plant cofrestredig o ganlyniad i COVID-19




Mae Diagram 4 yn dangos mai gwarchodwyr plant cofrestredig oedd wedi amlinellu amlaf sut yr oeddent wedi 'gweld gostyngiad/colli refeniw' o ganlyniad i bandemig COVID-19 – ac roedd yn effeithio ar nifer y plant oedd yn mynychu i’r un graddau.

8.2 Dim ond 25% o’r darparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a nododd yn hydref 2021 fod yn rhaid iddynt newid eu model busnes o ganlyniad i bandemig COVID-19 – yr hyn a ddywedwyd amlaf oedd eu bod wedi *“penderfynu bod ar agor am lai o oriau”*, a’r hyn a nodwyd amlaf wedyn oedd penderfyniad i beidio ag agor ar rai boreau.

Yn olaf, nododd 15% o’r gwarchodwyr plant cofrestredig yn hydref 2021 fod yn rhaid iddynt newid eu model busnes o ganlyniad i bandemig COVID-19, gydag addasiadau mynych fel a ganlyn:

- Dechreuodd gwarchodwyr plant gymryd llai o blant
- Cyflwynodd gwarchodwyr plant fwy o hyblygrwydd yn unol â'u horiau a gostyngwyd eu horiau ar rai adegau
- Penderfynodd gwarchodwyr plant i gynyddu lefelau eu ffioedd

Gwahoddwyd holl ddarparwyr gofal plant Ynys Môn wedyn i ddatgan a fyddent hwy/eu lleoliad yn elwa o gyngor, cymorth a/neu hyfforddiant gyda model busnes tymor byr a/neu ganolig. Nododd 20% y byddent a:

- Dywedodd 7.5% (o'r holl ddarparwyr gofal plant a ymatebodd) y byddent yn croesawu cymorth, hyfforddiant a chyngor gyda strategaethau modelu busnes a chynaliadwyedd
- Dywedodd 7.5% hefyd y byddent yn croesawu cymorth, hyfforddiant a chyngor gyda marchnata traddodiadol
- Dywedodd 9% y byddent yn croesawu cymorth, hyfforddiant a chyngor gyda marchnata rhithwir

8.3 Dywedodd 15% o ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar Ynys Môn fod ganddynt ryw fath o gynllun(iau) i barhau i ysgogi cynhyrchu incwm - ac eithrio drwy ddychwelyd i lefelau defnydd cyn COVID-19. Cynlluniau a *ailadroddwyd* oedd:

- Ymgymryd ag ymgyrchoedd codi arian fel *“disgos”* a *“chodi arian”*
- Ymgymryd ag ymgyrch i ddosbarthu taflenni
- Ymestyn hyd amser sesiynau

8.4 Gofynnwyd hefyd i bob un o ddarparwyr gofal plant ffurfiol ardal leol Ynys Môn - h.y. darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr gofal sesiynol - yn ystod hydref 2021, a oedd ganddynt unrhyw gynlluniau/bwriadau i gynyddu eu capasiti/datblygu darpariaeth newydd dros y ddwy flynedd nesaf. Dywedodd chwe darparwr gofal plant blynyddoedd cynnar fod ganddynt.





DRAFT

- Lleolwyd pedwar o'r darparwyr hyn yn ward Canolbarth Môn, a rhyngddynt roedd ganddynt uchelgais i ddatblygu 90 o leoedd newydd
- Lleolwyd un darparwr yn ward Llifon, ac roedd ganddo uchelgais i ddatblygu 5 o leoedd newydd a
- Lleolwyd un darparwr yn ward Ynys Gybi, ac roedd ganddo uchelgais i ddatblygu 12 o leoedd newydd


8.5 Yn hydref 2021, dywedodd 7.5% o: (a) ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol ffurfiol Ynys Môn eu bod wedi manteisio ar y Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes yn sgil y Coronafeirws (COVID-19). Dywedodd (canran ychydig yn uwch o) 13% o (a) ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol ffurfiol Ynys Môn hefyd eu bod wedi defnyddio Cynllun Benthyciadau Adfer yn sgil y Coronafeirws.

8.6 Fodd bynnag, dywedodd (llawer mwy) 79% o: (a) ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol ffurfiol Ynys Môn eu bod wedi manteisio ar Gynllun Cadw Swyddi (CJRS) (canolog) cyfnod y Coronafeirws.

8.7 … Gofynnwyd i bob: a) darparwr gofal plant y blynyddoedd cynnar a (b) darparwr gofal plant y tu allan i'r ysgol *perthnasol* (gweler 8.6 uchod) nodi pa mor hyderus oeddent yn hydref 2021 y byddent yn gallu cadw eu tîm staff presennol yn sgil terfynu'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.


DRAFFT

Diagram 5 - Lefelau hyder cadw staff




8.8 Yn dilyn hynny, mae Diagram 6 isod yn nodi ymatebion a gafwyd gan: (a) darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol ynghylch (eu dealltwriaeth o) gymhwysedd ar gyfer y Rhyddhad/Gwyliau Ardrethi Busnes oherwydd COVID-19.


Diagram 6 - Ymatebion gan leoliadau a grwpiau Ynys Môn ynghylch cymhwysedd ar gyfer y Rhyddhad Ardrethi Busnes



Gellir nodi hefyd mai (dim ond) 9.5% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol (perthnasol) a ymatebodd a ddywedodd eu bod yn ymwybodol bod y cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes wedi'i ymestyn am 3 blynedd tan fis Mawrth 2025. Dwedodd y 90.5% arall nad oeddent yn ymwybodol o'r ffaith hon.

8.9 Gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant mewn lleoliad a oeddent wedi derbyn grant cynaliadwyedd.

Diagram 7 - Adborth ar grantiau cynaliadwyedd




Yn nhrefn amlder, tarddiad y grantiau a gyrchwyd oedd:

- Cyngor Sir Ynys Môn - Grant Cynaliadwyedd Gofal Plant
- Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant
- https://moondancefoundation.org.uk/

DRAFT

DRAFFT

Roedd yr adborth am grantiau gan leoliadau/grwpiau yn gadarnhaol ac yn cynnwys:

*"Defnyddiais y taliad ar gyfer PPE a chostau glanhau ychwanegol."*

*"Fydden ni ddim wedi goroesi heb y grant hwnnw gan yr Awdurdod Lleol – roedd yn hanfodol."*

*"Roedd y taliad yn help i gynnal ein busnes."*

8.10 Yn hydref 2021, gwahoddwyd pob darparwr gofal plant i gadarnhau cyfnod o amser yn cyfateb â pha mor hir yr oeddent yn disgwyl parhau i ddarparu gofal plant:

<u>Diagram 8 - Ymatebion gan: (a) darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a (b) darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol o ran y cyfnod o amser yr oeddent yn disgwyl parhau mewn busnes</u>





Diagram 9 - Ymatebion gan warchodwyr plant cofrestredig o ran y cyfnod o amser yr oeddent yn disgwyl parhau mewn busnes




DRAFT

8.11 Gwahoddwyd darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol i grynhoi manylion am gynlluniau sy'n cyd-fynd â chynaliadwyedd dros y 18 mis nesaf (hyd at wanwyn 2023).

Tabl 30 - Nifer yr achosion o gynlluniau sy'n cyd-fynd â thema cynaliadwyedd a chymorth parhaus i deuluoedd, hyd at wanwyn 2023 (darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol)

| Cynyddu eich ffioedd am leoedd / darpariaeth lle codir tâl? | | |
|---|---|---|
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 41% | Dim cynlluniau, ond efallai = 36% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb =23% |
| Gwella darpariaeth ymhellach ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 49% | Dim cynlluniau, ond efallai = 43% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 8% |
| Ymestyn eich oriau agor? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 19% | Dim cynlluniau, ond efallai = 11% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 70% |
| Ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnig? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 24% | Dim cynlluniau, ond efallai = 17% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 59% |
| Helpu i ddiwallu anghenion gweithwyr shifft / y rhai sy'n gweithio y tu allan i oriau swyddfa nodweddiadol, yn well? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 7.5% | Dim cynlluniau, ond efallai = 7.5% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 85% |



DRAFT

DRAFT

Tabl 31 - Nifer yr achosion o gynlluniau sy'n cyd-fynd â thema cynaliadwyedd a chymorth parhaus i deuluoedd, hyd at wanwyn 2023 (gwarchodwyr plant)

| | | |
|---|---|---|
| Cynyddu eich ffioedd am leoedd / darpariaeth lle codir tâl? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 33% | Dim cynlluniau, ond efallai = 48% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 19% |
| Gwella darpariaeth ymhellach ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 15% | Dim cynlluniau, ond efallai = 63% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 22% |
| Ymestyn eich oriau agor? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 4% | Dim cynlluniau, ond efallai = 15% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 81% |
| Ehangu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnig? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 19% | Dim cynlluniau, ond efallai = 19% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 62% |
| Helpu i ddiwallu anghenion gweithwyr shifft / y rhai sy'n gweithio y tu allan i oriau swyddfa nodweddiadol, yn well? | | |
| Oes, mae cynlluniau ar waith = 22% | Dim cynlluniau, ond efallai = 15% | Dim cynlluniau – ni fydd yn digwydd/ Dim Ymateb = 63% |

8.12 Yn y bôn, gwahoddwyd holl (gynrychiolwyr) lleoliadau / darparwyr gofal plant Ynys Môn i nodi'r hyn y byddai eu lleoliad yn ei groesawu fwyaf fel cymorth ***parhaus***, cyngor ac arweiniad gan y Cyngor yn ystod 2022. Y ddau fath o adborth a nodwyd sawl gwaith oedd (yn nhrefn amlder):

1. Parhau i gadw darparwyr yn ymwybodol o *gymorth ariannol* a *grantiau cynaliadwyedd*
2. Help gyda recriwtio staff

Yn ychwanegol, gwahoddwyd yr holl warchodwyr plant i nodi'r hyn y byddai eu lleoliad yn ei groesawu fwyaf fel cymorth ***parhaus***, cyngor ac arweiniad gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn 2022. Y tri math o adborth a nodwyd sawl gwaith oedd (yn nhrefn amlder):

1. Cadw gwarchodwyr plant yn ymwybodol o *gymorth ariannol* a *grantiau cynaliadwyedd*
2. Help a chyngor ynghylch gwella eu darpariaeth o gyfleoedd chwarae yn yr awyr agored
3. Cyngor parhaus am argaeledd cyrsiau hyfforddi - ar themâu sy'n cynnwys

   *"Cefnogi plant ag ADY."*

   *"Cefnogi'r cyfnod pontio i'r ysgol gynradd".*

8.13 Yn olaf, o ran thema cynaliadwyedd, gellir nodi yn ystod y cyfnod Mawrth 2020 – Mawrth 2022:

- O ran **darpariaethau gofal plant y blynyddoedd cynnar**, roedd insert cofrestriad AGC newydd a insert dadgofrestriad AGC o fewn ardal leol Ynys Môn
- O ran **gwarchodwyr plant cofrestredig**, roedd insert cofrestriad AGC newydd a insert dadgofrestriadau AGC o fewn ardal leol Ynys Môn ac
- O ran **darpariaethau gofal plant y tu allan i'r ysgol**, roedd insert cofrestriad AGC newydd a insert dadgofrestriad AGC o fewn ardal leol Ynys Môn.

DRAFFT

# 9 Dadansoddiad trawsffiniol

9.1 Dylid nodi nad yw Ynys Môn ond yn rhannu ffin ag un awdurdod lleol arall - sef Gwynedd wrth gwrs. Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn cysylltu'n agos â'i gilydd, gan gynnwys o safbwynt datblygu cynlluniau strategol ar y cyd.

9.2 Mewn ymateb i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021: dywedodd (dim ond) dau o rieni a ymatebodd, a oedd yn amlwg yn byw ar Ynys Môn, eu bod wedi cyrchu lle mewn addysg blynyddoedd cynnar y telir amdano mewn ardal awdurdod lleol wahanol: sef Gwynedd.

9.3 Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Ynys Môn (Teulu Môn) yn parhau i ddal manylion darparwyr gofal plant a darparwyr gwasanaeth o fewn ei ardal Awdurdod Lleol, ynghyd â gweithio'n agos iawn â Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd cyfagos, ac mae o wedi cyfeirio teuluoedd ymlaen i'w gwasanaethau cyfatebol mewn ardaloedd eraill.

DRAFFT

# 10 COVID-19

Gwelodd Ynys Môn y modd yr oedd COVID-19 yn cyflwyno heriau enfawr i'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yn yr ardal.

Yn berthnasol iawn, roedd yr adroddiad Sgyrsiau Cenedlaethol gyda'r Sector Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021, yn amlinellu'r modd y teimlai gweithwyr gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar nad oeddynt yn cael eu gwerthfawrogi digon yn ystod y pandemig COVID-19.
Roedd yr adroddiad - a oedd yn canolbwyntio ar nifer o themâu a oedd yn effeithio'r sector blynyddoedd cynnar a gofal plant, gan gynnwys lles a moral staff, y cymorth a oedd ar gael i fusnesau, ynghyd â staffio, a hyfforddiant a chymwysterau - yn amlinellu'r modd y teimlai'r sector nad oedd y cyfathrebiadau a dderbyniwyd ganddynt gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig bob amser yn glir, ac nad oeddynt yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Yn y bôn, daeth yr adroddiad i'r casgliad *"cyfathrebwyd gyda'r sector yn aml, ond oherwydd tirwedd bythol-newidiol COVID-19 ni chlywyd bob un o'r negeseuon".*



Yn y bôn, dywedodd nifer o ddarparwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant a leolwyd yng Nghymru wrth ymchwilwyr eu bod wedi profi rhai problemau o safbwynt staffio a bod ganddynt bryderon am gynaliadwyedd.

10.1 Dangosodd ymchwil cenedlaethol, yr ymgymerwyd ag ef yn ystod y cyfnod o 2020 i ddechrau 2022, bod iechyd meddwl a llesiant: (a) perchnogion a (b) staff, ar bob lefel o fewn busnesau gofal plant, yn cael eu heffeithio gan yr heriau a grëwyd gan COVID-19.

Fel rhan o arolwg hydref 2021 gyda darparwyr gofal plant lleol Ynys Môn, gofynnodd yr awdurdod lleol a welodd ymatebwyr unrhyw enghreifftiau o broblemau iechyd meddwl yn gysylltiedig â COVID-19, gan gynnwys rhai yn ymwneud â straen a gorbryder ynghylch cynaliadwyedd (ar thema COVID)?

Dywedodd 39% o'r ymatebwyr a oedd yn cynrychioli darparwyr gofal plant (gwarchodwyr plant, perchnogion a rheolwyr fel rheol) eu bod wedi profi heriau a/neu orbryder iechyd meddwl yn bersonol.

Dywedodd 40% o'r ymatebwyr perthnasol y gwelwyd enghreifftiau o aelodau'r tîm yn profi heriau a/neu orbryder iechyd meddwl.

Roedd adborth gan gynrychiolwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol *yn cynnwys*:

DRAFFT

*“Byddai adnodd lle byddem yn gwybod y gallwn gael help wedi bod yn dda, ond roedd y Cyngor yn cynnig cefnogaeth dda iawn.”*

*“Cefais fynychu hyfforddiant meddwl a llesiant, ac roedd hyn yn ddefnyddiol”.*

*“Yn aml, mae gwarchod plant yn rhywbeth unig, a gallai cynlluniau cyfeillio fod wedi helpu”.*

10.2 Gwahoddwyd pob darparwr gofal plant i nodi sut y byddent yn dosbarthu'n fras sut yr oedd eu rhieni/teuluoedd yn teimlo o ran eu plentyn/plant yn mynychu/ailfynychu eu lleoliad, ynghlwm â COVID-19.

Dywedodd 98% o’r ymatebwyr: mae’n ymddangos bod y mwyafrif yn hapus erbyn hyn gyda’r 2% (yn unig) sydd ar ôl gan ddweud: mae'n rhaniad eithaf cyfartal rhwng y rhai sydd o blaid, a'r rhai sydd â phryderon parhaus.

10.3 Yn ogystal, amlygodd ymatebion Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS Gorffennaf 2021:

Fod 96% o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd wedi datgan eu bod wedi gorfod cau ar ryw adeg – hyd at y dyddiad hwnnw – o ganlyniad i COVID-19.


Dywedodd 11% o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd eu bod wedi gweld achos(ion) positif o COVID-19 cyn mis Gorffennaf 2021, gyda 36% o ddarparwyr o'r fath yn dweud bod ganddynt o leiaf un aelod o staff a oedd wedi dal COVID-19 (hefyd, yn ogystal â’r (eu) plant).

10.4 Dywedodd 70% o'r holl ddarparwyr gofal plant nad oeddent, ym mis Gorffennaf 2021, yn gweithredu'n llawn o ganlyniad i COVID-19.

DRAFFT

10.5 Gofynnwyd i bob darparwr gofal plant a ymatebodd i arolwg hydref 2021 nodi a wnaethant unrhyw newidiadau contractiol gydag unrhyw rieni / gofalwyr o ganlyniad i COVID-19?

<u>Diagram 10 - Nifer yr achosion o newidiadau contractiol a wnaed gan ddarparwyr gofal plant Ynys Môn sy'n ymwneud â COVID-19</u>




10.6 Gofynnwyd i bob darparwr gofal plant a ymatebodd i arolwg hydref 2021 nodi a fyddent yn croesawu unrhyw gyngor neu gymorth pellach yn nhermau polisi / asesiad risg 'diogelu eich lleoliad' COVID-19, neu bolisi / protocol staff a rhieni. Dywedodd (dim ond) 6% y byddent - ac roedd y ceisiadau gan y darparwyr gofal plant hyn yn cynnwys:

*"Cyngor parhaus ynghylch ymgymryd ag asesiad risg".*

*"Os yw COVID-19 yn digwydd eto, cael rhestr wirio, o'r math dwi'n meddwl bod ysgolion yn ei derbyn?".*

DRAFT

## 11 Poblogaeth, Demograffeg a Phroffil Economaidd-gymdeithasol

11.1 Mae Tabl 32 yn amlinellu'r boblogaeth plant 0-14 oed sy'n cyd-fynd â phob LSOA yn ardal leol Ynys Môn, fel y rhagwelwyd gan Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ar gyfer Wardiau yn 2020 ac ALl yn 2021 yng Nghymru.

Tabl 32 - Poblogaeth plant 0-14 yn LSOAs Ynys Môn

Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020 ar gyfer Wardiau 2020 (SYG)

| Cod ac Enw'r LSOA | 0-12m | 1 oed | 2 oed | 3 oed | 4 oed | 5 oed | 6 oed | 7 oed | 8 oed | 9 oed | 10 oed | 11 oed | 12 oed | 13 oed | 14 oed | 15 oed | 16 oed | 17 oed | 18 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| W01000001 Aberffraw a Rhosneigr 1 | 5 | 9 | 11 | 10 | 12 | 11 | 8 | 6 | 8 | 10 | 4 | 5 | 3 | 2 | 9 | 5 | 13 | 8 | 15 |
| W01000002 Aberffraw a Rhosneigr 2 | 11 | 8 | 9 | 11 | 11 | 16 | 12 | 23 | 10 | 9 | 8 | 7 | 12 | 12 | 11 | 10 | 8 | 9 | 6 |
| W01000003 Porth Amlwch | 26 | 21 | 28 | 32 | 23 | 22 | 36 | 27 | 36 | 37 | 27 | 28 | 28 | 31 | 27 | 20 | 22 | 26 | 27 |
| W01000004 Amlwch Wledig | 11 | 10 | 13 | 10 | 12 | 11 | 13 | 8 | 8 | 13 | 8 | 17 | 13 | 15 | 8 | 12 | 12 | 13 | 13 |
| W01000005 Biwmares | 10 | 17 | 12 | 20 | 14 | 25 | 16 | 14 | 14 | 7 | 12 | 9 | 13 | 9 | 15 | 21 | 20 | 16 | 13 |
| W01000006 Bodffordd | 15 | 8 | 10 | 20 | 16 | 18 | 15 | 19 | 19 | 13 | 15 | 15 | 14 | 7 | 17 | 14 | 14 | 17 | 16 |
| W01000007 Bodorgan | 14 | 14 | 11 | 14 | 13 | 22 | 19 | 19 | 20 | 25 | 13 | 18 | 14 | 14 | 12 | 19 | 25 | 16 | 19 |
| W01000008 Braint | 7 | 7 | 7 | 8 | 9 | 8 | 22 | 10 | 25 | 24 | 14 | 22 | 14 | 13 | 13 | 19 | 14 | 12 | 17 |
| W01000009 Bryngwran | 12 | 21 | 26 | 21 | 31 | 24 | 28 | 26 | 30 | 27 | 27 | 22 | 23 | 23 | 19 | 20 | 18 | 23 | 25 |
| W01000010 Brynteg | 13 | 14 | 12 | 18 | 13 | 17 | 20 | 9 | 17 | 16 | 11 | 17 | 16 | 28 | 13 | 9 | 10 | 18 | 15 |
| W01000011 Cadnant | 5 | 4 | 6 | 9 | 6 | 6 | 5 | 11 | 2 | 5 | 7 | 5 | 11 | 5 | 6 | 12 | 7 | 13 | 5 |
| W01000012 Cefni | 10 | 11 | 18 | 19 | 14 | 18 | 30 | 17 | 28 | 20 | 26 | 23 | 29 | 17 | 26 | 23 | 21 | 18 | 13 |
| W01000013 Cwm Cadnant | 23 | 17 | 24 | 14 | 28 | 19 | 24 | 26 | 24 | 25 | 34 | 28 | 18 | 23 | 24 | 24 | 28 | 27 | 25 |
| W01000014 Cyngar | 25 | 25 | 26 | 29 | 27 | 30 | 33 | 31 | 29 | 29 | 29 | 22 | 26 | 28 | 14 | 16 | 28 | 19 | 22 |
| W01000015 Gwyngyll | 8 | 9 | 10 | 9 | 10 | 12 | 12 | 17 | 15 | 15 | 18 | 12 | 17 | 32 | 19 | 10 | 15 | 14 | 19 |
| W01000016 Tref Caergybi | 17 | 15 | 22 | 13 | 24 | 16 | 12 | 15 | 10 | 21 | 22 | 12 | 21 | 12 | 18 | 17 | 17 | 13 | 17 |
| W01000017 Kingsland | 8 | 10 | 21 | 20 | 22 | 21 | 23 | 29 | 28 | 30 | 31 | 25 | 26 | 29 | 27 | 16 | 15 | 20 | 16 |
| W01000018 Llanbadrig | 12 | 6 | 11 | 10 | 14 | 12 | 14 | 13 | 15 | 5 | 18 | 16 | 16 | 15 | 11 | 13 | 11 | 15 | 10 |
| W01000019 Llanbedrgoch | 6 | 5 | 9 | 16 | 10 | 4 | 1 | 5 | 2 | 3 | 9 | 12 | 9 | 8 | 10 | 10 | 10 | 10 | 11 |
| W01000020 Llanddyfnan | 15 | 8 | 11 | 15 | 5 | 7 | 12 | 13 | 14 | 13 | 12 | 10 | 19 | 10 | 13 | 13 | 11 | 15 | 14 |
| W01000021 Llaneilian | 12 | 21 | 23 | 15 | 29 | 23 | 26 | 25 | 29 | 29 | 16 | 19 | 16 | 20 | 11 | 15 | 11 | 15 | 15 |
| W01000022 Llanfaethlu | 8 | 6 | 12 | 8 | 9 | 15 | 9 | 22 | 9 | 20 | 14 | 20 | 22 | 18 | 20 | 16 | 16 | 19 | 17 |
| W01000023 Llanfair-yn-Neubwll 1 | 9 | 25 | 18 | 28 | 27 | 19 | 27 | 24 | 27 | 21 | 15 | 13 | 19 | 14 | 20 | 10 | 13 | 14 | 21 |
| W01000024 Llanfair-yn-Neubwll 2 | 18 | 22 | 28 | 21 | 32 | 17 | 25 | 28 | 15 | 22 | 31 | 22 | 25 | 18 | 17 | 20 | 14 | 8 | 5 |
| W01000025 Llanfihangel Ysgeifiog | 23 | 19 | 19 | 15 | 20 | 27 | 27 | 30 | 29 | 18 | 17 | 33 | 27 | 18 | 22 | 30 | 32 | 25 | 27 |
| W01000026 Llangoed | 7 | 4 | 8 | 7 | 8 | 4 | 10 | 6 | 13 | 13 | 15 | 10 | 13 | 11 | 14 | 8 | 11 | 8 | 6 |
| W01000027 Llanidan | 20 | 10 | 18 | 20 | 23 | 12 | 20 | 25 | 25 | 26 | 28 | 26 | 24 | 28 | 24 | 21 | 17 | 16 | 12 |

DRAFT

| Cod ac Enw’r LSOA | 0-12m | 1 oed | 2 oed | 3 oed | 4 oed | 5 oed | 6 oed | 7 oed | 8 oed | 9 oed | 10 oed | 11 oed | 12 oed | 13 oed | 14 oed | 15 oed | 16 oed | 17 oed | 18 oed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| W01000028 Llannerch-y-medd | 24 | 20 | 25 | 25 | 25 | 28 | 31 | 30 | 32 | 32 | 37 | 27 | 33 | 33 | 17 | 29 | 15 | 22 | 23 |
| W01000029 Ffordd Llundain | 12 | 21 | 16 | 19 | 18 | 26 | 16 | 28 | 32 | 27 | 14 | 36 | 26 | 18 | 34 | 16 | 22 | 18 | 13 |
| W01000030 Maeshyfryd | 34 | 22 | 30 | 27 | 30 | 29 | 31 | 29 | 32 | 38 | 35 | 40 | 28 | 27 | 35 | 18 | 27 | 20 | 23 |
| W01000031 Mechell | 4 | 16 | 6 | 15 | 15 | 12 | 16 | 15 | 14 | 18 | 13 | 9 | 22 | 12 | 13 | 18 | 13 | 14 | 20 |
| W01000032 Moelfre | 4 | 8 | 2 | 6 | 6 | 9 | 9 | 14 | 7 | 9 | 14 | 9 | 15 | 5 | 12 | 1 | 6 | 2 | 4 |
| W01000033 Morawelon | 21 | 15 | 25 | 22 | 25 | 22 | 17 | 30 | 22 | 21 | 25 | 32 | 25 | 20 | 19 | 18 | 22 | 21 | 22 |
| W01000034 Parc a'r Mynydd | 11 | 11 | 11 | 16 | 18 | 13 | 13 | 28 | 24 | 16 | 10 | 23 | 19 | 15 | 17 | 15 | 16 | 11 | 12 |
| W01000035 Pentraeth | 17 | 16 | 18 | 23 | 22 | 19 | 24 | 24 | 21 | 29 | 19 | 24 | 22 | 23 | 23 | 14 | 20 | 16 | 14 |
| W01000036 Porthyfelin 1 | 12 | 11 | 16 | 20 | 17 | 8 | 15 | 14 | 12 | 8 | 14 | 8 | 11 | 13 | 11 | 14 | 9 | 16 | 11 |
| W01000037 Porthyfelin 2 | 6 | 11 | 7 | 7 | 14 | 6 | 8 | 11 | 9 | 14 | 18 | 13 | 17 | 17 | 23 | 14 | 24 | 12 | 13 |
| W01000038 Rhosyr | 16 | 15 | 16 | 18 | 19 | 26 | 19 | 19 | 25 | 25 | 32 | 21 | 26 | 10 | 26 | 20 | 20 | 22 | 18 |
| W01000039 Trearddur 1 | 5 | 8 | 8 | 6 | 5 | 2 | 5 | 5 | 7 | 5 | 6 | 11 | 7 | 6 | 11 | 8 | 13 | 11 | 15 |
| W01000040 Trearddur 2 | 3 | 5 | 8 | 5 | 3 | 7 | 6 | 8 | 8 | 5 | 8 | 9 | 13 | 12 | 9 | 8 | 3 | 8 | 8 |
| W01000041 Tudur | 22 | 31 | 27 | 32 | 30 | 26 | 30 | 23 | 40 | 26 | 26 | 25 | 27 | 32 | 27 | 24 | 24 | 30 | 23 |
| W01000042 Tysilio | 20 | 21 | 27 | 25 | 23 | 19 | 25 | 27 | 21 | 21 | 39 | 21 | 21 | 32 | 20 | 17 | 29 | 23 | 20 |
| W01000043 Y Fali 1 | 8 | 11 | 14 | 16 | 12 | 14 | 15 | 19 | 11 | 18 | 10 | 18 | 16 | 9 | 17 | 7 | 16 | 13 | 11 |
| W01000044 Y Fali 2 | 7 | 5 | 7 | 5 | 5 | 3 | 8 | 11 | 10 | 15 | 7 | 5 | 8 | 9 | 8 | 12 | 14 | 6 | 8 |



Mae Tabl 33 yn dangos mai’r tair LSOA sydd â’r **lefelau uchaf o blant 0-4 oed o fewn y boblogaeth** yw:

1. Maeshyfryd
2. Tudur
3. Cyngar

Y tair LSOA sydd â’r **lefelau uchaf o blant 5-7 oed o fewn y boblogaeth** yw:

1. Cyngar
2. Llannerch-y-medd
3. Maeshyfryd

DRAFT

Y tair LSOA sydd â'r **lefelau uchaf o blant 8-11 oed o fewn y boblogaeth** yw:

1. Maeshyfryd
2. Porth Amlwch
3. Llannerch-y-medd

Yn olaf, y tair LSOA sydd â'r **lefelau uchaf o blant 12-14 oed o fewn y boblogaeth** yw:

1. Llannerch-y-medd
2. Porth Amlwch
3. Tudur

DRAFFT

11.2 Yn ogystal, mae Tabl 34 isod yn dangos, o safbwynt rhaglen Dechrau'n Deg, mai'r LSOAs sy'n cyfrif am y nifer uchaf o blant 2-3 oed sy'n byw ynddynt yw LSOA Porth Amlwch, a ddilynir wedyn gan LSOA Tudur o ran nifer.

Tabl 34 - Y boblogaeth o blant 2-3 oed yn LSOAs Ynys Môn

Ffynhonnell: SYG 2020

| LSOA | Poblogaeth o blant 2 oed | Poblogaeth o blant 3 oed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| W01000001 Aberffraw a Rhosneigr 1 | 11 | 10 | 21 |
| W01000002 Aberffraw a Rhosneigr 2 | 9 | 11 | 20 |
| W01000003 Porth Amlwch | 28 | 32 | 60 |
| W01000004 Amlwch Wledig | 13 | 10 | 23 |
| W01000005 Biwmares | 12 | 20 | 32 |
| W01000006 Bodffordd | 10 | 20 | 30 |
| W01000007 Bodorgan | 11 | 14 | 25 |
| W01000008 Braint | 7 | 8 | 15 |
| W01000009 Bryngwran | 26 | 21 | 47 |
| W01000010 Brynteg | 12 | 18 | 30 |
| W01000011 Cadnant | 6 | 9 | 15 |
| W01000012 Cefni | 18 | 19 | 37 |
| W01000013 Cwm Cadnant | 24 | 14 | 38 |
| W01000014 Cyngar | 26 | 29 | 55 |
| W01000015 Gwyngyll | 10 | 9 | 19 |
| W01000016 Tref Caergybi | 22 | 13 | 35 |
| W01000017 Kingsland | 21 | 20 | 41 |
| W01000018 Llanbadrig | 11 | 10 | 21 |
| W01000019 Llanbedrgoch | 9 | 16 | 25 |
| W01000020 Llanddyfnan | 11 | 15 | 26 |
| W01000021 Llaneilian | 23 | 15 | 38 |

DRAFT

| LSOA | Poblogaeth o blant 2 oed | Poblogaeth o blant 3 oed | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| W01000022 Llanfaethlu | 12 | 8 | 20 |
| W01000023 Llanfair-yn-Neubwll 1 | 18 | 28 | 46 |
| W01000024 Llanfair-yn-Neubwll 2 | 28 | 21 | 49 |
| W01000025 Llanfihangel Ysgeifiog | 19 | 15 | 34 |
| W01000026 Llangoed | 8 | 7 | 15 |
| W01000027 Llanidan | 18 | 20 | 38 |
| W01000028 Llannerch-y-medd | 25 | 25 | 50 |
| W01000029 Ffordd Llundain | 16 | 19 | 35 |
| W01000030 Maeshyfryd | 30 | 27 | 57 |
| W01000031 Mechell | 6 | 15 | 21 |
| W01000032 Moelfre | 2 | 6 | 8 |
| W01000033 Morawelon | 25 | 22 | 47 |
| W01000034 Parc a'r Mynydd | 11 | 16 | 27 |
| W01000035 Pentraeth | 18 | 23 | 41 |
| W01000036 Porthyfelin 1 | 16 | 20 | 36 |
| W01000037 Porthyfelin 2 | 7 | 7 | 14 |
| W01000038 Rhosyr | 16 | 18 | 34 |
| W01000039 Trearddur 1 | 8 | 6 | 14 |
| W01000040 Trearddur 2 | 8 | 5 | 13 |
| W01000041 Tudur | 27 | 32 | 59 |
| W01000042 Tysilio | 27 | 25 | 52 |
| W01000043 Valley 1 | 14 | 16 | 30 |
| W01000044 Valley 2 | 7 | 5 | 12 |

DRAFFT

11.2 **Adroddodd amcanestyniadau poblogaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 y rhagwelir y bydd poblogaeth Ynys Môn yn** insert **yn ystod y cyfnod 2018-2028.**

Roedd Amcanestyniadau Poblogaeth Awdurdod Lleol SYG 2018 yn dangos bod gan Ynys Môn boblogaeth o 69,800 (34,400 o wrywod a 35,400 o fenywod) ar y pryd. Er bod poblogaeth yr ynys wedi gweld twf o tua 3.1% ers Cyfrifiad 2001, **mae amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru yn rhagweld, rhwng 2022-2039, y ceir *gostyngiad* cyffredinol net o bron i 2,000 o bobl neu 2.6% o boblogaeth yr ynys.**

Hefyd mae dogfen Llywodraeth Cymru yn 2018: *Amcanestyniadau poblogaeth awdurdodau lleol i Gymru*, yn rhagweld *gostyngiad* o ran y boblogaeth: sef, yn yr achos hwn, gostyngiad o 0.4% rhwng y cyfnod 2018-2043.

11.3 Yn nhermau cyfraddau geni ar gyfer ar gyfer yr ardal leol, mae Tabl 38 yn manylu ar fetrigau pob un o wardiau'r ardaloedd ar gyfer y flwyddyn 2019 – h.y. plant a fydd (neu'n agos at fod) o fewn oedran rhaglen Dechrau'n Deg.

Tabl 35 - Cyfraddau genedigaethau Blwyddyn 2019 ar gyfer ardal leol Ynys Môn
Ffynhonnell: SYG 2020

| Enw'r Ward | Cyfradd geni/nifer 2019 |
|---|---|
| Aethwy | 40 |
| Bro Aberffraw | 26 |
| Bro Rhosyr | 43 |
| Caergybi | 81 |
| Canolbarth Môn | 103 |
| Llifon | 45 |
| Lligwy | 39 |
| Seiriol | 35 |
| Talybolion | 39 |
| Twrcelyn | 57 |
| Ynys Gybi | 49 |

Yn ôl Tabl 35, y ward â'r nifer uchaf o enedigaethau newydd cyn y pandemig oedd Canolbarth Môn, a ddilynwyd wedyn gan ward Caergybi.

DRAFFT

Tudalen 89

11.4 Mae Tabl 36 yn dangos mewnfudo ac allfudo ar gyfer yr ardal leol ar gyfer y cyfnod 2018-2020. Mae'r Tabl yn dangos bod y mewnlif, yn enwedig mewnlif rhyngwladol, yn uwch na'r all-lif o bobl. Roedd blynyddoedd blaenorol wedi dangos union yr un faint o achosion, ac mae cyfran y mewnlif o'i gymharu â'r all-lif wedi bod yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn.

Ffynhonnell: SYG 2019

| | Canol 2018 – Canol 2020 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | Amcangyfrif Pob. Canol 2019 = 70,043 | Ymfudo Rhyngwladol Hirdymor | | Ymfudo Mewnol (o fewn y Deyrnas Gyfunol) | |
| | | Mewnlif | All-lif | Mewnlif | All-lif |
| | | 116 | 53 | 2,517 | 2,293 |
| | Amcangyfrif Pob. Canol 2020 = 70,440 | Ymfudo Rhyngwladol Hirdymor | | Ymfudo Mewnol (o fewn y Deyrnas Gyfunol) | |
| | | Mewnlif | All-lif | Mewnlif | All-lif |
| | | 102 | 42 | 2,350 | 1,800 |

11.5 O ran ethnigrwydd, mae Tabl 37 yn dangos nifer y plant a oedd yn byw yn yr ardal yn 2019 a oedd o gefndiroedd penodol.

Tabl 37 - nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n byw yn ardal leol Ynys Môn yn 2019 sydd o gefndiroedd ethnig penodol

Ffynhonnell: SYG 2019

| Oedran | Gwyn | Gwyn Prydeinig | Cymysg | Asiaidd | Du | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 0 | 573 | 562 | 12 | 3 | 1 | 5 |
| 1 | 658 | 645 | 13 | 3 | 1 | 5 |
| 2 | 689 | 675 | 14 | 4 | 1 | 6 |
| 3 | 718 | 703 | 14 | 4 | 1 | 5 |
| 4 | 669 | 656 | 13 | 3 | 1 | 6 |
| 5 | 757 | 741 | 15 | 4 | 1 | 6 |
| 6 | 806 | 790 | 16 | 4 | 1 | 6 |
| 7 | 802 | 785 | 16 | 4 | 1 | 6 |
| 8 | 794 | 777 | 16 | 4 | 1 | 3 |

DRAFT

| Oedran | Gwyn | Gwyn Prydeinig | Cymysg | Asiaidd | Du | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 777 | 765 | 11 | 10 | 0 | 2 |
| 10 | 783 | 777 | 10 | 11 | 1 | 4 |
| 11 | 790 | 782 | 14 | 5 | 0 | 4 |
| 12 | 728 | 716 | 8 | 11 | 1 | 4 |
| 13 | 745 | 738 | 10 | 2 | 0 | 3 |
| 14 | 662 | 653 | 7 | 4 | 1 | 5 |

Yn nhermau ethnigrwydd pobl ifanc sy'n byw ar Ynys Môn, dengys Tabl 7 nifer y plant hyd at 14 oed a oedd yn byw yn yr ardal leol yn 2019 o gefndiroedd penodol. Mae'n dangos bod y mwyafrif o'r plant a phobl ifanc a oedd yn byw ar yr ynys yn Wyn Prydeinig. Fodd bynnag, ceir poblogaeth nodedig o blant a phobl ifanc sy'n cynrychioli ethnigrwydd a chefndiroedd eraill, ac mae hyn yn debygol o gynyddu yn ystod y cyfnod 2022-2025, gan gynnwys o ganlyniad i'r argyfwng ffoaduriaid cyfoes.

11.6 Mae gan Ynys Môn nifer gymharol uchel o siaradwyr Cymraeg, gyda thua 63% o breswylwyr yn gallu siarad Cymraeg - sef y ganran uchaf ond un o blith awdurdodau lleol Cymru. Yn nhermau nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal leol Ynys Môn, mae ystorfa StatsCymru yn dangos, yn 2019, bod bron i 2:3 o boblogaeth Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg - Tabl 38:

Ffynhonnell: StatsCymru:

| Ardal | Pawb sy'n 3 oed a throsodd | Ydw, yn gallu siarad Cymraeg | Nac ydw, ddim yn gallu siarad Cymraeg | Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg |
|---|---|---|---|---|
| Cymru | 3,022,900 | 892,200 | 2,128,700 | 29.5% |
| Ynys Môn | 67,500 | 42,600 | 24,700 | 63.3% |

Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd gan Menter Iaith Môn yng ngwanwyn 2021, nodwyd bod 78% o bobl yr ynys a anwyd yng Nghymru yn gallu siarad yr iaith, gyda 11% arall yn gallu ei deall. Roedd y siaradwyr Cymraeg yn amrywio o 58.8% yng nghyffiniau Caergybi, i 90.4% yng nghanolbarth Ynys Môn.





DRAFT

Fodd bynnag, dywed fod allfudiad siaradwyr Cymraeg iau, ynghyd â mewnfudiad pobl hŷn nad ydynt yn siarad Cymraeg, yn 'Seisnigo' ardaloedd ac yn effeithio cynaliadwyedd yr iaith. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r modd y caiff disgyblion ysgol Ynys Môn eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg y rhan fwyaf o'r amser (86.8%), ond dim ond 49.1% o'r plant oedd yn siarad Cymraeg yn rheolaidd adref. Daeth yr adroddiad i'r casgliad *"gan edrych ar y tueddiadau dros y 50 mlynedd diwethaf, mae cynnydd yn y boblogaeth yn arwain at ostyngiad yng nghanrannau siaradwyr Cymraeg".*

11.7 Mae Tabl 39 yn dangos nifer yr achosion o blant ag ADY sy'n byw ar Ynys Môn.

Tabl 39 - Nifer yr achosion o blant ag ADY ar Ynys Môn yn 2020-2021 (cyn i'r Cod ADY ddod i rym ym mis Medi 2021)
Ffynhonnell: StatsCymru

| Lleoliad | Yr Holl Anghenion Addysgol Arbennig | | | | Yr Holl Anghenion Addysgol Arbennig/ADY |
|---|---|---|---|---|---|
| | Â datganiad | Cyfanswm: Anghenion Addysgol Arbennig ond heb Ddatganiad AAA | | Cyfanswm: Anghenion Addysgol Arbennig ond heb Ddatganiad AAA | |
| | | Gweithredu gan yr Ysgol | Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | | |
| Cymru | 14,082 | 46,790 | 31,816 | 78,606 | 92,688 |
| Ynys Môn | 300 | 1,322 | 659 | 1,981 | 2,281 |

Mae Gwasanaeth Plant Arbenigol Ynys Môn yn dîm integredig gydag aelodau o'r Gwasanaethau Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u lleoli o fewn eiddo'r awdurdod lleol. Mae'r tîm yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ADY 0-17 oed a'u teuluoedd sydd ag anghenion cymhleth lluosog na ellir eu diwallu gan wasanaethau cyffredinol neu rai a dargedir. Mae'r amrywiaeth o anghenion yn cynnwys plant a phobl ifanc ag anableddau dysgu, namau corfforol, ynghyd â salwch cronig gydol oes/cyflyrau meddygol. Mae'r tîm yn cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol, Nyrsys Anabledd Dysgu Pediatrig Cymunedol, Cymorthyddion Nyrsio, Seicoleg Glinigol Anabledd Dysgu Pediatrig, Therapydd Galwedigaethol, Cydlynydd Pontio, Swyddog Cynhwysiant a Lles, Rheolwr Gweithwyr Cefnogi'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â Thîm o Weithwyr Cefnogi, Gweinyddwr y Gwasanaeth.

Ym mis Medi 2021, roedd y gwasanaeth yn gweithio gyda 194 o blant a phobl ifanc 0-18 oed. O'r rhain, roedd gan 116 anabledd dysgu, gan gynnwys y rheiny ag ASD, ADHD. Roedd plant eraill a oedd yn agored i'r gwasanaeth yn cynnwys 32 gyda namau gorfforol, a 22 gyda salwch cronig ac anghenion iechyd cymhleth.

DRAFT

11.8 Dengys Tabl 40 yr achosion o Blant sy'n Derbyn Gofal sy'n byw ar Ynys Môn yn 2021.

Tabl 40 - Nifer yr achosion o blant LAC sy'n byw ar Ynys Môn yn 2021
Ffynhonnell: StatsCymru

| Ardal | O dan 1 oed | 1-4 oed | 5-9 oed | 10-15 oed | 16-17 oed | 18 oed a throsodd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer ym Môn | 0 | 35 | 40 | 55 | 25 | 0 |

11.9 Roedd adroddiad 2016-2017: Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd yn adrodd fel a ganlyn:

- Yng nghyfrifiad 2011, roedd 65 o bobl ar Ynys Môn a oedd yn datgan eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig o ran eu tarddiad ethnig. Roedd y cyfanswm hwn yn cynnwys pob grŵp oedran, felly roedd yn cynnwys plant.
- Ar ôl dadansoddi'r wybodaeth hon ymhellach, ar draws 40 ardal ward Ynys Môn, cafwyd fod y 65 wedi'u gwasgaru'n eang ar draws Ynys Môn, a dim ond un ardal ward oedd â mwy na 10 o bobl a oedd yn nodi eu bod yn Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig yn y cyfrifiad.



11.10 Yn nhermau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019[13], roedd Ynys Môn yn un o 12 Awdurdod Lleol nad oedd ganddynt unrhyw ardaloedd bach/LSOAs o amddifadedd hirsefydlog (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir y Fflint, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Bro Morgannwg, Torfaen, Casnewydd, a Sir Fynwy). Nid yw hyn yn golygu nad oes unrhyw ardaloedd â lefelau uchel o amddifadedd o fewn yr Awdurdodau Lleol hyn ar hyn o bryd.

Yn nhermau dangosydd yr amgylchedd ffisegol, nid oedd gan Ynys Môn unrhyw ardaloedd ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig. Yn nhermau'r dangosydd addysg, nid oedd gan Ynys Môn unrhyw ardaloedd ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Y LSOA o fewn Ynys Môn sydd yn amlwg yn cyfrif am y lefelau uchaf o anfantais gymharol yw ardal leol Tref Caergybi - gweler Tabl 41 dros y dudalen.

[13] https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/welsh-index-multiple-deprivation-2019-results-report-024.pdf

DRAFFT

## Tabl 41 - Safleoedd ardaloedd LSOA Ynys Môn o ran dangosyddion amddifadedd cyffredinol (allan o 1,909 LSOA yng Nghymru)

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019

| Cod LSOA | Enw'r LSOA | Safle WIMD 2019 (allan o 1,909) |
|---|---|---|
| W01000001 | Aberffraw a Rhosneigr 1 | 885 |
| W01000002 | Aberffraw a Rhosneigr 2 | 1,324 |
| W01000003 | Porth Amlwch | 550 |
| W01000004 | Amlwch Wledig | 1,100 |
| W01000005 | Biwmares | 1,065 |
| W01000006 | Bodffordd | 1,116 |
| W01000007 | Bodorgan | 1,036 |
| W01000008 | Braint | 1,820 |
| W01000009 | Bryngwran | 819 |
| W01000010 | Brynteg | 1,624 |
| W01000011 | Cadnant (Ynys Mon) | 1,377 |
| W01000012 | Cefni | 1,494 |
| W01000013 | Cwm Cadnant | 1,777 |
| W01000014 | Cyngar | 1,194 |
| W01000015 | Gwyngyll | 1,704 |
| W01000016 | Tref Caergybi | 168 |
| W01000017 | Kingsland | 486 |
| W01000018 | Llanbadrig | 1,145 |
| W01000019 | Llanbedrgoch | 1,233 |
| W01000020 | Llanddyfnan | 1,424 |
| W01000021 | Llaneilian | 1,044 |
| W01000022 | Llanfaethlu | 857 |
| W01000023 | Llanfair-yn-Neubwll 1 | 985 |

DRAFT

| Cod LSOA | Enw’r LSOA | Safle WIMD 2019 (allan o 1,909) |
|---|---|---|
| W01000024 | Llanfair-yn-Neubwll 2 | 1,050 |
| W01000025 | Llanfihangel Ysgeifiog | 1,300 |
| W01000026 | Llangoed | 946 |
| W01000027 | Llanidan | 954 |
| W01000028 | Llannerch-y-medd | 727 |
| W01000029 | Ffordd Llundain | 366 |
| W01000030 | Maeshyfryd | 353 |
| W01000031 | Mechell | 864 |
| W01000032 | Moelfre | 1,053 |
| W01000033 | Morawelon | 224 |
| W01000034 | Parc a'r Mynydd | 1,196 |
| W01000035 | Pentraeth | 1,087 |
| W01000036 | Porthyfelin 1 | 316 |
| W01000037 | Porthyfelin 2 | 974 |
| W01000038 | Rhosyr | 764 |
| W01000039 | Trearddur 1 | 1,409 |
| W01000040 | Trearddur 2 | 1,325 |
| W01000041 | Tudur | 308 |
| W01000042 | Tysilio | 1,442 |
| W01000043 | Y Fali 1 | 915 |
| W01000044 | Y Fali 2 | 1,716 |

DRAFFT

11.11 Yn nhermau cyfraddau cyflogaeth a diweithdra ar draws ardal leol Ynys Môn, ym Medi 2021, dosbarthwyd bod 73.6% o'r boblogaeth oedolion yn economaidd weithgar ac mewn cyflogaeth. Roedd hyn yn 2.8% yn is na'r cyfartaledd ar draws Cymru gyfan.
Hefyd, roedd data a gyhoeddwyd gan NOMIS, yn hydref 2021, yn dangos mai'r pum math o alwedigaeth yr oedd oedolion yn fwyaf tebygol o fod wedi'u cyflogi ynddynt oedd (yn nhrefn amlder):

1. Gwasanaethau Llety a Bwyd (3,500 o weithwyr)
2. Cyfanwerthu a Manwerth (3,000 o weithwyr)
3. Gweithgareddau o ran Iechyd Pobl a Gwasanaethau Cymdeithasol (2,500 o weithwyr)
4. Y Sector Gweithgynhyrchu (2,000 o weithwyr)
5. Addysg (1,500 o weithwyr)

Ar draws Cymru, cafwyd tuedd gynyddol o ran yr achosion o bobl sy'n gweithio shifftiau. Er enghraifft, cyhoeddodd TUC Cymru adroddiad ar ddiwedd 2019 a oedd yn amlygu: [14]

- Bod 17,000 yn fwy o weithwyr shifftiau nos yng Nghymru nag yn 2014
- Bod 165,000 o bobl yn gweithio shifftiau nos yng Nghymru yn rheolaidd – sef 13% o'r gweithlu
- Yn y DU, roedd gweithwyr gofal (432,000) yn cyfrif am y mwyafrif o weithwyr shifftiau nos, a ddilynwyd gan nyrsys a bydwragedd (232,000)
- Y proffesiwn mwyaf cyffredin wedyn o ran gweithwyr shifftiau nos oedd gyrwyr trafnidiaeth ffordd (208,000)
- Mae gan Gymru'r gyfran uchaf ond dau o weithwyr sy'n gweithio shifftiau nos, o gymharu â'r unfed rhanbarth ar ddeg arall yn y DU.

[14] https://www.tuc.org.uk/news/17000-more-night-workers-wales-over-last-five-years-tuc-analysis-shows



DRAFT

11.12 Mae data a gyhoeddwyd gan NOMIS yn hydref 2021, yn dangos mai'r cyflog wythnosol cyfartalog ar gyfer gweithiwr llawn amser sy'n byw yn yr ardal leol oedd £549.50, (sydd yn is), a gellir ei gyferbynnu â'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sy'n £562.80 yr wythnos.

Tabl 42 - Incymau blynyddol aelwydydd o ran teuluoedd mewn ardaloedd lleol penodol ar Ynys Môn
Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019

| Lleoliad ar Ynys Môn | Incwm Blynyddol Aelwydydd [£] |
|---|---|
| Caergybi | 25,700 |
| Amlwch a Llannerch-y-medd | 29,600 |
| Llangefni | 33,200 |
| Bodedern a Rhosneigr | 35,200 |
| Rhos-y-bol, Marian-glas a Moelfre | 35,900 |
| Niwbwrch | 36,000 |
| Llain-goch a'r Fali | 40,200 |
| Biwmares a Benllech | 41,300 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 45,500 |

11.13 Yn ogystal, adroddodd Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru yn 2018 bod yr ardal leol yn cyfrif am y ganran a ddaeth yn safle 11 yn y rhestr o ran plant a oedd yn byw mewn aelwydydd heb waith (o gymharu ag awdurdodau lleol eraill) – sef 17.8% o bob aelwyd.

11.14 Adroddodd Bwletin Ystadegau Llywodraeth Cymru yn 2018 bod 8.3% o aelwydydd ardal Ynys Môn (1,800) yn deuluoedd unig rieni. Roedd hyn yn 0.4% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd - a daeth yn 8fed yn y rhestr o gymharu â phob awdurdod lleol yng Nghymru.

DRAFFT

11.15 Yn 2022, amlinellodd Cyngor Sir Ynys Môn strategaeth bum mlynedd i gyflawni 'her' o ran tai lleol. Amlinellodd y strategaeth bod yr Awdurdod Lleol yn targedu cynnydd o ran ei stoc dai cyngor o 176 o gartrefi dros y tair blynedd nesaf, hyd at 2025, a gan weithio gyda landlordiaid cymdeithasol, roedd yn bwriadu adeiladu 14 o dai ychwanegol.

Hefyd, mae Strategaeth Tai 2022-2027 yn amlinellu uchelgais ar gyfer darparu 321 o gartrefi newydd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid (sy'n cynnwys tai cymdeithasol, rent canolradd, cymorth prynu, rhentu i berchnogi, a gofal ychwanegol) ac ar gyfer dod â 439 o gartrefi gweigion yn ôl i ddefnydd.

Yn ogystal, caiff datblygiadau tai lleol a gymeradwywyd yn barhaus yn 2022, a feddiannir yn rhannol gan deuluoedd sy'n symud i fyw *ar* yr ynys - gan gynnwys safleoedd fel campws Coleg Menai yn Llangefni, ac ym mhentref y Fali (lle ceir cynllun ar gyfer 50 o gartrefi newydd er enghraifft).

DRAFFT

## 12 Yr Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Chynlluniau Llesiant Lleol

12.1 Gellir gweld y Cynllun Llesiant Lleol byw ar gyfer yr ynys yn: https://www.llesiantgwyneddamon.org/Uploads/Pages/Documents/3-5-3-94-1-Gwynedd-and-Anglesey-Well-being-plan.pdf .

Cyhoeddwyd yr Asesiad Llesiant Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn ym mis Mai 2017. Ar ôl ystyried y data a barnau pobl leol, daeth y Bwrdd i'r casgliad mai prif negeseuon yr asesiad oedd:

**1. Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach**
2. Pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol
**3. Deall effaith newidiadau demograffeg**
**4. Gwarchod a hyrwyddo'r iaith Gymraeg**
5. Hybu defnydd adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn yr hirdymor
6. Gwella cysylltiadau trafnidiaeth i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau
7. Yr angen am swyddi o safon uchel a chartrefi fforddiadwy i bobl leol
**8. Effaith tlodi ar lesiant**
**9. Sicrhau cyfle i bob plentyn lwyddo**

Mae'r cynllun yn amlinellu fel y *"mae diffyg cyrhaeddiad addysgol yn gallu cael effaith ar lesiant unigolion gydol eu hoes ac felly mae angen sicrhau fod pob disgybl yn cael y cyfle i lwyddo"* a *"bydd y Bwrdd yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi teuluoedd er mwyn ceisio sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gweledigaeth glir ymysg partneriaid allweddol i gyflawni'r canlyniadau gorau bosib i blant a phobl ifanc."*
Felly mae'r rheiny sy'n cynllunio ar gyfer darpariaeth o ran gofal plant a'r blynyddoedd cynnar o fewn yr awdurdod lleol a phartneriaid lleol yn ymwybodol bod Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022 yn cynrychioli strategaeth arall - yn enwedig o ran ei ddadansoddiad o'r bylchau - o safbwynt helpu i annog cymunedau iach ar Ynys Môn.

Gellir nodi hefyd y disgrifiodd adroddiad Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn yn 2020-2021 y modd yr oedd is-grŵp plant yn archwilio'r thema o *gymorth cynnar i blant a theuluoedd o fewn cymunedau lleol,* a'i fod (ac mae'n dal i wneud yn 2022) yn gweithio gyda'r trydydd sector gyda'r nod o helpu teuluoedd i ailintegreiddio o fewn eu cymunedau ar ôl y cyfnodau clo, ynghyd â darparu cymorth i'r teuluoedd hynny yn gynnar.



DRAFFT

# 13 Dadansoddiad o'r Bylchau

Mae'r adran ganolog a ganlyn yn amlinellu'r bylchau o ran y ddarpariaeth o ofal plant a nodwyd gan Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Ynys Môn 2022, ac y darparwyd tystiolaeth ar eu cyfer. Mae pob un o'r bylchau a gynhwyswyd isod yn ymwneud â dosbarthiad penodol - h.y. un o'r canlynol:

Bylchau o safbwynt:

- yr **Amseroedd** y mae gofal plant ar gael, gan gynnwys yr angen am ofal plant hyblyg sy'n darparu ar gyfer patrymau defnydd afreolaidd drwy gydol y dydd, yr wythnos a'r flwyddyn
- y **Mathau** o ofal plant sydd ar gael
- **Oedran** y plant y mae gofal plant ar gael ar eu cyfer
- **Fforddiadwyedd** y gofal plant
- anghenion penodol plant ag **ADY**
- anghenion penodol ar gyfer darpariaeth gofal plant **Cyfrwng Cymraeg**
- **Lleoliad daearyddol** gofal plant mewn perthynas â'r boblogaeth, wardiau a dalgylchoedd ysgol

DRAFFT

## Yr amseroedd y mae gofal plant ar gael

1 Roedd 19% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd i arolwg rhieni Hydref 2021 Llywodraeth Cymru, ynghylch p'un a oedd gofal plant yn rhwystr iddynt fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant, yn nodi eu bod yn: *Tueddu i Gytuno*. Hefyd, roedd 26% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn nodi hefyd eu bod yn: *Cytuno'n Gryf.*

**Dengys hyn bod 45% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd yn credu – i raddau – bod gofal plant, ar ryw adeg yn ddiweddar, wedi bod yn rhwystr iddynt gael mynediad i gyflogaeth neu hyfforddiant.**

Yn ategol i'r adborth hwn, nododd 9% o'r rhieni/gofalwyr a ymatebodd bod problemau o ran gofal plant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi effeithio eu gallu i 'gymryd swydd newydd' – a dywedodd 7% o rieni/gofalwyr bod problemau o ran gofal plant yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi effeithio eu gallu eu hunain neu eu partner i allu 'cael mynediad i hyfforddiant'.

Felly, i raddau, o ran y sefyllfa ar yr ynys, gellir dod i'r casgliad bod y ddarpariaeth o ofal plant addas yn parhau i fod yn her i rai rhieni o safbwynt cefnogi eu cyflogadwyedd.



2 Tuedd a brofwyd droeon yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, a adroddwyd gan ddarparwyr a gwarchodwyr plant mewn lleoliadau, oedd bod rhai rhieni'n gofyn am fwy o hyblygrwydd, gan gynnwys hynny o ganlyniad i niferoedd uwch yn gweithio adref.

Ail duedd (gysylltiedig) a brofwyd droeon oedd y cafwyd cynnydd yn niferoedd y rhieni a oedd yn gofyn am oriau agor estynedig/hirach. Fodd bynnag, mewn ymateb i arolwg hydref 2021, dim ond 19% o'r darparwyr gofal plant mewn lleoliadau a ymatebodd oedd yn nodi bod ganddynt gynlluniau i ymestyn eu horiau agor. Mae'n amlwg bod bwlch amlwg (ond nid sylweddol) yn bodoli yn nhermau bod rhai rhieni sy'n gweithio, yn ddelfrydol, yn gofyn am oriau agor cynharach, ynghyd ag oriau cau hwyrach, ac nad ydynt yn gallu dod o hyd i ddarpariaeth o'r fath a chael mynediad iddi.

DRAFFT

## Mathau o ofal plant sydd ar gael

3 Mewn perthynas â 2. uchod, dim ond 7.5% o'r darparwyr gofal plant mewn lleoliadau a ymatebodd oedd yn nodi bod ganddynt gynlluniau ar waith dros y 18 mis nesaf i 'ddiwallu anghenion gweithwyr shifftiau/y rheiny sy'n gweithio y tu allan i oriau swyddfa arferol yn well'. Fodd bynnag, cafwyd cryn dipyn o adborth ansoddol o ganlyniad i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru a oedd (o bosibl o ganlyniad i COVID-19) yn dangos bod y niferoedd a oedd yn gofyn am weithio shifftiau a gweithio y tu allan i oriau 8yb-6yh traddodiadol yn cynyddu.

Mae'n bwysig nodi ei bod yn bosib iawn y bydd y sector gofal plant (yn ogystal â'r sector gofal plant cofrestredig ehangach) yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â'r angen hwn, o ystyried ei allu traddodiadol i fedru cynnig mwy o hyblygrwydd o safbwynt oriau agor – ac yn 2022, bod 45 o warchodwyr plant, o gymharu â 50 yn 2019 (fel yr adroddwyd yn niweddariad ADGP 2019).

4 Roedd 1 : 4 o bob lleoliad/grŵp a ymatebodd yn nodi eu bod wedi gweld aelodau o'u gweithlu yn gadael o ganlyniad i'r pandemig, a oedd yn cynrychioli thema sy'n dod yn amlwg ledled Cymru: bod cadw a recriwtio staff yn profi i fod yn broblem gynyddol. Yn wir, ar y llaw arall, o ganlyniad i ymgynghoriad Hydref 2021 â darparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar, gwelwyd fod y mwyafrif ohonynt, 60%, yn nodi nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau, ar ddiwedd 2021, i recriwtio unrhyw brentisiaid.

(Dylid nodi hefyd, o safbwynt problemau sy'n effeithio gweithlu gofal plant yr ynys, roedd tua 40% o holl gynrychiolwyr darparwyr gofal plant yr ymgynghorwyd â hwy yn hydref 2021, yn dweud eu bod eu hunain (gan gynnwys fel gwarchodwyr plant) neu aelodau o'u tîm/gweithlu/cymhorthydd, wedi profi anawsterau a phroblemau o ran iechyd meddwl yn ystod anterth y pandemig COVID-19, neu eu bod efallai'n parhau i brofi hynny. Roedd hyn fel arfer yn gysylltiedig â gorbryder o ran cynaliadwyedd parhaus eu busnes/bywoliaeth).

DRAFFT

## Oedran y plant y mae gofal plant ar gael ar eu cyfer

5 Ar ddechrau 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynlluniau i'w wneud yn haws i rieni a theuluoedd a chanddynt blant dwyflwydd oed gael mynediad i ddarpariaeth gofal plant cyffredinol a ariennir (h.y. yn y bôn, er mwyn ymestyn y rhaglen Dechrau'n Deg). I gwrdd â'r galw posib sydd i ddod am ddarpariaeth o'r fath, dylai Cyngor Sir Ynys Môn fod yn ymwybodol: 1. Bod 10% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant wedi dweud bod ganddynt restr aros yn hydref 2021 - ar gyfer lleoedd i blant 2 oed yn y mwyafrif o achosion; 2. Ac mai tuedd a welwyd droeon, a nodwyd gan ddarparwyr gofal plant perthnasol, oedd cynnydd yn y galw am leoedd i blant 2 oed.

Felly, *efallai* bod bwlch o ran digonolrwydd lleoedd i blant 2 oed fel y bydd y gwaith o gyflwyno'r rhaglen gyffredinol (y mae'n rhaid cyfaddef ei bod yn raddol) i blant 2 oed ym mis Medi 2022.

Gellir tybio yn yr un modd hefyd efallai bod mwy o alw am leoedd 30 awr i blant 3 a 4 oed, o ganlyniad i ymestyn y cynnig gofal plant 30 awr.

6 Dywedodd bron i 50% o'r rhieni a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru eu bod yn bwriadu cael mynediad i *ragor* o ofal plant mewn blynyddoedd i ddod – a gofal plant y tu allan i'r ysgol oedd hwn yn y mwyafrif o achosion. Yn wir, y ddau fath o ofal plant a amlygwyd amlaf gan rieni perthnasol oedd:

- Clwb ar ôl Ysgol – 20% o rieni perthnasol
- Clwb Cyn Ysgol/Brecwast – 17% o rieni perthnasol

Fodd bynnag, roedd nifer o rieni a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn 2021 yn dweud yn gyson, dro ar ôl tro, fel yr oeddynt yn profi heriau ac anawsterau o ran cael mynediad i ofal cofleidiol ar sail gofal plant a oedd *fwyaf addas ar gyfer eu patrymau gweithio*. Felly, mae hyn yn awgrymu y gall bod tystiolaeth o fwlch o ran digonolrwydd neu ei fod yn debygol o dyfu, yn enwedig gan fod poblogaeth weithio Ynys Môn yn parhau i ddychwelyd i weithleoedd/swyddfeydd ffisegol, a'i bod yn parhau i fod angen amseroedd agor (gan gynnwys trwy glybiau brecwast) ac amseroedd cau (yn bennaf trwy glybiau ar ôl ysgol) addas o ran gofal plant y tu allan i'r ysgol.

DRAFFT

## Anghenion penodol o ran plant ag ADY

7 Roedd 5.5% o rieni/gofalwyr a ymatebodd i'r arolwg rhieni yn Hydref 2021 yn amlinellu bod ganddynt o leiaf un plentyn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd wedi a/neu heb eu diagnosio. Ymhlith yr adborth ansoddol o'r arolwg, cafwyd rhai rhieni yn amlinellu dro ar ôl tro eu heriau o ran canfod a/neu sicrhau gofal plant ffurfiol sy'n addas ac yn fforddiadwy. Er enghraifft, roedd yr adborth yn cynnwys:

*"Mae fy merch yn 'anabl' a 'does unman sy'n gallu diwallu ei hanghenion. Fedran ni ddim ei gadael ar ei phen ei hun, felly rydw i wedi gorfod rhoi'r gorau i fy ngwaith i ofalu amdani hi."*

*"***[Yn fy mhrofiad i]** *Mae o wirioneddol yn anodd dod o hyd i ofal plant ar gyfer plant oed uwchradd ag ADY."*

Yn ogystal, mewn ymateb i ymgynghoriad hydref 2021 â darparwyr gofal plant, roedd 68% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar, a bron i 48% o warchodwyr plant cofrestredig, yn dweud bod COVID-19 wedi cael effaith ar ddatblygiad plant oedran blynyddoedd cynnar sy'n mynychu eu darpariaeth, gyda'r ymatebwyr hyn yn nodi'n aml fod lleferydd ac iaith plant wedi'u heffeithio mewn modd negyddol a/neu eu bod wedi gweld problemau o ran nad oedd rhai plant yn cymdeithasu â phlant eraill/eu bod wedi gweld mwy o achosion o bryder gwahanu.

Er bod 50% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar yn dweud bod ganddynt gynlluniau ar waith i hybu'r ddarpariaeth ymhellach i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, dim ond 15% o warchodwyr plant a oedd yn dweud bod ganddynt gynlluniau o'r fath.

Gellir ystyried felly, fel y mae'r achosion o blant ag ADY yn parhau i gynyddu, bod angen niferoedd cyfatebol o ddarparwyr gofal plant sydd â'r gallu i ddarparu lleoedd addas a fforddiadwy i'r plant hyn, i liniaru'r posibilrwydd o fwlch o ran y digonolrwydd o ddarpariaeth ADY.

DRAFFT

## Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg

8 Yn galonogol, dywedodd 20% o'r holl ddarparwyr gofal plant yn Hydref 2021 bod ganddynt naill ai gynlluniau pendant ar waith i greu rhagor o leoedd cyfrwng Cymraeg lle gellir siarad Cymraeg, neu fod hyn yn rhywbeth y byddant efallai'n ei ystyried. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol angen parhau i fonitro'r niferoedd sy'n cyrchu lleoedd gofal plant cyfrwng Cymraeg, o safbwynt uchelgais rhieni penodol. Hefyd, dylai'r awdurdod lleol fod yn ymwybodol o'r ffaith, pan fo rhieni/gofalwyr yn rhoi adborth ansoddol am y thema gofal plant cyfrwng Cymraeg, bod hyn yn cynnwys:

*"Rydw i wedi methu dod o hyd i warchodwr plant sy'n siarad Cymraeg"* – ac yn yr un modd:

"*'Does fawr ddim gwarchodwyr plant Cymraeg yng nghyffiniau Llanerchymedd"* – ac unwaith eto, yn yr un modd:

*"***[Yn fy mhrofiad i]** *mae yna ddiffyg gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg, a hefyd mae'r clwb ar ôl ysgol yn cau yn rhy gynnar am 5.00yh. Dwi angen mynd i nôl fy mhlentyn yn hwyrach."*

*"Tydi'r ddarpariaeth iaith Gymraeg ddim yn dda yn ein hardal leol, sy'n bwysig i ni fel teulu sy'n siarad Cymraeg."*

*"'Does dim llawer o ddarparwyr Cymraeg. Doedd dim llawer o opsiynau yn fy ardal i."*

*"Mi fyddai'n dda cael gweld mwy o wybodaeth a chymorth i rieni sydd ddim yn siarad Cymraeg gael mynediad i ofal plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant oed meithrin. Rydyn ni'n defnyddio Cylch Meithrin a meithrinfa ddydd, ond roedd yn anodd penderfynu pa sesiynau fyddai fwyaf buddiol, ac wedyn trefnu meithrinfa ddydd o gwmpas hynny. Mi fyddai rhagor o ddarpariaeth o feithrinfeydd dydd dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg yn help, neu fwy o gymorth ariannol i Gylchoedd allu bod ar agor yn hirach ac yn ystod gwyliau ysgol."*

DRAFFT

## Fforddiadwyedd gofal plant

9 Y rhwystr a welwyd fwyaf o ran cyrchu gofal plant ffurfiol, a amlygwyd gan rieni/gofalwyr a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru, oedd bod cost gofal plant wedi'u hatal rhag cyrchu'r ddarpariaeth hon. Felly mae angen i'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd **barhau i** gyfathrebu a dosbarthu gwybodaeth am fentrau gofal plant presennol a ariennir, ynghyd â *mentrau newydd* sydd i ddod, fel: (a) ymestyn y Cynnig Gofal Plant i rieni sydd mewn addysg a hyfforddiant, a rhieni sydd ar absenoldeb mabwysiadu, a: (b) y cynnig o ofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oed o fewn y tair blynedd nesaf, gan ystyried pa mor rhesymegol ydyw y gwnaiff y ddwy fenter hon fod o fudd i deuluoedd penodol.

Yn ogystal, dylai'r awdurdod lleol fod yn ymwybodol o'r ffaith y dywedodd 43% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a ymatebodd i ADGP hydref 2021 nad oeddynt yn cymryd unrhyw gamau i farchnata bodolaeth Gofal Plant Di-dreth.

## Lleoliad darpariaeth gofal plant, o safbwynt daearyddol

10 Mae Strategaeth Tai Ynys Môn 2022-2027 yn amlinellu uchelgais ar gyfer darparu 321 o gartrefi newydd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid, ac i ddod â 439 o gartrefi gweigion yn ôl i ddefnydd.

Yn ogystal, mae datblygiadau tai lleol wedi parhau i gael eu cymeradwyo yn 2022, a gaiff eu meddiannu, yn rhannol, gan deuluoedd sy'n symud i fyw *ar* yr ynys – gan gynnwys ar safleoedd fel campws Coleg Menai yn Llangefni, ynghyd â phentref y Fali (lle ceir cynlluniau, er enghraifft, i adeiladu 50 o dai newydd).

Yn y cyd-destun hwn, gellir nodi hefyd mai (dim ond) 15% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant blynyddoedd cynnar a nododd bod ganddynt gynlluniau i gynyddu nifer y lleoedd a gynigir ganddynt dros y ddwy flynedd nesaf. Gyda'i gilydd, roedd hyn yn golygu y byddai nifer uchelgeisiol o 107 o leoedd yn cael eu hystyried gan y darparwyr gofal plant perthnasol hyn, er y gellid priodoli 70 o'r lleoedd posibl hyn i ymateb gan un darparwr a leolir yn ward Canolbarth Môn.

DRAFT

## 14 Crynodeb o Anghenion Nas Diwallwyd

Nid yw Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant 2022 Ynys Môn yn awgrymu bod ward neu LSOA neu ardal arbennig y mae'n gwbl glir neu'n amlwg ar hyn o bryd bod diffyg lleoedd gofal plant i rieni a gofalwyr sydd eu hangen – a 'does dim dwywaith y gellir priodoli hyn yn bennaf i'r gwydnwch trawiadol a ddangosodd sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yr ynys yn ystod yr heriau a ddaeth yn sgil y pandemig, yn enwedig yn ystod y cyfnod 2020-2021.
Fodd bynnag, dangosodd yr adran flaenorol ar y Dadansoddiad o'r Bylchau ei bod yn bosibl iawn y gallai fod nifer o faterion a wnaiff herio digonolrwydd y ddarpariaeth gofal plant ar yr ynys dros y blynyddoedd i ddod - sy'n cynnwys, yn anad dim, yr hyn sy'n broblem amlwg: sef y gallu i recriwtio a/neu gadw gweithwyr proffesiynol â chymwysterau da. Fel y nodwyd yn yr ADGP hwn, mae hyn yn broblem dros Gymru gyfan, ac nid dim ond i Ynys Môn neu Ogledd Cymru. Fodd bynnag, gellir ystyried ei fod yn destun pryder arbennig i gynllunwyr gofal plant ar yr ynys oherwydd y ffaith ei bod i ryw raddau wedi'i hynysu'n ddaearyddol (ynghyd â'i natur wledig), ac nid yw mor ymarferol i'r gweithlu lleol symud yn yr un modd â hynny o fewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

Thema sy'n gysylltiedig â'r mater hwn o ran recriwtio, a nodwyd gan yr ADGP hwn, ac y gellir, i ryw raddau, ei hystyried yn angen nas diwallwyd yw: bod rhai rhieni wedi adrodd eu bod yn profi anawsterau o ran cyrchu gofal plant addas trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n amlwg fod y rhieni hyn yn credu y gallai lefel yr hyfedredd yn y Gymraeg, o ran staff mewn lleoliadau, a gwarchodwyr plant, fod yn well, ac nid yw canfyddiad rhai darparwyr eu bod yn ddarparwyr cyfrwng Cymraeg o reidrwydd yn cyd-fynd â realiti'r sefyllfa. O ystyried bod Ynys Môn yn cyfrif am ganran gymharol uchel o'r siaradwyr Cymraeg (yn y Gogledd), gellir ystyried bod hyn yn ddiffyg y mae angen i weithwyr proffesiynol yn y sector gofal plant a'r blynyddoedd cynnar barhau i fod yn ymwybodol ohono - a rhoi blaenoriaeth i ganolbwyntio ar wella'r sefyllfa.

Mae'n amlwg fod rhai o'r rhieni hyn a gododd y mater hwn, fel rhan o arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn Hydref 2021, yn rheini sy'n gweithio - neu'n rhieni a oedd yn chwilio am gyfleoedd gwaith a/neu hyfforddiant. Dywedodd bron i 50% o'r holl ymatebwyr i'r arolwg bod diffyg gofal plant addas wedi effeithio eu gallu i gael cyflogaeth neu hyfforddiant - neu i barhau mewn rôl o'r fath. Mae hon yn ganran sylweddol, ac er bod fforddiadwyedd yn sicr o chwarae rhan, mae ffactorau eraill - fel diffyg gofal plant cyfrwng Cymraeg addas, ynghyd ag absenoldeb amseroedd cychwyn a gorffen cofleidiol addas - hefyd yn effeithio cyflogadwyedd ar yr ynys. Roedd ymatebion ansoddol i'r arolwg hefyd yn nodi bod rhai rhieni - yr oeddynt efallai'n gweithio adref yn ystod 2020 a 2021 ac a oedd yn dychwelyd yn raddol i'w swyddfa/lleoliad gwaith ffisegol - yn profi anawsterau o ran nad oedd clwb brecwast yn agor ar amser a oedd fwyaf addas iddynt - h.y. nid oedd yn agor yn ddigon cynnar, neu nad oedd clwb ar ôl ysgol (cofrestredig a/neu heb ei gofrestru) yn gorffen ar amser a oedd fwyaf addas iddynt - h.y. roedd yn cau/dod i ben yn rhy gynnar. Mae hon yn broblem y bydd yr awdurdod lleol yn parhau i fynd ati i'w monitro, gan gynnwys trwy ei ddiweddariad cyntaf o'r ADGP yn 2023.





DRAFFT

Thema gysylltiedig arall, y gellid efallai ei hystyried fel man cychwyn angen nas diwallwyd, oedd bod nifer o rieni wedi rhoi gwybod fel rhan o'r arolwg eu bod yn gweithio oriau shift, y tu allan i'r diwrnod 8.00yb-6.00yh traddodiadol, ac nad oedd y gefnogaeth o ran y gofal plant yr oedd yn amlwg ei fod ar gael iddynt ar gael ar adegau perthnasol. Cydnabyddir bod ceisio cynyddu mynediad i ofal plant ffurfiol, y tu allan i oriau craidd 8yb-6yh yn ystod dyddiau'r wythnos, am fod yn heriol mewn gwirionedd - ac y bydd sector gofal plant yr ynys yn chwarae rôl hanfodol er mwyn gwireddu hyn. Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad o 11% yn nifer y gwarchodwyr plant cofrestredig a oedd yn gweithredu ar yr ynys yn ystod y cyfnod 2019-2022, a bod hon yn duedd y mae gan yr awdurdod lleol gynlluniau rhagweithiol i'w gwrthdroi, gan gynnwys trwy sesiynau allgymorth a gweithdai strwythuredig, a fydd yn dechrau yn ystod haf 2022.

Gan fynd yn ôl i heriau Cymru gyfan o ran recriwtio a chadw staff, mae'r awdurdod lleol yn teimlo'n frwdfrydig am ymestyn y Cynnig Gofal Plant, ynghyd â'r cynllun sydd i ddod o ran ehangu rhaglen Dechrau'n Deg, fel y mae'n cyflwyno gofal plant cyffredinol i blant dwyflwydd oed (yn raddol). Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r galw cynyddol posibl am leoedd gofal plant blynyddoedd cynnar a ddaw yn sgil y ddwy raglen estynedig, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod y bydd angen gweithlu (o faint) angenrheidiol. Felly, mae'n cynllunio i barhau i weithio'n agos unwaith eto, mewn partneriaeth â Cwlwm Cymru a Coleg Menai Llangefni, i helpu i sicrhau y gall pobl ifanc sy'n byw ar yr ynys deimlo bod gyrfa mewn gofal plant yn cynrychioli proffesiwn, ac yn cynrychioli modd o gefnogi eu cymuned.

Yn olaf, mae un ystyriaeth yn parhau i ganolbwyntio ar thema fforddiadwyedd. Unwaith eto, y rhwystr a amlygwyd fwyaf gan rieni a ymatebodd i arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn Hydref 2021 oedd fforddiadwyedd, ynghyd â chael trafferth talu ffioedd gofal plant. Croesawir y ffaith wrth gwrs bod darpariaeth gofal plant a ariennir yn dal i fod ar gael, ac yn cael ei hymestyn. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yr argyfwng costau byw presennol yn gwaethygu gallu teuluoedd i ystyried cael mynediad i ofal plant ffurfiol, ac mae hyn yn arwain yn ôl at bryderon o safbwynt cynaliadwyedd y sector.

DRAFT

## 15 Rhwystrau i Ddarpariaeth Gofal Plant

15.1 Gwahoddodd arolwg rhieni Llywodraeth Cymru 2021 ei chynulleidfa darged i roi adborth am unrhyw rwystrau yr oeddent wedi dod ar eu traws o ran cyrchu gofal plant *o'u dewis*. Crynhoir adborth cyfunol y rhieni/gofalwyr yn Nhabl 43 isod.

Tabl 43 - amlder y rhesymau a nodwyd ynghylch pam nad oedd rhiant/gofalwr yn cyrchu/derbyn cymorth gyda gofal plant yn hydref 2021

| Rhesymau/Rhwystrau | Canran y rhieni/gofalwyr perthnasol a ymatebodd |
|---|---|
| Plentyn ar restr aros darparwr ac rydym yn aros i le ddod ar gael | <0.5% |
| Nid oes gofal plant o ansawdd digonol | <0.5% |
| Nid oes darpariaeth Gymraeg addas | 1% |
| Dim darpariaeth addas yn ein hiaith, nad yw'n Gymraeg nac yn Saesneg | <0.5% |
| Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion | 3% |
| Mae cost gofal plant yn rhy ddrud | 7.5% |
| Mae amseroedd gofal plant yn anaddas | 3% |
| Nid oes gofal plant ar gael sy'n addas ar gyfer oedran fy mhlentyn | 2% |
| Mae problem gyda thrafnidiaeth | 1% |
| Nid oes gofal plant yn lle mae ei hangen arnaf | 1% |
| Nid oes gofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn | 0.5% |
| Dim ond ar sail ad hoc rydw i'n defnyddio gofal plant ac mae'n amhosib cynllunio | 2% |
| Arall | 1.5% |

Amlinellwyd dadansoddiad bras o Dabl 43 yn Adran 6 o'r ADGP hwn. Roedd yn nodi, pan amlygwyd rhwystr, mai, ar y mwyaf, dim ond tua 1:12 o rieni neu ofalwyr a'i nododd – a oedd yn ymwneud â'r ffaith, ym marn y rhieni hyn, bod cost gofal plant yn rhy ddrud (neu ei fod wedi bod). Mae gwaith craffu pellach ar y data meintiol a gynhyrchwyd gan arolwg rhieni Llywodraeth Cymru yn dangos:

DRAFT

Y tri rhwystr mwyaf cyffredin a adroddwyd gan rieni sy'n gweithio oedd (yn nhrefn amlder):

1. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (a nodwyd gan 8% o rieni perthnasol)
2. Mae amseroedd gofal plant yn anaddas (4%)
3. Nid yw'r gofal plant sydd ar gael yn ddigon hyblyg ar gyfer fy anghenion (3%)

Y tri rhwystr mwyaf cyffredin a adroddwyd gan rieni a oedd yn amlwg yn chwilio am waith neu hyfforddiant oedd:

1. Mae amseroedd gofal plant yn anaddas (16%)
2. Nid oes gofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn (16% o rieni perthnasol)
3. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (a nodwyd gan 8% o rieni perthnasol)

Yn olaf, y tri rhwystr mwyaf cyffredin a adroddwyd gan ofalwyr plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol oedd:

1. Mae cost gofal plant yn rhy ddrud (a nodwyd gan 22% o rieni perthnasol)
2. Nid oes gofal plant a all ddarparu ar gyfer anghenion penodol fy mhlentyn (10% o rieni perthnasol)
3. Cafwyd problemau gyda chludiant (a nodwyd gan 10% o rieni perthnasol)

DRAFFT

15.2 Roedd arolwg rhieni Llywodraeth Cymru hefyd yn gwahodd rhieni a gofalwyr i ddarparu adborth ansoddol am eu profiadau gofal plant, lefelau boddhad ac unrhyw rwystrau yr oeddent wedi'u profi, neu yn parhau i'w profi.

O ran thema rhwystrau i gyrchu gofal plant ffurfiol ym mis Hydref 2021 - y math mwyaf cyffredin o adborth oedd (geiriau i'r perwyl) *"Tydi opsiynau lleol o ran gofal plant y tu allan i'r ysgol ddim yn gweithio i mi."*

Roedd adborth penodol ar y thema hon - gan gynnwys amseroedd agor y math hwn o ddarpariaeth - yn Hydref 2021, *yn cynnwys:*

*"***[Yn fy mhrofiad i]** *'Does dim cyfleusterau gofal plant i blant oed uwchradd. Mae bob un o'r clybiau a redir gan y cyngor yn ystod y gwyliau yn darparu ar gyfer plant oedran cynradd, a ddim yn addas ar gyfer gweithwyr llawn amser neu weithwyr shifftiau. Mae llawer o'r clybiau wedi'u hanelu at blant rhieni sydd ar fudd-daliadau, nad oes angen gofal plant ar rai ohonyn nhw iddyn nhw gael gweithio. Dylid cael gofal plant a chlybiau sydd ar gael i blant oedran uwchradd, yn enwedig yn ystod gwyliau ysgol, pan fydd rhieni yn ei chael yn anodd gofalu am eu plant. O ran rhieni sy'n gweithio'n llawn amser/ar y rheng flaen, dydyn nhw ddim ond yn cael nifer benodol o oriau/diwrnodau o wyliau blynyddol y flwyddyn, sydd ddim yn darparu ar gyfer yr holl wyliau ysgol, hyd yn oed os mae'r ddau riant yn cymryd amser i ffwrdd bob yn ail. Mae'r gwyliau haf yn arbennig o anodd o ran plant oedran uwchradd, gan nad oes cyfleusterau ar adegau addas. Dwi'n gweithio shifftiau 12 awr, 8.00yb-8.00yh, a 'does unman yn darparu ar gyfer y math hwn o ofal plant i blant oedran uwchradd. Pan oedden nhw yn yr ysgol gynradd, roeddwn i'n gallu dod o hyd i ofal plant addas, ond pan aeth un i fyny i'r ysgol uwchradd, a'r llall yn dal i fod yn yr ysgol gynradd, 'doedd ddim modd iddyn nhw ddefnyddio'r gofal plant, a 'doedd gen i ddim ond darpariaeth ar gyfer y plentyn oed uwchradd."*

*"***[Yn fy marn i]** *'Does dim gofal plant/Clybiau Plant i blant 11 oed+ ar Ynys Môn/Gwynedd. Os oes clybiau, maen nhw'n rhedeg o 10yb-12yp neu ddim yn cynnig diwrnod llawn. Mae'r un peth yn bod o ran plant o dan 11 oed. Tydi amseroedd y clybiau ddim yn ddefnyddiol i rieni sy'n gweithio. Dwi'n gorfod defnyddio meithrinfa sy'n codi £35 y dydd ar gyfer bob plentyn. Mae gen i ferch sy'n epileptig, felly tydi o ddim yn bosib iddi fynd i bob man… Dwi'n lwcus fod fy ngŵr yn gweithio adref. Dwi ddim yn gwybod beth fyddai'n digwydd i fy mhlentyn 11 oed a fy mhlentyn 13 oed pe bai hwnnw ddim adref. Mae yna gymaint o blant ifanc sydd wedi cael eu gadael ar eu pennau eu hunain oherwydd 'does dim byd ar eu cyfer yn ystod gwyliau ysgol."*

*"Roedd fy ysgol wedi stopio cynnal ei chlwb ar ôl ysgol, felly 'da ni'n gorfod defnyddio'r clwb ar ôl ysgol yn y feithrinfa, sy'n dda iawn, ond yn ddrytach nag yr oedd un yr ysgol yn arfer bod. 'Does gennym ni ddim opsiwn am fod y ddau ohonom ni'n gweithio shifftiau. Mae'r feithrinfa yn codi'r plant o'r ysgol ac yn dod â'r plant i'w clwb ar ôl ysgol"* - ac yn yr un modd:





DRAFT

*"Mae'r ysgol wedi cau ei chlwb ar ôl ysgol, ac erbyn hyn rydyn ni'n gorfod defnyddio'r clwb ar ôl ysgol mewn meithrinfa. Mae'n bechod bod o ddim o fewn yr un safle â'r ysgol - ac mae o'n ddrytach."*

*"'Does dim lle yn y clwb ar ôl ysgol yn fy ysgol i."*

*"***[Yn fy mhrofiad i]** *Mae pob 'cyfleuster' gofal plant yn gorffen am 6.00yh. Dwi'n gweithio tan 6.00yh ym Mangor, sy'n hanner awr i ffwrdd o adref. Dwi ddim yn gallu defnyddio cyfleusterau gofal plant oherwydd eu bod nhw'n gorffen yn rhy gynnar i mi allu mynd i nôl fy mhlant mewn pryd, felly dwi'n dibynnu llawer ar fy nheulu a'm ffrindiau i'm helpu."*

Y math amlaf ond un o adborth a gafwyd oedd (geiriau i'r perwyl) *"mae yna ddiffyg o ran opsiynau gofal plant cyfrwng Cymraeg."*
Roedd adborth penodol ar y thema hon, yn Hydref 2021, *yn cynnwys:*

*"'Doeddwn i'n methu dod o hyd i warchodwr plant sy'n siarad Cymraeg"* – ac yn yr un modd:

"'*Does fawr ddim o warchodwyr plant Cymraeg yng nghyffiniau Llanerchymedd"* – ac unwaith eto, yn yr un modd:

*"***[Yn fy mhrofiad i]** *mae yna ddiffyg gwarchodwyr plant sy'n siarad Cymraeg, a hefyd mae'r clwb ar ôl ysgol yn cau yn rhy gynnar am 5.00yh. Dwi angen mynd i nôl fy mhlentyn yn hwyrach."*

*"Tydi'r ddarpariaeth iaith Gymraeg ddim yn dda yn ein hardal leol, sy'n bwysig i ni fel teulu sy'n siarad Cymraeg."*

*"Does dim llawer o ddarparwyr Cymraeg. 'Doedd dim llawer o opsiynau yn fy ardal i."*

*"Mi fyddai'n dda cael gweld mwy o wybodaeth a chymorth i rieni sydd ddim yn siarad Cymraeg er mwyn iddyn nhw gael mynediad i ofal plant cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant oed meithrin. Rydyn ni'n defnyddio Cylch Meithrin a meithrinfa ddydd, ond roedd yn anodd penderfynu pa sesiynau fyddai fwyaf buddiol, ac wedyn trefnu meithrinfa ddydd o gwmpas hynny. Mi fyddai rhagor o ddarpariaeth o feithrinfeydd dydd dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg yn help, neu fwy o gymorth ariannol i Gylchoedd allu bod ar agor yn hirach ac yn ystod gwyliau ysgol."*

DRAFFT

O blith yr adborth a dderbyniwyd, y trydydd math mwyaf cyffredin oedd (geiriau i'r perwyl) *"mae cost gofal plant yn rhy ddrud."*

Roedd adborth penodol ar y thema hon, yn Hydref 2021, *yn cynnwys:*

*"Roedd dod o hyd i ofal plant Cymraeg da yn rhywbeth 'prin iawn', a dyma ni'n mynd i'r lle drytaf un yn y diwedd!"*

*"Yn syml, mae gofal plant yn rhy ddrud."*

*"Dwi ddim wedi edrych i mewn i ofal plant, gan na fedra i ei fforddio. 'Doeddwn i ddim yn gwybod bod yna help ar gael".*

*"Roedd cost gofal plant, o gymharu â faint roeddwn i'n ei ennill pan oeddwn i'n gweithio, yn chwerthinllyd".*

*"Mae gen i broblem barhaus. Dwi'n chwilio am waith ac yn trio ysgrifennu ceisiadau am swyddi gyda phlentyn 2 oed adref. 'Does dim darpariaeth gofal plant os ydych chi'n chwilio am waith, a dwi wedi stryglo gyda hynny. 'Does gen i ddim yr arian i dalu am ofal plant, ond dwi angen y gofal plant i allu treulio amser yn gwneud ceisiadau am swyddi. Mae'r sefyllfa'n debyg braidd i sefyllfa'r ŵy a'r iâr."*

*"Mae cyfleusterau rhai meithrinfeydd yn yr ardal* [sydd heb ei nodi] *yn wael, yn enwedig o ystyried y gost."*

*"Tydi o ddim yn gost effeithiol i ni dalu am ragor o ofal plant… mae'n rhatach, oherwydd gofal plant, i un ohonon ni weithio'n rhan-amser."*

O blith yr adborth a dderbyniwyd, y pedwerydd math mwyaf cyffredin oedd (geiriau i'r perwyl) *"Dwi'n cael problemau dod o hyd i ofal plant oherwydd fy oriau shifft".*

Roedd adborth penodol ar y thema hon, yn Hydref 2021, *yn cynnwys:*

*"Pan dwi'n gweithio shifftiau, tydi gofal plant ddim ar agor yn ddigon cynnar, neu'n ddigon hwyr."*

*"Dwi'n gweithio shifftiau, a tydi gofal plant ddim yn dechrau'n ddigon cynnar, ac mae fy mhartner yn gweithio o ddydd Llun i ddydd Gwener… felly pan mae'r ddau ohonon ni'n gweithio yn ystod y dydd, 'da ni'n gorfod dibynnu ar aelodau teulu, ac mae hyn yn medru bod yn anodd…"*

DRAFT

*“Dwi’n cael trafferth cael gofal plant ar gyfer yr oriau shifft dwi’n eu gweithio, gan fy mod i’n cychwyn yn gynnar neu’n gorffen yn hwyr. Mae’r amseroedd dwi’n gorffen yn amrywio hefyd.”*

*“Dwi ddim wedi mynd yn ôl i weithio fel Meddyg Teulu ers cael plant, gan fod yr oriau a ddarperir gan ‘wasanaethau’ gofal plant yn fy ardal i’n rhy fyr. Mae popeth yn gorffen am 5.30yh.”*

*“Dim pawb sy’n gweithio mewn swydd arferol o 9yb-5yh, neu sydd efo aelodau teulu sy’n gallu darparu gofal cofleidiol”.*

O blith yr adborth a dderbyniwyd, y pumed math mwyaf cyffredin oedd (geiriau i’r perwyl) *“Dwi wedi cael problemau hefo hygyrchedd.”*

Roedd adborth penodol ar y thema hon, yn Hydref 2021, *yn cynnwys:*

*“Dwi’n meddwl mai ychydig iawn o warchodwyr plant sydd ar yr ynys. Mae rhai ohonyn nhw wedi’u grwpio mewn pentrefi mwy neu mewn trefi sy’n bell o le dwi’n byw. ’Does neb yn agos i mi, felly mae rhaid mynd â fy merch at warchodwr plant a rhaid mynd i ysgol sy’n 25 munud i ffwrdd o le rydyn ni’n byw. Yn fy mhrofiad i - mae’r mwyafrif ohonyn nhw’n llawn.”*

*“’Doedd dim gofal plant ar gael pan adawodd fy mab Dechrau’n Deg. ’Does dim meithrinfa yn fy ysgol a ddim dewis arall, felly bydd rhaid i fy mab fod adref hyd nes y bydd o’n mynd i’r ysgol.”*

*“Yn fy marn i, mae yna ddiffyg darparwyr gofal plant. Ychydig iawn o leoedd ar ôl ysgol sydd ar gael yn lleol. Roedd rhaid i fy mab symud i ysgol arall er mwyn iddo fo gael mynediad i ofal ar ôl ysgol.”*

DRAFFT

## 16 Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu adborth a dderbyniwyd drwy'r ymatebion i'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) fis Gorffennaf 2021 gan ddarparwyr gofal plant yn yr ardal leol, ynghyd â chanlyniadau arolwg hydref 2021 gyda'r un rhanddeiliaid/darparwyr.

Mae'n canolbwyntio ar y canlynol: (a) gofal plant a gweithlu'r blynyddoedd cynnar yn yr ardal leol; (b) eu hanghenion hyfforddi canfyddedig, gan gynnwys y rhai sy'n cyd-fynd â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, ac sy'n canolbwyntio ar themâu gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer chwarae a dysgu, meithrin a llesiant, ymddygiad, cynnal a rheoli'r gwasanaeth, cyfle cyfartal ac amddiffyn plant.

16.1 Fel rhan o arolwg hydref 2021 gyda darparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a lleoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol, gwahoddwyd cynrychiolwyr i roi adborth ar faint o staff oedd yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd?

- Nifer gyfartalog y gweithwyr amser llawn a gyflogir ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar oedd 4.
- Nifer gyfartalog y gweithwyr amser llawn a gyflogir ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol oedd 3.

- Nifer gyfartalog y gweithwyr rhan amser a gyflogir ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar oedd 3.
- Nifer gyfartalog y gweithwyr rhan amser a gyflogir ar hyn o bryd gan leoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol oedd 4.

DRAFFT

Mae Tabl 44 yn dangos nifer yr aelodau o'r gweithlu yn ardal leol Ynys Môn a oedd yn meddu ar gymwysterau arbennig, ym mhob un o'r tri phrif sector yn haf 2021

Ffynhonnell: SASS Gorffennaf 2021

| Math y Cymhwyster | Cyfanswm y nifer sy'n meddu ar y cymhwyster yn sector Gofal Plant y Blynyddoedd Cynnar | Cyfanswm y nifer sy'n meddu ar y cymhwyster yn y sector Gwarchod Plant | Cyfanswm y nifer sy'n meddu ar y cymhwyster yn y sector Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol |
|---|---|---|---|
| Cymhwyster Gofal Plant, Dysgu a Datblygu Lefel 2 | 60 | 2 | 2 |
| Cymhwyster Gofal Plant, Dysgu a Datblygu Lefel 3 | 166 | 21 | 6 |
| Cymhwyster Gofal Plant, Dysgu a Datblygu Lefel 5 | 70 | 3 | 1 |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Ymarfer Gwaith Chwarae (L2APP) | 0 | 1 | 0 |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae | 2 | 1 | 5 |
| Diploma Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae; Rhoi Egwyddorion ar Waith (P3) – sy'n cynnwys dyfarniad, tystysgrif a diploma | 0 | 1 | 0 |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynllun Chwarae Gwyliau Ysgol | 1 | 0 | 0 |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Pontio i Waith Chwarae o'r Blynyddoedd Cynnar | 17 | 1 | 5 |
| Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae | 9 | 0 | 1 |
| Diploma Lefel 5 mewn Gwaith Chwarae | 2 | 1 | 0 |

DRAFFT

16.2 Gofynnodd arolwg gaeaf 2021 i ddarparwyr gofal plant mewn lleoliad am adborth ar sut yr oedd COVID-19 wedi effeithio ar recriwtio a chadw staff/gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys (fel y disgwylid) o ran eu lleoliad hwy eu hunain.

Nododd 25% o'r holl ddarparwyr gofal plant blynyddoedd cynnar a'r darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol eu bod wedi gweld nifer o'u staff yn penderfynu gadael eu lleoliad yn ystod y 12 mis diwethaf, ***o ganlyniad uniongyrchol i COVID-19***.
Ar draws yr holl ymatebwyr perthnasol, roedd hyn yn gyfanswm o 29 aelod staff/gweithwyr gofal plant proffesiynol a oedd wedi gadael y proffesiwn yn amlwg o ganlyniad i COVID-19.

Roedd yr adborth a gafwyd gan ymatebwyr o ran y sectorau yr oeddent wedi 'colli staff' iddynt yn cynnwys:

(Yn fwyaf aml, geiriau i'r perwyl) *"I ddarparwr gofal plant arall yn y sector."*

*"I'r sector gofal oedolion hŷn."*

*"Roeddyn nhw wedi penderfynu rhoi'r gorau i weithio am y tro."*

*"Roedd yr aelod staff dan sylw wedi gadael i fynd i swydd mewn swyddfa."*

16.3 Roedd arolwg hydref 2021, gyda darpariaeth gofal plant blynyddoedd cynnar a lleoliadau/darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol, yn gwahodd ymatebwyr i nodi pa mor ymwybodol a datblygedig oedd eu lleoliad yn eu barn nhw o ran y rhaglen drawsnewid ADY, ynghyd â (y ffaith ei bod yn helpu gyda) chreu system unedig ar gyfer cefnogi dysgwyr rhwng 0 a 25 oed ag anghenion dysgu ychwanegol?

- Dywedodd 8% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar: eu bod wedi gwneud 0 cynnydd yn y maes hwn
- Dywedodd 33% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar: rydym ni wedi gwneud cynnydd rhagorol yn y maes hwn
- Dywedodd 58% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar: rydym ni'n gwneud cynnydd, ond mae gennym ni waith i'w wneud o hyd
- Dywedodd 3% o ddarparwr gofal plant y blynyddoedd cynnar: Dwi ddim yn gwybod beth ydy'r rhaglen trawsnewid ADY
- Dywedodd 0 o ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol: eu bod wedi gwneud 0 cynnydd yn y maes hwn

DRAFT

- Dywedodd 31% o ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol: rydym ni wedi gwneud cynnydd rhagorol yn y maes hwn
- Dywedodd 69% o ddarparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol: rydym ni'n gwneud cynnydd, ond mae gennym ni waith i'w wneud o hyd
- Dywedodd 0 o ddarparwr gofal plant y tu allan i'r ysgol: Dwi ddim yn gwybod beth ydy'r rhaglen trawsnewid ADY

16.4 Ceisiodd arolwg hydref 2021 o ofal plant y blynyddoedd cynnar, lleoliadau/darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol a gwarchodwyr plant, ganfod o ble/pa ddarparwyr/sefydliadau yr oeddent wedi cyrchu a derbyn hyfforddiant ganddynt yn ystod y 3 blynedd diwethaf?

Y deg ffynhonnell a nodwyd amlaf oedd:

1. Mudiad Meithrin
2. High Speed Training: https://www.highspeedtraining.co.uk/
3. Hyfforddiant PACEY (Iechyd a Diogelwch) a nodwyd gan warchodwyr plant
4. Hyfforddiant Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
5. Hyfforddiant Dechrau'n Deg
6. Hyfforddiant Makaton
7. Y Brifysgol Agored
8. Clybiau Plant Cymru Kids Clubs
9. Hyfforddiant Arfon Dwyfor (ADT)
10. Hyfforddiant trwy Goleg Rhithwir

16.5 Hefyd, ar thema hyfforddiant, amlygodd ymatebion Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS Gorffennaf 2021 fod:

- 7.5% of o ddarparwyr gofal plant (pob math) wedi dweud eu bod wedi cynnig/trefnu llai o hyfforddiant i'w staff o ganlyniad i COVID-19 (o'r ymatebwyr hyn, dywedodd pedwar bod diffyg staff cyflenwi wedi effeithio ar hyn hefyd).
- Dywedodd 0 darparwyr gofal plant eu bod wedi cynnig/trefnu *rhagor* o hyfforddiant i'w staff o ganlyniad i COVID-19.

Yn ogystal, gwahoddodd Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS ddarparwyr gofal plant i ymateb i'r cwestiwn canlynol: *A oes gennych fynediad at yr hyfforddiant sydd ei angen arnoch ar hyn o bryd?* Dywedodd 79% o'r darparwyr gofal plant a ymatebodd: Oes.

DRAFFT

Yn olaf, fel rhan o broses Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth SASS, gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant: *Ydych chi wedi gallu cael mynediad at hyfforddiant Rheoli Atal Heintiau (RhAH/IPC) penodol?* Yn yr ymatebion, nododd 64% o ddarparwyr gofal plant 'do', a nododd 36% 'naddo'.

16.6 Canfu arolwg hydref 2021, gyda darparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a lleoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol, nifer y prentisiaid gyrfa gofal plant a oedd yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ledled yr ardal.

Dywedodd 34% o ddarparwyr/lleoliadau gofal plant y blynyddoedd cynnar a ymatebodd, ynghyd â darparwyr/lleoliadau gofal plant y tu allan i'r ysgol, eu bod yn cyflogi o leiaf un prentis yn eu lleoliad - a'r cyfanswm ar draws yr holl ddarpariaethau perthnasol oedd 25.
Dywedodd 6% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a'r darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol a ymatebodd nad oeddent yn cyflogi unrhyw brentisiaid gofal plant ar hyn o bryd, ond ***eu bod*** yn bwriadu recriwtio i rôl(au) o'r fath yn y dyfodol agos. Dywedodd 60% o ddarparwyr gofal plant y blynyddoedd cynnar a darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol a ymatebodd **nad oedd ganddynt unrhyw gynlluniau i recriwtio prentisiaid ar hyn o bryd**.

16.7 Fel rhan o arolwg hydref 2021 gyda darparwyr gofal plant, aethpwyd i'r afael â'r thema o ran bylchau mewn hyfforddiant.

Roedd 15% o'r lleoliadau/darparwyr gofal plant a ymatebodd – h.y. darparwyr gofal dydd llawn a darparwyr gofal sesiynol – yn ystyried bod bylchau o ran hyfforddiant/profiad o safbwynt eu lleoliad – ac, yn ôl eu hamlder, y rhai a nodwyd dro ar ôl tro oedd:

- Bwlch/bylchau'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru – a nodwyd gan 6 o ymatebwyr
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf – a nodwyd gan 5 o ymatebwyr
- Hyfforddiant ar thema lleferydd ac iaith – a adroddwyd gan 3 o ymatebwyr

Cafwyd yr un ganran, sef 15%, o'r darparwyr gofal plant y tu allan i'r ysgol a ymatebodd, yn ystyried bod bylchau o ran hyfforddiant/profiad o safbwynt eu lleoliad - a'r testun a nodwyd fwy nag unwaith oedd hyfforddiant Cymorth Cyntaf - a nodwyd gan 3 ymatebwr.

Roedd 28% o'r gwarchodwyr plant a ymatebodd yn ystyried bod ganddynt hwy, neu gymhorthydd, fwlch o ran eu hyfforddiant/profiad, gan nodi fwy nag unwaith:

- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf – a nodwyd gan 3 gwarchodwr plant
- Bwlch/bylchau'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru – a nodwyd gan 2 gwarchodwr plant


DRAFT

- Hyfforddiant ym maes y Blynyddoedd Cynnar, sy'n canolbwyntio ar blant o 3 mis i 3 oed – a nodwyd gan 2 warchodwr plant

16.8 Gwahoddwyd pob darparwr/lleoliad gofal plant i nodi p'un a oeddent yn trochi plant yn y Gymraeg wrth ddarparu eu cwricwlwm? Dywedodd 66% eu bod yn gwneud hynny.

Mae Tabl 45 yn nodi rhagor o fanylion o'r ymateb i SASS ym mis Gorffennaf 2021, o ran y modd yr oedd y Gymraeg yn cael ei chynnwys o safbwynt dynameg y lleoliadau Gofal Dydd Llawn a'r darparwyr Gofal Sesiynol a ymatebodd.

<u>Yr achosion o ymgorffori'r Gymraeg o fewn agweddau ar ddarpariaeth gofal plant yn y blynyddoedd cynnar ar Ynys Môn</u>




DRAFT

## 17 Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu

| **Argymhelliad 1:** Mynediad i ofal plant, fforddiadwyedd a hyblygrwydd darpariaeth gofal plant |
|---|

| Gweithredu | Swyddogion Cyfrifol Ynys Môn | Amserlen Allweddol | Canlyniadau Targed | Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL) |
|---|---|---|---|---|
| Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant i gefnogi nifer y lleoedd cofrestredig sydd ar gael, a fydd yn cynnwys ymgysylltu â’r sector ynghylch dichonoldeb darpariaeth gofal plant hyblyg, ynghyd â’r rhwystrau o safbwynt hynny. | Cydlynydd Gofal Plant a Chwarae Dechrau’n Deg<br><br>Swyddog Strategol Gofal Plant a Chwarae | Mehefin 2022 ymlaen | Bod rhieni/gofalwyr yn cael mynediad i ofal plant sy’n gweithredu y tu hwnt i oriau cyfredol. | Canolig |
| | | | Y caiff nifer gyfredol y darparwyr ei chynnal, ynghyd â chefnogi rhagor o ddarparwyr i ddatblygu eu busnes, ac anogir darparwyr newydd, fel gwarchodwyr plant, i ddarparu dewis i rieni o ran gofal plant. | Canolig |
| Mae’r Awdurdod Lleol y parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant i sicrhau bod y sector yn hyderus i allu datblygu ei wasanaethau er mwyn darparu gofal | | | Mae nifer y darparwyr sy’n darparu lleoedd i blant 2 a 3 oed yn cyfateb i 80% o’r sector. | Uchel |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| plant i blant 2 oed, ynghyd â pharhau i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant fel y caiff ei ail-ddylunio ar gyfer ei gyflwyno mewn ffurf newydd ar-lein. | | | | Uchel |
| Mae'r Awdurdod Lleol, ynghyd â'r holl sefydliadau ymbarél a darparwyr gofal plant yn darparu cymorth a gwybodaeth gyson i rieni / gofalwyr gael mynediad i ofal plant a gefnogir gan grant, neu a ddarperir â chymhorthdal fel Gofal Plant Di-dreth. | | | Cynnydd o ran nifer y rhieni/gofalwyr sy'n ymgeisio am ofal plant â chymhorthdal. | Uchel |
| | | | Mwy o rieni/gofalwyr yn adrodd bod gofal plant yn fwy fforddiadwy/nad yw'n rhwystr o safbwynt gwaith/hyfforddiant. | Canolig |
| Bydd yr Awdurdod Lleol a chyrff ymbarél yn cwmpasu'r bylchau yn y ddarpariaeth o ofal plant, yn enwedig o ran darpariaeth ar ôl ysgol neu yn ystod gwyliau ysgol, ac yn datblygu darpariaethau o'r fath ochr yn ochr â darparwyr | | | Caiff rhieni/gofalwyr fynediad i ofal plant trwy gydol y flwyddyn, o fewn pellter rhesymol i'w cartref neu weithle. | Uchel |
| | | | Cynnydd o ran y ddarpariaeth o ofal plant ar safleoedd ysgol. | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| newydd neu rai presennol.<br>Bydd yr Awdurdod Lleol yn **ystyried bod lleoliad gofal plant yn elfen hanfodol fel rhan o'i Raglen Moderneiddio Ysgolion.** | | | Cynnydd yn nifer y lleoedd gofal plant yng Nghanolbarth Môn.<br><br>Cynnydd yn nifer y gwarchodwyr plant ledled y sir. | |

**Argymhelliad 2: Mae'r awdurdod lleol a chyrff ymbarél yn parhau i gefnogi darparwyr gofal plant** i fod o ansawdd uchel

| Gweithredu | Swyddogion Cyfrifol Ynys Môn | Amserlen Allweddol | Canlyniadau Targed | Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL) |
|---|---|---|---|---|
| Bydd yr Awdurdod Lleol a chyrff ymbarél yn parhau i roi cymaint o gefnogaeth ag y bo modd i'r ddarpariaeth o hyfforddiant i sicrhau lleoliadau gofal plant o ansawdd uched.<br><br>Bydd yr Awdurdod Lleol a chyrff ymbarél yn sicrhau bod darparwyr gofal plant yn cael gwybod am safonau Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn. | Cydlynydd Gofal Plant a Chwarae Dechrau'n Deg<br><br>Swyddog Strategol Gofal Plant a Chwarae | Mehefin 2022, parhaus | Cynnydd o ran presenoldeb mewn cyfleoedd hyfforddiant ar draws y sector gofal plant.<br><br>Lleoliadau gofal plant yn cael eu graddio'n dda gan AGC ac Estyn, neu'n dangos arferion sydd ymhlith y gorau yn y sector. | Canolig<br><br>Uchel |

DRAFT

**Argymhelliad 3:** Bydd yr Awdurdod Lleol a'i bartneriaid yn parhau i gefnogi'r ddarpariaeth o ofal plant i blant ag anghenion dysgu arbennig.

| Gweithredu | Swyddogion Cyfrifol Ynys Môn | Amserlen Allweddol | Canlyniadau Targed | Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL) |
|---|---|---|---|---|
| Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i sicrhau bod ei sector gofal plant blynyddoedd cynnar yn ymrwymo i'r rhaglen drawsnewid ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac yn cael cymorth i wneud hynny. | Cydlynydd Gofal Plant a Chwarae Dechrau'n Deg<br><br>Swyddog Strategol Gofal Plant a Chwarae | Mehefin 2022-Mawrth 2025 | Bydd y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob plentyn.<br><br>Bydd darparwyr gofal plant yn hyderus o ran eu gallu i ddiwallu anghenion plentyn. | UCHEL |

Tudalen 123

**Argymhelliad 4:** Bydd yr Awdurdod Lleol a phartneriaid yn parhau i ddatblygu a chefnogi gofal plant cyfrwng Cymraeg.

| Gweithredu | Swyddogion Cyfrifol Ynys Môn | Amserlen Allweddol | Canlyniadau Targed | Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL) |
|---|---|---|---|---|
| Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'i bartneriaid yn y sector blynyddoedd cynnar a | Cydlynydd Gofal Plant a Chwarae Dechrau'n Deg<br><br>Swyddog Strategol Gofal Plant a Chwarae | Mehefin 2022-Mawrth 2025 | Cynnydd yn nifer y darparwyr gofal plant sy'n darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. | POB UN YN UCHEL |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gofal plant i sicrhau bod pob rhiant/gofalwr a phlentyn yn cael mynediad i ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd yr Awdurdod Lleol a phartneriaid o fewn Cwlwm a'r Fenter Iaith yn cyfeirio staff a rhieni ymlaen i ddosbarthiadau Dysgu Cymraeg er mwyn hybu hyder y gweithlu i allu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. | | | Mae'r gweithlu'n hyderus o ran ei allu i ddarparu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Mae rhieni/gofalwyr yn adrodd bod digonedd o ofal plant cyfrwng Cymraeg ar gael. | |



**Argymhelliad 5:** Bydd yr Awdurdod Lleol, partneriaid Cwlwm ac eraill yn cefnogi gofal plant fel gyrfa sy'n talu'n dda ac yn fawr ei pharch.

| Gweithredu | Swyddogion Cyfrifol Ynys Môn | Amserlen Allweddol | Canlyniadau Targed | Statws (UCHEL, CANOLIG, ISEL) |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu'r ffioedd a godir ar draws y sector i alluogi adolygiad o'r cyflogau a delir ar draws y sector. | Cydlynydd Gofal Plant a Chwarae Dechrau'n Deg<br><br>Swyddog Strategol Gofal Plant a Chwarae | Mehefin 2022-Mawrth 2027 | Mae ffioedd gofal plant yn adlewyrchu anghenion y busnes ac yn cynnal y sector a'i staff i allu cynnig cyflogau sy'n cyfateb â phroffesiynau eraill ym | CANOLIG |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweithio gyda'r sector gofal plant ar lefel ranbarthol i adolygu polisïau a gweithdrefnau o safbwynt recriwtio a chadw staff.<br><br>Adolygu'r llwybrau gyrfa sydd ar gael o lefel pobl ifanc i oedolion sydd eisoes yn gweithio yn y sector.<br>Hyrwyddo gofal plant a gwaith o fewn y sector fel gyrfa sy'n rhoi boddhad, sy'n adlewyrchu ymroddiad a chymwysterau gyda chyflog teg. | | | maes y blynyddoedd cynnar.<br><br>Wedi creu llwybrau gyrfaoedd, ynghyd â chynnydd yn y niferoedd sy'n dewis gweithio yn y sector, darpariaeth gynaliadwy o ran gofal plant.<br><br>Mae staff yn y sector yn hyderus o ran eu llwybrau gyrfa a'u cyfleoedd ac yn adrodd bod y tâl a'r amodau'n well. | |

DRAFT

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | CYNGOR SIR YNYS MÔN |
| Dyddiad: | 12 Medi, 2023 |
| Pwnc: | Hunan Asesiad Corfforaethol 2023 |
| Deilydd Portffolio: | Cyng. Carwyn E Jones |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards, Pennaeth Proffesiwn AD & Thrawsnewid |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>gethinmorgan@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | D/B |

A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau

Fel rhan o ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 cydnabyddir y dyletswydd canlynol ar Gyngor Sir Ynys Môn –

**…….. i adolygu ei berfformiad yn barhaus**

(1) Rhaid i brif gyngor adolygu'n barhaus i ba raddau—

(a) y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol,

(b) y mae'n defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol, ac

(c) y mae ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol o ran cyflawni'r materion a nodir ym mharagraffau (a) a (b)

**ac, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol,**

lunio adroddiad sy'n nodi ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y gwnaeth fodloni'r gofynion perfformiad (a, b & c uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

I ddiwallu'r disgwyliad uchod, yr hyn sydd wrth law yw Hunan-Asesiad 2023 y Cyngor Sir. Mae'n tystiolaethu allbwn y fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor Sir ac yn ddiweddglo proses sydd yn cyd-blethu amryw o wahanol agweddau at ei gilydd.

Ystyriwyd y drafft gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar y 29ain Mehefin. Gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau a'r awgrymiadau a ganlyn Gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau a'r awgrymiadau a ganlyn –

- Cynnwys gwybodaeth gymharol am berfformiad y flwyddyn flaenorol
- Darparu enghreifftiau i gefnogi a dangos datganiadau am berfformiad
- Cynnwys dyddiadau yn adroddiadau rheoleiddwyr
- Rhoi esboniad o'r holl acronymau
- Cynnwys data mwy meintiol lle byddai hynny'n helpu i ddeall

| A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| • Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am sicrwydd bod elfennau'r datganiad sefyllfa gwasanaeth a hunanaseswyd fel "Digonol" yn cael eu cynnwys yn y rhestr o gamau gwella i'w gweithredu yn 2023/24<br><br>**Argymhellir felly bod y Cyngor Sir yn –**<br><br>**1) cytuno â'r addasiadau a awgrymwyd uchod ac awdurdodi swyddogion i ddiwygio'r drafft terfynol;**<br>**2) Mabwysiadu'r Hunanasesiad Corfforaethol 2023 yn ffurfiol;**<br>**3) cytuno ei fod yn cael ei anfon at y rhestr ganlynol o dderbynwyr o fewn y cyfnod o bedair wythnos yn dilyn y cyfarfod hwn fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 –**<br>**i) Archwilydd Cyffredinol Cymru**<br>**ii) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, a**<br>**iii) Gweinidogion Cymru.** |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Ni ystyriwyd opsiynau eraill gan fod y disgwyliad yma’n un o newidiadau creiddiol y ddeddfwriaeth newydd – Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

| C – Pam mae hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae’r broses hwn i ennyn sylw a sylwadau’r Pwyllgor Gwaith ynghyd a’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn i ddrafft o’r Hunanasesiad gael ei ystyried a’i fabwysiadu gan y Cyngor Sir llawn ym mis Medi eleni.<br><br>Mae’n broses sydd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. |

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi - bydd ordinhad gwahanol i’r hyn a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ym mis Ebrill llynedd, pan fabwysiadwyd newidiadau i’r Cyfansoddiad ar sut mae’r Cyngor i ymdrin â’r Hunan Asesiad yn creu risg llywodraethu. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Rhagwelir bod y rhaglen waith cysylltiedig â’i wireddiad dan arweinyddiaeth a pherchnogaeth y Tîm Arweinyddiaeth (TA) o fewn amser yn unol â blwyddyn gyllidol y Cyngor Sir am 2023/24. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir drwy gydnabod meysydd cysylltiedig sydd angen sylw pellach fel corfforaeth. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Yn rhannol – ydi, parthed y gwelliannau disgwyliedig sydd ei angen mewn perfformiad rhai meysydd a.y.y.b. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae rhan penodol o'r hunanasesiad yn cydnabod yr holl waith cydweithio sydd yn digwydd ar draws ystod y gwasanaethau. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwaraea'u rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut. | Mae dinasyddion Ynys Môn drwy'r pwyllgor Sgriwtini corfforaethol yn cael cyfle chwarterol i fynegi barn a herio'r gorfforaeth ar ei berfformiad. Mae'r cynnwys hefyd yn datgan sut bod y gwasanaethau gwahanol yn cynnwys dinasyddion yn ei penderfyniadau.<br><br>Yn dilyn cyfnod o ymgynghori dros yr haf gyda'r Undebau, derbyniwyd ymateb ar ran Unsain.<br><br>Teimlwyd a gwerthfawrogwyd bod yr asesiad yn gytbwys, yn adnabod ac yn codi materion sydd angen sylw, a chydnabuwyd bod y cyngor yn elwa ar weithlu rhagorol sy'n ymfalchïo yn eu cymuned ac yn gweithio hyd eithaf eu gallu i ddarparu gwasanaethau o'r radd orau i bob rhanddeiliaid sy'n defnyddio ac angen gwasanaethau eu cyngor.<br><br>Caiff materion neu bryderon a nodir eu hymdrin a hwy drwy sianeli cyfathrebu rheolaidd gydag Uwch Reolwyr. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Ni rhagwelir bod y rhaglen waith yn cael effaith ar y grwpiau a ddiogelir dan ddeddf cydraddoldeb 2010. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | D/B |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg. | D/B |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth ddywedon nhw? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tim Arweinyddol (TA) (gorfodol) | Mae sylwadau'r Prif Weithredwr / Tim Arweinyddol wedi'i cynnwys yn yr adroddiad cyfredol. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Mae sylwadau'r Swyddog 151 fel aelod cyflawn o'r TA wedi'i cynnwys yn ogystal. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae sylwadau'r Swyddog Monitro fel aelod cyflawn o'r TA wedi'i cynnwys yn ogystal. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi cynnwys yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | Dim yn berthnasol |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Hunan-Asesiad Drafft Cyngor Sir Ynys Môn - 2023 |

**Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad i gael unrhyw wybodaeth bellach):**

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Meysydd Gwelliant Hunan-Asesiad 2022
- Cofnod o benderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd, 12 Mai 2023

# Hunanasesiad - 2023

Hunanasesiad y Cyngor Sir, fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021

DRAFFT

**Paratowyd gan –** Y Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad Cyhoeddi:** Ebrill 2023

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Hunanasesiad y Cyngor o ganlyniad i –

## Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth (APGau) / Adroddiadau Perfformiad / Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) / Adolygiadau Allanol / Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

| Categori'r Hunanasesiad | Perfformiad | Rhesymeg |
|---|---|---|
| Rheoli Perfformiad | Da | Perfformiad da yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol sydd wedi'u hamlygu yn yr Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol chwarterol<br><br>Darpariaeth gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n cael ei wella a'i foderneiddio'n barhaus drwy'r CRM newydd |
| Defnyddio Adnoddau | Da | Cynnydd islaw chwyddiant yn y Dreth Gyngor, cyllideb gytbwys a balansau iach yn ystod yr argyfwng costau byw presennol<br><br>Cydweithio i wella'r raddfa ragorol yn ystod y flwyddyn flaenorol |
| Rheoli Risg | Da | Nifer o adroddiadau cadarnhaol gan arolygwyr allanol ar ddarpariaeth y Cyngor drwyddo draw yn cynnwys Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio<br><br>Strategaeth rheoli risg newydd ar waith |

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ail hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'n adlewyrchu allbwn y fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad corfforaethol ac yn darparu sail dystiolaethol o ran -

- y modd y mae'r Cyngor wedi perfformio
- gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo wrth
- reoli a llinau risgiau cysylltiedig

yn ystod cyfnod heriol ac ansicr i lywodraeth leol.

Bwriad y fframwaith perfformiad a llywodraethu cenedlaethol newydd yw cefnogi newid diwylliannol a sefydliadol o fewn llywodraeth leol. Y nod yw adeiladu ar gryfderau presennol a chreu sector mwy arloesol, agored, gonest, tryloyw ac uchelgeisiol, sy'n herio ei hun, a lle mae cynghorau ar y cyd yn mynd ati i wella canlyniadau a safonau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ledled Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod ac yn cadw at ddisgwyliadau o'r fath ac mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ddrafftio felly.

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw, i ba raddau:

- y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

Yr asesiad y llynedd oedd ein hasesiad cyntaf, ac mae camau breision wedi cael eu cymryd yn ystod 2022 i gyflawni'r gwelliannau cysylltiedig. Mae hyn yn galonogol ac yn dangos aeddfedrwydd y trafodaethau gwleidyddol a gweithredol a aeth rhagddynt yn gyflym yn ystod blwyddyn lle cafodd Tîm Arweinyddiaeth newydd ei sefydlu o fewn y Cyngor ynghyd â gweinyddiaeth newydd (clymblaid) dan arweiniad Plaid Cymru. Mae'r gwelliannau cysylltiedig i'w gweld mewn adroddiad diweddar a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Ebrill 2023.

Ar ôl ystyried yr adroddiad cydnabuwyd y bydd y ffrydiau gwaith canlynol yn parhau i gael eu gyrru yn eu blaen a'u datblygu fel rhan o'r Hunanasesiad hwn yn 2023 -

**Rheoli Perfformiad** -

- Gwella'r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl
- Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth
- Moderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid
- Datblygu modd i gyfathrebu perfformiad y Cyngor i gynulleidfa ehangach o ran staff

**Defnyddio Adnoddau** -

- Lleihau'r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol trwy gytuno ar amserlen gyda'r archwilwyr allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff

- Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi'i hadolygu a'i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig

**Rheoli Risg** -

- Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd i'r Cyngor

Wrth ddod i gasgliadau ynglŷn â'r asesiad ar gyfer eleni, unwaith eto fe ddefnyddiodd y Cyngor elfennau craidd y Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol (CPPMF), ac roedd swyddogaeth a phwrpas y broses adolygu perfformiad gwasanaethau yn greiddiol i'r trefniadau llywodraethu corfforaethol cryf a fabwysiadwyd.

Mae hunanwerthuso'n rhan annatod o unrhyw broses sydd ar waith i wella sefydliad, a'i brif bwrpas yw gweithredu fel modd o hunan sicrhau; fodd bynnag, cydnabyddir o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, trwy hunanwerthuso mewn modd effeithiol, y gall hefyd roi sicrwydd i gynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys partneriaid, rheoleiddwyr ac, yn wir, preswylwyr.

Gofynnwyd i bob Gwasanaeth (y mae gan Gyngor Sir Ynys Môn naw ohonynt) gwblhau hunanasesiad - gan sgorio eu perfformiad yn ôl meysydd a nodwyd yr ystyriwyd eu bod yn bwysig o ran mesur perfformiad cyffredinol gwasanaethau. Gofynnwyd iddynt werthuso eu perfformiad yn erbyn y pedwar maen prawf isod ac wedi hynny cawsant eu herio ynghylch eu canfyddiadau gan grŵp o swyddogion ac aelodau etholedig::

1. Rhagorol – Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion rhagorol
2. yn y sector
3. Da – Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
4. Digonol – Cryfderau yn gorbwyso'r meysydd i'w gwella
5. Anfoddhaol – Meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Trwy gydol y naw mlynedd diwethaf, bu'r Cyngor yn gwella ac yn aeddfedu'r modd y mae'n esblygu'r fframwaith rheoli perfformiad.

Mae'r hunanasesiad hwn yn crynhoi casgliad y gwaith hwnnw ar gyfer 2023, ac yn gwerthuso perfformiad cyffredinol y Cyngor, drwy ateb y cwestiynau canlynol yn y modd mwyaf syml -

- Sut hwyl ydym ni'n ei gael arni?
- Sut ydym ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

# A. Rheoli Perfformiad?

## Sut hwyl ydym ni'n ei gael arni?

Er mwyn cael darlun trylwyr, teg a chyflawn o ansawdd rheoli perfformiad o fewn y Cyngor, bydd yr adran hon o'r hunanasesiad yn dwyn ynghyd gwybodaeth am Adroddiadau Perfformiad, Gwasanaethau i Gwsmeriaid, a Llywodraethu a Chydymffurfiaeth. Trwy ddod â'r rhain ynghyd fel tystiolaeth yn 2022, mae ein perfformiad fel sefydliad, ein hawch i reoli newid ynghyd â'r gwelliannau diwylliannol yr ydym ni wedi'u mabwysiadu yn cefnogi'r casgliad cyffredinol bod y Cyngor Sir yn perfformio'n dda ac ar lefel y dylai staff, cynghorwyr a thrigolion fod yn falch ohono.

## Sut ydym ni'n gwybod hynny?

Mae tystiolaeth o'r adroddiadau a'r gweithgareddau a ganlyn a gyflawnwyd trwy gydol y flwyddyn yn dangos canlyniadau cadarnhaol ac yn pwysleisio'r diwylliant o lwyddo sydd wedi'i ymgorffori ar draws gweithlu sydd wedi gorfod ymdopi â mwy o bwysau gwaith a disgwyliadau uwch:

- Yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol
- Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Cod Llywodraethu Lleol
- Adolygiadau Gwasanaeth (allbynnau)
- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn 2021/22
- Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22
- Adroddiad Cynnydd ar y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Canlyniadau arolwg STAR 2021
- Adroddiadau Chwarterol ar y Cerdyn Sgorio
- Lefelau presenoldeb y staff

Mae'r adroddiadau hyn yn dangos bod dangosyddion perfformiad allweddol yn gweithredu ar lefel briodol a chadarn. Mae cydymffurfiaeth staff â pholisïau a gweithdrefnau wedi gwella. Mae cydymffurfiaeth staff â hyfforddiant e-ddysgu hefyd wedi gwella tra bod cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor yn cael eu darlledu ac mae'r 'sgwrs flynyddol' wedi'i hymgorffori ymhellach. Mae gennym hefyd dystiolaeth bod profiad y cwsmer yn gwella ar draws llu o wasanaethau.

Gallwn hefyd gadarnhau bod y pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn fodlon â'r cynnydd a'r gwelliannau hyd yma o ran y Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â pherfformiad cyfredol y Cyngor yn dilyn adroddiadau cadarnhaol gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). Mae'r yr adroddiad yn nodi bod ansawdd ac effeithiolrwydd cadarn arweinwyr y Gwasanaeth Dysgu o fewn awdurdod Ynys Môn yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at sicrhau gwasanaethau addysg o safon uchel.

Hefyd, bydd Cynllun newydd y Cyngor Sir yn arwain a chyfeirio'r sefydliad am gyfnod o bum mlynedd rhwng 2023-2028. Cafodd y Cynllun hwn ei ddatblygu a'i fabwysiadu yn dilyn ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori hynod gynhwysfawr gyda thrigolion, partneriaid, staff ac aelodau etholedig newydd er mwyn cael eu barn a'u cynnwys.

## Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Er bod hon yn stori gadarnhaol sy'n crynhoi'r ethos sy'n cael ei ddatblygu o dan Dîm Arweinyddiaeth a deinamig gwleidyddol newydd, mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo bob amser le i wella. Mae'r gwelliannau a nodwyd ar gyfer 23/24 fel a ganlyn:

1. Adolygu a diwygio’r cerdyn sgorio corfforaethol i nodi’r dangosyddion perthnasol a blaenoriaethau a fydd yn cael eu tracio a’u rheoli yn ystod cyfnod y weinyddiaeth bresennol
2. Gwella’r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl, yn ogystal ag adolygu a diwygio’r Cynllun Gwella Cynllunio i sicrhau newid cynaliadwy i'r dyfodol
3. Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth a thrwy ddefnyddio data o’r fath, cyfathrebu’n effeithiol â staff yr Awdurdod ynglŷn â lefelau perfformiad
4. Parhau i foderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid
5. Adolygu a diwygio’r broses adolygiadau gwasanaeth i sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn cyd-fynd â disgwyliadau’r Hunanasesiad Corfforaethol

DRAFFT

# B. Defnyddio Adnoddau

## Sut hwyl ydym ni'n ei gael arni?

Er mwyn cwrdd â'i gyfrifoldeb i ddefnyddio ei adnoddau'n ddarbodus ac effeithlon, mae'r Cyngor yn rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r modd y mae'n rheoli ei bersonél, ei arian a'i bartneriaethau er mwyn cyrraedd y nod. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn dangos perfformiad cadarn a llwyddiannus y Cyngor, yn enwedig wrth ymdopi ag argyfwng costau byw heriol

## Sut ydym ni'n gwybod hynny?

Roedd argyfwng y coronafeirws, a achosodd dristwch enbyd ledled y byd, yn gyfle i sefydliadau ddod ynghyd er lles y bobl. Mae'r argyfwng costau byw hefyd yn golygu costau uwch i bawb, yn cynnwys y Cyngor. Mewn ymateb does dim amheuaeth bod y Cyngor wedi mynd ati i wella ei bartneriaethau gwaith, cynllunio'n dda ar gyfer yr heriau o ran y gweithlu a rhoi nifer o fentrau arbed arian ar waith ers nifer o flynyddoedd ac felly er ei fod wedi dioddef ergyd ariannol, mae'r Cyngor mewn gwell sefyllfa na nifer o gynghorau eraill ar yr adeg hon.  Mae tystiolaeth ar gael drwy'r ffynonellau isod:

- Presenoldeb staff – ymysg y gorau wedi'i feincnodi yn erbyn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru
- Cadw staff – trosiant yn is na'r safon ar gyfer y diwydiant, sef 8%
- Cynlluniau Datblygu ar gyfer y Gweithlu – cynlluniau yn eu lle ar gyfer pob gwasanaeth
- Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2023/24 - Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn dal yn weddol gryf
- Y Datganiad o Gyfrifon - Cyfrifon terfynol ar gyfer 2021/22 yn cael eu cyhoeddi cyn y dyddiad cau
- Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Cod Llywodraethu Lleol - cyhoeddi yn unol â gofynion CIPFA ochr yn ochr â'r datganiad o gyfrifon, a'r Cod Llywodraethu Lleol sydd mewn lle
- Gwobrau Tai Cymru 2021 – Prosiectau Amgylcheddol Unigol a Grantiau Cartrefi Gwag i Brynwyr Tro Cyntaf, Gwobrau Rhagoriaeth Adeiladu Cymru - Cydnabyddiaeth Genedlaethol i'r gwasanaethau tai yn 2021/22
- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn 2021/22 - mae'r adroddiad yn amlinellu llawer o brosiectau cydweithredol y mae'r Cyngor wedi cyfrannu atynt yn ystod y flwyddyn
- Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22 - mae'r adroddiad yn nodi llawer o ganfyddiadau allweddol ac enghreifftiau o waith da a gyflawnwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Arolwg Estyn o Gyngor Sir Ynys Môn - llawer o enghreifftiau o waith da neu well yn cael ei wneud gan y Cyngor fel y nodwyd gan Estyn
- Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolwg Gwerthuso Perfformiad - amlygir llawer o enghreifftiau cadarnhaol drwy gydol yr adroddiad gan AGC

Mae'n amlwg bod gwasanaethau o'r farn bod eu dull cydweithredol ac integredig o weithio a darparu gwasanaethau er lles pob Ynys Môn yn rhagorol fel y gwelir yn y matrics isod. Hefyd, mae'r sylwadau canlynol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiadau uchod yn cefnogi'r casgliad hwn–

*"Mae ansawdd ac effeithiolrwydd cadarn arweinwyr y Gwasanaeth Dysgu o fewn awdurdod Ynys Môn yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at sicrhau gwasanaethau addysg o safon uchel. Maent yn*

DRAFT

*gosod disgwyliadau uchel, yn arwain timau'n effeithiol ac yn cydweithio'n dda i yrru blaenoriaethau strategol.*

*Mae'r modd y mae arweinwyr, swyddogion ac adrannau gwahanol yr awdurdod yn ystyried y tymor hir ac yn gweithio yn agos iawn gydag ysgolion a phartneriaid allanol a'i gilydd yn nodwedd gref.*

*Mae gweledigaeth glir ynglŷn â gwella ansawdd addysg ac mae cyllidebau addysg wedi eu gwarchod rhag toriadau o gymharu ag adrannau eraill o fewn yr awdurdod."* Arolwg Estyn o Gyngor Sir Ynys Môn

"*Mae lleihau'r angen am ofal a chymorth ffurfiol yn amlwg yn flaenoriaeth gan GSYM a gwelwyd cyd weithio llwyddiannus ar lefel strategol i yrru'r agenda ataliol yn ei blaen.*

*Mae brwdfrydedd a pharodrwydd CSYM i weithio gyda phartneriaid yn gryf. Clywyd am sawl lwyddiant o gyd weithio â phartneriaid ar lefel strategol gyda chynlluniau wedyn yn cael eu gwireddu ar lefel weithredol er budd unigolion. Gwelwyd enghreifftiau da o gydweithio ar lefel weithredol.*" Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolwg Gwerthuso Perfformiad

*"Mae nifer o awdurdodau lleol yn canolbwyntio'u hymdrechion ar grynhoi capasiti cymunedol a grymuso cymunedau i adnabod eu hanghenion a'u blaenoriaethau eu hunain a chynhyrchu datrysiadau dichonadwy. Enghraifft dda o hyn yw gwaith Cyngor Sir Ynys Môn gyda Medrwn Môn, asiantaeth annibynnol sy'n rhoi cymorth a chyngor i fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Dan y fenter 'rhwydwaith o gynghreiriau', mae Medrwn Môn yn helpu i greu system o gynghreiriau lleol ledled yr ynys a gaiff eu grymuso i adnabod y problemau yn eu hardal, yr asedau sydd ar gael i helpu i fynd i'r afael â'r problemau hyn a'r datrysiadau y mae eu hangen i fynd i'r afael â hwy."* Archwilio Cymru, 'Gyda'n gilydd fe allwn ni' Cydnerthedd a Hunanddibyniaeth cymunedau

*"Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yn 'methu â newid y byd ar ei ben ei hun' ac mae wrthi'n frwd yn ceisio partneru gyda sefydliadau a all ei helpu i ddwyn manteision gwirioneddol, ond mae'n cydnabod bod rhai partneriaethau'n darparu mwy o werth ychwanegol na'i gilydd."* Archwilio Cymru, Llamu Ymlaen

Mae sylwadau sy'n cefnogi ein defnydd da o adnoddau yn gyffredinol wedi'u nodi isod -

*"Clywsom neges gyson ganmoladwy gan y gweithlu am ansawdd yr arweinyddiaeth a'r diwylliant ar draws gwasanaethau plant ac oedolion. Clywsom fod rheolwyr yn weledol, hygyrch ac yn rhoi cyngor dibynadwy a rheolaidd, a bod cyfleoedd i ddatblygu yn broffesiynol … Mae'r nifer o weithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol oddi mewn i'r gwasanaethau yn bositif, gyda llai o drosiant na'r targed corfforaethol … Mae ymrwymiad CSYM i ddarparu gwasanaeth drwy'r iaith Gymraeg yn bositif.  Gwelsom dystiolaeth gyson a chadarnhaol fod pobl yn cael y "Cynnig Gweithredol" i siarad Cymraeg, a bod dymuniadau pobl yn cael eu cymryd i ystyriaeth o ran eu dewis iaith."* Arolygiaeth Gofal Cymru - Arolwg Gwerthuso Perfformiad

"*Mae gan y Cyngor weledigaeth a themâu cyflawni allweddol ar gyfer ei weithlu a all gael eu cryfhau trwy ystyriaeth mwy amlwg o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy gwreiddio ymhellach y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig … Mae'r Cyngor o'r farn bod rheoli'r gweithlu'n effeithiol yn bwysicach nag erioed, yn enwedig yn ystod ac ar ôl y pandemig ac mae sicrhau parhad busnes yn rhan hanfodol o ddylunio gwasanaethau cydnerth.."* Archwilio Cymru, Llamu Ymlaen



DRAFT

## Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Er bod yr uchod yn enghreifftiau cadarnhaol o berfformiad da o ran y modd y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau ac yn gweithio mewn partneriaeth, mae'r gwelliannau a nodwyd ar gyfer 23/24 fel a ganlyn:

1. Gweithio gyda phartneriaid i liniaru effaith yr argyfwng costau byw ac amddiffyn y rheiny sydd mewn tlodi
2. Lleihau costau trydan ac ynni ledled y Cyngor a thrwy hynny lleihau allyriadau carbon y Cyngor er mwyn ei helpu i ddod yn gyngor sero net erbyn 2030
3. Nodi cyfleoedd i leihau costau/lefel gwasanaeth a chynyddu incwm drwy godi prisiau, gwella gwasanaethau a defnyddio grantiau lle bo hynny'n briodol
4. Datblygu Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn dangos ei fod yn ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy
5. Lleihau'r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol trwy gytuno ar amserlen gyda'r archwilwyr allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff
6. Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi'i hadolygu a'i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig

DRAFT

# C. Rheoli Risg

## Sut hwyl ydym ni'n ei gael arni?

Mae Rheoli Risg a'i ddefnydd o fewn sefydliad cymhleth fel Cyngor Sir yn angenrheidiol i sicrhau y cyflawnir penderfyniadau, lefelau perfformiad a darpariaeth gwasanaeth mewn modd mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Mae'r adran hon yn cyfuno canfyddiadau o Archwiliadau Mewnol a gynhaliwyd, ynghyd â gan Archwilwyr Allanol a Chymheiriaid, sy'n amlygu'r risgiau y mae angen eu lliniaru, yn ogystal â threfniadau'r Cyngor o ran Rheoli Risg a Diogelu Corfforaethol. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn nodi bod y Cyngor yn perfformio'n gadarn mewn perthynas â'i drefniadau rheoli risg

## Sut ydym ni'n gwybod hynny?

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi gwella'i ddefnydd o reoli risg a'i drefniadau Diogelu Corfforaethol ac mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn yr adroddiadau canlynol yn rhoi sicrwydd ynglŷn â hyn:

- Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Datganiad Cyfrifon
- Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Chod Llywodraethu Lleol
- Adolygiadau Gwasanaeth (allbwn)
- Adolygiadau cenedlaethol a'u hargymhellion cysylltiedig diweddariad Rhagfyr 2022
- Diweddariadau Archwilio Mewnol (adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy gydol y flwyddyn) – Hyd at fis Mawrth 2023
- Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol – Mehefin 2022
- Materion a Risgiau sy'n weddill – Hyd at fis Mawrth 2023
- Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2022
- Arolwg Estyn o Gyngor Sir Ynys Môn
- Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolwg gwerthuso perfformiad
- Arolwg o'r Fframwaith Rheoli Risg
- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau

Mae gwasanaethau o'r farn bod rheoli risg, diogelu corfforaethol ac ymateb i adroddiadau archwilio yn dda. Mae sylwadau o'r adroddiadau a restrir uchod sy'n cefnogi'r sgôr da yn gyffredinol ar gael isod -

*"Am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, barn y Pennaeth Archwilio a Risg yng Nghyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Er nad ydw i'n ystyried unrhyw feysydd o bryder corfforaethol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro. Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon."* Pennaeth Archwilio Mewnol, Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22

*"Mae CSYM yn hybu diwylliant o fyfyrio a dysgu ac yn gweithredu systemau awdit. Gwelsom enghreifftiau o ymarfer da gyda gwaith awdit yn adnabod ymarfer da yn ogystal ac ymarfer sydd angen ei wella. Mae'r craffu corfforaethol yn gryf ac yn herio perfformiad ar draws yr awdurdod lleol."* Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolwg gwerthuso perfformiad

*“Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei drefniadau i fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.”* Archwilio Cymru, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (llythyr)

“Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod bod datganiadau ariannol y Cyngor yn gywir ac yn deg ar 31 Ionawr 2023.” Archwilio Cymru, Archwiliad o Gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn 2021-22

*“Drwy brosesau hunanwerthuso agored, rheolaidd a thrylwyr, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o’r ddarpariaeth addysg ac yn adnabod yn synhwyrol y cryfderau a’r meysydd i’w gwella. Mae arweinwyr, gan gynnwys aelodau etholedig yn barod i gymryd penderfyniadau anodd ac amserol gan newid a mireinio cynlluniau a blaenoriaethau fel mae amgylchiadau’n gofyn. Er enghraifft, wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â moderneiddio ysgolion neu wrth ymateb i argyfwng pandemig COVID-19.”* Arolwg Estyn o Gyngor Sir Ynys Môn

## Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Parhau â’r daith tuag at welliant a’r trefniadau cadarnhaol sydd eisoes ar waith. Nodir y gwelliannau canlynol:

1. Rhoi cynlluniau gweithredu ôl arolwg ar waith yn dilyn adroddiadau Estyn, AGC ac Archwilio Cymru
2. Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd i'r Cyngor
3. Mabwysiadu fframwaith rheoli risg newydd a sicrhau bod gweithdrefnau newydd yn cael eu rhoi ar waith a bod pob gwasanaeth yn eu dilyn
4. Cynyddu dealltwriaeth ynglŷn â’r model Ystyriol o Drawma a gwneud defnydd ehangach o’r model ledled yr ynys
5. Paratoi ar gyfer y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid
6. Darparu hyfforddiant a chanllawiau i swyddogion ynglŷn â’r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol

DRAFT

# Datganiad Sefyllfa Gwasanaethau'r Cyngor – 2023

Sylwch ar ymateb pob gwasanaeth i'r categorïau tystiolaeth ar gyfer 2023:

| Categori Hunanasesu | Categorïau Tystiolaeth | Oedolion | Plant | Busnes y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Tai | Dysgu | Adnoddau | Trawsnewid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Perfformiad | Adroddiadau Perfformiad | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol |
| | Gwasanaeth Cwsmer | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Digonol | Da |
| | Llywodraethu a Chydymffurfiaeth | Da | Da | Da | Da | Digonol | Da | Da | Da | Da |
| Defnyddio Adnoddau | Datblygu'r Gweithlu a Rheoli Pobl | Da | Da | Digonol | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol |
| | Iechyd Ariannol | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol |
| | Cydweithio ac Integreiddio | Rhagorol | Rhagorol | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Rhagorol |
| Rheoli Risg | Adroddiadau rheoleiddio allanol / mewnbwn gan gymheiriaid | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Digonol | Da |
| | Archwilio Mewnol | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da |
| | Diogelu Corfforaethol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da |

## Meysydd Gwella a Nodwyd

Mae'r holl feysydd sydd angen eu gwella a'u monitor yn ystod 2023/24 wedi'u nodi isod

| Maes Gwella | Gwasanaeth Arweiniol |
|---|---|
| **1. Adolygu a diwygio'r cerdyn sgorio corfforaethol i nodi'r dangosyddion perthnasol a blaenoriaethau a fydd yn cael eu tracio a'u rheoli yn ystod cyfnod y weinyddiaeth bresennol** | Trawsnewid |
| **2. Gwella'r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl, yn ogystal ag adolygu a diwygio'r Cynllun Gwella Cynllunio i sicrhau newid cynaliadwy i'r dyfodol** | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br>Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **3. Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth a thrwy ddefnyddio data o'r fath, cyfathrebu'n effeithiol â staff yr Awdurdod ynglŷn â lefelau perfformiad** | Trawsnewid |
| **4. Parhau i foderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid** | Trawsnewid |
| **5. Adolygu a diwygio'r broses adolygiadau gwasanaeth i sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Hunanasesiad Corfforaethol** | Trawsnewid |
| **6. Gweithio gyda phartneriaid i liniaru effaith yr argyfwng costau byw ac amddiffyn y rheiny sydd mewn tlodi** | Trawsnewid / Tai |
| **7. Lleihau costau trydan ac ynni ledled y Cyngor a thrwy hynny lleihau allyriadau carbon y Cyngor er mwyn ei helpu i ddod yn gyngor sero net erbyn 2030** | Swyddfa'r Prif Weithredwr / Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| **8. Nodi cyfleoedd i leihau costau/lefel gwasanaeth a chynyddu incwm drwy godi prisiau, gwella gwasanaethau a defnyddio grantiau lle bo hynny'n briodol** | Adnoddau |
| **9. Datblygu Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn dangos ei fod yn ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy** | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| **10. Lleihau'r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol** | Adnoddau |

DRAFT

| Maes Gwella | Gwasanaeth Arweiniol |
|---|---|
| **trwy gytuno ar amserlen gyda'r archwilwyr allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff** | |
| **11. Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi'i hadolygu a'i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig** | Trawsnewid |
| **12. Rhoi cynlluniau gweithredu ôl arolwg ar waith yn dilyn adroddiadau Estyn, AGC ac Archwilio Cymru** | Pob Gwasanaeth |
| **13. Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd i'r Cyngor** | Adnoddau / Trawsnewid |
| **14. Mabwysiadu fframwaith rheoli risg newydd a sicrhau bod gweithdrefnau newydd yn cael eu rhoi ar waith a bod pob gwasanaeth yn eu dilyn** | Adnoddau |
| **15. Cynyddu dealltwriaeth ynglŷn â'r model Ystyriol o Drawma a gwneud defnydd ehangach o'r model ledled yr ynys** | Dysgu / Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **16. Paratoi ar gyfer y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid** | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **17. Darparu hyfforddiant a chanllawiau i swyddogion ynglŷn â'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol** | Busnes y Cyngor |

DRAFT

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer: | **Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn** |
| Dyddiad: | **28/06/2023, 18/07/2023, 12/09/2023** |
| Pwnc / Testun: | **Ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cynghorydd Carwyn Elias Jones (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer)** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Lynn Ball Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro) lynnball@ynysmon.llyw.cymru** |
| Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost: | **Mared Wyn Yaxley (Cyfreithiwr Llywodraethu Corfforaethol) 01248 752568 maredyaxley@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Nid yw'n fater lleol** |

## A – Argymhelliad

**Argymhelliad:**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio dod i gytundeb ynglŷn ag ymestyn cylch gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (y PGD) i gynnwys y ddarpariaeth ganlynol:

> *"Pan fydd angen trafodaeth, penderfyniad ar ddewis lleol neu ymateb i ymgynghoriad mewn perthynas â materion cyfansoddiadol, gall y Swyddog Monitro, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor, gyflwyno materion o'r fath i'w hystyried gan y Pwyllgor cyn gwneud unrhyw argymhelliad terfynol i'r Cyngor llawn neu cyn anfon unrhyw ymateb i ymgynghoriad ("y cynnig")"*

- Gofynnir i'r PGD argymell bod y Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn yn cymeradwyo'r cynnig;

- Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell y cynnig i'r Cyngor llawn ynghyd â'r newidiadau angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor yn sgîl hynny; a

- Gofynnir i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r cynnig a'r newidiadau cyfansoddiadol angenrheidiol o ganlyniad i'r newid/ychwanegiad i gylch gorchwyl y PGD.

## A – Rhesymau

**Rhesymau:**

1. **Y trefniadau presennol ar gyfer newid y Cyfansoddiad:**

1.1. Rhaid i bob Cyngor fabwysiadu a chynnal Cyfansoddiad sy'n cynnwys gwybodaeth benodol ynglŷn â threfniadau llywodraethu'r Cyngor.

1.2. Mae dwy ffordd y gellir newid Cyfansoddiad y Cyngor:-

1.2.1. gan y Cyngor llawn, wedi i'r mater gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith (adran 2.15.2 o'r Cyfansoddiad) neu

1.2.2. gan y Swyddog Monitro o dan yr awdurdod cyfyngedig sydd wedi ei ddirprwyo iddynt ar gyfer gwneud newidiadau cyfansoddiadol ôl-ddilynol (Adran 3.5.3.6.6 o'r Cyfansoddiad).

2. **Y cynnig:**

2.1. Yn achos rhai materion, sy'n debygol o arwain at newidiadau cyfansoddiadol a fydd yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn, mae'n bwysig bod yr opsiynau / manteision / anfanteision yn cael eu trafod yn fanwl cyn y gwneir penderfyniad. Nid yw'n bosib trafod materion mewn llawer o fanylder yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn.

2.2. Felly cynigir bod y PGD, dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn 2.1 uchod, yn gwneud y gwaith hwn ar ran y Cyngor. Bydd y PGD hefyd yn ymateb i ymgynghoriadau yn ymwneud â materion cyfansoddiadol.

2.3. Mae'r opsiynau eraill yn cynnwys sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen unigol ar gyfer pob darn o waith, neu sefydlu is-bwyllgor sefydlog o'r Cyngor. Fodd bynnag, awgrymir mai newid cylch gorchwyl y PGD yw'r ateb mwyaf ymarferol, oherwydd:

(a) Mae'r PGD yn ofyniad statudol ac mae wedi'i sefydlu'n barod;

(b) Mae'n Bwyllgor â chydbwysedd gwleidyddol; ac

(c) Mae'r cynnig yn cydweddu'n dda â rôl statudol y PGD.

3. **Cylch gorchwyl deddfwriaethol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:**

3.1. O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, mae'n rhaid i'r Cyngor benodi PGD.

3.2. Mae cylch gorchwyl y PGD hefyd wedi'i nodi yn y ddeddfwriaeth, ac mae'n cynnwys penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â'r

ddarpariaeth honno (adran 11 o Fesur 2011). Mae’r materion a ystyrir yn “swyddogaethau gwasanaethau democrataidd” wedi’u rhestru yn adran 9 o Fesur 2011.

3.3. Mae cylch gorchwyl cyfredol y PGD wedi’i gynnwys yn adran 3.4.12 o Gyfansoddiad y Cyngor.

## 4. Ymestyn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

4.1. Er bod Mesur Llywodraeth Leol 2011yn mynnu bod rhaid i’r Cyngor sefydlu PGD, mae’n ei atal rhag dyrannu swyddogaethau i’r pwyllgor sydd y tu hwnt i’w ddyletswyddau statudol (adran 16).

4.2. Awgrymir bod y cynnig yn ddehongliad rhesymol, ond cyffredinol, o ddyletswydd statudol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i “*adolygu pa mor ddigonol yw'r ddarpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, llety ac* ***adnoddau eraill*** *[pwyslais gennyf i] i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd*”.

## 5. Y cynnig i ymestyn Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd:

5.1. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys cylch gorchwyl cyfredol y PGD, gyda’r newidiadau arfaethedig wedi’u marcio.

5.2. Ni ragwelir y bydd pob newid cyfansoddiadol yn cael ei ystyried neu ei drafod gan y PGD; bydd hynny’n digwydd dim ond pan fydd angen trafodaeth neu benderfyniad ar ddewis lleol neu er mwyn cytuno ar ymateb i unrhyw ymgynghoriad ar faterion sy’n effeithio ar Gyfansoddiad y Cyngor. Y Swyddog Monitro, gyda chytundeb Cadeirydd y PGD, fydd yn penderfynu p’un ai a fydd mater penodol yn cael ei adolygu gan y PGD.

5.3. Bydd gan y PGD y pŵer i gyflwyno argymhellion i’r Cyngor mewn perthynas â newidiadau cyfansoddiadol arfaethedig yn unig; ni fydd ganddo’r pŵer i wneud y newidiadau hynny.

## 6. Newidiadau o ganlyniad:

6.1. Yn ogystal â newid cylch gorchwyl y PGD, rhaid newid Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn adlewyrchu rôl ychwanegol y PGD mewn perthynas â materion cyfansoddiadol.

6.2. Mae’r geiriad arfaethedig yn **Atodiad 2** yr adroddiad yn adlewyrchu’r newid hwn, ac mae’r newidiadau wedi’u marcio.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| **<u>Dim newid:</u>**<br><br>Nid yw'r trefniadau presennol yn caniatáu edrych yn fanwl ar newidiadau cyfansoddiadol; yn enwedig pan fo mwy nag un opsiwn ar gael. Byddai'n fanteisiol pe byddai cyfle o'r fath ar gael. Mae angen llawer iawn o drafodaeth wrth ymateb i ymgynghoriadau yn ogystal, ac nid yw hyn yn bosib yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn. Hefyd, nid yw amserlenni ymgynghoriadau a chyfarfodydd y Cyngor bob amser yn cyd-fynd. Byddai hefyd yn fanteisiol fel rhan o'r broses pe byddai'r PGD yn meithrin arbenigedd o ran materion cyfansoddiadol.<br><br>**<u>Opsiynau eraill:</u>**<br><br>Eir i'r afael â'r rhain yn adran 2.3 uchod ac maent yn cynnwys:<br>- sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen yn ôl y galw, neu<br>- sefydlu is-bwyllgor sefydlog o'r Cyngor.<br><br>Fodd bynnag, bernir mai diwygio cylch gorchwyl y PGD yw'r opsiwn mwyaf ymarferol oherwydd bod y PGD eisoes wedi'i sefydlu fel Pwyllgor statudol, mae ganddo gydbwysedd gwleidyddol ac mae'r cynnig yn cyd-fynd yn rhesymol â chyfrifoldebau cyfredol y PGD. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Dim ond y Cyngor all gymeradwyo newidiadau i gyfansoddiad Pwyllgorau'r Cyngor (Paragraff 3.2.3.5 o Gyfansoddiad y Cyngor).<br><br>Ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i'r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig. (Paragraff 2.15.2 o Gyfansoddiad y Cyngor). |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'r newidiadau i gylch gorchwyl y PGD, ac felly i Gyfansoddiad y Cyngor, yn unol â'r darpariaethau statudol a chyfansoddiadol. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / | |

CC-022755-LB/00758807

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

| | | |
|---|---|---|
| | dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Nid yw 1-7 yn berthnasol yn uniongyrchol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Wedi'i ystyried gan y TA ar 26/6/2023 |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Aelod o'r TA |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Awdur yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |
| 10 | Arall | Mae'r Swyddog Monitro wedi cyflwyno'r cynnig i Gadeirydd y PGD, a'r Arweinyddion Grŵp, ac roeddent |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| | | yn gefnogol o'r newidiadau a awgrymwyd. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| **Atodiad 1** – Cylch Gorchwyl cyfredol y PGD (fel ac y mae'n ymddangos yn adran 3.4.12 o Gyfansoddiad y Cyngor) ynghyd â'r newidiadau arfaethedig er mwyn ymestyn y cylch gorchwyl, yn unol â'r cynnig yn yr adroddiad hwn, sydd wedi'u marcio.<br><br>**Atodiad 2** – Adran 2.15.2 o Gyfansoddiad y Cyngor (delio â Newidiadau i'r Cyfansoddiad) gyda'r newidiadau wedi'u marcio. |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Dim |

**Atodiad 1 – adran 3.4.12 o Gyfansoddiad y Cyngor (Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) gyda'r newidiadau wedi'u marcio**

## 3.4.12 Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

3.4.12.1 Mae gofyn i bob awdurdod lleol benodi pwyllgor o'r Cyngor i ddynodi'r Pennaeth Democratiaeth, i oruchwylio gwaith y Gwasanaethau Democrataidd, i sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer y gwaith ac i adrodd i'r Cyngor llawn yn unol â hynny.

### 3.4.12.2 Aelodaeth

3.4.12.2.1 Naw aelod i fod yn wleidyddol gytbwys.

3.4.12.2.2 Cyfyngir aelodaeth o'r pwyllgor i gynghorwyr.

3.4.12.2.3 Yn unol â'r ddeddfwriaeth, ni chaiff mwy nag un aelod o Bwyllgor Gwaith y Cyngor fod yn aelod. Mae gwahoddiad sefydlog i Aelod o'r Pwyllgor Gwaith ddod i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Byddai o fantais i'r Eiriolydd Aelodau fod yn aelod.

3.4.12.2.4 Ni chaiff Arweinydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor fod yn aelod o'r pwyllgor.

### 3.4.12.3 Cadeirio'r Pwyllgor

3.4.12.3.1 Penodir y Cadeirydd gan y Cyngor llawn

3.4.12.3.2 Ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o grŵp a gynrychiolir ar y Pwyllgor Gwaith (ac eithrio mewn awdurdodau lle mae'r holl grwpiau gwleidyddol yn cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith, ac yn yr achos hwnnw, ni chaiff y Cadeirydd fod yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith).

3.4.12.3.3 Caiff yr Is-gadeirydd ei (h)ethol gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod cyntaf ar ôl Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

3.4.12.3.4 Penodir cadeiryddion unrhyw is-bwyllgorau gan y Pwyllgor.

### 3.4.12.4 Cyfarfodydd ac ati

Mae'r darpariaethau sy'n llywodraethu cyfarfodydd y Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys:

3.4.12.4.1 bod y Pwyllgor (ac is-bwyllgor) yn medru galw tystion (y bydd dyletswydd arnynt i fynychu os ydynt yn aelodau neu'n swyddogion o'r awdurdod, ond ni fydd tyst o unrhyw ddisgrifiad yn gorfod ateb unrhyw gwestiwn y byddai ganddynt hawl i wrthod ei ateb mewn, neu mewn cysylltiad gyda, achosion llys yn Lloegr a Chymru);

**Atodiad 1 – adran 3.4.12 o Gyfansoddiad y Cyngor (Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd) gyda'r newidiadau wedi'u marcio**

3.4.12.4.2 bod cyfarfodydd, papurau a chofnodion y pwyllgor (a'r is-bwyllgor) yn destun gofynion ynghylch mynediad, cyhoeddi ac arolygu fel y cânt eu hamlinellu yn Rhan VA Deddf 1972.

3.4.12.4.3 Yn unol â'r ddeddfwriaeth, bydd y Pwyllgor yn dynodi Swyddog o'r Cyngor i fod yn Bennaeth Democratiaeth, ond nid y Prif Weithredwr, a'r Swyddog Adran 151.

**3.4.12.5 Adroddiadau ac argymhellion gan y Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd**

3.4.12.5.1 Os bydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi unrhyw adroddiad neu yn gwneud argymhellion ynghylch y ddarpariaeth o staff, llety ac adnoddau eraill gan yr awdurdod lleol ar gyfer cyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, rhaid anfon copi at bob aelod o'r awdurdod nad yw'n aelod o'r pwyllgor, cyn gynted ag y bo modd. Rhaid cynnal cyfarfod o'r cyngor llawn i ystyried adroddiadau neu argymhellion o'r fath cyn pen tri mis iddynt gael eu hanfon at aelodau'r awdurdod.

3.4.12.6 Cylch gorchwyl y Pwyllgor

3.4.12.6.1 ~~Ymestynnir~~Mae -cylch gorchwyl y Pwyllgor yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac fe'i ymestynnir i ymgymryd â chyfrifoldebau mewn perthynas â'r rhaglen hyfforddi a datblygu ar gyfer Aelodau, gan gynnwys sgiliau TG a chefnogaeth ar gyfer y sgiliau hynny.

3.4.12.6.2 Pan fydd angen trafodaeth, penderfyniad ar ddewis lleol neu ymateb i ymgynghoriad mewn perthynas â materion cyfansoddiadol, gall y Swyddog Monitro, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor, gyflwyno materion o'r fath i'w hystyried gan y Pwyllgor cyn gwneud unrhyw argymhelliad terfynol i'r Cyngor llawn neu cyn anfon unrhyw ymateb i ymgynghoriad.

3.4.12.7 Bydd y Pwyllgor yn cynnal tri chyfarfod cyffredin yn ychwanegol at ei Gyfarfod Blynyddol ym mhob Blwyddyn Ddinesig gyda'r hawl i drefnu cyfarfodydd eraill yn ôl yr angen.

**Atodiad 2 - Newidiadau Cyfansoddiadol eraill**

**2.15.2 Newidiadau i'r Cyfansoddiad**

**2.15.2.1 Cymeradwyaeth**

2.15.2.1.1. Bydd y broses ar gyfer newid y Cyfansoddiad yn amrywio yn ddibynnol ar y math o newid sydd ei angen.

Yn amodol ar baragraff 3.5.3.6.6, a 3.4.12.6.2, ni fydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo newidiadau i’r Cyfansoddiad hyd oni fydd y Pwyllgor Gwaith wedi ystyried y cynnig.

Ni fydd y Pwyllgor Gwaith na’r Cyngor Sir yn ystyried yr un newid i’r Cyfansoddiad a fyddai’n rhagfarnu’n~~r~~ anghymesur hawliau neu fuddiannau grŵp/iau lleiafrifol o fewn y Cyngor heb yn gyntaf dderbyn argymhelliad/argymhellion y Pwyllgor Safonau ac ystyried y rheini’n briodol. Y Prif Weithredwr fydd yn penderfynu os oes unrhyw anghydfod ynghylch a ydyw newid/newidiadau yn mynd i ragfarnu’r anghymesur hawliau neu ar fuddiannau grŵp/grwpiau lleiafrifol.

2.15.2.1.2 Rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd o dan baragraff 3.4.12.6.2

Pan fydd angen trafodaeth neu benderfyniad ar ddewis lleol mewn perthynas â materion cyfansoddiadol, gall y Swyddog Monitro, gyda chaniatâd Cadeirydd y Pwyllgor, gyflwyno materion o’r fath i’w hystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd cyn gwneud unrhyw argymhelliad terfynol i'r Cyngor llawn yn unol â pharagraff 3.4.12.6.2.

2.15.2.1.3 Rôl y Swyddog Monitro o dan baragraff 3.5.3.6.6

Y Swyddog Monitro fydd yn gyfrifol am adolygu a diweddaru Cyfansoddiad y Cyngor o bryd i’w gilydd a gwneud mân newidiadau yn unol â pharagraff 3.5.3.6.6.

**2.15.2.2 Newid i drefn weithredol gyda maer neu i fath arall o drefn weithredol neu i drefniadau gwahanol eto.**

Rhaid i'r Cyngor gymryd camau rhesymol i ymgynghori ag etholwyr lleol a phobl eraill sydd â diddordeb yn yr ardal wrth lunio cynigion a rhaid iddo gynnal refferendwm ymrwymol os ydyw'n ystyried newid i ddull o drefn weithredol gyda Maer.

**2.15.2.3 Newid yn y system bleidleisio ar gyfer ethol Cynghorwyr i’r Cyngor**

**2.15.2.3.1 Dwy system bleidleisio**
(1) Mae dwy system ar gyfer ethol Cynghorwyr i’r Cyngor pan gynhelir pleidleisiau mewn etholiadau a ymleddir—

(a) system mwyafrif syml, neu

(b) system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

2.15.2.3.2 Ystyr “system mwyafrif syml” yw system etholiadol pan fo -

(a) pob pleidleisiwr yn cael bwrw pa faint bynnag o bleidleisiau ag sydd o swyddi i'w llenwi;

(b) yn achos etholiad ar gyfer un swydd, yr ymgeisydd sy'n cael y nifer uchaf o bleidleisiau yn cael ei ethol;

(c) yn achos etholiad i lenwi mwy nag un swydd, yr ymgeiswyr sy'n gyfartal â nifer y swyddi sydd i'w llenwi sy'n cael y nifer uchaf o bleidleisiau yn cael eu hethol.

Ystyr "system pleidlais sengl drosglwyddadwy" yw system etholiadol pan fo—

(a) yn achos etholiad i lenwi mwy nag un swydd—

pleidleiswyr yn mynegi dewis cyntaf o ran un ymgeisydd a chaniateir iddynt fynegi ail ddewis a dewisiadau pellach o ran ymgeiswyr eraill;

(ii) cwota ar gyfer ethol yn cael ei gyfrifo ar sail nifer y pleidleisiau a'r swyddi sydd i'w llenwi;

(iii) y dewisiadau cyntaf yn cael eu cyfrif ac unrhyw ymgeisydd y mae'r pleidleisiau dewisiadau cyntaf ar ei gyfer yn cyfateb i'r cwota neu uwchlaw'r cwota yn cael ei ethol;

(iv) os yw nifer yr ymgeiswyr a etholir o dan is-baragraff (iii) yn annigonol, y gyfran o bleidleisiau ymgeisydd a etholwyd sydd uwchlaw'r cwota yn cael ei hailddosbarthu yn ôl dewisiadau pellach y pleidleiswyr;

(v) yr ymgeiswyr sy'n cyrraedd y cwota bryd hynny yn cael eu hethol a'r ymgeisydd sydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau yn cael ei eithrio;

(vi) pleidleisiau'r ymgeisydd a gafodd ei eithrio yn cael eu hailddosbarthu yn ôl dewisiadau pellach y pleidleiswyr;

(vii) os yw nifer yr ymgeiswyr a etholir o dan is-baragraffau (iv) i (vi) yn annigonol, y camau a ddisgrifir yn yr is-baragraffau hynny yn cael eu hailadrodd hyd nes y bo'r holl swyddi wedi eu llenwi;

(b) yn achos etholiad ar gyfer un swydd—

(i) pleidleiswyr yn mynegi dewis cyntaf o ran un ymgeisydd a chaniateir iddynt fynegi ail ddewis a dewisiadau pellach o ran ymgeiswyr eraill;

(ii) mwyafrif absoliwt o bleidleisiau er mwyn ethol ymgeisydd yn cael ei gyfrifo ar sail nifer y pleidleisiau;

(iii) y dewisiadau cyntaf yn cael eu cyfrif ac, ac os yw'r pleidleisiau dewisiadau cyntaf ar gyfer yr ymgeisydd yn cyfateb i'r mwyafrif absoliwt o'r pleidleisiau neu uwchlaw'r mwyafrif absoliwt hwnnw, yr ymgeisydd hwnnw yn cael ei ethol;

(iv) os na chaiff unrhyw ymgeisydd ei ethol o dan is-baragraff (iii), bydd yr ymgeisydd sydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau'n cael ei eithrio, pleidleisiau'r ymgeisydd a gafodd ei eithrio yn cael eu hailddosbarthu yn ôl dewisiadau pellach y pleidleiswyr ac ymgeisydd sydd yn cyrraedd y mwyafrif absoliwt bryd hynny yn cael ei ethol;

(v) os na chaiff unrhyw ymgeisydd ei ethol o dan is-baragraff (iv), y camau a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) yn cael eu hailadrodd hyd nes y bo ymgeisydd yn cael ei ethol.

2.15.2.3.2 Mae’r system mwyafrif syml y darperir ar ei chyfer gan reolau etholiadau lleol yn gymwys yn y cyngor, oni bai a hyd nes y bo’r Cyngor yn newid y system bleidleisio am y tro cyntaf.

2.15.2.3.3 Caiff y Cyngor newid y system bleidleisio sy’n gymwys i ethol Cynghorwyr i’r Cyngor i system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Yn y dyfodol, os y system pleidlais sengl drosglwyddadwy y darperir ar ei chyfer gan reolau etholiadau lleol yw’r system bleidleisio sy’n gymwys i Gyngor am y tro, caiff y Cyngor ei newid i’r system mwyafrif syml.

2.15.2.3.4 Nid yw’r pŵer i newid y system bleidleisio;
(a) i fod yn gyfrifoldeb i Bwyllgor Gwaith y Cyngor o dan drefniadau Gweithrediaeth
(b) yn swyddogaeth y mae adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys iddi.

2.15.2.3.5 Cyn i’r Cyngor arfer ei bŵer i newid ei system bleidleisio rhaid iddo ymgynghori ag—

(a) y personau sydd â hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad llywodraeth leol yn ei ardal;

(b) pob cyngor cymuned yn ei ardal;

(c) unrhyw bersonau eraill y mae’n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â nhw.

(4) Ar ôl i’r Cyngor newid ei system bleidleisio am y tro cyntaf, mae’r system y mae’r Cyngor wedi penderfynu newid iddi yn fwyaf diweddar yn gymwys.

(5) Os yw’r Cyngor yn newid ei system bleidleisio, mae’r newid yn cael effaith yn yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer Cynghorwyr sy’n digwydd ar ôl i’r Cyngor basio’r penderfyniad a bydd yn parhau i gael effaith oni bai a hyd nes y bo’r system yn cael ei newid eto.

(6) Ond, mewn pleidlais mewn etholiad i lenwi swydd Cynghorydd sy’n digwydd dod yn wag a gynhelir cyn yr etholiad cyffredin cyntaf ar gyfer Cynghorwyr ar ôl i’r Cyngor basio’r penderfyniad, mae’r system bleidleisio a oedd yn gymwys yn yr etholiad cyffredin diwethaf yn gymwys.

Caiff Cyngor newid y system bleidleisio sy’n gymwys i ethol Cynghorwyr i’r Cyngor.

(1) Os y system mwyafrif syml y darperir ar ei chyfer gan reolau etholiadau lleol yw’r system bleidleisio sy’n gymwys i’r Cyngor am y tro, caiff y Cyngor ei newid i’r system pleidlais sengl drosglwyddadwy y darperir ar ei chyfer gan y rheolau hynny.

(2) Os y system pleidlais sengl drosglwyddadwy y darperir ar ei chyfer gan reolau etholiadau lleol yw’r system bleidleisio sy’n gymwys i’r Cyngor am y tro, caiff y Cyngor ei newid i’r system mwyafrif syml y darperir ar ei chyfer gan y rheolau hynny.

(3) Nid yw’r pŵer i newid y system bleidleisio o dan yr adran hon—

(b) yn swyddogaeth y mae adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys iddi.

(4) Cyn i’r Cyngor arfer ei bŵer i newid ei system bleidleisio rhaid iddo ymgynghori ag—

(a) y personau sydd â hawl i bleidleisio fel etholwyr mewn etholiad llywodraeth leol yn ei ardal;

(b) pob cyngor cymuned yn ei ardal;

(c) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â nhw.

haid i bŵer y Cyngor i newid ei system bleidleisio gael ei arfer drwy benderfyniad y Cyngor

- rhaid i benderfyniad i arfer y pŵer gael ei basio gan o leiaf ddau draean o gyfanswm y seddau Cynghorwyr ar y Cyngor.
- rhaid i'r cynnig gael ei ystyried mewn cyfarfod a gynullwyd yn arbennig at y diben hwnnw
- rhaid rhoi hysbysiad ysgrifenedig am y cyfarfod i'r holl gynghorwyr, a
- rhaid cynnal y cyfarfod ar ôl diwedd cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y rhoddir hysbysiad.

2.15.2.3.6.1 Rhaid pasio cynnig i arfer y pŵer cyn 15 Tachwedd yn y flwyddyn sydd dair blynedd cyn y flwyddyn y bwriedir i'r etholiad cyffredin nesaf ar gyfer y Cyngor gael ei gynnal.

2.15.2.3.6.2 Ar ôl i'r Cyngor arfer y pŵer, nid yw penderfyniad pellach i arfer y pŵer yn cael unrhyw effaith oni fod dau etholiad cyffredin ar gyfer y Cyngor wedi eu cynnal o dan y system bleidleisio y'i newidiwyd iddi.

2.15.2.3.6.3 Nid yw penderfyniad i arfer y pŵer sy'n cael ei basio yn ystod y cyfnod rhwng dau etholiad cyffredin olynol i'r Cyngor yn cael unrhyw effaith os yw'r Cyngor wedi pleidleisio yn flaenorol ar benderfyniad i arfer y pŵer yn ystod y cyfnod hwnnw mewn cyfarfod a gynhaliwyd at y diben hwnnw.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Cyngor Llawn |
| **Dyddiad:** | 12fed Medi 2023 |
| **Pwnc / Testun:** | Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) – Drafft Terfynol |
| **Deilydd(ion) Portffolio:** | **Cyng. Neville Evans** (Hamdden, Twristiaeth a Morwrol) |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | **Christian Branch**<br>Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Tel:**<br>**E-bost:** | **Andy Godber**<br>Rheolwr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol<br><br>andygodber@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Yn berthnasol i holl Aelodau Etholedig |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol newydd (2023-2028).**

Sefydlwyd Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) gan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad (1949). Maen nhw'n dirweddau arbennig sydd â gwarchodaeth drwy'r system gynllunio i warchod eu harddwch naturiol. Roedd Deddfwriaeth ddilynol – Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CROW) 2000 – yn gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol sy'n gweinyddu AHNE baratoi a chyhoeddi cynlluniau rheoli ar gyfer eu hardal, ac adolygu'r cynlluniau hyn bob 5 mlynedd. Mae hon yn ddyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol.

Diben Cynllun Rheoli AHNE yw gwerthuso a phennu nodweddion arbennig yr AHNE, ac mae'n nodi pa gamau sydd eu hangen i sicrhau bod y rhinweddau hyn yn cael eu cadw a'u gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'n ofyniad statudol ar y Cyngor Sir i baratoi Cynllun Rheoli AHNE

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

| |
|---|
| Mae'n gynllun statudol sy'n gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae'r Cynllun Rheoli AHNE yn cyd-fynd yn llawn â Chynllun newydd y Cyngor, ac o ystyried ei gyfrifoldebau eang bydd yn helpu i gyflawni'r 6 blaenoriaeth allweddol sef:<br>▪ Gofal Cymdeithasol a Llesiant – gan ddarparu'r cymorth cywir ar yr adeg gywir<br>▪ Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol<br>▪ Tai – sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref<br>▪ Economi – hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys<br>▪ Newid Hinsawdd – ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030<br>▪ Y Gymraeg - cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith<br><br>Roedd y Cynllun drafft yn destun proses ymgynghori gyhoeddus 6 wythnos. Ceir crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd, a'r newidiadau yn dilyn yr ymgynghoriad i'r Cynllun terfynol, yn yr Adroddiad Ymgynghori **(Atodiad B).** |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Mae cyllid wedi ei sicrhau gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu a gweithredu'r Cynllun.<br><br>Bydd ffynonellau cyllid allanol ychwanegol hefyd yn cael eu harchwilio i gyflawni'r Cynllun rhwng 2023 a 2028. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r Cynllun Rheoli yn darparu fframwaith i sicrhau rheolaeth briodol, hirdymor yr AHNE.<br><br>Mae'r Cynllun Rheoli yn canolbwyntio ar rinweddau arbennig yr AHNE i sicrhau eu cadwraeth a'u gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / | Darperir cyllid gan CNC i ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Rheoli |

| | | |
|---|---|---|
| | dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Rheoli, mewn cydweithrediad â'r Cydbwyllgor Cynghori. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid sy'n chwarae rhan weithredol o reoli'r AHNE. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Mae'r Cynllun Rheoli AHNE drafft wedi bod yn destun cyfnod o ymgynghori cyhoeddus |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Rydym wedi cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| Atodiad A: Cynllun Rheoli AHNE (2023-2028)<br>Atodiad B: Adroddiad Crynodeb o'r Ymgynghoriad |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
| --- |
| |

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

# Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn 2023-2028



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. Ymwelwch a www.ynysmon.llyw.cymru am gopi digidol
This document is available in English. Visit www.Anglesey.gov.wales for digital copy



Biwmaris/Beaumaris


| Tudalen | Cynnwys |
|---|---|
| 3 | Cyflwyno’r AHNE |
| 6 | Gweledigaeth |
| 7 | Cyflwyno'r Themâu Allweddol |
| 8 | Prif Nodweddion yr AHNE |
| 13 | Ysgogwyr Newid Allweddol |
| 23 | 5 Themâu Allweddol ar gyfer Cynllun Rheoli 2023-28 |
| 29 | Rheoli a Llywodraethu |

# Cyflwyno'r AHNE

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn yn cwmpasu rhannau helaeth o arfordir dramatig Ynys Môn. Mae'n cynnwys rhan fwyaf o glogwyni a thraethau'r ynys, a llawer o'r tir amaethyddol a fforestydd sy'n ffurfio'r gefnlen i arfordir yr ynys. Mae Ynys Môn yn cadw ei statws fel cyrchfan wyliau boblogaidd oherwydd ei thraethau eang a'i chilfachau cudd. Ond, yn hanfodol, mae hefyd yn dirwedd waith o ffermydd a phentrefi, gydag economi arfordirol a gwledig llewyrchus ac amrywiol.

- Mae gan AHNE Ynys Môn un o'r tirweddau mwyaf arbennig, atyniadol ac amrywiol yn Ynysoedd Prydain. Cafodd ei ddynodi fel AHNE yn 1966 i amddiffyn apêl esthetig ac amrywiaeth tirwedd arfordirol yr ynys a'i chynefinoedd rhag datblygiad amhriodol. Ym mhedwerydd adroddiad ar bymtheg y Comisiwn Paciau Cenedlaethol ac adroddiad cyntaf y Comisiwn Cefn Gwlad a gyhoeddwyd yn 1968 disgrifir AHNE Ynys Môn fel a ganlyn:
- Mae'r ardaloedd sydd wedi eu dynodi ar Ynys Môn oddeutu 83 milltir sgwâr ac yn gorwedd ar hyd arfordir yr ynys gyda bylchau o amgylch yr ardaloedd trefol ac yng nghyffiniau Wylfa. Mae arfordir Ynys Môn, gyda nifer o rannau sy'n ynysig, yn cyfrannu llawer at apêl yr ynys. Mae'r clogwyni garw, y baeau tywodlyd, y corsydd a'r twyni, glannau cysgodol y Fenai a llethrau gwyntog mynydd Caergybi a Bodafon yn rhoi golygfeydd amrywiol gwych.
- Dynodiad arfordirol yw'r AHNE yn bennaf, yn cwmpasu'r rhan fwyaf o 201 km o arfordir Ynys Môn. Mae'n cynnwys Mynydd Caergybi a Mynydd Bodafon, ynghyd ag ardaloedd sylweddol o dir sy'n ffurfio cefnlen hanfodol yr arfordir. Maint cyfan yr AHNE yw oddeutu 221 km sgwâr (22,100 hectar).

# Ynghylch y cynllun rheoli hwn

Tudalen 162




Sefydlwyd Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol gan y Parciau Cenedlaethol a Deddf Mynediad i Gefn Gwlad (1949). Maent yn dirweddau arbennig sydd wedi eu gwarchod gan system gynllunio i gynorthwyo i warchod eu harddwch naturiol gyda'r prif bwrpas o warchod a gwella harddwch naturiol.

Deddfwriaeth Ddilynol - Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CGHT) - roedd y ddeddf hon yn ei gwneud hi’n ofynnol i bob awdurdod lleol sy’n gweinyddu AHNE i baratoi a chyhoeddi cynllun rheoli ar gyfer eu hardaloedd, ac i adolygu’r cynlluniau hyn bob 5 mlynedd.

- Pwrpas Cynllun Rheoli AHNE yw gwerthuso a phenderfynu ar rinweddau arbennig yr AHNE, a nodi pa gamau sy’n ofynnol i sicrhau bod y rhinweddau hyn yn cael eu gwarchod a’u cyfoethogi ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

- Paratowyd cynllun rheoli gwreiddiol AHNE Ynys Môn, o 2004, gyda chyfranogiad holl bartneriaid yr AHNE, perchnogion tir lleol a’r gymuned. Mae adolygiadau dilynol, yn cynnwys hwn, wedi diweddaru gwybodaeth bwysig ac asesu perthnasedd yr amcanion, y polisïau a’r gweithredoedd sy’n hanfodol i reoli’r AHNE yn effeithiol a chynaliadwy.

- Mae’r cynllun rheoli hwn ar gyfer pawb sydd â diddordeb mewn gwarchod a rheoli AHNE Ynys Môn. Mae’n gynllun ar gyfer tirwedd a morlun yr AHNE, i’r busnesau a’r cymunedau o fewn ei hardal, i’r ymwelwyr sy’n mwynhau ei golygfeydd, ei hawyr dywyll a’i llonyddwch, ac i bawb ar yr ynys gyfan sy’n gwerthfawrogi ei rhinweddau arbennig

# Prif Nodweddion yr AHNE

**Nodweddion AHNE Ynys Môn sy'n diffinio ei statws dynodedig**
- Nodweddion tirwedd arfordirol / morlun
- Nodweddion tirwedd amaethyddol traddodiadol
- Nodweddion geomorffolegol a daearegol

**Rhinweddau arbennig AHNE Ynys Môn sy'n diffinio ei statws dynodedig**
- Golygfeydd eang / morluniau
- Heddwch a llonyddwch
- Ynysoedd o amgylch Ynys Môn
- Coetir llydanddail
- Rhostiroedd arfordirol iseldir
- Ymylon ffyrdd sy'n gyfoethog o rywogaethau
- Cynefinoedd gwlypdir ac arfordirol sydd â phwysigrwydd ecolegol (yn cynnwys glannau creigiog, fflatiau llaid ac aberoedd, morfeydd heli, traethau a thwyni.
- Amgylchedd adeiledig yn cynnwys ardaloedd cadwraeth ac adeiladau rhestredig
- Archaeoleg a henebion hynafol / tirweddau hanesyddol, parciau a gerddi
- Cymunedau amaethyddol gwledig / arfordirol
- Yr Iaith Gymraeg
- Ansawdd y pridd, aer a dŵr
- Rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus
- Dŵr a thir hygyrch

# Gweledigaeth

Pwrpas yr AHNE yw gwarchod a gwella harddwch naturiol.

Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn (AHNE) yn cael ei chydnabod fel ased lleol a chenedlaethol sy'n hanfodol i economi, amgylchedd, diwylliant a lles cymunedau Ynys Môn a'r rhai sy'n ymweld â'r Ynys. Mae cysylltiad cynyddol â'r rhinweddau arbennig hyn ac mae'r rhain yn cael eu gwarchod, eu gwella, eu gwerthfawrogi, eu deall a gallant fod wrth wraidd y gymuned a'r diwydiant ymwelwyr sy'n amgylchedd gyfrifol ac yn economaidd gynaliadwy.

Mae parhad ac atgyfnerthiad arferion a thraddodiadau, a'r defnydd o'r Gymraeg wedi ychwanegu at hunaniaeth a'r ymdeimlad o le. Mae AHNE Ynys Môn wedi gallu unioni'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac mae'n cael ei reoli mewn ffordd sy'n addasu a'n lliniaru effeithiau newid hinsawdd er mwyn gwarchod ei harddwch naturiol wrth gefnogi anghenion cymunedau lleol a busnesau gwledig.



Porth Dafarch

# Ynghylch yr AHNE

## Dynodiadau

Mae'r AHNE yn cynnwys nifer o gynefinoedd sydd â gwarchodaeth statudol oherwydd gwerth eu cadwraeth byd natur. Mae'r dynodiadau hyn yn cynnwys:

- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac ACA Morol GogleddCymru
- Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA)
- Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG Twyni Niwbwrch)
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
- Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl)
- Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol
- Safleoedd o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Byd Natur (SoBagCBN)
- Safleoedd Rhanbarthol o Bwysigrwydd Daearegol (SRhoBD)

Mae tair ardal o arfordir agored, heb eu datblygu hefyd wedi eu dynode fel Arfordir Treftadaeth:

- Gogledd Ynys Môn
- Mynydd Caergybi
- Bae Aberffraw

## Ffeithiau Allweddol

| | |
|---|---|
| Maint | 221 km sgwâr |
| Poblogaeth | Data cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2021 i'w 'dorri' i derfyn AHNE |
| Dyddiad Dynodiad | 20 Rhagfyr 1966 |
| Dyddiad Cadarnhau | 13 Tachwedd 1967 |
| ACA | 5 |
| AGA | 3 |
| GNG | 1 |
| SoDdGA | 32 |
| GNL | 3 |
| Geoparc UNESCO | 1 |
| Safleoedd Treftadaeth y Byd | 1 |
| Henebion Hynafol Cofrestredig | 75 |
| Tirweddau Hanesyddol Eithriadol | 2 |
| Parciau a Gerddi Hanesyddol | 7 |
| Ardaloedd Cadwraeth | 4 |
| Adeiladau Rhestredig Gradd I | 32 |
| Adeiladau Rhestredig Gradd II* | 42 |
| Adeiladau Rhestredig Gradd II | 491 |
| Arfordir Treftadaeth | 50 km |
| Hawliau Tramwy Cyhoeddus | 370 km a 120 km o lwybr arfordir caniataol |
| Tir Comin | 504 hectar |

# Nodwedd Allweddol – Tirwedd

- Mae tirwedd yr AHNE yn adlewyrchu'r ddaeareg sylfaenol amrywiol ac mae'n gymysgedd amrywiol o gynefinoedd morol a daearol, yn cynnwys clogwyni garw, rhostir, twyni tywod, morfeydd heli a fflatiau llaid. Mae'r ynys yn cynnwys rhai o greigiau hynaf Prydain i'r de o Ucheldir yr Alban gyfan. Mae'r rhain yn cael eu dangos yn glir yn nhopograffi'r ynys, sy'n mynd o'r gogledd ddwyrain i'r de orllewin.

- Mynydd Caergybi, clogwynni Ynys Lawd ac Ynys Arw a'r cilfachau creigiog yw nodweddion amlycaf arfordir gogleddol hynafol Cyn-gambriaidd a Chambria'r ynys. Nodweddir arfordir y dwyrain gan glogwyni fertigol o galchfaen a thraethau tywod, wrth i arfordir y gorllewin fod yn llai garw gyda lleiniau o dwyni tywod a thraethau rhwng pentiroedd creigiog. Gellir ystyried y Fenai mewn dwy ran, y rhan orllewinol a'r rhan ddwyreiniol. Mae'r rhan orllewinol o Fiwmares i Borthaethwy yn llawn coed gydag aneddiadau eithaf mawr.

- Mae cymeriad y dirwedd wedi cael ei ddylanwadu gan ganrifoedd o ffermio, a chan ddiwydiannau traddodiadol megis y chwarel. Ar gyfer amaethu y defnyddir y rhan fwyaf o dir yr AHNE, ac mae waliau cerrig, y cloddiau, gwrychoedd a phatrymau caeau yn rhan annatod o'r dirwedd. Mae yna hefyd ardaloedd o rostir, coetir lled naturiol, gwlypdiroedd rhynglanwol a llynnoedd.

- Mae nifer o'r Ystadau o fewn yn yr AHNE gydag ardaloedd sylweddol o goetiroedd llydanddail. Mae'r rhain yn cynnwys Baron Hill, Bodior, Bodorgan, Dulas, Penrhos a Phlas Newydd. Mae'r AHNE hefyd yn cynnwys dwy blanhigfa goniffer sylweddol yn Niwbwrch a Phentraeth.

- Mae gan yr ynys hanes diwylliannol cyfoethog gyda thystiolaeth o weithredoedd dyn yn ymestyn dros 8000 o flynyddoedd. Mae yna dros 200 o Henebion Hynafol Rhestredig o siambrau claddu'r Oes Efydd i nodweddion canoloesol mwy diweddar. Mae nodweddion tirwedd mwy diweddar yn cynnwys tirweddau cynlluniedig ystadau mawr, megis Plas Newydd. Mae safle treftadaeth y byd UNESCO Castell Biwmares hefyd wedi ei leoli o fewn yr ardal ddynodedig.

- Mae disgrifiad manwl o dirwedd arfordirol Ynys Môn yn cael ei gynnwys yn Asesiad Cymeriad Tirwedd Cenedlaethol NLCA01 Arfordir Ynys Môn.



# Nodwedd Allweddol – Morlun



- Mae morluniau yn rhan werthfawr iawn o olygfeydd Cymru. Gallant fod yn rhai o'n hardaloedd tirwedd 'wyllt' olaf ac yn cynorthwyo cyfoeth o dreftadaeth naturiol. Gellir diffinio morluniau'n fras fel "Ardal o fôr, arfordir a thir fel y gwelir gan bobl, y mae eu cymeriad yn deillio o weithredoedd a rhyngweithiadau y môr a'r tir, drwy ffactorau naturiol a/neu ddynol" (CDD 2010).

- Mae'r diffiniad hwn yn awgrymu'n gryf bod morluniau'n ymwneud â mwy na dim ond golygfa gan ei fod yn cwmpasu'r adnoddau ecolegol a diwylliannol yn yr amgylchedd morol ac arfordirol. Mae tirweddau arfordirol a warchodir yn gydrannau allweddol clir o forluniau o bwysigrwydd cenedlaethol.

- O amgylch AHNE Ynys Môn mae yna amrywiaeth o amgylcheddau daearol, rhynglanwol a morol. Mae'r rhain yn deillio o'r prosesau daearegol, geomorffoleg ac arfordirol o fewn yr ardal, a hefyd o weithgarwch dynol ar dir a môr ers miloedd o flynyddoedd. Mae cyfuniad o brosesau naturiol a diwylliannol yn parhau i siapio esblygiad ardal y morluniau.

- Mae gan forlun Ynys Môn arwyddocâd masnachol uchel hefyd. Mae'r rhan fwyaf o dwristiaeth a hamdden Ynys Môn yn seiliedig ar yr arfordir lle mae yna ddiddordebau masnachol eraill megis porthladdoedd a physgota. Gall unrhyw newid i isadeiledd masnachol arfordirol effeithio ar gymeriad y morlun a'r diddordebau masnachol mewn hamdden.

- Mae disgrifiad manwl o dirwedd arfordirol Ynys Môn yn cael ei gynnwys yn Asesiad Morlun Ynys Môn 2013 www.anglesey.gov.uk/aonb



# Nodwedd Allweddol – Hamdden a Thwristiaeth

Tudalen 168

- Ynys Môn yw'r sir sydd fwyaf dibynnol yn y DU ar y diwydiant Hamdden a Thwristiaeth, gan gynhyrchu dros £360m y flwyddyn yn yr economi leol, a'n cefnogi ~3,698 o swyddi'n uniongyrchol.

- Y brif atynfa ymwelwyr yw'r cyfleoedd gweithgareddau hamdden fel cerdded, a gweithgareddau traeth.

- Mae 125 milltir o Lwybr yr Arfordir yn parhau i fod yn un o'r rhannau mwyaf poblogaidd Llwybr Arfordir Cymru, ac yn cynnig cyfle gwych i bobl leol ac ymwelwyr werthfawrogi rhinweddau arbennig yr AHNE

- Ar wahân i gerdded, mae'r mathau mwyaf poblogaidd o weithgareddau hamdden yn cynnwys ymweliadau teulu â'r traeth, hwylio, pysgota o'r lan neu o gwch, beicio, syrffio gwynt, cychod hamdden modurol, y defnydd o grefft dŵr personol (sgio dŵr), deifio, gwylio adar, marchogaeth ceffylau, nofio gwyllt a dringo.

- Mae gweithgareddau dŵr gan gynnwys caiacio a padlfyrddio yn gynyddol boblogaidd, gyda chyfleoedd caiacio môr Ynys Môn yn cael eu hystyried I fod yn arbennig o dda. (13)

- Mae'r rhain i gyd yn rhoi pwysau a galwadau ar yr AHNE. Ar yr un pryd, mae poblogrwydd yr AHNE ar gyfer gweithgareddau o'r fath yn darparu cyfraniad sylweddol a chadarnhaol i'r economi leol, ac yn gyfrwng i sicrhau gwell dealltwriaeth o rinweddau unigryw'r AHNE.



Lon Lâs Cefni

# Nodwedd Allweddol – Cymunedau

- Mae data cyfrifiad Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) 2021 wedi cofnodi bod poblogaeth Ynys Môn wedi gostwng 1.2%, o oddeutu 69,800 yn 2011 i 68,900 yn 2021. Amcangyfrifir fod dros chwarter poblogaeth yr ynys yn byw o fewn AHNE Ynys Môn (Data a geisir i'w 'dorri' i derfyn AHNE a'i gynnwys o fewn yr Adroddiad ar Gyflwr yr AHNE (2022)).
- Mae aneddiadau sylweddol o fewn yr AHNE yn cynnwys Biwmares, y Fali, Niwbwrch a Moelfre. Nid yw ardaloedd sydd wedi datblygu ar raddfa fawr, Caergybi, Amlwch, Benllech, Porthaethwy, Wylfa a RAF y Fali yn benodol, yn cael eu cyfrif yn y dynodiad.
- Mae cyflogaeth o fewn yr AHNE yn seiliedig ar dwristiaeth ac amaeth yn bennaf. Mae Ynys Môn yn ardal boblogaidd ar gyfer hamdden i bobl Gogledd Cymru ac o Ogledd Orllewin Lloegr. Mae'r mwyafrif y cael eu denu i'r ynys gan ansawdd a nifer y traethau tywod a harddwch tirwedd yr arfordir.
- Mae Ynys Môn yn gadarnle'r Gymraeg, ac mae'r iaith yn cael ei siarad gan dros hanner o'i thrigolion. Er gwaetha'r dirywiad cyffredinol mewn siaradwyr Cymraeg, mae'r niferoedd sy'n defnyddio'r iaith yn ddyddiol ym Môn wedi aros yn gymharol gyson dros yr hanner canrif ddiwethaf.



# Nodwedd Allweddol – Datblygu Economaidd



- Mae cyflogaeth o fewn ardal AHNE Ynys Môn AHNE yn bennaf mewn busnes amaethyddol a busnesau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r sector twristiaeth a lletygarwch - yr olaf a yrrir gan ansawdd a nifer y traethau tywodlyd, harddwch y dirwedd arfordirol, asedau naturiol a threftadaeth ar hyd yr arfordir a'r hygyrchedd iddynt a ddarperir gan Lwybr Arfordirol Ynys Môn / Cymru.

- Nid oes unrhyw ddatblygiad diwydiannol mawr wedi'i leoli yn yr AHNE - y ffiniau wedi'u tynnu er enghraifft, er mwyn eithrio Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa a'r ganolfan hyfforddi jet-ymladdwyr cyflym yn RAF y Fali. Fodd bynnag, nid yw hyn i ddweud na fydd eu gweithrediad a'u datblygiad posibl yn y dyfodol yn effeithio ar olygfeydd i mewn ac allan o'r AHNE ac ansawdd a phrofiad y rhai sy'n byw yn yr ardal ddynodedig, ac yn ymweld â'r ardal ddynodedig.

- Ers blynyddoedd bellach mae Cyngor Sir Ynys Môn, wedi blaenoriaethu cynhyrchu ynni 'gwyrdd' carbon isel, fel gyrrwr economaidd allweddol. Gwnaethpwyd hyn ar ffurf Rhaglen Ynys Ynni Môn, ac mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth strategol gorfforaethol allweddol i'r Cyngor.

- Mae ynni adnewyddadwy oddi ar y glannau hefyd yn parhau'n uchel ar yr agenda. Cafwyd caniatâd diweddar i ddatblygiad Morlais Menter Môn, gweithgareddau'r sector preifat fel prosiect ffrwd llanw llif isel cyntaf Minesto oddi ar Ddyfnderoedd Caergybi. Mae dyheadau i ddatblygu canolfannau gweithgynhyrchu a gwasanaethu ar gyfer rowndiau newydd o wynt oddi ar y glannau ym Môr Iwerddon yn ogystal â datblygiad Hwb Hydrogen yng Nghaergybi.



# Ysgogwyr Newid Allweddol - Cyd-destun Polisi

Mae llawer wedi newid o ran Polisi Rhyngwladol, Cenedlaethol a Lleol ers cyhoeddi'r cynllun rheoli diwethaf.

- Gweler Atodiad 1 ar gyfer Cyd-destun Polisi

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**

Tudalen 172

'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall bobl ffynnu.'

[Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)](#)

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol a fydd yn bwynt canolog i benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud ar bob lefel; bydd yn darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; llunio gwariant blynyddol; monitro perfformiad a chynnydd.

Yn ei hanfod mae a wnelo'r cynllun â'n dymuniad i weithio gyda thrigolion Ynys Môn, cymunedau a phartneriaid a sicrhau ein bod ni'n darparu'r gwasanaethau gorau posib, gwella ansawdd bywyd i bawb a chreu cyfleoedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r meysydd allweddol y dylai'r Cyngor fod yn canolbwyntio arnynt.

## Ein chwe amcan strategol

**Yr Iaith Gymraeg**

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

**Gofal Cymdeithasol a Llesiant**

Rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg cywir.

**Addysg**

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

**Tai**

Sicrhau fod gan pawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.

**Economi**

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

**Newid Hinsawdd**

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael a newid gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

# Cynllun y Cyngor 2023-2028

Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn seiliedig ar werthoedd craidd y sefydliad, sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain y weledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.



[Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)]

## Gwerthoedd

### Parch
Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill er gwaethaf ein gwahaniaethau.

### Cydweithio
Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid, i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl Ynys Môn.

### Gonestrwydd
Rydym yn ymrwymedig i safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.


### Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys
Rydym yn creu ymdeimlad o falchder mewn gweithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o'r Ynys.

# Cylch Strategol

Mae’r cylch strategol yn adnabod y cynlluniau sydd mewn lle er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau ac amcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni’r amcanion strategol a’r gweledigaeth.

Tudalen 174




[Cynllun y Cyngor 2023 i 2028 (llyw.cymru)]

# Ysgogwyr Newid Allweddol – Adfer Byd Natur a Bioamrywiaeth



- Mae'r AHNE yn cynnwys nifer o gynefinoedd sydd â diogelwch statudol oherwydd gwerth eu cadwraeth natur. Mae'r dynodiadau hyn yn cynnwys: Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA); Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA); Gwarchodfa Natur Genedlaethol (GNG); Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA); Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl)

- Mae'r ardal yn cynorthwyo cyfoeth o gynefinoedd a bywyd gwyllt. Mae cynefinoedd sydd wedi eu nodi'n cynnwys: rhostir iseldir, clogwyni'r môr, twyni tywod, a glannau creigiog. Mae'r fflora sydd wedi eu nodi yn cynnwys: cor-rosyn rhuddfannog (blodyn Sirol Ynys Môn; mae'r clystyrau mwyaf y DU ar Ynys Cybi ar Ynys Môn), amrhydlwyd Ynys Lawd (sydd i'w weld ar greigiau Ynys Lawd yn unig) a thafolen y traeth (sydd yn y pen mwyaf gogleddol). Mae'r ffawna sydd wedi eu nodi'n cynnwys: brân goesgoch, gylfinir, morloi llwyd, llamidyddion, llygod y dŵr, gwiwerod coch, madfall gribog, glöyn byw glesyn serennog a rhywogaethau infertebratau eraill. Mae yna risg gan rywogaethau ymledol, plâu ac afiechydon yn ymledu o fewn yr AHNE megis Jac y Neidiwr, Clymog Japan, a rhai o'r rhywogaethau ymledol dyfrol.

- Mae Adroddiad Cyflwr Cyfoeth Naturiol Cymru 2020 yn asesiad o'r graddau y mae Cymru'n cyflawni rheoli cynaliadwy cyfoeth naturiol. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad nad yw Cymru'n cynnal cynnyrch o gyfoeth naturiol ac yn rhagweld y bydd rhywogaethau eiconig megis gylfinirod yn diflannu yng Nghymru o fewn dwy ddegawd.

- Mae gwytnwch ecosystemau'n dirywio'n unol â thueddiadau byd-eang. Mae nod llesiant Cymru i sicrhau 'Cymru wydn' yn ymwneud ag adeiladu ecosystemau gweithredol iach sy'n cynnal gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid hinsawdd). I sicrhau'r gwytnwch hwn, mae angen canolbwyntio ar adeiladu systemau iach, adfywiol, ac i systemau ffermio ddod yn fwy cynaliadwy yn nhermau economeg ffermydd ac i ddod yn fwy caredig i fyd natur.



*Tuberaria guttata*

# Ysgogwyr Newid Allweddol – Hawl, Hamdden a Llesiant



- Twristiaeth yw'r prif ddiwydiant ar Ynys Môn sy'n cynhyrchu dros £360 miliwn yn flynyddol, yn cyflogi dros 4,000 o bobl ac yn croesawu dros 1.7 miliwn o ymwelwyr. Mae heriau'n cynnwys yr effaith ar arferion ymwelwyr yn dilyn covid a'r pwysau cysylltiedig ar yr AHNE, cyflwyno'r ardoll twristiaeth, a hyrwyddo / gweithredu twristiaeth gynaliadwy. Gall mentrau sy'n cyfoethogi'r amgylchedd naturiol greu swyddi gwyrdd newydd, sicrhau cyflenwadau dŵr a bwyd lleol, a chynorthwyo iechyd cyhoeddus.

- Mae defnydd o weithgareddau hamdden wedi tyfu'n sylweddol, yn enwedig yn y cyfnod yn dilyn Covid 19 (gyda nifer uchel o bobl yn penderfynu aros gartref am 'wyliau' a mynd ar ymweliadau dydd mwy lleol er mwyn lleihau'r angen i deithio), gyda hyn yn cynyddu'r pwysau ar fioamrywiaeth, ecosystemau ac asedau treftadaeth

- Faniau gwersylla, maes carafanau a gwersylla ac mae'r angen am y cyfryw, yn tyfu o ganlyniad i'r uchod – gyda materion cynyddol yn ymwneud â defnyddiau 'gwrthgymdeithasol' a phroblem parcio faniau gwersylla a gwersylla mewn ardaloedd a chymunedau heb unrhyw wasanaethau na darpariaeth ffurfiol i ddarparu ar eu cyfer.

- Mae tagfeydd traffig yn broblem gynyddol wrth i fwy a mwy o ymwelwyr geisio mynediad a defnyddio'r arfordir a chefn gwlad - unwaith eto'n achosi parcio 'anghymdeithasol', tagfeydd traffig mewn cymunedau bach o fewn yr AHNE a chiwio mewn traffig llonydd i gyrraedd rhai o'r mannau mwyaf poblogaidd megis Llanddwyn.

- Er nad yw hyrwyddo gweithgareddau hamdden yn bwrpas statudol i'r dynodiad AHNE, bydd rheoli effeithiau'r gweithgareddau hamdden hyn yn dod yn fwyfwy pwysig i warchod a gwella nodweddion tirwedd eithriadol a rhinweddau arbennig yr AHNE. Mae lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn cyd-fynd yn agos â'r gweithgareddau hamdden a gynhelir ar yr ynys. Gall llwybrau hygyrch, parciau, gerddi, traethau, glan môr a chefn gwlad ehangach oll chwarae rhan bwysig i'r bobl o ran cefnogi iechyd a lles. Dylai fod mynediad teg i fannau gwyrdd a glas i bobl o bob oed a gallu.



# Ysgogwyr Newid Allweddol – Newid Hinsawdd



- Mae newid hinsawdd bellach yn bwnc diffiniol. Cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn argyfwng hinsawdd ym mis Medi 2020, gan ymrwymo i ddod yn gyngor carbon niwtral erbyn 2030. O ganlyniad, mae'r cyngor wedi cytuno ar y 'Cynllun Tuag at Sero Net 2022 i 2025' sy'n amlinellu ei ymrwymiad i'r argyfwng hinsawdd a sut mae'n bwriadu trawsnewid i ddod yn sefydliad sero net.

- O bersbectif AHNE Ynys Môn, mae effeithiau newid hinsawdd yn debygol o fod yn bellgyrhaeddol: tymheredd uchel, mwy o law, a lefelau'r môr yn codi yn golygu cynnydd mewn stormydd a risg uwch o lifogydd yn effeithio ar gynefinoedd, rhywogaethau a chymunedau ac isadeiledd bregus a rhyd yr arfordir. Bydd yna golli tir / cnydau amaethyddol, erydiad tir, colledion bioamrywiaeth [ac enillion], colli rhywogaethau brodorol, bygythiad i fioddiogelwch o ganlyniad i gynnydd mewn plâu ac afiechydon a difrod i asedau diwylliannol a hanesyddol. Bydd cyfnodau o sychder yn arwain ar fwy o alw am adnoddau dŵr, yn cynnwys cynnydd yn y gystadleuaeth rhwng aelwydydd, amaeth, diwydiant a'r amgylchedd naturiol.

- Mae'r Cynllun Rheoli Risg o Lifogydd yn nodi cymunedau Dwyran, Llangefni, Malltraeth ac y Fali fel ardaloedd sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd o afonydd; ac mae Cofrestr Cymunedau mewn Perygl yn nodi'r ardaloedd fel rhai mewn perygl o ddioddef llifogydd o'r môr.

- Mae yna gyfleoedd i ddatblygu partneriaeth gweithio rhwng pobl, cymunedau a busnesau i godi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gweithredu gyda mesurau addasu a lliniaru. Bydd y rhain yn cynnwys mabwysiadu datrysiadau seiliedig ar fyd natur a gweithredu i leihau'r angen i deithio, gwneud cludiant yn gynaliadwy, darparu cyfleoedd ar gyfer technolegau ynni carbon isel ac adnewyddadwy, a thrwy hyrwyddo dulliau dylunio carbon isel i leihau'r defnydd o ynni.



# Ysgogwyr Newid Allweddol – Datblygu a Chludiant

Mae'r polisïau cynllun datblygu'r defnydd o dir presennol a newidiadau posibl i'r dirwedd y bydd yn rhaid i gynllun datblygu'r defnydd o dir nesaf ar gyfer Ynys Môn ei wynebu'n cynnwys:

- Diogelu arfordir agored sydd heb ei ddatblygu
- Arallgyfeirio'r economi wledig sy'n cyflwyno gofynion newydd ar adnoddau'r AHNE.
- Amddiffyn safleoedd sydd wedi'u dynodi am eu pwysigrwydd cadwraeth byd natur
- Amddiffyn ac adnewyddu'r cyswllt rhwng cynefinoedd
- Cymunedau Gwledig Cynaliadwy
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg
- Yr her o newid dull o gynhyrchu ynni
- Hyrwyddo cynnyrch twristiaeth amrywiol ac o ansawdd uchel
- Newidiadau o ganlyniad i newid hinsawdd
- Lleihau llygredd golau

- Mae'r boblogaeth leol yn dibynnu ar geir fel cludiant ac mae yna gynnydd tymhorol mewn traffig yn ystod yr haf. Gall hyn arwain at drafferthion parcio a thagfeydd traffig yn ardaloedd mwyaf poblogaidd yr AHNE. Yn ychwanegol, mae anghenion isadeiledd yn newid; mae angen cynllunio ar gyfer mannau gwefru ceir trydan a dulliau amgen o deithio i'r ardal ac o'i hamgylch. Bydd yn ofynnol cael cysylltiadau i gynlluniau teithio actif.

# Ysgogwyr Newid Allweddo – Cymunedau ac economi arfordirol a chefn gwlad



- Mae yna ansicrwydd o ganlyniad i'r adferiad ar ôl Covid, yr argyfwng costau byw a'r economi'n arafu. Mae hyn oll yn effeithio ar gynnydd mewn tlodi, anghyfartaledd ym maes iechyd, prinder tai [cyffredinol a fforddiadwy], lleihad posibl mewn cyflogaeth a thwf, gofynion addasiadau a lliniaru newid hinsawdd a chymunedau cydlynol yn erydu.

- Myn amlygu ein hymrwymiad i gyfoethogi hyn ymhellach. Fodd bynnag, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg dros y 3 blynedd ddiwethaf y gall twristiaeth sydd heb ei reoli gael effaith negyddol ar fywydau pobl a'r rhinweddau unigryw sy'n gwneud yr ynys mor nodweddiadol ac yn ysgogi'r mwyafrif helaeth o weithgareddau twristaidd.

•Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan sy'n alinio gyda'r cynllun hwn yn unioni'r anghydbwysedd a sicrhau, drwy grŵp aml ddiddordebau/sefydliadau newydd, bod buddion cynnig amrywiol a bywiog yn gallu cyfoethogi nodweddion allweddol yr iaith, diwylliant, amgylchedd a threftadaeth.

- Yn dilyn ymadawdiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, mae'r newidiadau deddfwriaethol yn debygol o gael goblygiadau sylweddol ar arferion amaeth, ac economi'r arfordir a chefn gwald o fewn yr AHNE ac o'i chwmpas. Mae ffermio'n hanfodol i'r gymuned wledig a'i heconomi, ac mae'r ansicrwydd presennol ynghylch sut y bydd cynlluniau cymhorthdal newydd yn gweithio yn achosi pryder. Fodd bynnag, fe all y cynigion bras a gyflwynir yn y Cynllun ffermio Cynaliadwy ddarparu buddion amgylcheddol sylweddol a systemau ffermio sy'n llai dibynnol ar fewnbynnau ac felly'n fwy hyfyw'n economaidd. Mae angen arloesi o fewn yr economi cefn gwlad a llwybrau at gyflogaeth i bobl leol o bob oed. Gellir cynorthwyo hyn drwy gynhyrchu nwyddau a gwasanaethau cynaliadwy lleol a pholisïau caffael lleol.

- Mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o hunaniaeth Gymreig ac yn ganolog i'w diwylliant. Nododd cyfrifiad 2021 fod y nifer o siaradwyr Cymraeg yn y sir wedi gostwng 1.2% ers y cyfrifiad blaenorol yn 2011, o 19% i 17.8%. Er gwaethaf cyflwyno strategaeth iaith Llywodraeth Cymru, mae'r nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru wedi parhau i ostwng ers 2001.



# Mabwysiadu Dull Ecosystem

Ystyrir rhinweddau'r AHNE yn arbennig oherwydd eu gwerth cynhenid eu hunain, ond mae'n bwysig ystyried y buddion naturiol, diwylliannol a chymdeithasol maent yn eu darparu i gymdeithas. Gelwir y buddion hyn yn 'wasanaethau ecosystem'. Rhain yw'r buddion mae pobl yn eu cael o 'gyfalaf naturiol' ardal - y fforestydd, tir fferm, afonydd, llynnoedd ac arfordir ein tirwedd. Ymhlith y buddion hyn gellir cael:

- **Gwasanaethau darparu** - megis bwyd, coed a thanwydd
- **Gwasanaethau rheoleiddio** - megis dŵr glân, aer a phridd ffrwythlon
- **Gwasanaethau diwylliannol** - megis hamdden, gwerthoedd ysbrydol a synnwyr o le
- **Gwasanaethau cymorth** - megis ffurfio tir, cylchred dŵr a maetholion a sefydlogi carbon

Mae deall gwerth cyfalaf naturiol yr AHNE a'r gwasanaethau ecosystem maent yn eu darparu yn ein galluogi i gydnabod yn llawnach rinweddau arbennig yr AHNE. Mae o hefyd yn ein galluogi i ddeall effeithiau posibl, a chost lawn, difrodi'r rhinweddau hyn. Nod y cynllun rheoli hwn yw ymdrechu tuag at well dealltwriaeth o gyfalaf naturiol yr AHNE, i sicrhau rheolaeth sy'n cynnal a chyfoethogi ystod ac ansawdd y buddion cyhoeddus (y gwasanaethau ecosystem) mae AHNE Ynys Môn yn eu darparu.

**Mae Manylion Llawn y Gwasanaethau Ecosystem a ddarparwyd gan yr AHNE yn Atodiad 2.**

# 5 Themâu Allweddol ar gyfer Cynllun Rheoli 2023-28





Brân Goescoch/Chough

- **Cyfoethogi cefn gwlad lleol a chymeriad yr arfordir**
- **Mynd i'r Afael â'r Argyfwng Byd Natur**
- **Yr AHNE fel Lle i Fwynhau a Dysgu**
- **Cymunedau Bywiog mewn Tirwedd Weithredol**
- **Rheoli'r AHNE mewn hinsawdd sy'n newid**

Bydd y pum tudalen nesaf yn cyflwyno'r themâu hyn a fydd yn sail i waith y tîm Cyrchfan, Gwasanaethau eraill y Cyngor a phartneriaid.

Gweler Atodiad 3 am restr lawn o Amcanion, Polisïau a

Gweithredoedd Bydd cynllun prosiect blynyddol yn cael ei ddatblygu i

gyflawni amcanion y

# Cyfoethogi cefn gwlad lleol a chymeriad yr arfordir

Tudalen 182

## Pam mae hyn yn bwysig?

Cymeriad yr AHNE yw un o'i nodweddion diffiniol ac mae'n hanfodol i ddiffinio'r ynys, ei heconomi ymwelwyr a mwynhâd y cyhoedd

## Beth ydym am ei wneud?

- Mae'r dirwedd arfordirol a morlun yn cael eu diogelu yn weithredol, a thrwy reolaeth briodol.
- Mae safleoedd hanesyddol, archeolegol a diwylliannol yn cael eu diogelu rhag datblygiadau sy'n diraddio rhinweddau unigryw'r AHNE, a'i ddehongli i gynyddu dealltwriaeth pobl o'i werth.
- Mae polisïau cynllunio yn gwarchod rhinweddau unigryw yn y dirwedd, gan sicrhau fod yr holl ddatblygiadau o fewn a'n agos at ffiniau'r AHNE, yn cyd fynd ag amcanion y dynodiad a bod datblygiadau newydd yn gwella'r cymeriad lleol.
- Mae golygfeydd panoramig, awyr dywyll a llonyddwch heb ei difrodi yn cael eu diogelu rhag datblygiadau fyddai'n diraddio nodweddion unigryw'r AHNE.
- Cytunir ar fodel ymhlith partneriaid a rhanddeiliaid allweddol ar gyfer defnyddio dull ecosystem o reoli'r amgylchedd naturiol.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Ymgymryd ag asesiadau cymeriad a'u cynnal
- Sicrhau bod datblygiadau'n ystyried pwysigrwydd y dirwedd a'r morlun.
- Darparu a gweithio gyda phartneriaid yn uniongyrchol ar brosiectau cyfoethogi tirwedd a chynefinoedd.
- Parhau i gynorthwyo i ddarparu'r prosiect Awyr Dywyll
- Cynnal asesiad darpariaeth gwasanaethau ecosystem i arwain ar ddarparu'r prosiectau.
- Sicrhau bod nodweddion tirwedd traddodiadol megis coedlannau, gwrychoedd,
  waliau cerrig yn cael eu cynnal a'u gwella.
- Bydd safleoedd hanesyddol, diwylliannol ac archaeole gol yn cael eu deall a'u cofnodi,
  a lle fo'n bosibl, eu diogelu.

# Mynd i'r Afael â'r Argyfwng Byd Natur

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae gan Ynys Môn doreth o safleoedd dynodedig pwysig a rhai nad ydynt yn ddynodedig yn cynorthwyo fflora a ffawna prin. Mae hyn yn nodweddion allweddol o'r AHNE. Mae cynefinoedd ar Ynys Môn dan bwysau cynyddol gyda mwyafrif sylweddol â chyflwr yn dirywio a'n mynd yn ddiraddiedig ac ynysig. Mae'r thema hon yn mynd i'r afael â'r broblem

Tudalen 183

## Beth ydym am ei wneud?

- Mae'r arfordir a chefn gwlad yn cael eu rheoli mewn modd sensitif er mwyn cynnal yr amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau mewn cyflwr ffafriol, ac i wella cysylltedd rhwng safleoedd.
- Mae ansawdd y pridd, aer a'r dŵr- dwr croyw a dŵr môr yn cael ei fonitro'n rheolaidd i gynnal safonau sy'n rhagori ar Safonau DU ac Ewrop.
- Mae safleoedd bywyd gwyllt statudol ac anstatudol yn cael eu rheoli oherwydd eu gwerth bioamrywiaeth, esthetig ac amwynder.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wneud y gorau o gynlluniau cymorth amaethyddol ac amgylcheddol hen a newydd.
- Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu camau i fynd i'r afael ag effaith rhywogaethau ymledol ar gynefinoedd morol, dyfrol a'r tir.
- Byddwn yn datblygu cynllun cyfle cysylltedd cynefin graddfa tirwedd ar y cyd â phartneriaid, a chwilio am gronfeydd i'w gweithredu. Bydd hyn yn cynnwys tir nad yw o fewn ffin yr AHNE. Gweithio gyda phartneriaid ar raddfa dalgylch i we lla ansawdd pridd a dŵr ac, o ganlyniad, gynefinoedd morol a thir.
- Gweithio gyda phartneriaid a'r sector amaeth a dyl anwadu arnynt i ddarparu newid sylweddol ar gyfe r byd natur o fewn yr AHNE

# Yr AHNE fel lle i fwynhau a dysgu

Tudalen 184

## Pam mae hyn yn bwysig?

- Twristiaeth yw'r cyfrannwr economaidd mwyaf i economi'r Ynys, ac mae'r rhinweddau unigryw sydd o fewn yr AHNE yn parhau i fod yn brif atyniad i bobl leol ac ymwelwyr. Mae'r dirwedd yn darparu antur, llonyddwch a chyfleoedd i ddysgu sy'n allweddol i lesiant pawb

## Beth ydym am ei wneud?

- Datblygu partneriaethau sy'n sicrhau gweithgareddau hamdden gynaliadwy, sy'n cefnogi gwasanaethau a chyflogaeth wledig, a chyfrannu at yr economi leol.
- Sicrhau bod yr AHNE yn parhau i fod yn lleoliad poblogaidd ar gyfer hamdden gynaliadwy gyda thrigolion ac ymwelwyr, a lleihau'r risg o niwed i rinweddau a nodweddion unigryw'r AHNE.
- Rheolir y rhwydwaith mynediad i safon uchel, gan ddarparu mynediad priodol i ddibenion y dynodiad.
- Mae'r gymuned gyfan yn ymwybodol o fuddion dynodiad yr AHNE trwy hyrwyddo'n rheolaidd rhinweddau a nodweddion unigryw'r AHNE, a'i anghenion rheolaeth.
- Datgelir ystyron rhinweddau a nodweddion unigryw'r AHNE trwy ddehongliad effeithiol.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Sicrhau bod y diwydiant twristiaeth yn gwneud cyfraniad allweddol a chynaliadwy i economi AHNE Ynys Môn
- Gweithio gyda phartneriaid a darparwyr addysg i gyfoethogi gwybodaeth am yr AHNE a'i nodweddion unigryw
- Darparu dehongliad ystyrlon a newydd i gynyddu dealltwriaeth ac ysbrydoli archwilio.
- Gwella mynediad a chyfleusterau ymwelwyr eraill mewn safleoedd arfordirol a chefn gwlad allweddol a gwella profiad Llwybr yr Arfordir.
- Gweithio gyda phartneriaid i ystyried gwelliannau ar gyfer isadeiledd cludiant cynaliadwy.
- Gweithio gyda'r sector addysg leol i alinio gwaith yr AHNE efo'r Cwricwlwm Gymraeg newydd gan gynnwys datblygu strategaeth addysgol
- Archwilio'r cyfleoedd i gyfoethogi model twristiaeth adfywiol
- Parhau i ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu ac i gymunedau/ysgolion gymryd rhan.

# Cymunedau Bywiog mewn Tirwedd Weithredol



## Pam mae hyn yn bwysig?

- Mae AHNE Ynys Môn yn lle byw sy’n anadlu a’r gymuned wrth ei wraidd. Mae’n rhaid i’r dynodiad gael ei weld o fudd i’r cymunedau hyn yn hytrach na mygu eu hanghenion.

## Beth ydym am ei wneud?

- Rheolwyr tir yn diogelu defnydd tir cynaliadwy sy'n cefnogi rhinweddau a nodweddion unigryw'r AHNE a'n cyfrannu at yr economi leol trwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau.
- Cynnal diwylliant lleol, gwasanaethau, cynnyrch a gweithgareddau gwledig, a sicrhau cartrefi fforddiadwy i bobl leol a chefnogi'r Gymraeg
- Mae Cymunedau AHNE yn cael eu cynnwys trwy ymgynghoriadau ystyrlon, eu grymuso i wella cyfranogiad, ffordd o fyw yn actif ac i ymfalchïo yn eu cymuned AHNE.
- Mae Busnesau yn yr AHNE yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr economi wledig iach gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl sy'n byw ar Ynys Môn.
- Mae cyfran uwch o boblogaeth breswyl yr AHNE yn mabwysiadu ffordd o fyw cynaliadwy.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Chwarae rhan weithredol mewn llunio a chyflwyno cynllun SFS.
- Gweithio gyda Gwasanaethau eraill y cyngor i ymgorffori ethos gwaith holistig.
- Drwy fod yn gydymdeimladol i anghenion y cymunedau trwy bartneriaethau ac ymgysylltu parhaus.
- Gwella isadeiledd gwasanaeth cymunedol drwy gydweithio â phartneriaid mewnol
- Cynorthwyo rheolwyr tir i amddiffyn tirweddau a chynefinoedd wrth gyfoethogi economeg fferm drwy fabwysiadu dulliau ffermio cynaliadwy.
- Diogelu dŵr yfed glân gyda rheolwyr tir, drwy ddull dalgylchol.
- Creu cyswllt gyda gwaith rheoli cyrchfan ehangach i sicrhau bod gwasanaethau o fewn y cymunedau gwledig yn cael eu cyfoethogi
- Cefnogi mentrau cynnyrch lleol

# Rheoli'r AHNE mewn hinsawdd sy'n newidA

Tudalen 186

## Pam mae hyn yn bwysig?

Bydd Newid Hinsawdd yn effeithio ar bob cymuned o'r AHNE, o newid arfordirol hyd at effaith ar amaethyddiaeth, a bydd yn cyfrannu at yr argyfwng natur. Bydd rhaid i ni gynllunio ymlaen i wneud yr AHNE a'r cymunedau oddi mewn yn fwy gwydn a'n gallu addasu i effeithiau newid hinsawdd.

## Beth ydym am ei wneud?

- Sicrhau bod sefydliadau partner a chymunedau yn ymwybodol o effeithiau newid hinsawdd ar harddwch naturiol ac economi'r AHNE.
- Gweithio gyda thirfeddianwyr a chymunedau sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd o liniaru effaith newid hinsawdd ar yr AHNE.
- Ymgorffori dull gwasanaeth ecosystem i'n gwaith a gwaith ein partneriaid.
- Gweithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr i nodi a deall eu cyfalaf naturiol a gwasanaethau ecosystem, cefnogi cynyddu bioamrywiaeth, atafaelu a storio carbon a rheoli llifogydd naturiol.

## Sut ydym am wneud hyn?

- Casglu tystiolaeth i gynorthwyo tirfeddianwyr i wneud penderfyniadau cadarn i addasu i effaith newid hinsawdd.
- Cofleidio opsiynau rheoli llifogydd ac addasu arfordirol, a chysylltu'r rhain â'r cynnydd mewn cynefinoedd a phrofiad ymwelwyr.
- Gweithio gyda Chanolfan Monitro Arfordirol Cymru ar brosiectau addysg a gwyddoniaeth dinasyddiaeth sy'n canolbwyntio ar newid arfordirol .
- Plannu coed gyda rhagluniaeth leol sy'n addas i'r lleoliad, i liniaru newid yn yr hinsawdd, a gwella ansawdd dŵr yn ein nentydd a'n hafonydd .
- Ymgysylltu a gwybodaeth gymunedol.

# Rheoli a Llywodraethu -
# Pwyllgor Cynghori ar y Cyd Llywodraethu a Rheoli

Goruchwylir gweinyddiaeth yr AHNE gan Bwyllgor Cynghori ar y Cyd (JAC). Mae'r pwyllgor yn cynnwys aelodau etholedig a chynrychiolwyr cyfetholedig o sefydliadau sy'n dymuno cymryd rhan yn y gwaith o warchod, cyfoethogi a hyrwyddo'r AHNE.

Mae aelodaeth yn rhychwantu'r ystod eang o ddiddordebau sydd eu hangen ar gyfer rheoli effeithiol, ac mae'n cynnwys y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector.

Mae'r JAC yn cynorthwyo a goruchwylio'r gofyn statudol ar Gyngor Sir Ynys Môn i baratoi, cyhoeddi ac adolygu'r Cynllun Rheoli AHNE. CSYM, drwy'r Uned AHNE a Chefn Gwlad, sy'n gweinyddu a chydlynu'r JAC i alluogi monitro, cofnodi ac adrodd ar y cynllun gweithredu'r Cynllun Rheoli, darparu diweddariadau a rhannu gwybodaeth a meithrin cydweithio.

# Rheoli a Llywodraethu
# Staffio



Yn ganolog i ddarparu Cynllun Gweithredu'r Cynllun Rheoli mae datblygu Tîm AHNE effeithiol a phroffesiynol drwy'r Uned AHNE a Chefn Gwald CSYM drwy:

- greu cyfleoedd i recriwtio
- creu amgylchedd ar gyfer cynnal
- newid cytundebau dros dro i rai parhaol
- cyflwyno rhaglen flynyddol ar gyfer profiad gwaith i fyfyrwyr
- darparu datblygu a hyfforddiant
- datblygu llwybrau ar gyfer hyrwyddo gyrfa
- cynllunio olyniaeth
- cynnal a datblygu gweithio ar y cyd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid

# Rheoli a Llywodraethu – Gweithgareddau Craidd

Mae gweithgareddau craidd Uned Cefn Gwlad ac AHNE yn cynnwys:

- Cefnogi paratoi a chyflwyno Cynllun Rheoli AHNE a phwrpas AHNE Statudol
- Gweinyddu a hyrwyddo Cronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (SDF), Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy (SLSP) a Chronfa Partneriaeth AHNE Cyfoeth Naturiol Cymru
- Dehongli a hyrwyddo'r AHNE gan gynnwys Cynllun Cyfathrebu a Marchnata
- Ymgysylltu â chymunedau ac ysgolion (cynradd ac uwchradd)
- Gweinyddu a chydlynu'r Cyd-bwyllgor Cynghori (JAC)
- Cydlynu Gwirfoddolwyr yr AHNE
- Cydlynu a arwain ar ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag amcanion AHNE

# Llywodraethu a Rheoli - Cyllid

Ariennir costau rheoli'r AHNE gan Gyngor Sir Ynys Môn [CSYM], a gefnogir gan arian grant gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae Cynllun Darparu Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd CSYM yn sicrhau fod monitro chwarterol, cofnodi ac adrodd ar yr allbynnau y cytunwyd arnynt wedi'u halinio â'r Cynllun Rheoli AHNE.

Mae adrannau o'r Cynllun Gweithredu'r Cynllun Rheoli AHNE 2022-27 yn cael eu cefnogi a'u hariannu drwy'r canlynol:



- 'AHNE Gwydn' Llywodraeth Cymru (refeniw) 2022-25
- Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (TCLIC) 2022-25
- Cronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru (CDC) 2022-25
- Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) 2022-24
- Cyngor Sir Ynys Môn (Cyfalaf) 2022-24
- Cyllid blynyddol Uned AHNE a Chefn Gwlad
- Cyllid ar gyfer y dyfodol
- Cyllid partneriaid

Unwaith y bydd Cynllun Rheoli AHNE 2022-27 wedi bod drwy ymgynghoriad, craffu, addasu a mabwysiadu partner a rhanddeiliad, bydd matrics cyllido 5 mlynedd manwl yn cael ei ddatblygu o fewn dau chwarter cyntaf y Cynllun yn cael ei fabwysiadu. Bydd hyn yn cynnwys trafodaethau cychwynnol gyda'r partneriaid cyllido uchod ar gyllid y dyfodol tu hwnt i 2024-25 a thrafodaethau gyda phartneriaid JAC ar eu blaenoriaethau ariannu wedi eu halinio i'r AHNE. Bydd yr holl gyllid arall sydd ar gael sy'n gyson â Chynllun Rheoli'r AHNE yn cael ei archwilio

# Llywodraethu a Rheoli – Monitro

Bydd Cynllun Gweithredu Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn yn cael ei weithredu drwy gynllun darparu pum mlynedd sy'n nodi'r themau allweddol, nodau, amcanion, polisïau, gweithredoedd, partneriaid darparu ac amserlen.

Unwaith y bydd Cynllun Rheoli AHNE 2032-28 wedi bod drwy ymgynghoriad, craffu, addasu a mabwysiadu partner a rhanddeiliad, bydd cynllun prosiect blynyddol yn cael ei gynhyrchu, fydd yn datblygu'r pwyntiau gweithredu ymhellach o brif gynllun gweithredu'r Cynllun Rheoli AHNE i bwyntiau gweithredu manylach. Bydd y cynllun prosiect hwn yn cael ei adolygu'n chwarterol ac fe fydd yna ddigon o hyblygrwydd i ystyried cyfleoedd newydd am gyllid a chyfleoedd newydd i weithio ar y cyd gyda phartneriaid. Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei pharatoi i'r JAC ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol i adrodd ar gynnydd, llwyddiannau a'r prif broblemau sydd angen gwaith a sylw pellach. Bydd adrodd chwarterol yn cael ei wneud drwy Gynllun Darparu Gwasanaeth (CDG) Rheoliadau a Datblygu Economaidd CSYM

Bydd Adroddiad Cyflwr AHNE 2022 ar gyfer AHNE Ynys Môn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd i weithredu ar argymhellion yr adroddiad ar gyfer casglu data, mewnbynnu bylchau data a dangosyddion perthnasol. Bydd hyn yn galluogi rheoli ffynhonnell ddata gynhwysfawr a chyfredol yn ogystal â darparu data sylfaenol cadarn ar gyfer paratoi Adroddiad Cyflwr nesaf yr AHNE sy'n gysylltiedig â Chynllun Rheoli AHNE nesaf AHNE ar gyfer AHNE Ynys Môn.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg. Ymwelwch a www.ynysmon.llyw.cymru am gopi digidol
This document is also available in Welsh. Visit www.anglesey.gov.wales for a digital copy

Ymgynghoriad Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol 28 Ebrill – 9 Mehefin 2023

Ymatebion

Mai/Mehefin 2023

Statws: Swyddogol

Paratowyd gan:

| Awdur Gwreiddiol | Fersiwn | Diwygiadau | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Andy Godber | 1 | Ymatebion hyd yma | 23.05.2023 |
| Andy Godber | 2 | Ymateb Swyddog | 27/5/23 |
| Alun Morgan Owen | 3 | Ymatebion hyd yma | 8/6/23 |
| Andy Godber | 4 | Ymateb Swyddog | 9/6/23 |

**Cyflwyniad**

Mae Cynllun Rheoli'r AHNE yn ddogfen statudol sy'n gofyn am broses ymgynghori gyhoeddus dros gyfnod o o leiaf 6 wythnos.

Roedd cyfyngiadau o ran amser yn golygu mai'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynllun hwn yw'r 6 wythnos o'r 28$^{ain}$ Ebrill a fydd yn dod i ben ar 9$^{fed}$ Mehefin.

Cafodd yr ymgynghoriad a gynhelir ar-lein yn unig ei hysbysebu trwy'r cyfryngau ac ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol, ac anfonwyd e-byst at randdeiliaid hysbys, Cynghorau Tref a Chymuned, Cynghorwyr Sir, ac aelodau o'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol presennol.

**Trosolwg Cryno**

Hyd yma, cafwyd 71 o ymatebion llawn, ac fe'u haseswyd i ffurfio'r sail ar gyfer yr adroddiad interim hwn. Mae maint y sampl yn fach ac, fel y cyfryw, mae'n annilys o safbwynt ystadegol, er bod yr ymatebion yn rhoi cipolwg ar y tueddiadau.


Mae'r ymatebion hyd yma wedi rhoi syniad o ran pa gamau allweddol y mae angen eu datblygu, ynghyd â'r hyn y dylid rhoi sylw iddo. Mae'n amlwg o'r ymatebion mai'r prif risgiau o ran uniondeb yr AHNE yw'r Argyfwng Natur presennol ac effeithiau'r Newid yn yr Hinsawdd. Ond mae'n ddiddorol nad yw effeithiau Cymunedol a Chymdeithasol ac Economaidd yn amlwg iawn yn y rhestrau o flaenoriaethau.

Ystyrir bod hyn o ganlyniad i un o blith dau reswm. Y rhain yw naill ai'r rhesymau y dylai'r AHNE ganolbwyntio arnynt, neu nid oes dealltwriaeth dda o'r AHNE, ac mae pobl yn ystyried ei bod yn fwy fel dynodiad cadwraeth natur yn hytrach na dynodiad tirwedd amlweddog.

O ystyried yr uchod, mae'n bwysig i ni ystyried dulliau o gyfathrebu nodau ac amcanion yr AHNE yn fwy effeithiol. Dylid sicrhau bod pobl yn ei deall yn well, a dylid ei gwneud yn fwy perthnasol trwy ganolbwyntio ar gyfathrebu ein gwaith, ynghyd â dolenni addysgiadol, a gwneud rhagor o waith gyda chymunedau Ynys Môn.

Mae canran sylweddol o'r ymatebwyr wedi cyfeirio at y mater yng nghyswllt datblygiad Penrhos o ran ei fod yn ffactor pwysig sydd wedi dylanwadu'n fawr ar yr ymatebion, ac felly bydd hyn wedi effeithio'r ymatebion a roddwyd i ryw raddau.

**C4 a C5 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r Weledigaeth?**





**Sylwadau**

Mae'r ymatebion hyd yma'n dangos bod 55% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y Weledigaeth yn cyd-fynd â'r disgwyliadau. O ystyried nifer yr ymatebwyr sydd wedi gwneud sylwadau ar sefyllfa Penrhos, a'u hanfodlonrwydd gyda safbwynt y cyngor, ystyrir bod hwn yn ffigwr cadarnhaol.

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Sylw | Ymddengys fod y sylw ar gynnal y *status quo* gyda newidiadau bach fesul tipyn a fydd o fantais i gymunedau lleol. Dyma'r ymagwedd a gymerwyd yn y 30 mlynedd ers i mi ddod i'r ynys, ac mewn gwirionedd, tydi hyn ddim wedi gweithio'n dda. Mae angen gweledigaeth gryfach o ran y dyfodol. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae angen cefnogi'r Weledigaeth gyda chynllun gweithredu uchelgeisiol a fydd yn cynnwys cerrig milltir clir ar gyfer cyflawni targedau yn y tymor hwy. Cyflwynir camau gweithredu yn y cyswllt hwn. |
| | Newidiad a Awgrymir | Gwneud cyfeiriad mwy eglur at y cynllun gweithredu a'r nodau blynyddol. |
| 2 | Sylw | Mae'r cyngor ei hun yn datgan 'argyfwng hinsawdd' ond yn rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer dinistrio coetir hynafol pwysig o safbwynt bioamrywiaeth (Penrhos). |
| | Ymateb y Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes ar gyfer Penrhos wedi dilyn y broses gynllunio briodol. Mae'r AHNE yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd. |
| | Newidiad a Awgrymir | Dim newid |
| 3 | Sylw | Mae'r syniad y tu ôl i'r cynllun yn weledigaeth gadarn dda OND mae'r difrod wedi'i wneud i'n hynys eisoes, ac rydym ar ei hôl hi ETO. Mae Ynys Môn erbyn hyn yn fan chwarae i bobl gyfoethog, mae ail gartrefi a llety gwyliau wedi cymryd drosodd pentrefi. Tydi'r bobl leol yn methu â mwynhau eu hynys am fisoedd diddiwedd oherwydd faint o dwristiaid sy'n dympio eu ceir ym mhob cwr o'r ynys. Ymddengys mai'r cynllun cyfan yw "sut fedrwn ni roi profiad gwell i ymwelwyr, mi geith y trigolion lleol fynd i'r diawl". Rydych yn dweud bod twristiaeth yn cyflogi 4,000 ar yr ynys, faint ohonyn nhw sydd mewn swyddi llawn amser trwy gydol y flwyddyn, ac nid ar yr isafswm cyflog, yn gwneud swyddi ar sail trefniant dim oriau, am 5 mis o'r flwyddyn? Hefyd, faint o'r 4,000 sy'n gorfod hawlio budd-daliadau dim ond i drio byw? Rydych yn dweud eich bod am warchod ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, ein SoDdGA a mannau eraill er mwyn i fyd natur gael ffynnu. Gallwch wneud hynny gan fod Traeth Llanddwyn ERBYN HYN o fewn GNC sydd â chyfyngiadau ar waith, ac rydych yn gwneud dim byd o gwbl i warchod y lle neu i orfodi'r cyfyngiadau, felly does fawr o obaith am unrhyw welliant. Pwyllgor arall ydi hwn a fydd ceisio edrych yn bwysig wrth eistedd o gwmpas y bwrdd dros baned a bisgedi, am y 10 mlynedd nesaf. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae'r cynllun yn amlygu'r angen i weithredu'n gyflym yng nghyswllt nifer o fygythion difrifol i'r AHNE, gan gynnwys yr Argyfwng Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd, a dyma'r materion sydd wrth wraidd y cynllun. Mae'r Cynllun Rheoli Cyrchfan hefyd yn amlygu'r angen i fynd i'r afael â nifer o'r materion a amlygwyd yn y sylw hwn, ac yn ceisio datrys sawl un ohonynt, gan gynnwys cyflogaeth o fewn y sector twristiaeth ynghyd â chynyddu hyfforddiant a sgiliau, a chael rhagor o gyflogaeth sy'n talu'n dda, a hynny trwy gydol y flwyddyn.<br>Mae Lles y Gymuned yn rhan allweddol o gynllun rheoli'r AHNE. |
| | Newidiad a Awgrymir | Ceir cyfeiriad at gamau gweithredu'r Cynllun Rheoli Cyrchfan o fewn yr adran berthnasol. |

**C6 a C7 – I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r Ysgogwyr Newid Allweddol ?**




**Sylwadau**

Mae canran uchel o rai nad ydynt yn Cytuno neu'n Anghytuno yn creu pryder nad yw'r cyhoedd yn deall cylch gwaith eang yr AHNE yn ddigonol. Mae C7 yn gofyn i ymatebwyr rhestru'r Ysgogwyr Newid allweddol yn nhermau eu blaenoriaeth o safbwynt risg, a dengys y canlyniadau bod 74% o'r ymatebwyr yn credu mai'r Argyfwng Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd yw'r ffactorau a chanddynt y risg mwyaf, gyda'r effeithiau ar y Gymuned a'r Economi yn isel iawn. Mae hyn efallai'n almygu bod y cyhoedd at ei gilydd yn meddwl am yr AHNE fel dynodiad Natur, tebyg i Ardal Cadwraeth Arbennig, neu fod hyn yn golygu'n syml mai'r ddau fater hwn yw'r bygythion mwyaf difrifol y mae'n rhaid mynd i'r afael â hwy.

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Sylw | O'r diwedd, mae'n ymddangos eich bod yn cymryd ymwelwyr ac atyniadau i ystyriaeth. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae Cynllun yr AHNE yn ystyried bod mwynhad y cyhoedd a datblygu economaidd cynaliadwy'n agweddau hanfodol. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. |
| | Newidiadau | Dim |
| 5 | Sylw | Amharodrwydd Cyngor Môn i gadw Parc Natur Penrhos fel y mae, ac i atal Land and Lakes rhag ailddatblygu'r safle. |
| | Ymateb y Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes ar gyfer Penrhos wedi dilyn y broses gynllunio briodol. |


| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd. |
| | Newidiadau | None |
| 6 | Sylw | Dwi wedi rhoi 'Newid hinsawdd' ac 'Adfer byd natur a bioamrywiaeth' yn gydradd cyntaf - mae'r ddau'n mynd law yn llaw. Rhan o'r ateb o ran lleihau effeithiau eithafol y newid yn yr hinsawdd yw adfer byd natur a bioamrywiaeth. Rhaid i mi roi 'Hawl a hamdden' a 'Cymunedau ac economi arfordirol a chefn gwlad' yn gydradd ail hefyd, gan eu bod hefyd yn mynd law yn llaw. Mae'n holl bwysig fod cymunedau yn teimlo'r angen i adfer ein cynefin naturiol, a hynny drwy gynnwys trigolion yr ynys yn y gwaith hanfodol hwn. |
| | Ymateb y Swyddogion | Dylid mynegi'r cyfleoedd i ymrwymo'r cyhoedd a'u haddysgu ynghylch pwysigrwydd mynd i'r afael a'r Argyfwng Natur a'r Newid yn yr Hinsawdd yn gryfach. |
| | Newidiadau | Dylid cynnwys cam gweithredu ychwanegol yng nghyswllt datblygu portffolio addysgol ar y cyd â'r Adran Addysg. |
| 7 | Sylw | Rwy'n credu'n gryf y dylai gwarchod natur fod yn flaenoriaeth, o ran buddion hirdymor i drigolion lleol ac ymwelwyr, ynghyd â lleihau allyriadau carbon. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae'r ddau'n themâu allweddol o fewn y cynllun, ac mae'r ymgynghoriad yn nodi y dylai'r ddau fod yn flaenoriaeth fel camau gweithredu at y dyfodol. |
| | Newidiadau | Dim o ran y Cynllun – angen ystyried targedau uchelgeisiol ar gyfer y Cynllun Gweithredu. |
| 8 | Sylw | Gwelwyd cynnydd aruthrol yn yr ymwelwyr sy'n dod i'r ynys ers y pandemig, ac mae'r angen i letya rhagor o bobl sy'n dod i ymweld â'r ynys yn achlysurol mewn carafanau neu i wersylla (yn hytrach na pherchnogion ail gartrefi), yn enwedig yn nhermau isadeiledd, toiledau, parcio ac ati, yn gwbl hanfodol. A finnau'n byw yng Ngogledd yr ynys, rwy'n teimlo y byddai twristiaeth a thrigolion lleol fel ei gilydd yn cael budd o lwybrau beicio a cherdded diogel oddi ar y ffordd, e.e. troi hen reilffordd Llangefni i Amlwch yn llwybr |

| | | |
|---|---|---|
| | | amlddefnydd. Byddai hwn yn brosiect buddiol DROS BEN.<br>Er nad wyf yn enedigol o Ynys Môn, mae fy nghysylltiad â'r ynys yn mynd yn ôl i'r 1970au, ac erbyn hyn, rwyf wedi bod yn byw yma ers dros 20 mlynedd, sef y cyfnod hiraf i mi fod wedi byw yn rhywle ar hyd fy oes. Byddaf bob amser yn ystyried fy hun yn ddysgwr Cymraeg, ac nid yn siaradwr Cymraeg, ond rwy'n frwd dros warchod y Gymraeg a'i diwylliant. Mae hyn yn greiddiol i'r cynllun newydd, ac rwy'n falch iawn o hynny. |
| | Ymateb y Swyddogion | Rydym bob amser yn chwilio am gyfleoedd i weithio ag adrannau eraill o fewn y cyngor, ynghyd â phartneriaid, i wella mynediad i'r AHNE a chefn gwlad Ynys Môn. Mae hyn yn rhan ganolog o'n nodau o safbwynt lles, yn ogystal â gwerthfawrogiad o werth natur i fywydau trigolion lleol ac ymwelwyr. Mae'n galonogol cael derbyn y sylw am y Gymraeg. |
| | Newidiadau | Dim |
| 9 | Sylw | Rwy'n credu'n gryf y dylai gwarchod natur fod yn flaenoriaeth, o ran buddion hirdymor i drigolion lleol ac ymwelwyr, ynghyd â lleihau allyriadau carbon. |
| | Ymateb y Swyddogion | Nodwyd hyn, a bydd yn helpu i lywio'r cynllun gweithredu a'r targedau. |
| | Newidiad | Dim |
| 10 | Sylw | Gwelwyd cynnydd aruthrol yn yr ymwelwyr sy'n dod i'r ynys ers y pandemig, ac mae'r angen i letya rhagor o bobl sy'n dod i ymweld â'r ynys yn achlysurol mewn carafanau neu i wersylla (yn hytrach na pherchnogion ail gartrefi), yn enwedig yn nhermau isadeiledd, toiledau, parcio ac ati, yn gwbl hanfodol. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae'r isadeiledd ar gyfer ymwelwyr yn rhan allweddol o'r sylfaen ar gyfer adeiladu cynnig cadarn a chynaliadwy, sy'n canolbwyntio ar nodweddion unigryw Ynys Môn. |
| | Newidiad | Cyfeirio mwy at y Cynllun Rheoli Cyrchfan . |
| 11 | Sylw | Maen nhw'n annelwig, yn ddyblygol ac yn amwys. O ganlyniad, maen nhw'n anodd i'w rheoli, eu |

| | | |
|---|---|---|
| | | monitro ac i adrodd yn eu cylch, o ran "llwyddiannau" neu "fethiannau". Efallai mai dyna'r amcan... |
| | Ymateb y Swyddogion | Maer Ysgogwyr Newid Allweddol wedi dylanwadu ar y Themâu Allweddol a'r Camau Gweithredu. Mae'r rhain yn fesuradwy yn nhermau cyflawni newid. |
| | Newidiad | Dim |
| 12 | Sylw | Yn y dyddiau hyn o "les meddyliol", bod yn un â natur yw'r peth gorau, cerdded ymhlith coed, gweld bywyd gwyllt a chael cyfle i fyfyrio am bethau yw'r teimlad gorau erioed. Hefyd, coed yw ysgyfaint y byd ac maen nhw'n helpu ein hatmosffer/aer gymaint, ac yn werthfawr o safbwynt y newid yn yr hinsawdd, mae gweld coeden yn ei blodau'n olygfa fendigedig ac yn codi'r ysbryd. Mae cael mynediad i'r pleserau syml hyn yn hanfodol, po fwyaf o bobl sy'n dod, y mwyaf o arian y byddant yn ei wario, sydd wedyn yn hybu'r economïau lleol. |
| | Ymateb y Swyddogion | Rydym yn gweld bod buddion y dirwedd a byd natur yn hanfodol i iechyd a lles trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd, ac maen nhw'n rhan hanfodol o gamau gweithredu'r AHNE a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. |
| | Newidiad | Dim, ond mae'n sicr bod angen rhoi lle amlwg i hyn yn y cynllun gweithredu. |
| 13 | Sylw | Rwy'n hoffi'r pwyslais ar gadwraeth bioamrywiaeth, trwy gynefinoedd a chadwraeth rhywogaethau.<br>Mae eich dealltwriaeth o hamdden yn colli ffactor enfawr - caiacio môr. Ynys Môn yw un o'r prif gyrchfannau caiacio môr yn y byd, oherwydd ei fod yn cynhyrchu rhai o'r caiacs môr gorau a chael rhai o'r lleoliadau hyfforddi gorau. Yn aml mae gennym ymwelwyr o Ogledd America ac Ewrop (yn enwedig Sgandinafia), sy'n dod yn benodol i gaiaco môr.<br><br>Mae ffatrïoedd Ynys Môn yn cynhyrchu dros 3,000 o gaiacau môr y flwyddyn. Mae fy |

| | | |
|---|---|---|
| | | musnes hyfforddi/tywys caiacod môr yn troi dros £110,000 y flwyddyn ac yn dod â 600+ o ymwelwyr caiacio i'r ynys. Rhaid i gaiacio môr gyfrif am ychydig filiwn o'r refeniw twristiaeth £360 miliwn a ddyfynnir yn yr adroddiad. |
| | Ymateb y Swyddogion | Yn sicr, caiacio môr yw un o'r ffyrdd gorau o werthfawrogi arfordir Ynys Môn, ac ni ellir gwadu fod Ynys Môn yn atynfa i'r rhai sy'n ymwneud â'r gweithgaredd hwn. Mae'r math hwn o hamdden pan gaiff ei wneud mewn modd sensitif yn cyd-fynd â nodau'r AHNE. Mae'r gweithgynhyrchu lleol o gaiacs môr uchel eu parch hefyd yn unol â'n hymdrechion i gefnogi diwydiannau lleol. |
| | Newidiad | Cyfeirio at caiacio môr yn yr adran Hamdden |

**C8 – I ba raddau ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â chynnwys y Polisi?**





**Sylwadau**

Mae'r adran hon braidd yn 'drwm' i'r cyhoedd, ac nid yw'r canlyniad a welir uchod yn annisgwyl. Cyfeirir at y polisi fel y mae o fewn yr egwyddorion o ran gofynion y cynllun fel y nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

| | | |
|---|---|---|
| 14 | Sylw | Ymddengys mai eitemau polisi statudol / strategol yw'r rhain y mae'n rhaid eu hystyried / cydymffurfio â hwy. |
| | Ymateb y Swyddogion | Nodwyd |
| | Newidiad | Dim |
| 15 | Sylw | Ymddengys nad yw'n berthnasol o ran p'un a ydw i'n cytuno neu'n anghytuno â chyd-destun y polisi, oherwydd mai dyna yw ei ddiben fel polisi, ac rydych wedi'i ddiffinio felly. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae'n ymddangos y byddai'n gwneud synnwyr. Byddwn yn dweud nad oeddwn yn gyfforddus wrth ddarllen y cyd-destun deddfwriaethol yng ngolau'r datblygiad arfaethedig ym Mhenrhos, Caergybi. Er y ffaith y rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol, ni allaf weld sut mae Cynnig Land and Lakes yn unrhyw beth ond anghyfreithlon yn y cyd-destun presennol o ran |

| | | |
|---|---|---|
| | | polisi (heb sôn am hynny yn y dyfodol), ac rwy'n gobeithio y bydd CSYM yn ei ailystyried cyn gynted â phosib. Ni ellir ystyried mwyach bod y datblygiad 'o Fudd Cenedlaethol' (os fu erioed). |
| | Ymateb y Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes ar gyfer Penrhos wedi dilyn y broses gynllunio briodol. Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd. |
| | Newidiad | Dim |
| 16 | Sylw | Byddai'n well gen i weld pa "Gynlluniau" sydd gennych ar gyfer yr ardal cyn cynnig unrhyw farn. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae'r adran ar y 5 Thema Allweddol yn dangos y camau gweithredu y bwriadwn ymgymryd â hwy yn ystod cyfnod y cynllun. Caiff cynllun gweithredu blynyddol cyfredol ei lunio i ategu'r rhain. |
| | Newidiad | Dim |
| 17 | Sylw | Fel arfer, rydych yn gofyn cwestiynau chwerthinllyd. Does gen i mo'r amser i ddarllen hynny i gyd gyda ffydd bod y sawl sydd wedi llunio'r ddogfen wedi gwneud eu gwaith cartref. Ydych chi'n ceisio annog rhanddeiliaid i beidio â chwblhau'r holiadur? |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae'r modd y mae'r cynllun yn cyd-fynd â pholisïau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol yn ffurfio rhan o'r gofynion fel dogfen statudol. Rydym yn sylweddoli bod hyn yn creu adran braidd yn drwm. |
| | Newidiadau | Dim – byddai fawr o bwrpas mewn lleihau'r cynnwys. |

**C9 – Mabwysiadu Dull Ecosystem**





**Sylwadau**

Mae'n amlwg bod yr ymatebwyr at ei gilydd yn deall cysyniad y Dull Ecosystem o ganlyniad i wybodaeth flaenorol o'r testun o fewn y cynllun. Mae'n amlwg hefyd eu bod yn teimlo bod dull o'r fath yn briodol.

| | | |
|---|---|---|
| 18 | Sylw | Er bod y cynllun hwn yn canolbwyntio ar yr AHNE, mae'n bwysig ystyried ei effaith ar yr ardal ehangach. Dydw i ddim yn byw o fewn yr AHNE, ond tua 3 milltir i ganol y tir - mewn lle gwledig a hardd iawn, gydag awyr dywyll a chyfoeth o fywyd gwyllt, ynghyd ag 'ardal wyllt heb goed sydd wedi'i phori gan ddefaid' o'n cwmpas. Rydym yn plannu coed ac yn ceisio dad-ddofi rhywfaint o'n 5 erw o dir, fel ymgais i ddod yn hunangynhaliol ac i reoli'r tir orau y gallwn er bioamrywiaeth, heb gymorthdaliadau neu grantiau ffermio. Byddai'r materion sy'n berthnasol i'r AHNE yn sicr o fod yn berthnasol i rannau eraill o'r ynys, felly byddai ei hystyried ar wahân yn rhywbeth anghyfrifol, yn fy marn i. |
| | Ymateb y Swyddogion | I weithio ar raddfa tirwedd, ni allwch ddefnyddio ffin yr AHNE fel ffactor i bennu rheolaeth briodol. Mae afonydd yn enghraifft dda o ran bod effeithiau gormod o faetholion ar y tir yn effeithio cynefinoedd o fewn yr AHNE. Rydym yn nodi'r sylw ond eisoes yn gweithio y tu hwnt i'r ffin. |
| | Newidiad | Byddwn yn cynnwys cyfeiriad at weithio y tu hwnt i'r ffin. |

| | | |
|---|---|---|
| 19 | Sylw | Mae'n eithriadol o anodd darllen y grid a cheisio deall beth sy'n cael ei gynnig.<br>Fel "tyfwr", hoffwn nodi nad dim ond "ffermwyr" sy'n cynhyrchu bwyd…Fyddwn i fyth yn ystyried fy hun yn ffermwr, ond dwi'n cynhyrchu llawer o fwyd, fel y mae nifer o dyfwyr eraill ar Ynys Môn. |
| | Ymateb y Swyddogion | Rydym am chwilio am ddarlun ar ffurf graff i symleiddio'r grid. |
| | Newidiad | Dylid cynnwys darlun ar ffurf graff os oes un ar gael. |
| 20 | Sylw | Dwi'n meddwl bod yr hyn sydd ar waith yn gweithio. |
| | Ymateb y Swyddogion | Bydd gweithio yn ôl Dull Ecosystem, ynghyd ag addysgu adrannau a phartneriaid eraill ond yn arwain at ragor o welliannau. |
| | Newidiad | Dim |

**C10 – I ba raddau ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno â'r '5 thema ar gyfer cyflawni Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn'?**




**Sylwadau**


Mae 48% o'r ymatebion yn rhoi ymateb cadarnhaol o ran blaenoriaethu'r 5 thema allweddol dros oes y cynllun. Mae'r themâu allweddol hyn yn cyd-fynd â phwrpas yr AHNE ac yn cysylltu'n uniongyrchol â pholisiau lleol a chenedlaethol eraill. Ystyrir unwaith eto nad yw ymatebwyr yn llawn ddeall pa mor eang yw cylch gwaith yr AHNE.

| | | |
|---|---|---|
| 21 | Sylw | - Dwi'n ei chael yn anodd gwahanu'r nodau o safbwynt ''mynd i'r afael a'r dirywiad ym myd natur' a'r 'newid yn yr hinsawdd', ond yn derbyn bod yr hyn y maen nhw'n rhoi sylw iddo ychydig yn wahanol.<br>Byddai'n dda gweld y Cyngor yn ymrwymo i gyflogi pobl er mwyn MYND ATI i hybu bywyd gwyllt a chadwraeth natur, yn lle dim ond 'gweithio gyda phartneriaid', ac yn enwedig nid dim ond cael grwpiau o wirfoddolwyr neu elusennau i wneud y gwaith hwn. Gallai'r cyngor arwain trwy esiampl o ran creu rhagor o swyddi yn y cyswllt hwn. Ceir cyfleoedd aruthrol i greu cyflogaeth yma i bobl leol a chanddynt lawer o wybodaeth a phrofiad.<br>Byddwn hefyd yn hoffi gweld ymrwymiad i orfodaeth, nid dim ond 'gweithio gyda phartneriaid' i fynd i'r afael  rhywogaethau goresgynnol, gan gynnwys y rhywogaethau goresgynnol sy'n bodoli ym Mhenrhos ar hyn o bryd. O ran hynny, ni allaf weld unrhyw dystiolaeth bod Land and Lakes wedi rheoli, heb sôn am 'daclo'r' rhywogaethau goresgynnol - yn enwedig y |

| | | |
|---|---|---|
| | | rhododendron. Ond cyfeirir at sawl rhywogaeth arall yn eu harolwg amgylcheddol helaeth a gwblhawyd ar gyfer y cais cynllunio. Gellid ystyried eu bod yn disgwyl am ganiatâd llawn ar gyfer eu cais cynllunio cyn dechrau unrhyw waith - hyd yn oed hynny y gellid ei ystyried yn waith cynnal hanfodol er budd natur.<br>Mae llysiau'r gingroen yn bla ar Ynys Môn hefyd, sydd bob amser wedi fy synnu'r yn yr 20 mlynedd yr wyf wedi bod yn byw yma. Byddai rhyw fath o ymgyrch i fynd i'r afael â llysiau'r gingroen ledled yr ynys o fudd. Dwi'n gwerthfawrogi bod angen caniatáu i rywfaint ohono dyfu ar gyfer y gwyfyn claergoch a mathau eraill o bryfetach - yn wir, mae'r planhigyn yn tyfu ar ein tir ni, ac mae'n ymddangos yn amhosib i'w ddileu heb ei chwistrellu - ond mae'n doreithiog iawn yn y sir hon ac i'w weld yn tyfu allan o reolaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn. |
| | Ymateb y Swyddogion | Yn lle mae'n amlwg bod methiant o safbwynt delio â rhywogaethau estron goresgynnol, neu o ran lle ceir tystiolaeth o dorri amodau trawsgydymffurfio, byddwn bob amser yn hysbysu'r corff neu'r adran berthnasol a chanddynt bwerau gorfodi. |
| | Newidiad | Dim, ond nodwyd y sylwadau. |
| 22 | Sylw | Mae'n eithriadol o anodd deall yn iawn beth sy'n cael ei gynnig. Dylid bod wedi darparu crynodeb byr o'r ddogfen ar gyfer yr ymgynghoriad. |
| | Ymateb y Swyddogion | Ein bwriad yw darparu fersiwn byr o'r cynllun maes o law. |
| | Newidiad | Dim, ond nodwyd y sylwadau. |
| 23 | Sylw | Lleolir y rhan fwyaf o'r AHNE ar hyd yr arfordir. Cafodd rhai rhannau o'r AHNE eu dinistrio eisoes trwy benderfyniadau annoeth o ran lleoli carafanau. Mae meysydd carafanau'n dal i gael eu datblygu, heb ganiatâd cynllunio, o fewn yr AHNE. Dwi'n credu bod polisi cynllunio'n gwahardd datblygiadau o'r fath, ond maen nhw'n dal i ddigwydd. Byddwn yn croesawu ymateb cryfach i unrhyw ddatblygiadau o'r fath. |
| | Ymateb y Swyddogion | Caiff dynodiad yr AHNE ei ystyried yn y broses gynllunio. Dylid mynd i'r afael â pharciau carafanau |

| | | |
|---|---|---|
| | | nad oes unrhyw ganiatâd cynllunio ar eu cyfer trwy gamau gorfodaeth cynllunio. |
| | Newidiad | Dim, ond nodwyd y sylwadau. |

**C11 - Blaenoriaethu Themâu Allweddol**




**Sylwadau**


Mae'n ddiddorol iawn gweld yn amlwg bod ymatebwyr yn nodi bod dwy thema allweddol o'r pwys mwyaf. Y rhain yw Cyfoethogi'r Arfordir ac Ardaloedd Cefn Gwlad, ynghyd â mynd i'r afael â'r Argyfwng Natur. Mae maint y sampl yn fach iawn ond, unwaith eto, mae'n rhoi cipolwg ar y ffaith naill ai nad yw'r AHNE yn cael ei deall yn iawn neu, yn syml, bod y themâu uchod yn flaenoriaeth ym meddyliau pobl.

| | | |
|---|---|---|
| 24 | Sylw | Mae'r materion hyn wedi'u cysylltu mor agos, roedd yn anodd eu rhestru yn ôl pwysigrwydd. Ond, i mi'n bersonol, mae mynd i'r afael â'r argyfwng natur a'r newid yn yr hinsawdd yn brif flaenoriaethau oherwydd, heb y rhain, nid oes unrhyw bwynt meddwl am unrhyw rai o'r gweddill. Rhaid eu blaenoriaethu, waeth beth fo'r gost ariannol.<br>Os oedd angen cydbwyso anghenion yr amgylchedd naturiol gyda 'mwynhad' pobl, yna ni fyddwn yn gwrthwynebu cyfyngu (neu 'blismona') niferoedd yr ymwelwyr i rai ardaloedd, e.e. y nythfa o wenoliaid y môr yng Nghemlyn. Ni fyddai ots gen i am hynny. Fel pobl, dwi'n teimlo nad oes gennym 'hawl' i fwynhau'r ardal, er fy mod yn cydnabod yr angen i gydbwyso hyn â'r budd a geir o incwm gan dwristiaid. Ers i mi fod yn byw yma, mewn rhan wledig o'r ynys lle mae cymdogion yn brin - dwi'n teimlo bod diffyg ymdeimlad o gymuned ar adegau, ac mae angen mynd ati i chwilio am grwpiau ac i wneud cysylltiadau, sy'n golygu bod angen gyrru i'r dref. Gellir teimlo'n unig iawn, yn enwedig ers Covid (er, yn eironig, teimlwyd bod MWY o gymuned bryd |

| | | |
|---|---|---|
| | | hynny yn fwy na thebyg, gan y byddai pobl yn cerdded heibio'r tŷ, ac yn dweud helo, yn cadw llygaid ar gymdogion ac ati - cafwyd y teimlad ein bod ni i gyd yn yr un sefyllfa), ac felly dwi'n teimlo bod 'cymunedau bywiog mewn tirwedd weithredol' yn bwysig iawn hefyd. |
| | Ymateb y Swyddogion | Dylid sylweddoli gwerth byd natur, a'i allu i gysylltu pobl yn nhermau bod yn ynysig mewn ardal wledig. Yn yr un modd, dengys tystiolaeth bod cael y gymuned ffermio i gydweithio ar fentrau newydd yn lleihau ynysigrwydd ac agweddau eraill sy'n gwneud pobl yn fregus. Ychwanegir cyfeiriad at hyn. |
| | Newidiad | Ychwanegu testun i'r adran Cymunedau Bywiog. |
| 25 | Sylw | Dwi'n teimlo'n gryf mai'r *status quo* ar yr ynys yw'r math o feddwl o ran bod yn "siop leol i bobl leol", ac nid yw'r cynllun rheoli'n mynd i'r afael â'r broblem hon. Rhaid i'r economi leol - a'r diwylliant lleol - addasu i'r realiti newydd, nad oes diwydiant ar yr ynys, ac y gellir dadlau nad oes lle i ddiwydiant, ar wahân i dwristiaeth. |
| | Ymateb y Swyddogion | Nodwyd yr ymateb. |
| | Newidiad | Dim |
| 26 | Sylw | Argyfwng yr hinsawdd yw'r mater pwysicaf y mae brys mwyaf i fynd i'r afael ag ef. Mae'n dod yn fwy a mwy tebygol y gall fod yn ddigwyddiad a all arwain at ddifodiant, ac mae gan awdurdodau gyfrifoldeb dros yr amgylchedd. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae argyfwng yr hinsawdd yn fater sydd y tu hwnt i bob polisi lleol, ac mae mynd i'r afael â'r her yn ffurfio rhan sylweddol o'n gwaith o safbwynt cynllunio camau gweithredu. |
| | Newidiad | Dim |
| 27 | Sylw | Fel athrawes, mae'r ardaloedd yma'n hynod bwysig fel adnodd, ond hefyd mae'n rhaid gofalu am yr ardaloedd yma gan fod yr hinsawdd yn newid. Os bydd y Cyngor yn torri coedwigoedd hen ni fydd plannu coed newydd hefo'r un effaith. Wrth ofalu am yr ardaloedd, mae'r Cyngor yn anfon neges gref i eraill sy'n dweud bod ein parciau ac ardaloedd yn hollbwysig mewn byd o newid hinsawdd. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae gan y cynllun nod clir o ran mynd i'r afael â'r materion hyn, ac mae'r cynllun gweithredu'n amlygu'r angen am ymateb ar ran amryw sefydliadau/tirfeddiannwr o safbwynt lliniaru |

| | | |
|---|---|---|
| | | effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'r cynllun corfforaethol yn adleisio'r her hon. |
| | Newidiad | Dim – ond nodwyd y sylwadau. |

C12 – Rheoli a Llywodraethu




**Sylwadau**

Mae'r arolwg yn awgrymu lefel sylweddol o ddifaterwch tuag at reoli a llywodraethu, ond mae'n debyg bod hyn oherwydd gwybodaeth gyfyngedig neu ddadrithiad o ganlyniad i ddatblygiad Penrhos, neu faterion eraill y mae pobl yn eu hystyried sy'n rhan o fethiant i warchod yr AHNE.


| | | |
|---|---|---|
| 28 | Sylw | Mae angen gwneud mwy. Mae angen diogelu ardaloedd a'u rheoli yn hytrach na gobeithio y bydd y gymuned yn gwneud o drosoch chi. Mae'n rhaid ysbrydoli pobl i blannu coed ac i ofalu am yr ardaloedd. Nid 'pass the buck' i'r gymuned. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae cymunedau'n chwarae rôl bwysig, ac maen nhw angen cael ymdeimlad o berchnogaeth o'r AHNE, ynghyd â theimlo y gallant wneud cyfraniad uniongyrchol o ran camau i wella |

| | | |
|---|---|---|
| | | pethau. Ond mae angen cefnogi hyn gydag ymrwymiad cryf i gyflawni'r newid cadarnhaol y mae ei angen i fynd i'r afael â heriau mawr. Mae'r strwythur staff yn gymharol gadarn ar hyn o bryd, a trwy feddylfryd cyfannol o fewn yr ALl, gellir cael cefnogaeth gan adrannau eraill. |
| | Newidiad | Ychwanegu testun mewn perthynas â'r mater hwn. |
| 29 | Sylw | Rhaid meddwl am hanes Cyngor Ynys Môn yn y gorffennol o safbwynt ei fod wedi dinistrio rhannau helaeth o'n hardaloedd cefn gwlad i letya parciau carafanau mawr, sy'n edrych fel gwersylloedd carcharorion rhyfel (cymrwch olwg ar 'Google Earth', mae tirwedd arfordir dwyreiniol yr ynys yn ddolur llygad). Does gen i fawr o obaith am y dyfodol o dan ei reolaeth. |
| | Ymateb y Swyddogion | Ni ddylai'r AHNE fod yn rhywbeth sy'n atal datblygiadau priodol, ond trwy sicrhau gwell dealltwriaeth o'i phwysigrwydd, dylai datblygiadau fod yn fwy priodol a mesurau lliniaru'n gryfach. Lle ystyrir bod cynigion yn amhriodol, dylai'r system gynllunio bresennol weithredu i warchod asedau pwysig Ynys Môn. |
| | Newidiad | Dim, ond nodwyd y sylwadau. |
| 30 | Sylw | Nid oes unrhyw beth da o reidrwydd o ran "cadw" staff, neu wneud swyddi dros dro'n barhaol. Y staff gorau ar gyfer y swydd yw'r rheiny sy'n gwneud y swydd. Os nad ydynt yn dda, dylent fynd. At ei gilydd, mae syniadau a chyfraniadau newydd yn beth da. Mae CSYM yn dueddol o fod yn amgylchedd marwaidd (gan siarad o brofiad). Efallai y byddai'n fwy buddiol cael mwy o gyfraniadau a gwerthusiadau o'r tu allan, gan amrywiaeth o gontractwyr, yn hytrach na pharhau i sefyll yn llonydd. |
| | Ymateb y Swyddogion | Nodwyd - mae gennym dîm ifanc ac egnïol o wardeiniaid sy'n frwdfrydig am eu gallu i gyflwyno nodau'r cynllun. |
| | Newidiad | Dim |
| 31 | Sylw | Mae'r adran hon yn eithaf annelwig. Rwy'n teimlo'n gymysglyd o ran yr ymadrodd 'dehongli a hyrwyddo'r AHNE' – dydw i ddim yn sicr beth mae 'dehongli' yn ei feddwl yn y cyd-destun |

| | | |
|---|---|---|
| | | hwn, fodd bynnag, mewn egwyddor, mae'n ymddangos ei bod yn set dda o amcanion. Tybed os allai 'rhanddeiliaid a phartneriaid' gynnwys sefydliadau sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles hefyd (gan gynnwys y GIG), a ph'un a ellir meithrin gwell cysylltiadau â'r GIG, gan gynnwys cydweithredu â chynllun coed y GIG ('NHS Forest') ynghyd â mentrau eraill sy'n bodoli i hyrwyddo'r buddion o ran iechyd. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae angen Cynllun Cyfathrebu – mae angen cyfeirio at hyn yn yr adran hon. |
| | Newidiad | Ychwanegu testun. |
| 32 | Sylw | Mae diffyg y cyngor sir a llywodraeth Cymru o ran sicrhau dyfodol Parc Penrhos fel lle hollbwysig i'r gymuned leol yn boenus. |
| | Ymateb y Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes ar gyfer Penrhos wedi dilyn y broses gynllunio briodol. Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd. |
| | Newidiad | Dim |
| 33 | Sylw | Dwi'n anghytuno'n gryf oherwydd nad yw Cyngor Sir Ynys Môn yn rheoli'r mater o lywodraethu Penrhos, maen nhw'n boddio Land and Lakes a heb hyd yn oed gyfarfod ag unrhyw un o'r ymgyrchwyr iddyn nhw allu dangos i Gyngor Ynys Môn bod Land and Lakes wedi dweud celwydd wrth ddweud eu bod wedi dechrau gweithio ym Mhenrhos. Maen nhw wedi derbyn tystiolaeth ffotograffig er bod cynghorwyr wedi dweud y bydden nhw'n barod i ymweld â'r safle i weld y lle drostyn nhw eu hunain. Ac er tryloywder, nid yw'r pwyllgor cynllunio wedi gweld y lluniau hynny, mae'r tîm cyfreithiol yn gwadu'n gryf bod y gwaith wedi dechrau, fel y mae trigolion lleol a rhai cynghorwyr. Felly ymwelwch â'r safle hwn, a gwiriwch y sefyllfa a thynnwch luniau i'r pwyllgor cynllunio er mwyn iddyn nhw weld y sefyllfa drostyn nhw eu hunain. Wnewch chi ddechrau rheoli'r sefyllfa hon, da chi, i atal trychineb. |
| | Ymateb y Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes ar gyfer Penrhos wedi dilyn y broses gynllunio briodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd. |
| | Newidiad | Dim |

**C13 – I ba raddau ydych chi'n anghytuno neu'n cytuno gyda'r 'Cynllun Gweithredu'?**




**Sylwadau**

Caiff y mwyafrif o’r camau gweithredu a nodir yn y cynllun eu derbyn, er nad oedd gan bron i 50% o’r ymatebwyr unrhyw farn gref.

| | | |
|---|---|---|
| 34 | Sylw | Syniadau gwych, mae angen gweithredu i’w rhoi ar waith. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae’n angenrheidiol i ni gyflawni’r camau gweithredu, ac yr un mor bwysig i ni basio storïau am ein gwaith ymlaen i’r cymunedau a’r ymwelwyr a fydd yn elwa ar hynny, er mwyn iddynt gael deall yr ardal yn well, ynghyd ag i godi proffil yr AHNE. |
| | Newidiad | Cynnwys gwybodaeth am y cynllun cyfathrebu. |
| 35 | Sylw | Mae’r geiriau i gyd yn swnio’n dda ond mae angen eu rhoi ar waith. Dwi’n cyfeirio unwaith eto at ddinistrio cynefin y coetir ym Mhenrhos, er anfantais i fyd natur a’r gymuned. Mae caniatáu mynediad yn ystod y dydd, am awr neu ddwy, i drigolion lleol ac ymwelwyr yn gwneud llai o ddifrod o lawer i fyd natur na 1,000 o bobl yn byw yno 24/7.<br>Cyfeirir at y syniad o dawelwch, ond eto caniatawyd i Trac Môn fodoli o fewn AHNE. Dwi’n gwerthfawrogi ei fod wedi bod yno am flynyddoedd lawer, ond mae nifer y digwyddiadau wedi cynyddu’n ddramatig, gan achosi problemau sylweddol o ran traffig yn y cyffiniau, ynghyd â sŵn parhaus, yn enwedig pan fydd digwyddiadau ar |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfer beiciau modur. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar fwynhad trigolion lleol ac ymwelwyr o dawelwch yr ardal. Fel yr 'Yr Ynys Ynni', a fyddai modd i'r Cyngor fynnu eu bod yn newid i ddefnyddio tanwydd nad yw'n danwydd ffosil, ynghyd â thechnoleg dawel ar gyfer rasio, yn bennaf oherwydd y newid yn yr hinsawdd os dim arall?! |
| | Ymateb y Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes ar gyfer Penrhos wedi dilyn y broses gynllunio briodol. Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd.<br><br>Mae'n bwysig i unigolion, a phob sector, gan gynnwys y sector preifat, ddod ynghyd i geisio datrysiadau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae hon yn elfen gyffredin o Gynllun yr AHNE a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan. |
| | Newidiad | Dim – rydym yn teimlo ein bod wedi cynnwys hyn yn barod. |
| 36 | Sylw | Mi fyddwn wrth fy modd pe baech yn gwneud popeth yr ydych wedi'i ddweud, ond dwi'n meddwl mai dim ond ymarfer i dicio'r bocsys ydi hwn. |
| | Ymateb y Swyddogion | Mae'n angenrheidiol i ni gyflawni'r camau gweithredu, ac yr un mor bwysig i ni basio storïau am ein gwaith ymlaen i'r cymunedau a'r ymwelwyr a fydd yn elwa ar hynny, er mwyn iddynt gael deall yr ardal yn well, ynghyd ag i godi proffil yr AHNE. |
| | Newidiad | Cynnwys gwybodaeth am y cynllun cyfathrebu. |
| 37 | Sylw | Thema 1 – datblygiad amhriodol!<br>Penrhos (mae hwn yn dechrau swnio fel jôc), sut allwch chi gynnig y ddogfen hon, pan nad ydych yn dilyn ei chynnwys.<br>CC1.4<br>Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>Amcan 3 – datblygu!<br>CCC 3.3 – rhowch hwn ar waith ar unwaith. |
| | Ymateb y Swyddogion | Roedd cais cynllunio Land and Lakes ar gyfer Penrhos wedi dilyn y broses gynllunio briodol. Mae'r AHNE yn ddynodiad tirwedd ac yn cydbwyso anghenion o safbwynt y dirwedd a'r morwedd, byd natur, cymunedau, a datblygu economaidd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Newidiad | Dim |
| 38 | Sylw | Fel y dywedais yn flaenorol, dwi'n teimlo bod angen i rai o'r camau gweithredu fod yn fwy beiddgar. |
| | Ymateb y Swyddogion | Ar adeg pan fo angen gweithredu i fynd i'r afael â nifer o'r heriau sy'n ein hwynebu, mae'n bwysig y dylem gael ein gweld yn arwain y gad. Bydd hyn yn gofyn am ymateb gan bartneriaid a chymunedau ar y cyd. Mae'r cynllun, ynghyd â'r cynllun gweithredu cysylltiedig, yn ddogfen weithio, a byddwn yn ymdrechu i fod mor uchelgeisiol â phosib wrth fynd ymlaen. |
| | Newidiad | Dim – caiff ei ystyried wrth gyflawni'r cynllun gweithredu. |

# Cynllun Rheoli AHNE Ynys Môn – Atodiad 1

# Cynnwys y Polisi

## Rhyngwladol

**Tirwedd Categori V yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur**

Mae AHNE Cymru, ochr yn ochr â'r rheini yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ynghyd â pharciau cenedlaethol y DU, yn rhan o deulu o ardaloedd gwarchodedig a ddiffinnir gan yr Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur (IUCN) fel rhai Categori V - tirweddau gwarchodedig. Gelwir y rhain yn dirweddau diwylliannol, a ffurfiwyd gan ryngweithio agos rhwng natur a gweithredoedd poblogaethau dynol. Mae tirweddau Categori V yn cael eu diffinio gan IUCN fel tirweddau lle:

'...mae'r rhyngweithio rhwng pobl a natur dros amser wedi creu ardal o gymeriad unigryw sydd â gwerth ecolegol, biolegol, diwylliannol a golygfaol sylweddol: ac mae diogelu uniondeb y rhyngweithio hwn yn hanfodol i ddiogelu a chynnal yr ardal a'i chadwraeth natur gysylltiedig a gwerthoedd eraill.'

Drwy'r categoreiddio hwn, gall y gwaith o reoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ddod yn enghraifft o ddatblygu cynaliadwy ar sail ardal a all amlygu cyfleoedd ar gyfer cynlluniau rheoli eraill sy'n seiliedig ar ardal.

**Y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd (ELC)**

Mae'r ELC yn gysyniad ledled Ewrop sy'n canolbwyntio ar ansawdd gwarchod, rheoli a chynllunio tirwedd. Fe'i mabwysiadwyd gan Gyngor Ewrop yn 2000 ac fe'i cadarnhawyd gan lywodraeth y DU yn 2006. Mae'r llofnodwyr wedi datgan eu bod:

'...yn awyddus i sicrhau datblygu cynaliadwy ar sail perthynas gytbwys a harmonig rhwng anghenion cymdeithasol, gweithgarwch economaidd a'r amgylchedd.'

Mae'n diffinio tirwedd fel:

'...rhan o'r tir, fel y mae pobl leol neu ymwelwyr yn ei weld, sy'n esblygu drwy amser o ganlyniad i rymoedd naturiol a phobl yn gweithredu arno.'

Dylai canfod ac asesu tirweddau fod yn gydweithrediad rhwng ymchwil maes gan weithwyr proffesiynol a chanfyddiadau trigolion lleol. Mae'n cynnwys pob tirwedd, o'r cyffredin i'r eithriadol, sy'n pennu ansawdd amgylchedd byw pobl.

Dylai pobl fod wrth galon polisïau rheoli tirwedd, gan ymgorffori eu dyheadau ar gyfer nodweddion tirwedd eu hamgylchedd. Mae'r cyhoedd yn cael eu hannog i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o warchod a rheoli'r dirwedd, gan helpu i ddylanwadu ar newidiadau a chynllunio'r gwaith o'i rheoli. Gall

Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'u haelodau partneriaeth wneud cyfraniad gwerthfawr at gyflawni nodau'r ELC.

## Cenedlaethol (y DU)

### Dyfodol Gwyrdd – Cynllun 25 mlynedd i Wella'r Amgylchedd (2018)

Roedd Cynllun Amgylchedd 25 mlynedd Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd yn 2018, yn nodi dull tymor hir o helpu'r byd naturiol i adfer a chadw iechyd da. Dyma'r prif bwyntiau yn y cynllun:

'Byddwn yn gwarchod ac yn gwella harddwch ein hamgylchedd naturiol, ac yn sicrhau y gall pawb ei fwynhau, ei ddefnyddio a gofalu amdano. Byddwn yn gwneud hynny drwy:

- Ddiogelu a gwella harddwch ein golygfeydd naturiol a gwella eu gwerth amgylcheddol ar yr un pryd â bod yn sensitif i ystyriaethau ynghylch eu treftadaeth.
- Sicrhau bod mannau naturiol hygyrch o ansawdd uchel yn agos at ble mae pobl yn byw ac yn gweithio, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, ac annog mwy o bobl i dreulio amser ynddynt er budd eu hiechyd a'u lles.
- Canolbwyntio ar gynyddu gweithredu i wella'r amgylchedd gan bob sector o gymdeithas.'

Mae'r cynigion allweddol yn cynnwys y llywodraeth yn ceisio sefydlu egwyddor 'budd amgylcheddol net' ar gyfer datblygu er mwyn cyflawni gwelliannau amgylcheddol yn lleol ac yn genedlaethol, a datblygu Rhwydwaith Adfer Natur a fydd yn darparu 500,000 hectar o gynefin bywyd gwyllt ychwanegol i gysylltu safleoedd a thirweddau sydd eisoes yn cael eu gwarchod. Ei nodau yw y bydd bywyd gwyllt sy'n cael ei adfer angen mwy o gynefin mewn cyflwr gwell mewn ardaloedd mwy sydd â chysylltiadau agosach.

### Deddf yr Amgylchedd 2021

Y Ddeddf yw fframwaith newydd y llywodraeth ar gyfer diogelu'r amgylchedd ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae cyfreithiau newydd yn ymwneud â diogelu naturiol, ansawdd dŵr, aer glân a gwarchodaeth amgylcheddol a ddaeth o'r UE yn wreiddiol. Mae'n gosod targedau hirdymor wedi'u rhwymo mewn cyfraith ar gyfer gwella'r amgylchedd, ac yn cryfhau'r ddyletswydd sydd ar gyrff cyhoeddus i warchod a gwella bioamrywiaeth, gan gynnwys cyflwyno enillion net ar gyfer bioamrywiaeth drwy'r system gynllunio.

### Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac arwyddocâd Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

Mae dibenion Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi'u nodi yn Neddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000.

Mae adran 82 o'r Ddeddf yn diffinio mai prif ddiben y dynodiad yw gwarchod a gwella harddwch naturiol. Diffiniwyd dau bwrpas arall hefyd:

- Wrth fynd ar drywydd y prif bwrpas, dylid ystyried anghenion amaethyddiaeth, coedwigaeth, diwydiannau gwledig eraill ac anghenion economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol. Dylid rhoi sylw arbennig i hyrwyddo ffurfiau cynaliadwy o ddatblygiad cymdeithasol ac economaidd sydd ynddynt eu hunain yn gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd.
- Nid yw hamdden yn un o amcanion dynodiad, ond dylid diwallu'r galw am hamdden i'r graddau bod hyn yn gyson â chadwraeth harddwch naturiol ac anghenion amaethyddiaeth, coedwigaeth a defnyddiau eraill.

Mae adran 85 yn gosod dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i roi sylw i ddibenion gwarchod a gwella harddwch naturiol yr ardal... Nid diben dynodiad yw atal datblygu, ond bydd yr awdurdodau cynllunio yn ystyried unrhyw gynnig datblygu i sicrhau nad yw'n niweidio cymeriad ac ymddangosiad yr AHNE yn ormodol.

Mae adran 89 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sydd ag AHNE yn eu hardal gynhyrchu cynlluniau rheoli AHNE ac yna adolygu a mabwysiadu'r cynlluniau hyn bob pum mlynedd o leiaf.

## Cenedlaethol (Cymru)

**Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol (2021)**

Mae'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer datblygu ar gyfer Cymru hyd 2040. Mae ei strategaeth yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, datgarboneiddio a chydnerthedd hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau. Mae'n ffurfio'r haen uchaf o gynllunio datblygu yng Nghymru.

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**

Mae Deddf yr Amgylchedd yn nodi'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig. Ei nod yw gwneud Cymru yn economi werdd, carbon isel sy'n gallu addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Ddeddf yn hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol; yn darparu targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr; yn gwneud newidiadau i'r gyfraith ynghylch draenio tir ac is-ddeddfau gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac yn gwneud darpariaethau amrywiol ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff, trwyddedau pysgodfeydd a morol, ac yn sefydlu Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol sy'n asesu pa mor dda mae adnoddau'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, mae'n galluogi Llywodraeth Cymru i lunio polisi cenedlaethol ar gyfer rheoli cynaliadwy ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru gynhyrchu sylfaen dystiolaeth leol i helpu i roi blaenoriaethau ar waith.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r Ddeddf hon yn darparu diben cyffredin, wedi'i rwymo mewn cyfraith, i bob lefel o lywodraeth a chyrff cyhoeddus penodol er mwyn gwella llesiant Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliadau penodedig gyflawni datblygu cynaliadwy, gan ei gwneud yn egwyddor graidd iddynt wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gyda'r nod o gyflawni saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus – cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang, defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gymesur, a datblygu poblogaeth fedrus sydd wedi'i haddysgu'n dda mewn economi sy'n creu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth.
- Cymru gydnerth – amgylchedd naturiol gydag ecosystemau iach sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol.
- Cymru iachach – sicrhau'r lles corfforol a meddyliol gorau posibl i bobl.
- Cymru sy'n fwy cyfartal – galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau.
- Cymru o gymunedau cydlynus – cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da.
- Cymru â'r Gymraeg yn fywiog ac yn ffynnu – hyrwyddo a gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg.
- Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang – gan ystyried effaith fyd-eang gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae'r Ddeddf yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried llesiant pobl ochr yn ochr â llesiant Cymru, gan gysylltu datblygu cynaliadwy â phobl ac ansawdd eu bywyd.

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael eu sefydlu ledled Cymru i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i greu dyfodol gwell i bobl Cymru. Canfu pwyntiau allweddol o adroddiad pum mlynedd 2022 gan Fwrdd Ynys Môn ar gyfer materion amgylcheddol:

- Mae amgylchedd naturiol amrywiol Ynys Môn yn adnodd pwysig sy'n cael effaith gadarnhaol ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.
- Mae newid yn yr hinsawdd yn her fyd-eang sy'n cael effaith ar lesiant ar Ynys Môn, gan fod rhai cymunedau yn wynebu risg uchel o lifogydd, tywydd eithafol a thirlithriadau, ac mae'n rhoi byd natur a chynefinoedd yr ardal o dan bwysau cynyddol.
- Mae gwarchod byd natur a bioamrywiaeth yn bwysig ar gyfer datgarboneiddio.
- Mae Ynys Môn dan bwysau amaethyddol cymharol uchel ac mae ffermio anghynaladwy yn niweidio'r amgylchedd.

Bydd llawer o'r amcanion a'r camau gweithredu yn y cynllun rheoli hwn yn helpu i gyflawni'r saith nod llesiant.

**Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol 2016**

Mae'r Ddeddf yn gwella deddfwriaeth flaenorol, gan ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer dynodi, diogelu a rheoli henebion cofrestredig yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn rhoi gwarchodaeth fwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig ac yn gwella'r mecanweithiau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy.

Bydd yn ei gwneud yn haws i berchnogion neu ddatblygwyr greu ffyrdd newydd cynaliadwy o ddefnyddio adeiladau hanesyddol sydd heb eu rhestru ac yn galluogi awdurdodau i weithredu'n gyflym os oes bygythiad i adeilad rhestredig o ganlyniad i waith anawdurdodedig.

**Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol 2018**

Mae'r adroddiad hwn gan Lywodraeth Cymru yn rhoi datganiad ar ddyfodol Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru. Mae gan y datganiad bedwar nod:

- Eu bod yn Fannau Gwerthfawr sy'n ymestyn y tu hwnt i gynulleidfaoedd traddodiadol ac yn ymgysylltu â thrawstoriad mwy amrywiol o gymdeithas yng Nghymru er mwyn iddynt deimlo bod ganddynt fuddiant yn y tirweddau cenedlaethol hyn.
- Eu bod yn cynnwys Amgylcheddau Cydnerth lle mae gwerth byd natur yn cael ei wella a bod y dirywiad mewn bioamrywiaeth yn cael ei wrthdroi.
- Eu bod yn cefnogi Cymunedau Cydnerth lle mae'r berthynas rhwng pobl a'r amgylchedd wedi siapio'r tirweddau hyn a'u cymunedau.
- Rhaid i bartneriaethau AHNE ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol fabwysiadu Ffyrdd Cydnerth o Weithio lle maent yn hyrwyddo dulliau cydweithredol i fanteisio i'r eithaf ar y manteision a mynd i'r afael â'r heriau a wynebir yn y tirweddau hyn.

Roedd y datganiad yn pwysleisio y dylai Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol arddangos dulliau o gysoni tensiynau o ran gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd am adnoddau naturiol, a fydd yn cael eu cefnogi mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy'r cynllun rheoli.

**Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2018)**

6.3.13 Dyma'r cynllun morol cyntaf i Gymru ac mae wedi'i anelu at lywio datblygiad cynaliadwy'r ardal forol i gefnogi amcanion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Gweledigaeth y cynllun yw bod moroedd Cymru yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol:

- Mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac mae moroedd yn iach ac yn gydnerth, ac yn cefnogi economi gynaliadwy a ffyniannus
- Mae iechyd a lles yn gwella
- Mae mwy o swyddi a chyfoeth yn cael eu creu, gan helpu cymunedau arfordirol i ddod yn fwy gwydn, ffyniannus a theg gyda diwylliant bywiog
- Mae ardal forol Cymru yn gwneud cyfraniad cryf at dargedau diogelwch ynni ac allyriadau newid yn yr hinsawdd.

Mae amcanion y cynllun yn cyd-fynd yn agos ag amcanion y cynllun rheoli hwn drwy arwain y gwaith o reoli a datblygu'r arfordir a chymunedau arfordirol yn gynaliadwy.

**Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) (2017)**

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn gynllun ledled Ewrop a ddatblygwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd i wella ansawdd afonydd a dŵr. Mae'n darparu un fframwaith a fyddai'n cysoni polisi rheoli dŵr ledled Ewrop. Nodau allweddol y fframwaith yw:

- Ehangu cwmpas diogelu dŵr i bob dŵr, dŵr wyneb a dŵr daear.
- Sicrhau 'statws da' i bob dŵr erbyn dyddiad cau penodol
- Rheoli dŵr yn seiliedig ar fasnau afonydd
- Dull gweithredu cyfun ar gyfer gwerthoedd terfyn allyriadau a safonau ansawdd
- Cael y pris yn iawn
- Cael y dinesydd i gymryd mwy o ran
- Symleiddio deddfwriaeth

Mae'r Fframwaith yn gorfodi Prydain Fawr i gyrraedd targedau ar gyfer statws ecolegol a chemegol cyrff dŵr. Mae angen asesu unrhyw waith a allai effeithio ar hydroleg, ecoleg neu ansawdd dŵr unrhyw gorff dŵr dosbarthedig o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i ddangos sut bydd yr effeithiau'n cael eu lliniaru neu sut bydd y corff dŵr yn cael ei wella i sicrhau statws da. Mae dŵr daear hefyd yn cael ei asesu am ei statws meintiol a chemegol.

**Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 (2012)**

Mae Cynllun Rheoli Traethlin yn asesiad ar raddfa fawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag esblygiad arfordirol. Mae'n cyflwyno polisïau i fynd i'r afael â'r risgiau hyn i bobl ac i'r amgylchedd adeiledig, hanesyddol a naturiol, mewn modd cynaliadwy. Nid yw'n gosod polisi ar gyfer unrhyw beth ar wahân i reoli risg o ran bwyd ac erydu arfordirol. Fodd bynnag, ei nod yw darparu cyd-destun ar gyfer penderfyniadau rheoli mewn sectorau eraill o reolaeth arfordirol.

Mae arfordir Ynys Môn yn cael ei ystyried yng Nghynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru o dan ardaloedd arfordirol F a G. Mae'r rhain yn ystyried rhagfynegiadau ar gyfer cynnydd yn lefel y môr a newid yn yr hinsawdd am gyfnodau o 50 mlynedd a 100 mlynedd. Mae polisïau'n amrywio o wneud dim i gynnal y llinell arfordirol er mwyn gwarchod tir ac eiddo, a byddant yn dylanwadu ar reolaeth yr AHNE.

**Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru**

Mae'r datganiad ardal hwn, a gynhyrchwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyda chyfranogiad cymunedol helaeth, yn rhoi trosolwg o dirwedd gogledd orllewin Cymru o safbwynt y bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Mae canlyniadau'r broses o gynhyrchu'r datganiad yn cynnwys nodi ystod eang o faterion sy'n effeithio ar amgylchedd yr ardal, llu o gamau gweithredu a all helpu i liniaru'r problemau ac ymrwymiad i gydweithio rhwng sefydliadau a chymunedau. Mae moeseg y dull hwn yn cyd-fynd yn dda â'r broses o ddatblygu a gweithredu'r cynllun rheoli hwn. Themâu allweddol y datganiad yw:

- Hybu economi gynaliadwy
- Ailgysylltu pobl â byd natur
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer ecosystem gydnerth
- Cefnogi rheoli tir yn gynaliadwy

Dwy thema drawsbynciol yw:

• Hinsawdd ac argyfwng

• Ffyrdd o weithio

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i Gynlluniau Rheoli AHNE ystyried Datganiadau Ardal a'r Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR). Rhaid i Ddatganiadau Ardal ystyried cynlluniau perthnasol gan gynnwys Cynlluniau Rheoli AHNE o dan a901A o Ddeddf CRoW 2000.

## Datganiad Ardal Morol

Mae'r Datganiad Ardal Morol yn cwmpasu dyfroedd glannau Cymru, sy'n ymestyn hyd at 12 milltir môr o'r arfordir a'n cynnwys 43% o diriogaeth Cymru.

Mae'r Datganiad Ardal Morol yn cyd-fynd â'r Datganiadau Ardal ac mae ganddo dair thema graidd sy'n cysylltu ag ystod eang o'r themâu a'r camau gweithredu allweddol a gynhwysir yng Nghynllun Rheoli'r AHNE:

• Adeiladu gwydnwch ecosystemau morol
• Gwneud y mwyaf o gynllunio morol
• Addasu arfordirol ac atebion sy'n seiliedig ar natur

Mae'r Datganiad Ardal Morol hefyd yn hyrwyddo ailgysylltu pobl â moroedd Cymru trwy weithredoedd fel llythrennedd morol a gwyddoniaeth dinasyddion, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth o'r buddion y gall ardaloedd morol ac arfordirol gael at gefnogi llesiant ehangach.

## Lleol

### Cynllun y Cyngor

Mae Cynllun y Cyngor yn nodi blaenoriaethau'r awdurdod lleol ar gyfer y cyfnod 2023-28, gyda gweledigaeth glir i greu Ynys Môn sy'n iach ac yn ffyniannus lle gall pobl ffynnu.

Mae'n nodi 6 amcan allweddol y bydd ei gynnydd yn cael ei fesur yn eu herbyn.  Y rhain yw:

**1.** Gofal Cymdeithasol a Lles – darparu'r gefnogaeth iawn ar yr adeg iawn

**2.** Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

**3.** Tai – sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw i rywle yn y cartref

**4.** Economi – hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys

**5.** Newid yn yr Hinsawdd – ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030

**6.** Y Gymraeg – cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith

Mae'r cynllun yn cydnabod pwysigrwydd yr AHNE o ran cyflawni'r amcanion allweddol hyn, ac yn arbennig y rôl y mae'n ei chwarae o ran mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, a'r manteision economaidd a chymdeithasol i'r ynys.

### Cydgynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn 2011-2026

Y cynllun hwn yw'r cynllun datblygu statudol ar gyfer Ynys Môn, sy'n darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol a phenderfynu ar faterion datblygu mewn perthynas â buddiannau cadwraeth.

Mae'r cynllun yn cydnabod bod gan Ynys Môn dirwedd unigryw ac amrywiol, ac mae'n cynnwys AHNE Ynys Môn a'r ynys gyfan fel Geoparc Byd-eang UNESCO. Mae'n gwerthfawrogi bod cymeriad a harddwch y dirwedd yn gwella ansawdd bywyd y trigolion yn sylweddol ac yn arwain at fanteision cymdeithasol a manteision iechyd sylweddol.

Mae Polisi Strategol PS19 y cynllun yn pennu y bydd datblygiad yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n gwarchod a, lle bo hynny'n briodol, yn gwella'r amgylchedd naturiol, y cefn gwlad a'r arfordir unigryw, a bydd cynigion sy'n cael effaith andwyol arnynt yn cael eu gwrthod oni bai fod manteision y datblygiad yn amlwg yn fwy na gwerth y safle.

Mae Polisi AMG1 yn ofyniad i gyfeirio at nodau ac amcanion y cynllun rheoli wrth ystyried cynigion cynllunio.

Rhaid i gynigion o fewn y lleoliad neu sy'n effeithio ar y lleoliad a / neu olygfeydd arwyddocaol i mewn ac allan o'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, lle bo hynny'n briodol, roi sylw i'r Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol perthnasol.

**Ynys Ynni Môn**

Sefydlwyd y Rhaglen Ynys Ynni yn 2010 ac mae'n rhan o ddull gweithredu Cyngor Ynys Môn ar gyfer datblygiad economaidd-gymdeithasol. Mae'r rhaglen yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod Ynys Môn yn esiampl o'r newid i economi carbon isel ffyniannus a chadarn.

Mae'r Rhaglen yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o dechnoleg, ymchwil a datblygu carbon isel sy'n cynnwys gwynt, hydrogen, llanw, solar a niwclear yn ogystal â'r seilwaith grid cysylltiedig.

Mae'r Rhaglen yn ceisio sicrhau bod pob datblygiad a phrosiect yn darparu swyddi lleol, addysg a chyfleoedd cadwyn gyflenwi o ansawdd uchel, gan ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol a galluogi'r Gymraeg a'i diwylliant i ffynnu mewn cymunedau bywiog.

Gweledigaeth Ynys Ynni Môn

Thema 1: 'Twf mewn technoleg newydd, ymchwil a datblygu, ac arloesi'

Lle sy'n galluogi twf mewn technoleg carbon isel newydd, ymchwil a datblygu, ac arloesedd, gan ddiogelu ac adeiladu ar gryfderau presennol sectoraidd fel yr economi ymwelwyr.

Thema 2: 'Creu swyddi lleol, meithrin sgiliau, busnesau ffyniannus'

Lle cynhwysol sy'n darparu mynediad at gyflogaeth, addysg a swyddi lleol newydd o ansawdd uchel sy'n cefnogi adferiad economaidd yr ynys a Gogledd Cymru ar ôl y pandemig.

Thema 3: 'Cymunedau cydnerth a chydlynol, sy'n cefnogi ymdeimlad cryf o le'

Lle i fod yn falch ohono, lle mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn ffynnu ac yn fywiog, gan feithrin balchder cymunedol ac ysbryd entrepreneuriaeth, gan alluogi ansawdd bywyd gwell i'n pobl.

Thema 4: 'Gweithredu cyfrifol, arloesol ac amserol ar y newid yn yr hinsawdd'

Ar flaen y gad o ran y newid i ynni carbon isel, gan fanteisio i'r eithaf ar swyddi lleol a chyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi.

Thema 5: 'Amgylchedd cytbwys'

Cefnogi llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy adeiladu partneriaethau gwaith tymor hir a chydweithio cymunedol, gyda'r angen i warchod, gwella a chyfoethogi bioamrywiaeth, yr amgylchedd naturiol a threftadaeth unigryw'r ynys.

O safbwynt AHNE Ynys Môn, mae'r Rhaglen yn amcanu i'r holl gynigion datblygu technoleg carbon isel roi sylw i ddynodiad yr AHNE a'i phrif bwrpas o warchod a gwella harddwch naturiol.

**Cynllun Rheoli Cyrchfan**

Mae'r economi ymwelwyr yn hanfodol i sefyllfa economaidd gynaliadwy Ynys Môn, ac mae'r strategaeth yn tynnu sylw at yr ymrwymiad i wella hyn ymhellach. Fodd bynnag, mae wedi dod yn fwyfwy amlwg dros y 3 blynedd diwethaf bod twristiaeth heb ei chyfyngu yn gallu cael effaith niweidiol ar fywydau pobl a'r rhinweddau unigryw sy'n gwneud i'r Ynys fod mor nodedig ac sy'n gyrru'r rhan fwyaf o weithgareddau twristiaid.

Bydd y Cynllun yn unioni'r anghydbwysedd hwn ac yn sicrhau, drwy grŵp aml-sefydliadol/buddiannau newydd, bod manteision cynigion bywiog ac amrywiol yn gallu gwella nodweddion allweddol o ran iaith, diwylliant, amgylchedd a threftadaeth.

Mae ymgyrch i wella seilwaith fel meysydd parcio ceir, toiledau a darpariaeth mynediad yn rhan allweddol o'r strategaeth, a thrwy sicrhau bod y blociau adeiladu hollbwysig hyn yn eu lle, bydd gennym fwy o gyfleoedd i ryddhau'r potensial cynigion gwell o ran twristiaeth gynaliadwy a fydd yn arwain at fanteision economaidd, cymdeithasol, iechyd a llesiant i ymwelwyr a phobl Ynys Môn.

Mae'r Cynllun yn dwyn ynghyd holl gyfrifoldebau a blaenoriaethau Cyrchfan a bydd yn gweithredu fel templed ar gyfer dull gweithredu mwy cydweithredol a holistaidd o reoli cyrchfannau wrth symud ymlaen.

Rydym wedi datblygu 4 egwyddor allweddol i lywio cyfeiriad ein gwaith, a chyfeiriad partneriaid a rhanddeiliaid.

Sef:

**1.** Dathlu, Parchu ac Amddiffyn ein Cymunedau, Hanes, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth

- Economi ymwelwyr lle mae'r cymunedau lleol yn teimlo eu bod yn berchen ar y model twristiaeth adfywiol ac yn teimlo eu bod yn cael eu grymuso i fwrw ymlaen â'r model hwnnw.
- Economi ymwelwyr sy'n croesawu ac yn defnyddio cryfderau presennol ein hiaith a'n diwylliant mewn modd cynaliadwy, ac sy'n dod â'n treftadaeth i gynulleidfa ehangach.
- Economi ymwelwyr lle mae'r diwylliant yn cael ei gofleidio, ac wrth galon yr holl weithgareddau hyrwyddo a chynnyrch

**2.** Gwella Profiad Ymwelwyr a Chynaliadwyedd Economaidd

- Economi ymwelwyr sy'n gallu tyfu'n gynaliadwy ar sail darpariaeth o ansawdd uchel lle mae ymwelwyr yn gwerthfawrogi ac yn parchu diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd Ynys Môn.
- Economi ymwelwyr sy'n seiliedig ar weithgareddau a phrofiadau sy'n manteisio ar ddiwylliant, treftadaeth a'r amgylchedd, ond nad ydynt yn eu diraddio.
- Economi ymwelwyr lle mae seilwaith ymwelwyr o safon a darpariaeth mynediad yn cynnig cyfleoedd hamdden gwell, a gwell iechyd a lles o ganlyniad i hynny.

**3.** Cynnal, Gwella a Pharchu ein Hamgylchedd, a chynllunio i liniaru effeithiau Newid yn yr Hinsawdd

- Mae economi ymwelwyr lle mae'r amgylchedd naturiol yn cael ei ddeall a gwelliannau i gyfalaf naturiol yn arwain at fanteision o ran llesiant i bawb.
- Economi ymwelwyr lle mae gweithgareddau'n cyd-fynd â'r amgylchedd naturiol, ac yn gwella'r ddarpariaeth a'r tir a'r môr y maent yn digwydd arnynt.
- Economi ymwelwyr sy'n dod yn fwy 'barod am newid yn yr hinsawdd' ac sy'n gynyddol niwtral o ran carbon.
- Economi ymwelwyr lle mae defnyddwyr yn cael eu grymuso i gyfrannu'n uniongyrchol at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

**4.** Sicrhau bod y manteision i gymunedau Ynys Môn yn fwy nag unrhyw anfanteision, ac o ganlyniad gwelir manteision cymdeithasol a manteision o ran lles.

- Economi ymwelwyr y mae ei seilwaith a'i hadnoddau'n cael eu gwella er budd cymunedau lleol, ac yn addasu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Economi ymwelwyr lle mae pobl leol yn cael cyfleoedd i fod wrth galon y ddarpariaeth, gan fanteisio ar rolau crefftus newydd a chadwyni cyflenwi lleol.
- Economi ymwelwyr sydd â chynaliadwyedd wrth ei gwraidd ac sy'n gallu tyfu o ran gwerth economaidd a chymdeithasol a darparu cyfleoedd iechyd a llesiant i bawb.

**Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Ynys Môn 2013**

Mae'r strategaeth hon yn gam pwysig tuag at ddeall a rheoli'r perygl o lifogydd ar Ynys Môn. Mae'n tynnu sylw at sut y gall y Cyngor weithio'n well gyda mudiadau a chymunedau tuag at leihau'r risg o lifogydd tra'n cydbwyso anghenion cymunedau, yr economi a'r amgylchedd. Bydd y Cyngor, fel yr Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol, yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â pherygl llifogydd lleol, gan gynnwys llifogydd o ddŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr fel afonydd a nentydd. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am lifogydd o brif afonydd, ac mae'n cael ei arwain gan Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

# Cynllun Rheoli AHNE - Atodiad 2

## Buddion cyhoeddus AHNE Ynys Môn

| Gwasanaethau darparu | Gwasanaethau rheoleiddio | Gwasanaethau diwylliannol | Gwasanaethau cefnogi |
|---|---|---|---|
| **Cynhyrchion o ecosystemau megis dŵr, bwyd a chyflenwad o ddeunyddiau crai** | **Canlyniadau prosesau naturiol megis puro dw ac ansawdd aer** | **Buddion heb fod yn ddeunyddiau a ddaw o ganlyniad i'n rhwydweithio gyda'r amgylchedd naturiol** | **Swyddogaethau a ddarperir gan ecosystemau sy'n sail i'r holl wasanaethau eraill** |
| **Cyflenwad dŵr** | **Ansawdd yr aer** | **Gwerthoedd treftadaeth ddiwylliannol** | **Ffurfio pridd** |
| Mae dŵr glân yn hanfodol ar gyfer bywyd. Mae'r corstiroedd a'r corsleoedd yn nalgylch afonydd Ynys Môn yn chwarae rhan bwysig yn glanhau'r dŵr yfed a ddarperir | Mae coed a phlanhigion yn ganolog i'r cylch ocsigen a charbon deuocsid yn yr atmosffer. Maent yn chwarae rôl bwysig yn rheoleiddio lefelau llygredd aer | Gellir olrhain dylanwad dynol ac anheddiad yn ôl i'r ymgasglwyr hela Mesolithig ac amaethyddiaeth gynnar. Mae gan yr AHNE dreftadaeth hanesyddol gyfoethog o ran ei chelf, ei diwylliant, ei henebion, ei adeiladau hanesyddol a diwydiant. Mae gan hyn werth cymdeithasol gwych, yn ogystal â gwerth economaidd. Mae cymeriad rhanbarthol a synnwyr o le yn cyfoethogi hunaniaeth leol ac yn darparu natur unigryw drwy gynnal cymunedau Cymreig. | Ffurfir pridd drwy'r rhyngweithio rhwng planhigion, micro-organebau a'r ddaeareg sylfaenol. Rydym yn dibynnu ar bridd iach i dyfu bwyd. Mae pridd yn araf yn ffurfio ond yn gallu cael ei ddiraddio'n sydyn gan reoli tir gwael, erydiad ac effaith tywydd a hinsawdd |
| **Cynhyrchu bwyd** | **Rheoleiddio hinsawdd a storio carbon** | **Hamdden a thwristiaeth** | **Cynnyrch craidd** |
| Mae ffermwyr yn AHNE Ynys Môn yn cynhyrchu bwyd a deunyddiau crai eraill. Mae'r amgylchedd ffermio yn cynhyrchu swm sylweddol o ddefaid a gwartheg yn ogystal â chynnyrch lleol arall megis cawsiau a llysiau. Mae cynhyrchu bwyd yn yr AHNE yn cyfrannu i gyflogaeth uniongyrchol ac ategol. | Mae gan yr ystod o gynefinoedd o fewn a gerllaw'r AHNE ddylanwad ar yr hinsawdd ar raddfa leol a byd-eang drwy ddal a storio carbon o'r atmosffer. Mae'r corsydd sydd ar Ynys Môn yn ardaloedd eang o fawn sy'n helpu i storio oddeutu 750,000 tunnell o garbon | Mae hamdden a thwristiaeth yn elfen bwysig yn economi Ynys Môn a'r arfordir amrywiol, bywyd gwyllt toreithiog, llwybr yr arfordir ac atyniadau twristiaid eraill yr AHNE yn cyfrannu'n sylweddol i' diwydiant hwn. Mae cyflogaeth tymhorol a thrwy gydol y flwyddyn yn cyfrannu'n sylweddol i'r diwydiant hamdden a thwristiaeth | Rydym yn dibynnu llawer ar brosesau megis ffotosynthesis lle mae planhigion yn defnyddio ynni haul i droi dŵr, carbon deuocsid a maetholion yn ocsigen a thwf biolegol sy'n darparu bwyd a deunyddiau crai eraill |
| **Pren** | **Llif dŵr a rheoleiddio llifogydd** | **Iechyd a lles** | **Cylchu maetholion** |
| Mae coetir llydanddail a choedwigoedd conwydd, yn gorchuddio oddeutu 13.4% o gyfanswm arwynebedd yr AHNE. | Mae'r dalgylchoedd dŵr, afonydd, nentydd, morfeydd, a chorsydd yn helpu i reoleiddio llif y dŵr a draenio'r tir drwy | Mae tirweddau a morluniau AHNE Ynys Môn yn darparu cyfle i ystod o weithgareddau sy'n helpu i gyfrannu at | Mae planhigion, anifeiliaid a micro-organebau yn hanfodol i gylch naturiol maetholion a cyn helpu i gynnal |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae nifer o goetiroedd ystâd yn cael eu rheoli'n dda. Mae yna botensial da i ddod ag ardaloedd eraill o goetir i reoli gweithredol drwy gyfranogiad cymunedol | storio a lleihau dŵr ffo ar yr wyneb. Os yw'n cael ei reoli'n briodol gallant helpu i leihau llifogydd pan mae'n bwrw'n drwm a chynnal llif afonydd a lefelau dŵr ar yr wyneb yn ystod sychder | iechyd a llesiant y cymunedau lleol, grwpiau gofal iechyd ac ymwelwyr | ansawdd pridd a dŵr. Mae lefelau cynyddol o faetholion megis nitradau a ffosffadau o garthffosiaeth a gwrteithwyr yn gallu achosi ansawdd gwae; mewn dŵr a cholli bioamrywiaeth |
| **Ynni** | **Rheoliad erydu** | **Llonyddwch** | **Y Cylch Dŵr** |
| Mae gan yr AHNE y potensial i ddarparu ar gyfer ystod o gynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n cyd-fynd â'i nodweddion arbennig. Mae yna gyfle i ddatblygu cynlluniau egni ar raddfa fach ac ar gyfer pentrefi. | Mae morlin Ynys Môn yn dioddef erydu mewn nifer penodol o leoliadau oherwydd y llanw ac yn gynyddol, digwyddiadau storm. Gall hyn fod yn gadarnhaol a negyddol. Mae ardaloedd o forfa heli yn amsugno ynni tonnau mewn stormydd a allai fel arall erydu'r morlin. Yn fewndirol, gellir rheoli'r perygl o erydu trwy orchudd coed a llystyfiant a thrwy gymryd gofal wrth amaethu dros ardaloedd mawr neu ar lethrau | Mae llonyddwch cymharol yn cael ei gydnabod fel nodwedd arbennig o'r AHNE. Mae'n darparu adnodd a budd sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr iawn. Mae llonyddwch hefyd yn bwysig yn y nos ac mae awyr dywyll Ynys Môn yn cael ei chydnabod fwyfwy fel un o bwysigrwydd mawr | Rydym yn dibynnu ar yr amgylchedd naturiol a'i swyddogaethau i ddarparu dŵr ffres i ni |
| **Amrywiaeth genetig** | **Ansawdd y pridd** | **Gwerthoedd ysbrydol ac ysbrydoledig** | **Bioamrywiaeth** |
| Mae bioamrywiaeth a'r storfa hadau o fewn yr AHNE yn adnoddau ar gyfer y dyfodol. Mae bridiau lleol yn helpu i gynnal amrywiaeth enetig bwysig ac yn cyfrannu at ein treftadaeth ddiwylliannol a hynodrwydd lleol | Mae gwahanol fathau o bridd yn darparu brithwaith o gynefinoedd a chnydau amrywiol | Mae Ynys Môn yn enwog am ei thirwedd arfordirol a'i synnwyr o le. Mae'r ardal wedi ysbrydoli artistiaid a llenorion. Mae'n parhau i roi cyfle i bobl ddeall a mwynhau ei nodweddion arbennig. Mae'r ardal yn galluogi pobl i ddianc, i gael eu hysbrydoli ac i ganfod adnewyddiad ysbrydol. | Mae planhigion ac anifeiliaid yn gyrru llawer o'r prosesau sy'n arwain at ecosystem iach â'r buddion a gawn ganddi. Mae'n hanfodol i warchod rhywogaethau a chynefinoedd, gan eu bod yn ategu'r prosesau rydym yn dibynnu arnynt i gynnal ein bywydau |
| | **Ansawdd dŵr** | | |
| | Mae rheoli afiechyd a phla a phrosesau naturiol megis ysglyfaethu ac amodau hinsoddol yn helpu i reoli lledaeniad clefydau a phla | | |
| | **Peillio** | | |
| | Mae peillio cnydau yn effeithiol gan wenyn a pheillwyr eraill yn hanfodol i gylchred bywyd llawer o blanhigion. Mae'r AHNE yn dibynnu ar y 'gwasanaeth naturiol' | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | hwn ar gyfer tyfu cnydau bwyd a phlanhigion a blodfau gwylt eraill hefyd | | |

# Cynllun Rheoli AHNE
# Atodiad 3 – Amcanion a Chamau Gweithredu'r Polisi

**THEMA 1**

**Cyfoethogi cefn gwlad lleol a chymeriad yr arfordir**

7.1.2 Mae'r cysylltiad rhwng tirwedd a morlun AHNE Ynys Môn yn un o'i nodweddion diffiniol allweddol. Mae ei chlogwyni, traethau, twyni ac aberoedd yn cyferbynnu ac yn ategu'r rhostiroedd a'r glaswelltiroedd sy'n gefndir i'r arfordir. Mae cymunedau dros ganrifoedd wedi siapio'r tir ac wedi masnachu o'i chymunedau arfordirol gan ffurfio cyfuniad cyfoethog o nodweddion naturiol a'r rhai a wnaed gan ddyn. Mae ganddi harddwch naturiol ac ymdeimlad o lonyddwch sy'n rhoi iddi rinweddau arbennig sy'n ei gosod ar wahân i dir mawr Cymru.

7.1.3 Mae arfordir Ynys Môn gyda'i thraethau wedi bod yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid ers cenedlaethau. Mae pwysau ar gyfer datblygu a'r angen i warchod ei nodweddion naturiol a hanesyddol yn heriau i reolaeth yr AHNE.

**NOD**
**Bydd harddwch naturiol, rhinweddau arbennig a natur unigryw tirwedd AHNE Ynys Môn, gan gynnwys ei nodweddion naturiol, diwylliannol a hanesyddol, yn cael eu cynnal, eu gwarchod a'u gwella er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.**

| **Beth yw'r grymoedd allweddol ar gyfer newid?** | |
|---|---|
| Mwy o blannu mewn coetiroedd | Datblygu prysgwydd |
| Newidiadau i bolisïau ac arferion amaethyddol | Plannu conwydd |
| Arallgyfeirio incwm ar ffermydd | Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) |
| Pwysau a bygythiadau economaidd | Newid yn yr hinsawdd |
| Ail gartrefi, a'u heffaith ar ddiwylliant, cymuned ac iaith. | Datblygiad amhriodol |
| Cynnydd yn lefel y môr, a'r angen dilynol am amddiffynfeydd môr wedi'i glymu i encilio dan reolaeth | Esgeulustod a diffyg rheolaeth dros safleoedd treftadaeth ddiwylliannol |
| Pwysau hamdden | Llygredd morol |
| Llygredd | Diffyg ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd |
| Llai o bori ysgafn traddodiadol | Polisi'r Llywodraeth, gan gynnwys deddfwriaeth amgylcheddol ar ôl Brexit |

DRAFT

| Pwy yw'r partneriaid allweddol? | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Uned Cefn Gwlad ac AHNE |
| Sefydliadau tirwedd a bywyd gwyllt | Llywodraeth Cymru |
| Cadw | Prifysgol Bangor |
| Tirfeddianwyr, cymunedau | JAC |
| Staff yr awdurdod lleol | |

| Beth yw'r prif ddylanwadau ar bolisi? | |
|---|---|
| Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd | Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr |
| Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru | Cynllun Datblygu Lleol |
| Deddf Amgylchedd y DU 2021 | Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru |
| Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Cynlluniau amaeth-amgylchedd a datblygu gwledig ar ôl Brexit |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru |
| Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 | Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 |
| Polisi Cynllunio Cymru 11 | Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru a Datganiad Ardal Forol |

Mae rhagor o ganllawiau CNC ar y canlynol i'w gweld yn y ddogfen Asesiad Amgylcheddol Strategol AHNE

- Sensitifrwydd gweledol lleoliadau morol o Dirweddau Dynodedig Cymru i ffermydd gwynt alltraeth
- Llonyddwch a Lle
- Defnyddio LANDMAP mewn Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Wele

DRAFT

| |
|---|
| **Amcan 1: Tirwedd/ Morwedd**<br>Mae'r dirwedd arfordirol a morlun yn cael eu cadw'n weithredol lle bo'n briodol, eu gwella. |
| **Polisïau**<br><br>**CCC 1.1** Defnyddir LANDMAP fel y broses ar gyfer gwerthuso ac asesu cymeriad tirwedd yr AHNE<br><br>**CCC 1.2** Defnyddir Asesiad Cymeriad Morwedd Ynys Môn i helpu i bennu effeithiau tebygol datblygiadau morol ar rinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.<br><br>**CCC 1.3** Mae angen cynnal hygyrchedd a diddordeb mewn cadwraeth safleoedd o bwysigrwydd daearegol a geomorffolegol.<br><br>**CCC 1.4** Bydd elfennau o'r dirwedd sydd wedi cael eu diraddio a cholli eu cymeriad yn cael eu hadfer a'u gwella i ddiogelu ansawdd y dirwedd. |

| |
|---|
| **Amcan 2: Tirwedd a Diwylliant Hanesyddol**<br>Mae safleoedd hanesyddol, archeolegol a diwylliannol yn cael eu gwarchod rhag datblygiad sy'n diraddio rhinweddau arbennig yr AHNE ac yn cael eu dehongli i gynyddu dealltwriaeth pobl o'u gwerth.<br>*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)* |
| **Polisïau**<br><br>**CCC 2.1** Annog asiantaethau perthnasol i weithio gyda'i gilydd i ganfod, amddiffyn a gwarchod adnoddau hanesyddol, archeolegol a diwylliannol yr AHNE.<br><br>**CCC 2.2** Cefnogi'r defnydd o sgiliau ac arferion traddodiadol wrth adfer nodweddion arbennig yr AHNE.<br><br>**CCC 2.3** Sicrhau bod deunydd dehongli cyson, cydlynol ac o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu i roi gwybod i bobl am hanes a diwylliant cyfoethog yr AHNE. |

| **Amcan 3: Datblygiad**<br>Mae Polisïau Cynllunio yn gwarchod rhinweddau arbennig y dirwedd, gan sicrhau bod yr holl ddatblygiadau o fewn ac wrth ymyl ffin yr AHNE yn gydnaws â nodau ac amcanion y dynodiad a bod datblygiadau newydd yn gwella cymeriad lleol.<br>*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)* |
|---|
| **Polisïau**<br><br>**CCC 3.1** Bydd yr holl gynigion datblygu o fewn a hyd at 2Km i ffiniau'r AHNE yn cael eu hasesu'n drylwyr i leihau datblygiad amhriodol a allai niweidio rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.<br><br>**CCC 3.2** Disgwylir i'r holl ddatblygiadau ac ail-ddatblygiadau newydd o fewn a hyd at 2Km i ffiniau'r AHNE fabwysiadu dyluniad, deunyddiau a thirlunio o'r safon uchaf er mwyn cadw a gwella rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE a pharchu'r cyd-destun lleol. Bydd cynigion o faint a natur briodol, sy'n ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy, yn cael eu cefnogi.<br><br>**CCC 3.3** Sicrhau bod polisïau cynllunio yn adlewyrchu dyletswydd statudol y Cyngor i warchod a gwella rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.<br><br>**CCC 3.4** Parhau i annog gosod llinellau pŵer a ffôn presennol ac arfaethedig o dan y ddaear.<br><br>**CCC 3.5** Parhau i annog y safonau uchaf o ran dylunio offer ar gyfer mastiau telathrebu i leihau eu heffaith weledol ar rinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE. |

DRAFT

| **Amcan 4: Heddwch a Llonyddwch**<br>Mae golygfeydd a llonyddwch panoramig na ddifethwyd yn cael eu diogelu rhag datblygiad a fyddai'n diraddio rhinweddau arbennig yr AHNE.<br>(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu) |
|---|
| **Polisïau**<br><br>**CCC 4.1** Gweithio i gynnal a gwella unigedd, awyr dywyll a harddwch naturiol yr AHNE<br><br>**CCC 4.2** Gweithio tuag at sicrhau statws Awyr Dywyll ar gyfer Ynys Môn.<br><br>**CCC 4.3** Sicrhau bod ymyrraeth sŵn i'r AHNE o fewn terfynau derbyniol. |

**Amcan 5: Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem**
Cytunir ar fodel ymysg partneriaid a rhanddeiliaid allweddol ar gyfer defnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem i reoli'r amgylchedd naturiol.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**CCC 5.1** Hyrwyddo'r rôl sydd gan y Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem mewn perthynas â dull integredig o reoli tir yn gynaliadwy a thirwedd ehangach yr AHNE a'r amrywiaeth o nwyddau a gwasanaethau y mae hyn yn eu darparu.

**CCC 5.2** Sicrhau bod effeithiau newid yn yr hinsawdd ar AHNE Ynys Môn yn cael eu cydnabod a'u deall a bod lliniaru ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu sefydlu yn y Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem.

**CCC 5.3** Annog a chefnogi ymchwil i'r rôl y mae ecosystemau amrywiol yn ei darparu yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, gan sicrhau bod yr holl ffynonellau data yn cael eu nodi a'u bod yn hygyrch er mwyn gallu gwneud dewisiadau gwybodus.

**CCC 5.4** Annog partneriaid i aseinio gwerthoedd i'r gwahanol wasanaethau ecosystem, gan gydnabod y gwerth 'peidio â defnyddio' y mae rhai gwasanaethau'n ei ddarparu, a chreu mapiau cyfleoedd lle gallai newidiadau o ran rheoli tir ddarparu gwell gwasanaethau ecosystemau.

**THEMA 2**

## Mynd i'r Afael ag Argyfwng Byd Natur

7.1.4 Mae gan AHNE Ynys Môn gyfoeth o gynefinoedd, sy'n cynnal bioamrywiaeth eang ac amrywiol. Mae ei chlogwyni, ei thwyni tywod a'i morfeydd heli yn enwog yn rhyngwladol, ac mae ei rhostiroedd, ei gwlypdiroedd, ei gwelyau cyrs a'i choetiroedd yn cynnal rhywogaethau fel dyfrgwn, y wiwer goch, tegeirianau amrywiol a britheg y gors sy'n brin.

7.1.5 Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ynys Môn a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Corfforaethol yn gosod fframwaith ar gyfer diogelu a rheoli ei adnoddau naturiol a hyrwyddo cydnerthedd yn ei ecosystemau. Mae'n darparu sylfaen gadarn ar gyfer y cynllun rheoli hwn, o ran gwarchod bioamrywiaeth yr ynys a chydnabod y rôl y gall pobl leol ac ymwelwyr ei chwarae o ran ei gwarchod a'i rheoli.

**Nod**
Mae'r gymuned gyfan wedi derbyn pwysigrwydd gwarchod y byd naturiol a bywyd gwyllt ac mae'n cefnogi deddfwriaeth sy'n gwarchod rhinweddau arbennig amgylchedd yr AHNE. Mae safleoedd bywyd gwyllt dynodedig yn cael eu rheoli'n sensitif ac maent yn rhan o fatrics cynyddol gyfoethog o gefn gwlad sy'n ystyriol o fywyd gwyllt. Bydd achosion o lygredd pridd, aer a dŵr yn yr AHNE yn cael eu lleihau.

| Beth yw'r grymoedd allweddol ar gyfer newid? | |
|---|---|
| Mwy o ynysu rhwng coetiroedd | Llygredd, gan gynnwys llygredd sy'n deillio o ddiwydiannau a gweithgareddau nad ydynt wedi'u lleoli yn yr AHNE |
| Esgeuluso coetiroedd yn gyffredinol | Pwysau datblygu |
| Gorbori sy'n arwain at golli corlwyni | Newidiadau mewn llywodraeth leol, deddfwriaeth a rheoliadau |
| Rhoi'r gorau i bori ar ben y clogwyn oherwydd pwysau hamdden | Twristiaeth a phwysau economaidd |
| Datblygu prysgwydd ar rostir | Cynhyrchu ynni |
| Newidiadau mewn polisi ac arferion rheoli tir | Effeithiau cronnus y rhwydwaith trafnidiaeth |
| Rhoi'r gorau i ddefnyddio tir comin | Mwy o alw am ddŵr ffres |
| Dirywiad mewn cyfundrefnau llosgi priodol ar rostir | Diffyg ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd |
| Cystadleuaeth gan rywogaethau estron goresgynnol | Polisi'r Llywodraeth, gan gynnwys deddfwriaeth amgylcheddol ar ôl Brexit |
| Newid yn yr hinsawdd | Cyllid (cynnydd a gostyngiad) |
| Cynnydd mewn tipio anghyfreithlon | Tocio gwrychoedd brodorol |

**Pwy yw'r partneriaid allweddol?**

| | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwirfoddolwyr AHNE |
| Sefydliadau tirwedd a bywyd gwyllt | Cyfleustodau |
| Tirfeddianwyr, cymunedau | Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru |
| Uned Cefn Gwlad ac AHNE Cyngor Sir Ynys Môn | JAC / Partneriaid |
| Swyddogaeth Cynllunio Cyngor Sir Ynys Môn<br>Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru | Partneriaeth Natur Leol<br>RSPB |

| **Beth yw'r prif ddylanwadau ar bolisi?** | |
|---|---|
| Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru | Cynllun Datblygu Lleol |
| Deddf Amgylchedd y DU 2021 | Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol Ynys Môn 2022-2023 |
| Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Cynlluniau amaeth-amgylchedd a datblygu gwledig ar ôl Brexit |
| Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru |
| Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru a Datganiad Ardal Forol | |

**Amcan 1: Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau**
Mae'r arfordir a chefn gwlad yn cael eu rheoli'n sensitif i gynnal amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau mewn cyflwr ffafriol ac i wella cysylltedd rhwng safleoedd.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**NE 1.1** Parhau i gyflawni blaenoriaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ynys Môn a chamau gweithredu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cyngor Sir Ynys Môn.

**NE 1.2** Cynnal, adfer a gwella cynefinoedd â blaenoriaeth a bioamrywiaeth yn yr AHNE. Rhoddir sylw arbennig i safleoedd sydd â dynodiadau Rhyngwladol a Chenedlaethol fel Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig.

DRAFT

**NE 1.3** Hyrwyddo rhannu gwybodaeth sy'n cael ei chasglu mewn ymchwil yn agored â'r sefydliadau hynny sydd â diddordeb yn yr AHNE.

**NE 1.4** Defnydd parhaus o'r adnoddau sydd ar gael yn y Ganolfan Cofnodion Biolegol Lleol (COFNOD).

**NE 1.5** Canfod, lleoli, catalogio a chael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol.

**Amcan 2: Pridd, Aer a Dŵr**
Mae ansawdd y pridd, yr aer a'r dŵr – dŵr croyw a dŵr môr – yn cael ei fonitro'n rheolaidd i gynnal safonau sy'n rhagori ar safonau'r DU ac Ewrop.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**NE 2.1** Cymunedau, Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru i gydweithio i ddiogelu priddoedd, aer a dŵr rhag llygredd.

**NE 2.2** Monitro ansawdd pridd, aer a dŵr yn rheolaidd i sicrhau bod yr AHNE yn bodloni neu'n rhagori ar y safonau disgwyliedig.

**NE 2.3** Lleihau gwastraff drwy fynd ati i hyrwyddo a gweithredu mesurau effeithlonrwydd dŵr a phatrymau mwy cynaliadwy o ran defnyddio dŵr domestig, diwydiannol, amaethyddol a hamdden.

**Amcan 3: Ardaloedd Dynodedig a Safleoedd Pwysig Eraill**
Mae safleoedd bywyd gwyllt statudol ac anstatudol yn cael eu rheoli am eu gwerth o ran bioamrywiaeth, estheteg ac amwynder.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**NE 3.1** Uned AHNE, rheolwyr safle a sefydliadau eraill i gydweithio i gynnal, adfer, ehangu ac weithiau creu cynefinoedd bywyd gwyllt.

**NE 3.2** Sicrhau bod safleoedd bywyd gwyllt lleol anstatudol yn cael eu cydnabod fel cydrannau sylfaenol o'r AHNE a chefn gwlad ehangach Ynys Môn.

**NE 3.3** Sicrhau bod deunyddiau dehongli o ansawdd uchel ar gael yn rhwydd i drigolion ac ymwelwyr fel eu bod yn cael gwybod am ddiddordeb a gwerth amgylchedd naturiol a bywyd gwyllt yr AHNE.

DRAFT

## THEMA 3

## Yr AHNE fel Lle i Fwynhau a Dysgu

7.1.6 Mae Ynys Môn wedi bod yn gyrchfan boblogaidd ers tro byd i ymwelwyr domestig a rhyngwladol. Mae astudiaethau a thystiolaeth amrywiol hefyd yn dangos mai Ynys Môn yw'r sir yn y DU sy'n dibynnu fwyaf ar dwristiaeth, gyda'r diwydiant yn cyfrannu'n sylweddol at ffyniant ac ansawdd bywyd Ynys Môn. Yr her yw sicrhau bod y manteision i gymunedau Ynys Môn yn fwy nag unrhyw anfanteision, ac o ganlyniad gwelir manteision cymdeithasol a manteision o ran lles.

7.1.7 Gall twristiaeth, oherwydd ei natur, gael effeithiau cadarnhaol a negyddol os na chaiff ei rheoli'n briodol. Gall arwain at ddatblygu amhriodol, tagfeydd ar ffyrdd ac erydu'r harddwch naturiol a'r llonyddwch sy'n brif atyniadau i Ynys Môn. Ond gall hefyd gyfrannu'n gadarnhaol drwy greu refeniw uwch, cynaliadwyedd drwy gydol y flwyddyn a chynnydd mewn gwyliau amgylcheddol a gwyliau i ymwelwyr, fel digwyddiadau a chyrsiau sgiliau traddodiadol a gwyliau cadwraeth natur.

**Nod**
Mae pobl yn deall ac yn cefnogi prif bwrpas yr AHNE. Maen nhw'n cael cyfleoedd i brofi a gwerthfawrogi ei nodweddion a'i nodweddion arbennig mewn ffordd gynaliadwy ac maen nhw'n cyfrannu'n gadarnhaol at y ffordd mae'n cael ei reoli ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

| Beth yw'r grymoedd allweddol ar gyfer newid? | |
|---|---|
| Cynnydd mewn tipio anghyfreithlon | Polisi a hyrwyddo twristiaeth |
| Nifer cyfyngedig o orsafoedd trosglwyddo gwastraff sydd ar gael | Ymwybyddiaeth o fanteision hamdden awyr agored o ran iechyd a lles |
| Cynnydd yn y gost o waredu gwastraff | Cyllid gan awdurdodau lleol a phartneriaid (cynnydd a gostyngiad) |
| Defnyddio hawliau tramwy | Y meini prawf dethol ar gyfer traethau gwobrwyog |
| Materion cyfreithiol tir comin | Trafodaethau ar lwybrau caniataol |
| Cyllid allanol | Cyfranogiad a chefnogaeth y gymuned |
| Polisi tirwedd a warchodir Llywodraeth Cymru | Gweithgareddau hamdden sy'n dod i'r amlwg, fel e-feicio |
| Newidiadau mewn llywodraeth leol | Defnyddio fferi, gydag ymwelwyr dros dro |
| Newidiadau mewn deddfwriaeth, fel Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru | Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru a Datganiad Ardal Forol |

| Pwy yw'r partneriaid allweddol? | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Darparwyr twristiaeth |
| Awdurdodau lleol – Cyngor Sir Ynys Môn, Cynghorau Tref a Chymuned | Ysgolion, cymdeithasau a grwpiau diddordeb lleol |
| Sefydliadau tirwedd a bywyd gwyllt | Gwasanaethau gwirfoddol |
| Tirfeddianwyr, cymunedau | Menter Môn |
| Awdurdod twristiaeth – rhanbarthol cenedlaethol lleol | Croeso Cymru |
| Partneriaeth twristiaeth | Prifysgol Bangor |

| Beth yw'r prif ddylanwadau ar bolisi? | |
|---|---|
| Polisi twristiaeth Cymru a'r DU | Cynllun Datblygu Lleol |
| Deddfwriaeth a pholisi mynediad i Gymru a'r DU | Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn |
| Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus Ynys Môn |
| Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru | Cynllun statudol morol – cynllun gweithredu morol (asiantaeth Forol a gwylwyr y glannau) |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru a Datganiad Ardal Forol |

DRAFT

**Amcan 1: Twristiaeth**
Datblygir partneriaethau sy'n sicrhau gweithgareddau hamdden gynaliadwy, yn cefnogi gwasanaethau gwledig a chyflogaeth, ac yn cyfrannu at yr economi leol.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**UE 1.1** Sicrhau bod y diwydiant twristiaeth yn gwneud cyfraniad hanfodol a chynaliadwy i economi AHNE Ynys Môn.

**UE 1.2** Codi ymwybyddiaeth o rinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE sy'n asedau allweddol i'r sector twristiaeth.

**UE 1.3** Sicrhau bod y Cynllun Rheoli Cyrchfan yn cefnogi cadwraeth ac yn gwella nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE.

**Amcan 2: Hamdden**
Mae'r AHNE yn parhau i fod yn lleoliad poblogaidd ar gyfer hamddena cynaliadwy ymysg
trigolion ac ymwelwyr, ac mae'r risg o ddifrod i nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE yn lleihau.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**UE 2.1** Hyrwyddo gweithgareddau a chyfleusterau hamdden daearol a morol cynaliadwy sy'n ategu rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.

**UE 2.2** Hyrwyddo mwynhad daearol a morol o'r AHNE i drigolion ac ymwelwyr drwy annog gweithgareddau hamdden ac adloniant sy'n cyd-fynd â chadwraeth nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE.

**Amcan 3: AHNE groesawgar**

Mae effeithiau llygredd a hamdden ar rinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE yn cael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau bod unrhyw ddigwyddiadau o fewn terfynau derbyniol.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**UE 3.1** Hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth rhwng hamdden, cadwraeth a grwpiau buddiant lleol.

**EU 3.2** Gwaith i wella mwynhad pobl o'r AHNE drwy leihau digwyddiadau o ran taflu sbwriel, baw cŵn a thipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig.

**Amcan 4: Mynediad**
Trwy'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP) mae'r rhwydwaith mynediad yn cael ei reoli i safon uchel, gan ddarparu cyfleoedd mynediad sy'n briodol i ddibenion y dynodiad.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**UE 4.1** Hyrwyddo mynediad i bawb (lle bo hynny'n briodol), ar yr un pryd â diogelu nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE ac uniondeb safleoedd Ewropeaidd, gan sicrhau bod yna ddull cydlynol a phriodol o reoli a hyrwyddo mynediad cyhoeddus a gweithgareddau hamdden tawel.

**UE 4.2** Sicrhau bod rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn cael ei gynnal i safon uchel a bod gwybodaeth briodol ac arwyddion clir yn gwarchod ac yn gwella nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE ac uniondeb y safleoedd Ewropeaidd.

**UE 4.3** Sicrhau bod Llwybr Arfordir Cymru Gyfan yn ategu'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus, a lle ystyrir bod hynny yn briodol, yn darparu cyfleoedd ar gyfer hamdden sy'n hygyrch i bawb. Monitro effeithiau defnyddio'r Llwybr Arfordir a nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE.

**Amcan 5: Dealltwriaeth a Dysgu Gydol Oes**
Mae'r gymuned gyfan yn ymwybodol o fanteision dynodiad AHNE drwy hyrwyddo rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE a'i hanghenion rheoli yn rheolaidd.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**UE 5.1** Cefnogi cynlluniau i blant a phobl ifanc ddeall mwy am dirwedd newidiol AHNE Ynys Môn a'i nodweddion a'i rhinweddau arbennig drwy ddysgu yn yr awyr agored sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm cenedlaethol newydd.

**UE 5.2** Gweithio gydag ysgolion i wella'r cysylltiadau rhwng nodweddion a rhinweddau arbennig AHNE Ynys Môn, newid tirwedd a'u gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm cenedlaethol newydd.

**UE 5.3** Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu yn yr awyr agored i bob oed a gallu yn unol â nodau dysgu gydol oes a lles cymdeithasol.

**UE 5.4** Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod mwy o ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o AHNE Ynys Môn ymysg y rheini sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â'r AHNE.

**Amcan 6: Dehongli a Gwybodaeth**
Mae ystyr nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE yn cael eu datgelu drwy ddehongliad effeithiol.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**UE 6.1** Codi proffil yr AHNE drwy ddehongliad effeithiol a chyson a gwybodaeth i drigolion ac ymwelwyr.

## THEMA 4

## Cymunedau Bywiog mewn Tirwedd Weithredol

**Nod**
Mae cymunedau yn yr AHNE a’r cyffiniau yn cyfrannu at gadwraeth a gwella ei nodweddion a’i rhinweddau arbennig tra’n cynyddu eu gweithgareddau economaidd a chymdeithasol presennol yn gynaliadwy.

7.1.8 Mae’r AHNE yn gartref i dros 16,000 o bobl. Fe’u dosberthir mewn aneddiadau eithaf sylweddol megis Biwmares a Niwbwrch ac mewn cymunedau gwasgaredig ledled yr ardal. Felly, mae’r AHNE yn dirwedd warchodedig ac yn gymuned fyw a gweithio. Er bod llawer o bobl yn cymudo i ganolfannau cyflogaeth eraill ar yr ynys neu ar y tir mawr, mae cyflogaeth yn yr AHNE yn bennaf ym maes twristiaeth ac amaethyddiaeth. Felly, mae adnoddau naturiol yr ynys yn sylfaen bwysig i fywoliaeth pobl.

| **Beth yw’r grymoedd allweddol ar gyfer newid?** | |
|---|---|
| Dirywiad mewn olyniaeth a pherchnogaeth teulu mewn amaethyddiaeth a busnesau bach | Cyllid (cynnydd a gostyngiad) |
| Diffyg tai fforddiadwy | Traffig twristiaeth a mwy o ddiddordeb mewn beicio oddi ar y ffordd |
| Cynnydd yn nifer yr ail gartrefi | Newidiadau mewn llywodraeth leol |
| Diffyg cyfleoedd cyflogaeth | Y galw am gynnyrch lleol |
| Patrymau mudo a strwythurau poblogaeth | Ymwybyddiaeth o fanteision hamdden awyr agored o ran iechyd a lles |
| Colli traddodiadau a phatrymau cymunedol | Cyfranogiad a chefnogaeth y gymuned |
| Datblygu traddodiadau a sgiliau lleol | Darpariaeth band eang a gweithio gartref, gan alluogi mwy o bobl i ddefnyddio arferion gweithio rhithiol |
| Polisi’r Llywodraeth, gan gynnwys deddfwriaeth amgylcheddol ar ôl Brexit | Newid yn yr hinsawdd |
| Rhaglenni datblygu gwledig ar ôl Brexit | Effaith prosiectau seilwaith eraill |

| **Pwy yw’r partneriaid allweddol?** | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Adrannau Awdurdod Lleol |
| Sefydliadau tirwedd a bywyd gwyllt | Cymdeithasau busnes |
| Undebau Ffermio | Menter Môn |
| Tirfeddianwyr, cymunedau | Llywodraeth Cymru |

DRAFT

| Beth yw'r prif ddylanwadau ar bolisi? | |
|---|---|
| Cynlluniau amaeth-amgylchedd a datblygu gwledig ar ôl Brexit | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru | Cynllun Datblygu Lleol |
| Deddf Amgylchedd y DU 2021 | Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn |
| Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru |
| Datganiad Ardal Gogledd Orllewin Cymru a Datganiad Ardal Forol | |

| **Amcan 1: Rheoli Tir**<br>Mae rheolwyr tir yn diogelu gweithgareddau defnydd tir cynaliadwy sy'n cefnogi rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE ac yn cyfrannu at yr economi leol drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau.<br>*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)* |
|---|
| **Polisïau**<br><br>**LWL 1.1** Cefnogi ffermio fel ei fod yn parhau i fod yn un o'r prif ddefnyddiau tir yn AHNE Ynys Môn ac yn cyfrannu at gynnal ansawdd y dirwedd a nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE.<br><br>**LWL 1.2** Sicrhau hyfywedd parhaus amaethyddiaeth a'i busnesau cysylltiedig mewn ffyrdd sy'n gwarchod a gwella rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.<br><br>**LWL 1.3** Dylanwadu ar bolisïau, cynlluniau a ffrydiau cyllido sy'n cefnogi ffermwyr a thirfeddianwyr gwledig.<br><br>**LWL 1.4** Cefnogi rheoli cadarn ac ehangu coetiroedd yn briodol yn yr AHNE ar gyfer eu gwerth masnachol a chymdeithasol.<br><br>**LWL 1.5** Cefnogi cyfleoedd i ffermwyr a thirfeddianwyr ganfod a datblygu mentrau arallgyfeirio amgylcheddol gynaliadwy sy'n gwarchod ac yn gwella rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.<br><br>**LWL 1.6** Annog a chefnogi mesurau, gan gynnwys mentrau ariannol o dan gynlluniau amaeth-amgylcheddol sydd wedi'u targedu at wella'r rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE. |

**Amcan 2: Cymunedau Hyfyw**
Mae diwylliant lleol a gwasanaethau, cynnyrch a gweithgareddau gwledig yn cael eu cynnal, gan sicrhau cartrefi fforddiadwy i bobl leol a chefnogaeth i'r Gymraeg.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**LWL 2.1** Hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth a busnes lleol sy'n cyfrannu at gadwraeth a gwella nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE;
cefnogi cymunedau lleol yn yr AHNE a chynyddu gallu pobl i fyw a gweithio'n lleol.

**LWL 2.2** Cydnabod angen cydnabyddedig am dai fforddiadwy yn yr AHNE yn unol â pholisïau cynllunio a thai perthnasol.

**LWL 2.3** Annog a gwella'r gwaith o gadw a darparu gwasanaethau lleol yng nghymunedau'r AHNE gan leihau'r symudiad tuag at drefoli.

**Amcan 3: Cyfranogiad y Gymuned**
Mae cymunedau'r AHNE yn cael eu cynnwys drwy ymgynghori a grymuso ystyrlon i wella cyfranogiad, cynhwysiant, ffyrdd egnïol o fyw ac i ymfalchïo yn eu cymuned yn yr AHNE.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**LWL 3.1** Cefnogi a galluogi cymunedau i ddatblygu a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, mentrau sy'n cael eu harwain gan y gymuned sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth, cadwraeth, a gwella rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.

**LWL 3.2** Gweithio gydag eraill i helpu i ddatblygu a chyflawni'r agenda iechyd a lles yn yr AHNE.

**LWL 3.3** Parhau i feithrin a chynnal y capasiti gwirfoddoli, ac amrywiaeth rolau gwirfoddoli a'r amrywiaeth o gyfleoedd sy'n cyflawni dibenion yr AHNE.

**Amcan 4: Busnes**
Mae busnesau yn yr AHNE yn cyfrannu'n gadarnhaol at economi wledig iach sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl sy'n byw ar Ynys Môn.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**LWL 4.1** Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu argaeledd a chyflymder band eang a darpariaeth y rhwydwaith ffonau symudol, i hwyluso twf busnes, annog gweithio gartref a ffyrdd hybrid o fyw, a gwella ansawdd bywyd gwledig.

**LWL 4.2** Hyrwyddo economi prosesu bwyd lleol proffidiol o ansawdd uchel fel ffordd o adfywio incymau gwledig, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith trigolion lleol, sefydliadau ac ymwelwyr am y manteision i'r dirwedd/morlun, economi a gwead cymdeithasol o ganlyniad i brynu bwydydd lleol.

**LWL 4.3** Cefnogi cyfleoedd sy'n annog busnesau lleol yn yr AHNE i ddod yn fwy cynaliadwy yn amgylcheddol ac yn economaidd, yn enwedig mewn ffyrdd sy'n gwarchod rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.

**Amcan 5: Cynaliadwyedd**
Mae cyfran uwch o boblogaeth breswyl yr AHNE yn mabwysiadu ffyrdd cynaliadwy o fyw.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**LWL 5.1** Sicrhau bod y cysyniad cynaliadwyedd yn cael ei gydnabod a'i ddeall fel gofyniad sylfaenol sy'n sail i bob polisi.

**LWL 5.2** Sicrhau bod y dirwedd a rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi fel ased economaidd, gan ddarparu gwybodaeth am brosiectau ac enghreifftiau o arferion gorau.

**LWL 5.3** Hyrwyddo defnydd effeithlon a chynaliadwy o adnoddau naturiol yr AHNE er mwyn gwarchod a gwella rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.

**LWL 5.4** Hyrwyddo amcanion yr Hierarchaeth Gwastraff yn yr AHNE, sef lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu, gan sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli'n gynaliadwy.

**Amcan 6: Trafnidiaeth**
Mae asiantaethau trafnidiaeth cenedlaethol a lleol wedi rhoi polisïau, canllawiau a phenderfyniadau ar waith i warchod a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE, cynnal nodweddion unigryw lleol, darparu gwasanaethau a chefnogi economi wledig fywiog.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**LWL 6.1** Hyrwyddo integreiddio a defnyddio systemau trafnidiaeth gyhoeddus mwy cynaliadwy fel rhan o ddull gweithredu aml-ddull yn yr AHNE.

**LWL 6.2** Annog beicio at ddibenion cymudo a hamdden drwy ddatblygu a hyrwyddo rhwydwaith di-dor a mwy diogel a thrwy archwilio cyfleoedd ar gyfer seilwaith beicio oddi ar y ffordd yn y dyfodol.

**LWL 6.3** Sicrhau bod rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE yn cael eu parchu'n llawn wrth gynllunio, dylunio, darparu a rheoli pob math o gynlluniau trafnidiaeth.

**LWL 6.4** Hyrwyddo'r AHNE fel model ar gyfer safonau dylunio uchel mewn cynlluniau priffyrdd, seilwaith a thirweddu cysylltiedig sy'n ategu rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.

DRAFT

**Amcan 7: Gweithio Mewn Partneriaeth**
Bydd JAC yn chwilio'n barhaus am gyfleoedd i hyrwyddo cydweithio gyda rhanddeiliaid a rhyngddynt er mwyn sicrhau dibenion dynodi a sicrhau'r cyllid gorau posibl.
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**LWL 7.1** Meithrin trefniadau partneriaeth a gweinyddol effeithiol i arwain a chydlynu'r gwaith o reoli'r AHNE drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol (JAC).

**LWL 7.2** Rhannu gwybodaeth, arferion gorau a sgiliau mewn rheoli tirwedd warchodedig drwy'r JAC a'r rhwydwaith Tirweddau Gwarchodedig.

DRAFFT

## THEMA 5

## Rheoli'r AHNE mewn Hinsawdd sy'n newid

**Nod**
Mae partneriaid a chymunedau'r AHNE yn gweithio'n gadarnhaol i leihau allyriadau carbon, mae mentrau ynni adnewyddadwy a chynaliadwy yn cael eu dilyn, ac mae egwyddorion addasu a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yn cael eu mabwysiadu i warchod harddwch naturiol a chymeriad tirwedd / morwedd yr AHNE.

7.1.9 Mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o gael effaith sylweddol ar amgylchedd Ynys Môn. Bydd cynnydd mewn tymheredd, patrymau glaw newidiol, stormydd yn digwydd yn amlach a chodiad yn lefel môr yn effeithio ar y dirwedd, ei chynefinoedd a'i rhywogaethau. Bydd yr effeithiau hyn yn cael effaith niweidiol ar unigolion, cymunedau, busnesau, iechyd a lles.

7.1.10 Mae'r effeithiau ar gynefinoedd yn cynnwys erydiad pridd ar gorsydd o ganlyniad i fwy o law, erydiad a newid mewn cynefinoedd twyni tywod, ac erydu clogwyni a morlinau gwaddod meddal. Bydd effeithiau hefyd ar ryngddibyniaeth ac amrywiaeth rhywogaethau, ar boblogaethau rhywogaethau prin ac mewn perygl, sy'n nodweddiadol o'r ynys, ac ar gymunedau yn yr AHNE ac Ynys Môn gyfan.

DRAFT

| **Beth yw'r grymoedd allweddol ar gyfer newid?** | |
|---|---|
| Effeithiau cronnus allyriadau carbon | Ymgysylltu â'r cyhoedd |
| Yr angen i ymateb i hinsawdd sy'n newid – fel rheoli llifogydd ac amddiffyn yr arfordir | Polisi'r Llywodraeth |
| Mwy o alw am ddŵr ffres | Cyllid gan y llywodraeth (cynnydd a gostyngiad) |
| Diffyg ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd | |

| **Pwy yw'r partneriaid allweddol?** | |
|---|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Uned Cefn Gwlad ac AHNE |
| Sefydliadau tirwedd a bywyd gwyllt | Llywodraeth Cymru |
| Tirfeddianwyr, cymunedau | Llywodraeth y DU |

| Beth yw'r prif ddylanwadau ar bolisi? | |
|---|---|
| Cynllun Amgylchedd 25 mlynedd Llywodraeth y DU | Cynllun Tuag at Sero Net CSYM |
| Deddf Amgylchedd y DU 2021 | Adroddiad asesiad risg Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU – Cymru |
| Deddf Yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | Cynllun Datblygu Lleol |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru |
| Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr | Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru |
| Cynllun Cyngor CSYM | |

**Amcan 1: Deall newid yn yr hinsawdd**
Mae sefydliadau partner a chymunedau yn fwy ymwybodol o effeithiau newid yn yr hinsawdd ar harddwch naturiol ac economi'r AHNE
*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)*

**Polisïau**

**CLCH 1.1** Sicrhau bod gweledigaeth a pholisïau Rhaglen Ynys Ynni Môn yn cael eu hyrwyddo yng nghymunedau AHNE.

**CLCH 1.2** Darparu gwybodaeth a dehongliad hawdd ei ddefnyddio, a rhaglenni addysg, ar y newidiadau sy'n debygol o ddigwydd yn yr AHNE o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

DRAFT

| |
|---|
| **Amcan 2: Gweithredu ar newid yn yr hinsawdd**<br>Mae tirfeddianwyr a chymunedau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ar yr AHNE.<br>*(Dogfen derfynol – Amcan a Pholisïau wedi'u croesgyfeirio drwy rifau tudalennau i'r Cynllun Gweithredu)* |
| **Polisïau**<br><br>CLCH 2.1 Grymuso cymunedau i archwilio ffyrdd y gallant helpu i weithredu ar newid yn yr hinsawdd.<br><br>**CLCH 2.2** Sicrhau bod tirfeddianwyr a rheolwyr tir yn deall yr arferion gorau o ran dulliau o ddal a storio carbon a rheoli tir sy'n lleihau allyriadau carbon ac yn rheoli dalgylchoedd a llif dŵr ac yn gweithredu lle bynnag y bo'n briodol.<br><br>**CLCH 2.3** Annog rheolwyr cyrchfan a gweithredwyr twristiaeth i ddatblygu dulliau twristiaeth gynaliadwy sy'n lleihau allyriadau carbon ac sy'n lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd neu sy'n addasu i'r effeithiau hynny. |

DRAFT

**THEMA:** Rheoli'r AHNE mewn hinsawdd sy'n newid

**NOD:** Mae partneriaid a chymunedau'r AHNE yn gweithio'n gadarnhaol i leihau allyriadau carbon, mae mentrau ynni adnewyddadwy a chynaliadwy yn yr arfaeth, ac mae'r egwyddorion o addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru yn cael eu mabwysiadu i ddiogelu harddwch naturiol chymeriad tirwedd / morwedd yr AHNE.

DRAFT

| Cyf. Polisi | Amcan | Camau gweithredu i gyflawni'r amcan hwn | Arweinydd | Partneriaeth/ Cydweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **CLCH 1.1- 1.2** | **Deall newid yn yr hinsawdd**<br>Mae sefydliadau partner a chymunedau yn fwy ymwybodol o effeithiau newid yn yr hinsawdd ar harddwch naturiol ac economi'r AHNE | 1. Cydweithio â sefydliadau partner a sefydliadau academaidd i ddeall yn well oblygiadau newid yn yr hinsawdd ar yr AHNE a rhoi mesurau ar waith i liniaru ac addasu trwy (lle bo'n bosibl), atebion sy'n seiliedig ar natur<br><br>2. Yr Uned AHNE, ar y cyd â phartneriaid, i ddarparu a gweithredu rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau a gweithgareddau i ysgolion er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o newid yn yr hinsawdd | Cyngor Sir Ynys Môn<br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br>Cyngor Sir Ynys Môn | JAC<br>Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru<br>Prifysgol Bangor<br><br>Ysgolion | 2023-25<br><br>Blynyddol |
| **CLCH 2.1- 2.3** | **Gweithredu ar newid yn yr hinsawdd**<br>Mae tirfeddianwyr a chymunedau yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n helpu i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ar yr AHNE. | 1. Gweithio gyda thirfeddianwyr, tenantiaid a rheolwyr tir i hyrwyddo arferion gorau a chanfod cyfleoedd ar gyfer dal a storio carbon, dalgylchoedd dŵr ac addasu i'r hinsawdd drwy arferion amaethyddol<br><br>2. Helpu i baratoi Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy sy'n cyd-fynd â Chynllun Rheoli Cyrchfan Cyngor Sir Ynys Môn | Undebau Ffermio<br>Uned AHNE<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Uned Twristiaeth<br>Uned AHNE | JAC<br>Tirfeddianwyr / Rheolwyr tir<br><br>DAP<br>JAC<br><br>JAC | Blynyddol<br><br>i'w gadarnhau<br><br>2022-25 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 3. Hyrwyddo a gweinyddu Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy a Chronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau datgarboneiddio ac adfer byd natur | Uned AHNE Cyngor Sir Ynys Môn | Tirfeddianwyr / Rheolwyr tir | |

DRAFFT

**THEMA:** Cyfoethogi Cefn Glwad Lleol a Chymeriad yr Arfordir

**NOD:** Bydd harddwch naturiol, rhinweddau arbennig a natur unigryw tirwedd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, gan gynnwys ei nodweddion naturiol, diwylliannol a hanesyddol, yn cael eu cynnal, eu cadw a'u gwella er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

| Cyf. Polisi | Amcan | Camau gweithredu i gyflawni'r amcan hwn | Arweinydd | Partneriaeth/ Cydweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **CCC 1.1- 1.4**<br><br>Tudalen 257 | **<u>Tirwedd/ Morwedd</u>**<br>Mae tirwedd a morwedd yr arfordir yn cael eu gwarchod drwy reolaeth briodol. | 1. Defnydd parhaus o Landmap wrth asesu datblygiadau newydd ac arfaethedig.<br><br>2. Rhoi hyfforddiant Landmap a GIS i swyddogion, gan gynnwys ymgyfarwyddo â thechnoleg fapio a modelu newydd sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.<br><br>3. Asesiad Cymeriad Morwedd Ynys Môn yn cael ei ddefnyddio wrth asesu datblygiadau morol newydd ac arfaethedig<br><br>4. Parhau i fod yn aelod cyfetholedig o Fwrdd GeoMôn er mwyn dylanwadu a rhoi cyngor ar gyllid, gweithio ar y cyd a chadw statws Geoparc UNESCO. | Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn | CNC<br><br>CNC<br><br>CNC<br><br>GeoMôn CNC | Parhaus<br><br>Blaenoriaethau 2023/24<br><br>Parhaus<br><br>Yn chwarterol |
| **CCC 2.1- 2.3** | **<u>Tirwedd a Diwylliant Hanesyddol</u>**<br>Mae safleoedd hanesyddol, archeolegol a diwylliannol yn cael eu gwarchod rhag datblygiad sy'n diraddio rhinweddau arbennig yr | 1. Hyrwyddo'r gwaith o reoli a gwarchod nodweddion hanesyddol ac archeolegol yr AHNE<br><br>2. Amlinellu lleoliadau hanesyddol ac archeolegol allweddol yn yr AHNE y gellir eu defnyddio at ddibenion addysg sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm ysgol newydd | GAT<br><br>GAT / Uned AHNE | Uned AHNE / Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Ysgolion CSYM | 2023-24/ Ar y gweill<br><br>2023-24 / Ar y gweill |

DRAFT

**THEMA:** Cyfoethogi Cefn Glwad Lleol a Chymeriad yr Arfordir

**NOD:** Bydd harddwch naturiol, rhinweddau arbennig a natur unigryw tirwedd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, gan gynnwys ei nodweddion naturiol, diwylliannol a hanesyddol, yn cael eu cynnal, eu cadw a'u gwella er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | AHNE ac yn cael eu dehongli i gynyddu dealltwriaeth pobl o'u gwerth. | 3. Darparu hyfforddiant mewn gweithgareddau sgiliau traddodiadol a gwledig drwy Raglen Gwirfoddolwyr yr AHNE<br><br>4. Nodi negeseuon a themâu allweddol a dulliau a deunyddiau priodol ar gyfer eu dehongli<br><br>5. Datblygu prosiect i ymchwilio, catalogio, gwarchod a hyrwyddo enwau lleoedd, traethau a chilfachau, afonydd / nentydd ac enwau caeau amaethyddol Cymraeg AHNE Ynys Môn | Uned AHNE<br><br>Uned AHNE / Oriel - Archifau | Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru SPF<br><br>Menter Iaith Ysgolion | 2023-24 / Ar y gweill<br><br>2023-25 |
| **CCC 3.1- 3.5** | **<u>Datblygu</u>**<br>Mae Polisïau Cynllunio yn gwarchod rhinweddau arbennig y dirwedd, gan sicrhau bod yr holl ddatblygiadau o fewn ac wrth ymyl ffin yr AHNE yn gydnaws â nodau ac amcanion y dynodiad a bod datblygiadau newydd yn gwella cymeriad lleol. | 1. Integreiddio'r Cynllun Rheoli AHNE newydd fel polisi o fewn adrannau perthnasol y Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn.<br><br>2. Cynhyrchu a chyhoeddi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol perthnasol ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol i gefnogi'r Cynllun Rheoli AHNE a'r Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>3. Bydd yr Uned AHNE yn derbyn yr holl geisiadau Cynllunio yn ac o fewn 2km i ffiniau'r AHNE ac yn ymateb yn unol â hynny. | Uned AHNE / Uned Polisi Cynllunio<br><br>Uned AHNE / Uned Polisi Cynllunio<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn | Cyngor Sir Ynys Môn JAC<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn JAC<br><br>Uned AHNE | 2023-24<br><br>2023-24<br><br>Wythnosol<br><br>Chwemisol |

DRAFT

**THEMA:** Cyfoethogi Cefn Glwad Lleol a Chymeriad yr Arfordir

**NOD:** Bydd harddwch naturiol, rhinweddau arbennig a natur unigryw tirwedd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, gan gynnwys ei nodweddion naturiol, diwylliannol a hanesyddol, yn cael eu cynnal, eu cadw a'u gwella er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 4. Creu arferion gweithio agosach a hyfforddiant cyfatebol rhwng yr Uned AHNE a'r Gwasanaeth Cynllunio a Pholisi.<br><br>5. Gwella a datblygu'r ddeialog gyda mudiadau Adran 85 sy'n gwneud gwaith yn yr AHNE sy'n cyd-fynd â pholisïau Cynllun Rheoli'r AHNE, gan arwain at adroddiad blynyddol gydag argymhellion. | Rheoli Datblygu<br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | Gwasanaeth Cynllunio a Pholisi<br><br>Cyfleustodau JAC | Chwemisol |
| **CCC 4.1 – 4.3** | **<u>Heddwch a Llonyddwch</u>**<br>Mae golygfeydd a llonyddwch panoramig, awyr dywyll na ddifethwyd yn cael eu diogelu rhag datblygiad a fyddai'n diraddio rhinweddau arbennig yr AHNE. | 1. Cais i'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA) i achredu ardal yn yr AHNE fel statws awyr dywyll.<br><br>2. Hyfforddiant Cyngor Sir Ynys Môn (Swyddog ac Aelod) a JAC i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o oleuo / awyr dywyll o safbwynt amgylcheddol, economaidd, iechyd / lles a diwylliannol.<br><br>3. Cynhyrchu a chyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol yr AHNE ar oleuadau i gefnogi'r Cynllun Rheoli AHNE a'r Cynllun Datblygu Lleol. | Uned AHNE Prosiect Nos<br><br>Uned AHNE Prosiect Nos<br><br>Uned Polisi Cynllunio | Cyngor Sir Ynys Môn<br>CNC<br>Tirfeddianwyr / Cymunedau<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>JAC<br><br>Uned AHNE Prosiect Nos | 2023-24<br><br>Blynyddol<br><br>2023-24<br><br>2022-25 |

Tudalen 259

DRAFT

**THEMA:** Cyfoethogi Cefn Glwad Lleol a Chymeriad yr Arfordir

**NOD:** Bydd harddwch naturiol, rhinweddau arbennig a natur unigryw tirwedd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, gan gynnwys ei nodweddion naturiol, diwylliannol a hanesyddol, yn cael eu cynnal, eu cadw a'u gwella er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 4. Parhau i gefnogi a gweithredu ôl-osod goleuadau ystyriol o awyr dywyll y tu allan i adeiladau cyhoeddus a phreifat drwy Gronfa Tirwedd Gynaliadwy, Mannau Cynaliadwy (SLSP) Llywodraeth Cymru<br><br>5. Ymgysylltu â'r rhanddeiliaid perthnasol i leihau nifer yr achosion o weithgareddau morol swnllyd ar hyd rhai rhannau o'r arfordir | Uned AHNE Prosiect Nos<br><br>Yr Uned Forwrol | Busnesau Y cyhoedd Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn | Tymhorol |
| **CCC 5.1- 5.3** | **<u>Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem</u>**<br>Cytunir ar fodel ymysg partneriaid a rhanddeiliaid allweddol ar gyfer defnyddio dull rheoli ar lefel yr ecosystem i reoli'r amgylchedd naturiol. | **1.** Sefydlu prosiectau ymchwil newid yn yr hinsawdd wedi'u targedu gyda phartneriaid a chyrff addysg.<br><br>**2.** Cynnal cyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid i ganfod y nwyddau a'r gwasanaethau a ddarperir gan Ecosystemau ar Ynys Môn a'u Heffaith ar rinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE.<br><br>**3.** Casglu'r holl ffynonellau data perthnasol a mapio a sicrhau bod hynny ar gael i bartneriaid | Uned AHNE Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Uned AHNE Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Uned AHNE Cyngor Sir Ynys Môn | Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru JAC Prifysgol Bangor Coleg Menai<br><br>JAC Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru | 2023-25<br><br>Blynyddol<br><br>Parhaus |

DRAFT

**THEMA:** Cyfoethogi Cefn Glwad Lleol a Chymeriad yr Arfordir

**NOD:** Bydd harddwch naturiol, rhinweddau arbennig a natur unigryw tirwedd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn, gan gynnwys ei nodweddion naturiol, diwylliannol a hanesyddol, yn cael eu cynnal, eu cadw a'u gwella er budd cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Cyfoeth Naturiol Cymru/Llywodraeth Cymru JAC | |

DRAFFT

**THEMA:** Yr AHNE fel Lle i Fwynhau a Dysgu

**NOD:** Mae pobl yn deall ac yn cefnogi prif bwrpas yr AHNE. Maen nhw'n cael cyfleoedd i brofi a gwerthfawrogi'r rhinweddau a'r nodweddion arbennig mewn ffordd sensitif a chynaliadwy a chyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o'i rheoli heddiw ac i'r dyfodol

| Cyf. Polisi | Amcan | Camau gweithredu i gyflawni'r amcan hwn | Arweinydd | Partneriaeth/ Cydweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **UE 1.1- 1.3** | **<u>Twristiaeth</u>**<br>Datblygir partneriaethau sy'n sicrhau gweithgareddau hamdden gynaliadwy, yn cefnogi gwasanaethau gwledig a chyflogaeth, ac yn cyfrannu at yr economi leol. | 1. Sicrhau bod Cynllun Rheoli'r AHNE a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan yn cyd-fynd yn agos<br><br>2. Arferion gweithio agosach a chydweithio rhwng Cydbwyllgor Cynghori'r AHNE a Phartneriaeth Cyrchfan Ynys Môn (DAP) | Uned AHNE<br>Uned Twristiaeth<br><br>Uned AHNE | JAC<br>DAP<br><br>JAC<br>DAP | 2023-24<br><br>2023-24/<br>Ar y gweill |
| **UE 2.1- 2.2** | **<u>Hamdden</u>**<br>Mae'r AHNE yn parhau i fod yn lleoliad poblogaidd ar gyfer hamdden gynaliadwy ymysg trigolion ac ymwelwyr, ac mae'r risg o niwed i rinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE yn lleihau. | 1. Yr Uned AHNE yn gweithio gyda phartneriaid perthnasol i ddarparu rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau a gweithgareddau<br><br>2. Hyrwyddo a gweinyddu cyllid Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau hamdden gynaliadwy | Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | Cyflenwyr digwyddiadau<br><br>Busnesau<br>Cyflenwyr digwyddiadau | 2022-25<br><br>2022-25 |
| **UE 3.1- 3.2** | **<u>AHNE groesawgar</u>**<br>Mae effeithiau llygredd a hamdden ar rinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE yn cael eu monitro'n rheolaidd i sicrhau bod | 1. Codi ymwybyddiaeth a threialu dulliau newydd / arloesol o reoli sbwriel, baw cŵn, tipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig o fewn yr AHNE a'r cyffiniau<br><br>2. Gwirfoddolwyr yr AHNE yn gweithio gyda phartneriaid, ysgolion a grwpiau cymunedol i drefnu glanhau traethau a didoli'r gwastraff morol i'w ailgylchu | Rheoli Gwastraff Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Uned AHNE | JAC | Parhaus |

DRAFT

**THEMA:** Yr AHNE fel Lle i Fwynhau a Dysgu

**NOD:** Mae pobl yn deall ac yn cefnogi prif bwrpas yr AHNE. Maen nhw'n cael cyfleoedd i brofi a gwerthfawrogi'r rhinweddau a'r nodweddion arbennig mewn ffordd sensitif a chynaliadwy a chyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o'i rheoli heddiw ac i'r dyfodol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | unrhyw ddigwyddiadau o fewn terfynau derbyniol. | | | | |
| **UE 4.1- 4.2**<br><br>Tudalen 263 | **Mynediad**<br>Mae'r rhwydwaith mynediad yn cael ei reoli i safon uchel, gan ddarparu cyfleoedd mynediad sy'n briodol i ddibenion y dynodiad. | 1. Adolygu a gwella arwyddion rhwng pentrefi, trefi, llwybrau eraill a hyrwyddir, safleoedd cefn gwlad, meysydd parcio a chyfleusterau i ymwelwyr yn yr AHNE<br><br>2. Gwirfoddolwyr AHNE i helpu Uned Llwybr yr Arfordir i wella'r rhwydwaith llwybrau arfordirol a'i gynnal a'i gadw<br><br>3. Adolygu, ail-fuddsoddi ac ail-leoli offer monitro data yn yr AHNE. Casglu a dadansoddi'n chwarterol a'i ddosbarthu i bartneriaid perthnasol.<br><br>4. Cynhyrchu strategaeth rhostir a chynllun gweithredu i alluogi cadwraeth a gwella rhostir yr iseldir / tir comin at ddibenion mynediad a chadwraeth. | Unedau Llwybr yr Arfordir a Hawliau Tramwy Cyhoeddus<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | JAC<br><br>Uned Llwybr yr Arfordir<br><br>Unedau Llwybr yr Arfordir / Hawliau Tramwy Cyhoeddus JAC<br><br>Unedau Llwybr yr Arfordir / Hawliau Tramwy Cyhoeddus JAC | 2023-25<br><br>Parhaus<br><br>2023-24<br><br>2023-24 |
| **UE 5.1- 5.4** | **Dealltwriaeth a Dysgu Gydol Oes** | 1. Uned AHNE a Phartneriaid i ddarparu rhaglen flynyddol o weithgareddau a digwyddiadau addysgol | Uned AHNE | Ysgolion | Wythnosol – Misol |

DRAFT

**THEMA:** Yr AHNE fel Lle i Fwynhau a Dysgu

**NOD:** Mae pobl yn deall ac yn cefnogi prif bwrpas yr AHNE. Maen nhw'n cael cyfleoedd i brofi a gwerthfawrogi'r rhinweddau a'r nodweddion arbennig mewn ffordd sensitif a chynaliadwy a chyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o'i rheoli heddiw ac i'r dyfodol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Mae'r gymuned gyfan yn ymwybodol o fanteision dynodiad AHNE drwy hyrwyddo rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE a'i hanghenion rheoli yn rheolaidd. | 2. Uned AHNE i barhau i gefnogi a chymryd rhan yng ngwaith Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru ar Ynys Môn<br><br>3. Codi ymwybyddiaeth o'r adnoddau addysg sydd ar gael gan yr AHNE a defnyddio Parc Gwledig Morglawdd fel canolfan ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau ysgolion sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd. | Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | <br><br><br>Ysgolion JAC | Chwemisol<br><br>Wythnosol – Misol |
| **UE 6.1** | **<u>Dehongli a Gwybodaeth</u>**<br>Mae ystyr nodweddion a rhinweddau arbennig yr AHNE yn cael eu datgelu drwy ddehongliad effeithiol. | 1. Gweithio gydag Uned Twristiaeth CSYM i adolygu ac adrodd ar yr holl ddehongliad awyr agored yn yr AHNE i werthuso cyflwr, perthnasedd, lleoliad, cydymffurfiaeth ac ati (gan gynnwys technoleg ddigidol fel rhan o'r adolygiad)<br><br>2. Datblygu cynllun dehongli a gwybodaeth ar gyfer yr AHNE sy'n gysylltiedig ag argymhellion yr adolygiad uchod.<br><br>3. Paratoi rhaglen blwyddyn o ddigwyddiadau a gweithgareddau i ddathlu 60 mlynedd ers dynodi AHNE Ynys Môn (1966-2026) | Uned Twristiaeth Uned AHNE<br><br>Uned Twristiaeth Uned AHNE<br><br>Uned AHNE Cyngor Sir Ynys Môn | DAP JAC<br><br>DAP JAC<br><br>JAC CNC LIC | 2023-25<br><br>2023-24<br><br>2025 |

DRAFT

**THEMA:** Cymunedau Bwyiog mewn Tirwedd Weithredol

**NOD:** Mae cymunedau yn yr AHNE a'r cyffiniau yn cyfrannu at gadwraeth a gwella ei rhinweddau a'i nodweddion arbennig ar yr un pryd â chynyddu eu gweithgareddau economaidd a chymdeithasol presennol yn gynaliadwy.

| Cyf. Polisi | Amcan | Camau gweithredu i gyflawni'r amcan hwn | Arweinydd | Partneriaeth/ Cydweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **LWL 1.1- 1.6** | **Rheoli Tir** Mae rheolwyr tir yn diogelu gweithgareddau defnydd tir cynaliadwy sy'n cefnogi rhinweddau a nodweddion arbennig yr AHNE ac yn cyfrannu at yr economi leol drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau. | 1. Dylanwadu ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'i hyrwyddo (cynllun amaeth-amgylcheddol newydd Llywodraeth Cymru) | Undebau Ffermio | Uned AHNE<br>LlC<br>JAC | 2023-25 |
| | | 2. Cefnogi a hyrwyddo cadwyni cyflenwi bwyd lleol a chynhyrchwyr bwyd lleol sy'n cyd-fynd â gwarchod a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE | Undebau Ffermio | Menter Môn<br>Uned AHNE | Parhaus |
| | | 3. Datblygu cynlluniau plannu coed / coetiroedd sy'n gymesur ag argaeledd ac addasrwydd tir | Uned AHNE | JAC<br>Tirfeddianwyr / Rheolwyr tir | Blynyddol |
| | | 4. Datblygu Meithrinfa Goed CSYM i gyflenwi coed ar gyfer cynlluniau plannu [ffermdir, cymunedau a thirlunio datblygiadau masnachol] | Uned AHNE | Gwirfoddolwyr | 2023-24 |
| | | 5. Parhau â Phrosiect Afonydd Ynys Môn (Afon Wygyr) i wella ansawdd dŵr [dyfroedd afonydd ac ymdrochi] gwella mynediad i'r cyhoedd, plannu coed a chynyddu bioamrywiaeth | Uned AHNE | NWRT<br>LlC<br>Tirfeddianwyr / Rheolwyr Tir | 2022-25 |
| | | 6. Hyrwyddo a gweinyddu cyllid Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau datgarboneiddio ac adfer byd natur | Uned AHNE | JAC<br>Tirfeddianwyr / Rheolwyr Tir<br>LlC | 2022-25 |



DRAFT

**THEMA:** Cymunedau Bwyiog mewn Tirwedd Weithredol

**NOD:** Mae cymunedau yn yr AHNE a'r cyffiniau yn cyfrannu at gadwraeth a gwella ei rhinweddau a'i nodweddion arbennig ar yr un pryd â chynyddu eu gweithgareddau economaidd a chymdeithasol presennol yn gynaliadwy.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| LWL 2.1- 2.3 | **<u>Cymunedau Hyfyw</u>**<br>Mae diwylliant lleol a gwasanaethau, cynnyrch a gweithgareddau gwledig yn cael eu cynnal, gan sicrhau cartrefi fforddiadwy i bobl leol a chefnogaeth i'r Gymraeg. | 1. Gwella'r ddeialog gydag adrannau mewnol Cyngor Sir Ynys Môn sy'n berthnasol i dai fforddiadwy yn yr AHNE yn ogystal ag asiantaethau allanol<br><br>2. Cefnogi ac alinio â Chynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn<br><br>3. Hyrwyddo a chychwyn cyfleoedd gwirfoddoli drwy Grŵp Gwirfoddoli'r AHNE gyda grwpiau cymunedol perthnasol ac asiantaethau cyflogi. | Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Datblygiad Economaidd CSYM<br><br>Uned AHNE | Uned AHNE<br><br>Rheoli Cyrchfannau Cymuned Leol<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>JAC<br>DWP | 2023-24<br><br>2023-25<br><br>2023-27 |
| **LWL 3.1- 3.3** | **<u>Cyfranogiad y Gymuned</u>**<br>Mae cymunedau'r AHNE yn cael eu cynnwys drwy ymgynghori a grymuso ystyrlon i wella cyfranogiad, cynhwysiant, ffyrdd egnïol o fyw ac i ymfalchïo yn eu cymuned yn yr AHNE. | 1. Wardeniaid Cymunedol AHNE yr Uned AHNE i gynnal a hyrwyddo cysylltiadau â chymunedau i ddatblygu prosiectau a mentrau.<br><br>2. Wardeniaid Cymunedol AHNE yr Uned AHNE i fynd ati'n frwd i annog pobl i ymaelodi â Grŵp Gwirfoddoli'r AHNE.<br><br>3. Yr Uned AHNE i ddarparu a gweithredu rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau a gweithgareddau.<br><br>4. Yr Uned AHNE i feithrin cysylltiadau agosach ag Adrannau perthnasol CSYM, Medrwn Môn a Menter Môn i gyflawni amcanion a mentrau cymunedol allweddol. | Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | Cymunedau<br><br>Cymunedau<br><br>JAC<br>Darparwyr digwyddiadau<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn<br>Medrwn Môn<br>Menter Môn | Wythnosol – Misol<br><br>Misol<br><br>Wythnosol – Misol<br><br>2023-24 / Ar y gweill<br><br>2022-25 |

DRAFT

**THEMA:** Cymunedau Bwyiog mewn Tirwedd Weithredol

**NOD:** Mae cymunedau yn yr AHNE a'r cyffiniau yn cyfrannu at gadwraeth a gwella ei rhinweddau a'i nodweddion arbennig ar yr un pryd â chynyddu eu gweithgareddau economaidd a chymdeithasol presennol yn gynaliadwy.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 5. Hyrwyddo a gweinyddu Tirweddau Cynaliadwy, Mannau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. | | JAC<br>Cymunedau | |
| **LWL 4.1- 4.3** | **<u>Busnes</u>**<br>Mae busnesau yn yr AHNE yn cyfrannu'n gadarnhaol at economi wledig iach sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl sy'n byw ar Ynys Môn. | 1. Cydweithio â nifer o bartneriaid i alluogi arferion gweithio mwy effeithiol, effeithlon a chynaliadwy<br><br>2. Cefnogi a hyrwyddo cadwyni cyflenwi bwyd lleol a chynhyrchwyr bwyd lleol sy'n cyd-fynd â gwarchod a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE<br><br>3. Hyrwyddo Cronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru fel catalydd ar gyfer cyllido prosiectau ar y cyd | Datblygiad Economaidd CSYM<br><br>Menter Môn<br><br>Uned AHNE | Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br>Cyflenwyr<br><br>Busnesau | Parhaus<br><br>Parhaus<br><br>2022-25 |
| **LWL 5.1- 5.4** | **<u>Cynaliadwyedd</u>**<br>Mae cyfran uwch o boblogaeth breswyl yr AHNE yn mabwysiadu ffyrdd cynaliadwy o fyw. | 1. Yr Uned AHNE i barhau i fabwysiadu a gweithredu egwyddorion ac arferion gweithio cynaliadwy<br><br>2. Nodi elfennau tirlun/morlun pwysig ac archwilio'r cysylltiadau rhwng rhinweddau arbennig yr AHNE a'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem | Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>JAC<br>CNC<br>Prifysgol Bangor | Parhaus<br><br>2023-24/<br>Ar y gweill |



DRAFT

**THEMA:** Cymunedau Bwyiog mewn Tirwedd Weithredol

**NOD:** Mae cymunedau yn yr AHNE a'r cyffiniau yn cyfrannu at gadwraeth a gwella ei rhinweddau a'i nodweddion arbennig ar yr un pryd â chynyddu eu gweithgareddau economaidd a chymdeithasol presennol yn gynaliadwy.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 3. Nodi'r defnydd presennol a'r defnydd yn y dyfodol o adnoddau naturiol yr AHNE ac archwilio'r cysylltiadau â'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem<br><br>4. Cefnogi egwyddorion a strategaethau Rheoli Gwastraff Llywodraeth Cymru a CSYM<br><br>5. Hyrwyddo Cronfa Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru fel catalydd ar gyfer cyllido prosiectau ar y cyd | Rheoli Gwastraff Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Uned AHNE | JAC<br>CNC<br>Prifysgol Bangor<br><br>Uned AHNE<br><br>Cymunedau Busnesau | 2023-24/ Ar y gweill<br><br>Parhaus<br><br>Parhaus |
| **LWL 6.1- 6.4** | **Trafnidiaeth**<br>Mae asiantaethau trafnidiaeth cenedlaethol a lleol wedi rhoi polisïau, canllawiau a phenderfyniadau ar waith i warchod a gwella rhinweddau arbennig yr AHNE, cynnal nodweddion unigryw lleol, darparu gwasanaethau a chefnogi economi wledig fywiog. | 1. Sicrhau bod yr Uned AHNE yn cael cyfle i gyfrannu at unrhyw gynlluniau a rhaglenni trafnidiaeth<br><br>2. Sicrhau bod strategaethau trafnidiaeth a hawliau tramwyo cyhoeddus yn cefnogi amcanion a pholisïau Cynllun Rheoli'r AHNE<br><br>3. Cynhyrchu a chyhoeddi Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol i gefnogi'r Cynllun Rheoli AHNE a'r Cynllun Datblygu Lleol. | Uned Drafnidiaeth Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Unedau Trafnidiaeth a Hawliau Tramwy Cyhoeddus<br><br>Uned Polisi Cynllunio<br>Uned Drafnidiaeth | Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | Parhaus<br><br>Parhaus<br><br>2024-25 |



DRAFT

**THEMA:** Cymunedau Bwyiog mewn Tirwedd Weithredol

**NOD:** Mae cymunedau yn yr AHNE a'r cyffiniau yn cyfrannu at gadwraeth a gwella ei rhinweddau a'i nodweddion arbennig ar yr un pryd â chynyddu eu gweithgareddau economaidd a chymdeithasol presennol yn gynaliadwy.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **LWL 7.1- 7.2** | **<u>Gweithio Mewn Partneriaeth</u>**<br>Bydd JAC yn chwilio'n barhaus am gyfleoedd i hyrwyddo cydweithio gyda rhanddeiliaid a rhyngddynt er mwyn sicrhau dibenion dynodi a sicrhau'r cyllid gorau posibl. | 1. Ymestyn contractau 2 o Wardeiniaid Cymunedol yr AHNE a Swyddog Prosiect Cynorthwyol yr AHNE er mwyn gallu rhoi Cynllun Gweithredu Cynllun Rheoli'r AHNE ar waith yn effeithiol<br>2. Adolygu a chryfhau rôl JAC, gan gynnwys llywodraethu a hyfforddi<br>3. Chwilio am adnoddau newydd ac ychwanegol i weithredu Cynllun Gweithredu Cynllun Rheoli'r AHNE<br>4. Trefnu 4 cyfarfod JAC bob blwyddyn [ac 1 o'r rhain yn ymweliad â'r safle/prosiect].<br>5. Mynychu a chyfrannu at Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol Cymru (NDLWP)<br>6. Parhau i fod yn aelodau, cymryd rhan a chyfrannu at NAAONB ac Europarc: mynychu cyfarfodydd, seminarau, gweithdai, digwyddiadau hyfforddi a chynadleddau pan fo hynny'n briodol | Uned AHNE<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Uned AHNE<br>Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE<br><br>Uned AHNE | LlC<br><br>JAC<br><br>LlC<br>CNC<br><br>JAC<br><br>NDLWP<br>LlC<br>CNC<br><br>NAAONB | 2024<br><br>2023-24<br><br>Parhaus<br><br>Yn chwarterol<br><br>Yn chwarterol<br><br>Parhaus |



DRAFT

**THEMA:** Mynd i'r Afael a'r Argyfwng Byd Natur

**NOD:** Mae'r gymuned gyfan wedi derbyn pwysigrwydd gwarchod y byd naturiol a bywyd gwyllt ac mae'n cefnogi deddfwriaeth sy'n diogelu rhinweddau arbennig amgylchedd yr AHNE. Mae safleoedd bywyd gwyllt dynodedig yn cael eu rheoli'n sensitif ac yn ffurfio rhan o fatrics cynyddol gyfoethog o gefn gwlad sy'n ystyriol o fywyd gwyllt. Bydd achosion o lygredd pridd, aer a dŵr yn yr AHNE yn cael eu lleihau.

DRAFT

| Cyf. Polisi | Amcan | Camau gweithredu i gyflawni'r amcan hwn | Arweinydd | Partneriaeth/ Cydweithredu | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **NE 1.1- 1.5**<br> | **<u>Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau</u>**<br>Mae'r arfordir a chefn gwlad yn cael eu rheoli'n sensitif i gynnal amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau mewn cyflwr ffafriol ac i wella cysylltedd rhwng safleoedd. | 1. Yr Uned AHNE i gynorthwyo a chyfrannu at flaenoriaethau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Ynys Môn a chamau gweithredu yng Nghynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol CSYM | PBNE | LNP<br>Uned AHNE | Parhaus |
| | | 2. Bydd yr Uned AHNE yn cydweithio'n agosach ag Uned Cynllunio, Adeiladu a'r Amgylchedd Naturiol Cyngor Sir Ynys Môn i rannu adnoddau, cyfnewid gwybodaeth a pharatoi ceisiadau am gyllid ar y cyd. | Uned AHNE | PBNE | Parhaus |
| | | 3. Yr Uned AHNE yn cydweithio â Phartneriaid i arwain a gweinyddu rhaglenni cyllid Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar weundir, dolydd blodau gwyllt, lleiniau ymyl ffordd / cadwraeth a rheoli cylchfannau. | Uned AHNE | Cyngor Sir Ynys Môn<br>JAC<br>Tirfeddianwyr / Rheolwyr tir<br>Cynghorau Cymuned | 2022-25 |
| | | 4. Yr Uned AHNE i arwain a chydlynu Partneriaeth Jac y Neidiwr a'i hehangu i Bartneriaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol [INNS] | Uned AHNE | JAC<br>CNC | Chwemisol |
| | | 5. Drwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, cytuno ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Cofnod | | PBNE<br>Rheoli Datblygu | 2023-25 |

**THEMA:** Mynd i'r Afael a'r Argyfwng Byd Natur

**NOD:** Mae'r gymuned gyfan wedi derbyn pwysigrwydd gwarchod y byd naturiol a bywyd gwyllt ac mae'n cefnogi deddfwriaeth sy'n diogelu rhinweddau arbennig amgylchedd yr AHNE. Mae safleoedd bywyd gwyllt dynodedig yn cael eu rheoli'n sensitif ac yn ffurfio rhan o fatrics cynyddol gyfoethog o gefn gwlad sy'n ystyriol o fywyd gwyllt. Bydd achosion o lygredd pridd, aer a dŵr yn yr AHNE yn cael eu lleihau.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Uned AHNE | Cyngor Sir Ynys Môn | |
| **NE 2.1- 2.3** | **<u>Pridd, Aer a Dŵr</u>**<br>Mae ansawdd y pridd, yr aer a'r dŵr – dŵr croyw | 1. Casglu data perthnasol y gellir ei ymgorffori a'i ddiweddaru yn Adroddiad Cyflwr yr AHNE a helpu i bennu'r gwerthoedd sy'n gysylltiedig â'r dull rheol ar lefel yr ecosystem | Cyngor Sir Ynys Môn | CNC<br>LlC | Blynyddol |



DRAFT

**THEMA:** Mynd i'r Afael a'r Argyfwng Byd Natur

**NOD:** Mae'r gymuned gyfan wedi derbyn pwysigrwydd gwarchod y byd naturiol a bywyd gwyllt ac mae'n cefnogi deddfwriaeth sy'n diogelu rhinweddau arbennig amgylchedd yr AHNE. Mae safleoedd bywyd gwyllt dynodedig yn cael eu rheoli'n sensitif ac yn ffurfio rhan o fatrics cynyddol gyfoethog o gefn gwlad sy'n ystyriol o fywyd gwyllt. Bydd achosion o lygredd pridd, aer a dŵr yn yr AHNE yn cael eu lleihau.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | a dŵr môr – yn cael ei fonitro'n rheolaidd i gynnal safonau sy'n rhagori ar safonau'r DU ac Ewrop. | 2. Cefnogi gwaith CSYM ac asiantaethau i fonitro ac adrodd ar ansawdd pridd, aer a dŵr<br><br>3. Gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Undebau Ffermio i gasglu data perthnasol a deall y cysylltiadau â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn well | Cyngor Sir Ynys Môn<br><br>Cyngor Sir Ynys Môn | CNC<br>LIC<br>Dŵr Cymru<br><br>Undebau Ffermio | Blynyddol<br><br>2022-25 |
| **NE 3.1- 3.3** | **<u>Ardaloedd Dynodedig a Safleoedd Pwysig Eraill</u>**<br>Mae safleoedd bywyd gwyllt statudol ac anstatudol yn cael eu rheoli am eu gwerth o ran bioamrywiaeth, estheteg ac amwynder. | 1. Gweithio gyda JAC a phartneriaid i ganfod meysydd addas ar gyfer cydweithio, ceisiadau am gyllid ar y cyd a chyfleoedd gwirfoddoli | LNP | Uned AHNE<br>JAC | 2023-24 / Ar y gweill |

DRAFT

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Y Pwyllgor Gwaith / Cyngor Llawn** |
| Dyddiad: | **18/07/2023, 12/09/2023** |
| Pwnc / Testun: | **Mabwysiadu Cynllun Deisebau Drafft** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Cynghorydd Carwyn Elias Jones**<br>**(Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer)** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lynnball@ynysmon.llyw.cymru** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Lynn Ball**<br>**Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**lynnball@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Ddim yn fater lleol** |

## A – Argymhelliad

**Y Pwyllgor Gwaith**

1. I ystyried y Cynllun Deisebau ("y Cynllun") drafft yn **Atodiad 1** yr Adroddiad hwn, a gwneud argymhellion, os o gwbl, i'r Cyngor llawn ynghylch. mabwysiadu'r Cynllun.

**Y Cyngor**

2. I ystyried y Cynllun yn **Atodiad 1** yr Adroddiad hwn a'i fabwysiadu.

3. Caniatáu'r Swyddog Monitro i addasu Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn ymgorffori'r Cynllun.

4. Rhoi awdurdod i'r Swyddog Monitro wneud addasiadau bach i'r Cynllun, er mwyn sicrhau y gellir ei weithredu'n ddidrafferth, a bydd unrhyw newidiadau materol yn cael eu hawdurdodi gan y Cyngor llawn yn unig.

5. Caniatáu'r Pennaeth Democrataidd i weithredu'r Cynllun cyn gynted â bo'n bosibl, a sicrhau y dilynir y camau priodol i hyrwyddo'r Cynllun i'r cyhoedd.

6. Gofyn i'r Pennaeth Democrataidd baratoi adroddiad i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar weithrediad y Cynllun cyn gynted â phosibl 12 mis ar ôl y dyddiad gweithredu.





**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

## A – Rhesymau

1.1 Mae Adran 42 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar brif gynghorau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Deisebau. Cyhoeddwyd y Canllawiau drafft perthnasol ym mis Ebrill 2023.

1.2 Mae'r Cynllun hwn yn ychwanegol at drefniadau presennol Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor sy'n galluogi aelodau etholedig i gyflwyno deisebau yng nghyfarfodydd y Cyngor. Nid yw'r Cynllun yn disodli'r trefniadau.

1.3 Mae'r Cynllun, yn **Atodiad 1** yr Adroddiad hwn, yn bodloni gofynion statudol newydd, gan gynnwys darparu eglurhad am yr hyn a ystyrir yn ddeiseb ddilys, pwy all gyflwyno deiseb, sut i gyflwyno deiseb a sut fydd y Cyngor yn delio â'r deisebau mae'n eu derbyn.

1.4 Bydd deisebau dilys yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Bydd deisebau electronig hefyd yn ymddangos ar wefan y Cyngor gan ddefnyddio meddalwedd Modern.Gov, sy'n cefnogi'r system bwyllgorau.

1.5 Nodir yn arbennig na fydd y Cynllun yn berthnasol os oes proses ymgynghori statudol eisoes ar waith e.e. ym maes cynllunio, trwyddedu a moderneiddio ysgolion.

1.6 Cafodd y Cynllun ei ystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth ar 5/12/2022 a 26/6/2023, a chynhaliwyd ymgynghoriad yn ei gylch gan y Penaethiaid Gwasanaeth a swyddogion perthnasol eraill yn ystod mis Rhagfyr 2022 a Ionawr 2023. Cafodd ei gyflwyno i'r Arweinyddion Grwpiau ar 22/3/2023 ac roedd yn agored i ymatebion ymgynghoriad gan yr Arweinyddion Grwpiau rhwng 22/3/2023 a 28/4/2023.

1.7 Bydd y Cynllun yn cael ei weithredu a'i reoli gan y Gwasanaethau Democrataidd, a gyda chaniatâd y Cyngor, bydd yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ymhen 12 mis ar ôl dechrau gweithredu'r Cynllun.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill gan fod mabwysiadu Cynllun sy'n cydymffurfio bellach yn ofyniad statudol. Roedd / mae rhai elfennau o'r Cynllun yn fater o ddewis lleol. Trafodwyd y rhain gyda'r Tîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, swyddogion perthnasol eraill ac Arweinyddion Grwpiau. Mae

| |
|---|
| cynnwys y Cynllun yn cynrychioli safbwynt y mwyafrif o’r Arweinyddion Grwpiau a’r Uwch Swyddogion. Os bydd yr elfennau hynny angen eu hadolygu ymhellach, gall y Cyngor wneud newidiadau yn y dyfodol. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i’r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Bydd newidiadau i’r Cyfansoddiad yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn yn unig, ar ôl ystyried y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith (Adran 2.15.2 y Cyfansoddiad) |

| Ch – A yw’r penderfyniad hwn yn gyson â’r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae newidiadau i’r Cyfansoddiad yn unol â darpariaethau statudol newydd. |

| D – A yw’r penderfyniad hwn oddi fewn i’r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Dim goblygiadau cyllidebol ar hyn o bryd. |

| Dd – Asesu’r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae’r penderfyniad yma’n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i’r dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amherthnasol. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio’r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai’r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Na, ond mae’r Cynllun yn darparu mecanwaith ychwanegol fel y gall dinasyddion Ynys Môn godi materion sy’n peri pryder, ac sydd o bwysigrwydd lleol, gyda’r Cyngor. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai’r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Bydd y Cynllun yn agored i unrhyw un dros 16 oed sydd â chysylltiad lleol perthnasol, fel y disgrifir yn y Cynllun.<br><br>Gall deisebau fod ar bapur neu’n electronig a bydd y Cyngor hefyd yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | ystyried barn y cyhoedd mewn nifer o wahanol ffyrdd. Mae rhai enghreifftiau wedi'u cynnwys yn y Cynllun Deisebau drafft. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Rydym yn galluogi ac yn annog y rheiny sydd eisiau cyflwyno deiseb i wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Cafwyd ymgynghoriad ar 5/12/2022 a 26/6/2023. Yn cefnogi'r argymhellion. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Ymgynghorwyd fel rhan o'r Tîm Arweinyddiaeth. Cefnogi'r ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r broses honno. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Awdur yr Adroddiad. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Rhan o'r ymgynghoriad gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a ddigwyddodd ym mis Rhagfyr 2022 a Ionawr 2023. Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad. |
| 5 | Eiddo | Rhan o'r ymgynghoriad gyda Phenaethiaid Gwasanaeth a ddigwyddodd ym mis Rhagfyr 2022 a Ionawr 2023. Ni dderbyniwyd gwrthwynebiad. |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | Cydweithio â Rheolwr y Tîm TG mewn perthynas ag elfennau technegol y prosiect. Argymhellwyd defnyddio'r system Mod.Gov. Gwaith yn parhau rhwng y tîm TG a'r Gwasanaethau Democrataidd. |



**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 7 | Caffael | Amherthnasol gan nad oes angen ymarferiad caffael. |
| 8 | Sgriwtini | Amherthnasol. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |
| 10 | Arall | Rheolwr Polisi a’r Gymraeg – cyngor ar yr iaith Gymraeg a materion cydraddoldeb. Ymgorfforwyd y cyngor yn y Cynllun. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad 1 – Cynllun Deisebau Drafft. |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.<br><br>Canllawiau Statudol ac Anstatudol ar gyfer Prif Gynghorau Cymru – cefnogi darpariaeth o fewn Deddf Llywodraeth Leol 2000, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. |

**Cynllun Deisebau Drafft**
**Cyngor Sir Ynys Môn**

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

DRAFT

| 1. | **Cyflwyniad** |
|---|---|
| | Mae'r broses ddeiseb hon yn rhoi cyfle i'r cyhoedd ddylanwadu ar benderfyniadau/blaenoriaethau gwleidyddol, a chodi pryderon sy'n bwysig iddyn nhw/eu cymunedau. |
| **2.** | **Pwnc y Deisebau** |
| | Gall y cyhoedd gyflwyno deisebau'n ymwneud â materion y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt, sy'n effeithio ar yr ardal, neu mae gan y Cyngor ddiddordeb gwirioneddol ynddynt. |
| **3.** | **Pwy all gyflwyno deiseb?** |
| | Gall unrhyw un sy'n byw, sy'n gweithio, sy'n berchen busnes, perchennog tir neu sy'n astudio ar yr Ynys drefnu/llofnodi deiseb; gan gynnwys y rheiny sy'n 16 oed a hŷn. |
| **4.** | **Sut i gyflwyno deiseb** |
| | Gellir cyflwyno deiseb ar bapur neu'n electronig<br><br>Dylid anfon deisebau papur at y Pennaeth Democratiaeth (drwy XXXXXXXX)<br><br>Fel arall, gellir cyflwyno deisebau electronig ar-lein gan ddefnyddio dolen |
| **5.** | **Gofynion ar gyfer deiseb ddilys** |
| | 1. Mae'n rhaid i bwnc y ddeiseb gydymffurfio â pharagraph 2 uchod.<br><br>2. Mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n trefnu'r ddeiseb, a'r llofnodwyr, fodloni'r gofynion cymhwystra a nodwyd ym mharagraff 3 uchod.<br><br>3. Rhaid cael o leiaf 100 o lofnodion dilys. Bydd y Cyngor yn defnyddio'i ddisgresiwn os derbynnir llai na 100 o lofnodion mewn achosion lle mae cefnogaeth leol glir ar gyfer gweithredu (er enghraifft, cymuned fechan sy'n ceisio mesurau gostegu traffig).<br><br>4. Rhaid cynnwys datganiad clir, cryno, sy'n delio â phwnc y ddeiseb ac sy'n nodi'r penderfyniad/au, gwerthred/oedd y gofynnir i'r Cyngor eu cymryd/eu gwneud. Ni fydd deisebau amwys yn ddilys |


**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

| | |
|---|---|
| 5. | Rhaid cynnwys y manylion cyswllt llawn (enw, cyfeiriad, unrhyw gyfeiriad e-bost a rhifau ffon trefnydd y ddeiseb). Bydd yr unigolyn hwn yn bwynt cyswllt i'r Cyngor ar gyfer cydnabod y ddeiseb ac unrhyw gyfathrebiadau ynghylch y ddeiseb. **Ni fydd** manylion cyswllt trefnydd y ddeiseb yn cael eu cyhoeddi gan y Cyngor. |
| 6. | Rhaid cynnwys enw, manylion cyswllt a llofnod pob unigolyn sy'n cefnogi'r ddeiseb. Bydd y gofyniad hwn yn berthnasol i ddeisebau ar bapur ar ôl eu derbyn ac e-ddeisebau pan fydd y ddeiseb honno'n cau ar gyfer derbyn llofnodion ar wefan y Cyngor. **Ni fydd** manylion cyswllt y bobl sy'n llofnodi'r ddeiseb yn cael eu cyhoeddi gan y Cyngor. |
| **6.** | **Deisebau Electronig** |

1. Mae'r Cyngor yn croesawu e-ddeisebau sy'n cael eu creu a'u cyflwyno drwy ein gwefan, drwy'r ddolen hon.
2. Mae'n rhaid i e-ddeisebau ddilyn yr un egwyddorion â deisebau ar bapur.
3. Bydd yn rhaid i drefnydd y ddeiseb ddarparu eu henw, eu cyfeiriad post, cyfeiriad/au e-bost a rhif/au ffôn i'r Cyngor.
4. Bydd trefnydd y ddeiseb hefyd angen penderfynu am ba hyd y bydd y ddeiseb ar agor i dderbyn llofnodion ar wefan y Cyngor; hyd at uchafswm o 3 mis o'i chyhoeddi.
5. Os bydd y Cyngor o'r farn na all gyhoeddi e-ddeiseb, am unrhyw reswm, bydd y Cyngor yn cysylltu â threfnydd y ddeiseb cyn pen 5 diwrnod gwaith o dderbyn y ddeiseb i egluro'r rhesymau am ei gwrthod. Yna, gellir newid/addasu deiseb a'i hail-gyflwyno am ystyriaeth bellach.
6. Pan fydd e-ddeiseb yn cau ar gyfer derbyn llofnodion bydd y trefnydd yn derbyn cydnabyddiaeth gan y Cyngor cyn pen 5 diwrnod gwaith, a bydd y ddeiseb yna'n cael ei thrin yn yr un modd ag unrhyw ddeiseb ar bapur
7. Gofynnir i unrhyw un sydd eisiau llofnodi e-ddeiseb ddarparu eu henw, cod post a chyfeiriad e-bost dilys. Ar ôl cyflwyno'r wybodaeth hon, bydd yr anfonwr yn derbyn neges e-bost i'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd. Bydd y neges e-bost hon yn cynnwys dolen y mae'n rhaid i'r derbynnydd glicio arni er mwyn cadarnhau bod y cyfeiriad e-bost yn ddilys. Ar ôl cwblhau'r cam hwn, bydd y 'llofnod damcaniaethol' yn cael ei ychwanegu'r i'r ddeiseb.
8. Bydd y rheiny sy'n pori'r e-ddeiseb yn gallu gweld enwau'r rheiny sydd wedi'i llofnodi, ond ni allant weld manylion cyswllt llofnodwyr.

| | |
|---|---|
| **7.** | **A oes unrhyw ddeisebau na ellir eu derbyn?** |
| | |

DRAFT



**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

Er bod y Cyngor yn credu bod Cynllun Deisebau effeithiol yn un o'r ffyrdd y gall fynd i'r afael â phryderon a blaenoriaethau'r cyhoedd/cymunedau, mewn rhai amgylchiadau, bydd deisebau'n cael eu gwrthod. Gall hyn gynnwys deisebau:

1. Nad ydynt yn bodloni un, neu fwy, o'r gofynion yn Adran 5 a 6 uchod.

2. Sy'n cynnwys iaith sarhaus, ddirmygus neu gythruddol. Yn ogystal â rhegi ag enllibion amlwg, mae hefyd yn cynnwys unrhyw iaith y gallai unigolyn rhesymol ei hystyried yn sarhaus.

3. Sy'n cynnwys datganiadau ffug neu ddifenwol.

4. Sy'n cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i hatal rhag ei chyhoeddi yn ôl Gorchymyn Llys, corff neu unigolyn gyda phwerau cyffelyb.

5. Sy'n cynnwys deunydd a all fod yn gyfrinachol, yn fasnachol sensitif neu a all achosi trallod neu golled personol.

6. Hyrwyddo unrhyw gynnyrch, gwasanaeth neu ddatganiadau a ystyrir yn hysbysebion.

7. Sy'n enwi unigolion, neu'n rhoi gwybodaeth a ellir ei defnyddio i adnabod unigolion yn hawdd.

8. Nad ydynt y sianel briodol (er enghraifft, gohebiaeth ynghylch mater personol neu fater sy'n destun achos Llys).

9. Ar faterion sydd eisoes yn destun penderfyniad gan yr Ombwdsmon (neu rywun a phwerau cyffelyb).

10. Sy'n geisiadau rhyddid gwybodaeth, sylwadau, cwynion neu ganmoliaeth. Bydd 'deisebau' o'r fath yn cael eu hanfon ymlaen at wasanaeth priodol er mwyn cael ymateb addas.

11. Sy'n codi materion yn ymwneud â chamymddwyn honedig gan Gynghorwyr neu weithwyr y Cyngor; byddant yn cael eu trin fel cwynion sy'n codi dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, a byddant yn cael eu hadrodd i'r Swyddog Monitro yn hytrach na chael eu hystyried dan y Cynllun Deisebau.

12. Ynghylch mater sy'n destun ymgynghoriad, neu gyfnod ymateb statudol; ymdrinnir â'r ddeiseb yn unol â'r trefniadau o fewn amserlen sydd wedi'i pharatoi ar gyfer y broses honno.

13. Sydd yr un fath, neu mae'r rhan fwyaf ohoni'r un fath â deiseb a gyflwynwyd o fewn y chwe mis blaenorol.

14. O system deiseb ar-lein eraill; er mwyn sicrhau nad yw deisebau wedi'u copïo neu eu haddasu.

15. Sy'n ffurfio rhan o nifer o ddeisebau a dderbyniwyd ar yr un pwnc / pynciau tebyg, sy'n ceisio'r un canlyniad / canlyniadau tebyg. Mewn achos o'r fath, dim ond un trefnydd a all gyflwyno eu deiseb i'r Cyngor. Bydd y Pennaeth Democratiaeth yn cysylltu â threfnydd pob deiseb a gofynnir iddynt gysylltu â'i gilydd er mwyn ystyried opsiynau, gan gynnwys cyfuno deisebau, a phenderfynu pa drefnydd fydd yn cyflwyno deiseb i'r Cyngor. Os na ellir dod i benderfyniad, bydd y ddeiseb gyda'r nifer uwch/uchaf o lofnodion yn cael ei derbyn a'i chyflwyno i'r Cyngor.

**8. Sut fydd y Cyngor yn delio â deisebau?**

1. Unwaith bydd y Cyngor wedi derbyn deiseb, bydd yn cael ei chydnabod cyn pen 5 diwrnod gwaith o'i derbyn. Dywedir wrth drefnydd y ddeiseb yr hyn mae'r Cyngor yn fwriadu ei wneud â'r ddeiseb, a phryd allant ddisgwyl clywed yn ôl gan y Cyngor.

2. Bydd yr holl ddeisebau dilys yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae hyn yn cyfeirio at ddeisebau sy'n cydymffurfio â gofynion y Cynllun Deisebau. Os bydd angen gwneud archwiliad pellach ar bwnc y ddeiseb, bydd y Cyngor yn hysbysu trefnydd y ddeiseb honno ynghyn â'r camau i'w cymryd a'r amserlen debygol.

3. Os bydd y Cyngor yn penderfynu nad yw deiseb yn ddilys/derbyniol, am unrhyw reswm/rhesymau, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i drefnydd y ddeiseb, yn egluro'r rhesymau ac yn cynnig cyngor i'r trefnydd ynghylch sut ellir addasu'r ddeiseb fel ei bod yn cyd-fynd â'r Cynllun Deisebau.

4. Bydd deisebau a dderbynnir mewn perthynas â chynllunio, trwyddedu neu geisiadau grant / apeliadau, nad ydynt wedi'u penderfynu, yn cael eu cyfeirio at y swyddog arweiniol, ac yn cael eu trin fel ymateb ymgynghori mewn perthynas â'r gais / apêl ac ati.

5. Bydd y gydnabyddiaeth/dilysiad cyntaf ar gyfer deiseb yn cael ei anfon at y trefnydd, a bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

6. Bydd deiseb sydd wedi cael ei derbyn/dilysu yn cael ei chyfeirio at y Cyngor llawn, neu'r Pwyllgor Gwaith, aelod perthnasol o'r Pwyllgor Gwaith neu'r Pwyllgor Sgriwtini neu unrhyw bwyllgor arall sydd â'r cylch gorchwyl mwyaf addas at bwnc y ddeiseb.

7. Bydd y Pennaeth Democratiaeth yn ystyried cais am ddeiseb, a bydd yna'n pennu dilysiad y ddeiseb honno. Yn ychwanegol at hynny, bydd yn trosglwyddo'r ddeiseb at bwyllgor/aelod Pwyllgor Gwaith perthnasol. Bydd y broses hon yn digwydd ar ôl derbyn deiseb bapur ac ar ddiwedd y cyfnod llofnodi ar gyfer e-ddeiseb.



DRAFT

| | |
|---|---|
| 8. Bydd gan drefnydd y ddeiseb yr hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod sy'n ystyried y ddeiseb. | |
| **9.** | **Os gwrthodir deiseb, a oes hawl i apelio?** |
| Os bydd trefnydd deiseb o'r farn nad yw ei ddeiseb wedi'i hasesu/clustnodi'n briodol, mae ganddo/ganddi'r hawl i ofyn i'r Swyddog Monitro adolygu'r penderfyniadau a wnaed. Bydd y Swyddog Monitro'n ystyried y cais cyn pen pum diwrnod gwaith o'i dderbyn. Os penderfynir nad yw'r Cyngor wedi ymdrin â'r ddeiseb yn briodol, bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei diddymu, a bydd y ddeiseb yn cael ei hystyried o'r newydd yn unol a'r egwyddorion a nodwyd yn y Cynllun hwn.<br><br>Ar ôl cwblhau adolygiad, bydd trefnydd y ddeiseb yn cael gwybod y canlyniad.<br><br>Bydd canlyniadau'r adolygiad hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. | |
| **10.** | **Sut gwneir penderfyniad ynghylch deiseb** |
| Os bydd deiseb yn cael ei chyfeirio at y Cyngor / Pwyllgor Gwaith / Pwyllgor, bydd trefnydd y ddeiseb yn cael 5 munud i gyflwyno'r ddeiseb mewn unrhyw gyfarfod ffurfiol, ac ar ôl hynny, bydd y ddeiseb yn destun trafodaeth ymhlith y Cynghorwyr a oedd yn bresennol. Caniateir uchafswm o 15 munud i drafod y ddeiseb, ond efallai y bydd hyn yn cael ei ymestyn yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.<br><br>Bydd y Cyngor/Pwyllgor ac yn y blaen, yn penderfynu sut i ymateb i'r ddeiseb. Efallai y penderfynir gohirio'r drafodaeth tra bod ymholiadau/archwiliadau pellach yn cael eu cwblhau; ar ôl hynny, efallai y bydd y ddeiseb yn cael ei dychwelyd i'r Cyngor/Pwyllgor am drafodaeth /penderfyniad pellach ar ddyddiad arall. Efallai y penderfynir gwneud y penderfyniad/dilyn y camau a geisiwyd yn y ddeiseb. Efallai y byddant yn gwrthod gwneud y penderfyniad/dilyn y camau a geisiwyd yn y ddeiseb, am y rhesymau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth. Efallai y byddant yn cyfeirio'r mater i ddwylo corff arall, at wasanaeth penodol neu uwch swyddog.<br><br>Bydd trefnydd y ddeiseb yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o'r penderfyniad terfynol a bydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor | |
| **11.** | **A oes unrhyw ffyrdd eraill y gall y cyhoedd sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried?** |
| Bydd y Cyngor yn ystyried safbwyntiau'r cyhoedd drwy'r Cynllun Deisebau hwn, yn ogystal â nifer o ffyrdd eraill. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i dderbyn adborth am ei fod yn helpu i wneud y penderfyniadau gorau o ran polisi a phenderfyniadau strategol, yn ogystal â datblygu ac adolygu gwasanaethau. Gall y cyhoedd ddweud eu dweud mewn ffyrdd eraill gan gynnwys:- | |

DRAFT



**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English**

- Cysylltu â'ch Cynghorydd Sirol Lleol: Cyngor Sir Ynys Môn (ynysmon.gov.uk)
- Gwneud cwyn drwy Weithdrefn Gwynion Corfforaethol y Cyngor: Sut i wneud cwyn swyddogol (llyw.cymru)
- Siarad yn gyhoeddus ar geisiadau cynllunio unigol o flaen y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion: y cyhoedd yn siard yn y pwyllgor cynllunio (llyw.cymru)
- Siarad yn gyhoeddus ym Mhwyllgor Sgriwtini Corfforaethol y Cyngor: Siarad cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini (llyw.cymru)
- Siarad yn gyhoeddus yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio: Siarad cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini (llyw.cymru)
- Cyfrannu at ymgynghoriadau statudol ac anstatudol ynghylch materion corfforaethol allweddol, megis Cynllun pum mlynedd y Cyngor, yr Hunanasesiad Blynyddol, ac Asesiad Perfformiad pum mlynedd y Panel.
- Gellir hefyd cyfrannu at ymgynghoriadau ar faterion materol sy'n berthnasol a gwasanaethau: https://www.anglesey.gov.wales/en/browse/Get-involved/Consultations/

DRAFT

**Fersiwn Drafft 3**

Dyddiad mabwysiadu:

Dyddiad yr adolygiad nesaf:

**TROEDNODYN**

1. Cyn trefnu/cyflwyno deiseb, cynghorir trefnydd deiseb i wirio a yw'r Cyngor eisoes yn gweithredu ar y mater y bwriedir ei gynnwys fel pwnc y ddeiseb, gyda'u Cynghorwyr Sirol lleol, neu Wasanaeth perthnasol yn y Cyngor.

2. Dylai trefnydd deiseb hefyd ystyried ai'r Cyngor Sir yw'r corff mwyaf priodol i dderbyn y ddeiseb. A yw pwnc y ddeiseb o fewn y cwmpas perthnasol, fel y nodwyd yn Adran 2 uchod. Yn ogystal, efallai y bydd deisebau'n fwy priodol ar gyfer corff cyhoeddus arall, megis cyngor tref neu gymuned.

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 12 Medi 2023 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Penodi aelod etholedig ar y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568) lbxcs@ynysmon.gov.uk |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I'r Cyngor benodi aelod etholedig ar y Pwyllgor Safonau |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568) lbxcs@ynysmon.gov.uk |

**A. Cefndir:**

1. Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol ac mae'n gyfrifol am hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr sir Ynys Môn ac aelodau'r cynghorau cymuned yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys helpu cynghorwyr i ddilyn y Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau.

2. Mae gan Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn 9 aelod (2 gynghorydd sir, 5 aelod annibynnol a 2 aelod o'r cynghorau tref a chymuned). Mae'n ofyn deddfwriaethol bod y pwyllgor yn cynnwys cynrychiolaeth o'r tri categori yma ymysg ei aelodaeth gyda mwyafrif aelodau'r pwyllgor yn aelodau annibynnol.

3. Mae manylion y pwyllgor a'i aelodaeth cyfredol ar gael yma.

4. Mae proses er mwyn llenwi sedd wag achlysurol ymysg aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn mynd rhagddi ar hyn o bryd. Bydd Panel Dethol y Pwyllgor Safonau'n cyfarfod yn fuan er mwyn cyfweld yr unigolion sydd wedi eu dewis ar y rhestr fer. Mae'r Panel Dethol yn cynnwys aelod annibynnol, cynrychiolydd y cynghorau tref a chymuned yn yr ardal a thri Chynghorydd Sir (Cynghorwyr Aled Morris Jones, Dylan Rees a Margaret Murley Roberts). Penderfyniad y Cyngor llawn fydd i benodi ar sail argymhelliad y Panel Dethol. Bydd hyn yn destun adroddiad gerbron y Cyngor maes o law.

5. Cyflwynir yr adroddiad hwn gerbron y Cyngor Sir oherwydd fod sedd wag wedi codi ar y pwyllgor yn dilyn ymddiswyddiad un Cynghorydd Sir.

**B. Penodi aelod etholedig o'r Cyngor Sir ar y Pwyllgor Safonau:**

1. Y broses ar gyfer penodi aelod etholedig o'r Cyngor Sir ar y Pwyllgor Safonau ydi drwy benderfyniad y Cyngor llawn.

2. Yn unol â'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer Pwyllgorau Safonau,

    a. Nid yw'n bwyllgor sy'n denu cydbwysedd gwleidyddol;

    b. Ni chaniateir mwy nag un aelod o'r Pwyllgor Gwaith i gynrychioli'r aelodau etholedig ar y Pwyllgor Safonau.

       Mae'r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff ar y Pwyllgor Gwaith, eisoes yn aelod o'r Pwyllgor Safonau ac felly ni ellir penodi aelod arall o'r Pwyllgor Gwaith y tro hwn.

    c. Ni chaniateir i Arweinydd y Cyngor fod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau.

3. Bydd cyfnod y penodiad yn 4 mlynedd neu hyd nes yr etholiad cyffredin nesaf ar gyfer awdurdodau lleol, pa bynnag un sydd gynharaf.

4. Ceir ail-benodi aelod etholedig o'r Cyngor Sir fel cynrychiolydd ar y Pwyllgor Safonau am un tymor dilynol pellach.

**C. Penderfyniad:**

1. Bod y Cyngor yn enwebu aelod etholedig o'r Cyngor Sir, nad ydynt yn aelod o'r Pwyllgor Gwaith, fel aelod o'r Pwyllgor Safonau.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / Cyngor Sir |
| **Dyddiad:** | 29 Mehefin 2023 / 12 Medi 2023 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022-23 – Adroddiad y Cadeirydd |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151<br>MarcJones@ynysmon.llyw.cymru |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg<br>MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru |
| **Natur a Rheswm dros Adrodd**<br>Mae gofyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adrodd i'r 'rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant' (y Cyngor Sir) asesiad o'i berfformiad a'i weithgareddau yn ystod y flwyddyn er mwyn dangos sut y bu i'r Pwyllgor gyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar weithgareddau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2022-23. | |

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Ei swyddogaeth yw darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref a darparu sicrwydd annibynnol 'y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu' ar ddigonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd rheolaeth fewnol a chywirdeb y prosesau adrodd a llywodraethu ariannol.

1.2. Er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol, mae canllawiau CIPFA[1] yn nodi y dylai pwyllgorau archwilio adrodd yn rheolaidd ar eu gwaith i'r 'rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu', ac o leiaf adrodd yn flynyddol am asesiad o'u perfformiad. Dylai adroddiad cyhoeddus blynyddol ddangos sut mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad hwnnw.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2022-23 cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Sir ar 12 Medi 2023.

[1] Mae Datganiad Sefyllfa'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth: Pwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2022) a'r canllawiau cysylltiedig yn nodi barn CIPFA am rôl a swyddogaethau pwyllgor archwilio.




# ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022-23 – ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Marion Pryor BA MA CMIIA CPFA ACFS

Mehefin 2023

Pennaeth Archwilio a Risg

MarionPryor@ynysmon.llyw.cymru

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# TABL CYNNWYS


CYFLWYNIAD 3
CYFANSODDIAD A THREFNIADAU 4
TREFNIADAU ATEBOLRWYDD 6
LLYWODRAETHIANT 8
RHEOLI TRYSORLYS 10
GWERTH AM ARIAN 11
FFRAMWAITH SICRWYDD 12
RHEOLI RISG 14
ATAL TWYLL A LLYGREDD 15
ARCHWILIO MEWNOL 16
ARCHWILIO ALLANOL 18
ADRODDIADAU ARIANNOL 19
DELIO Â CHWYNION 20
ADRODDIAD HUNANASESIAD 21
ASESIAD PERFFORMIAD PANEL 22
ADOLYGIAD ARBENNIG GAN YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL 23
ATODIAD A: AMLDER CYFARFODYDD A PHRESENOLDEB 24
ATODIAD B: HYFFORDDIANT A FYNYCHWYD GAN YR AELODAU 2022-23 25

# CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor. Mae'n darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethiant da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn (3.4.8.1.1).

Ei bwrpas yw rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor llawn ("*y rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant*") ynghylch digonolrwydd y fframwaith rheoli risg, yr amgylchedd reoli fewnol a chywirdeb y prosesau adrodd ariannol a llywodraethu (3.4.8.1.2).

Mae'n cynnal trosolwg o weithgareddau archwilio mewnol (3.4.8.10) ac allanol (3.4.8.11) a rheoleiddwyr eraill (3.4.8.13), er mwyn helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol ar waith. Y mae hefyd yn adolygu, asesu ac adrodd ar allu'r Awdurdod i ddelio gyda chwynion yn effeithiol (3.4.8.14) ac mae'n argymell gwelliannau yn y maes hwn. Yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, bydd hefyd yn derbyn a chyflwyno sylwadau ar adroddiad hunanasesu'r Cyngor (3.4.8.15) ac adroddiad y panel asesu perfformiad (3.4.8.16).

Mae gwahaniaeth clir rhwng rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a rôl y pwyllgorau sgriwtini.  Rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw cael sicrwydd bod systemau rheoli mewnol y Cyngor yn gweithio a bod risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol, yn hytrach na chraffu ar weithgareddau (3.4.8.1.3).

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, mae canllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)[1] yn nodi y dylai pwyllgorau archwilio adrodd yn rheolaidd ar eu gwaith 'i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant', a chyflwyno adroddiad ar eu hasesiad o'u perfformiad o leiaf unwaith y flwyddyn. Dylai adroddiad cyhoeddus blynyddol ddangos sut mae'r pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â'r gofyniad hwn drwy asesu gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2022-23 yn erbyn ei gylch gorchwyl, sydd wedi'i ymgorffori yng Nghyfansoddiad[2] y Cyngor, fersiwn 2.78 a ddiweddarwyd ar 25 Ebrill 2023.

---

[1] Mae Datganiad Sefyllfa: Pwyllgorau Archwilio Awdurdodau Lleol a Heddluoedd (2022) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a chanllawiau cysylltiedig yn nodi barn CIPFA ynghylch rôl a swyddogaethau pwyllgor archwilio.
[2] Cyfeirir at yr adain berthnasol o'r Cyfansoddiad mewn cromfachau.

# CYFANSODDIAD A THREFNIADAU

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi cynnal ei fusnes yn anwleidyddol ac wedi glynu wrth y rheolau ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol (3.4.8.2.1).

Roedd y Pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig a phedwar aelod lleyg,  Roedd y Cynghorydd Liz Wood yn absennol am gyfnod byr yn ystod y flwyddyn. Ymunodd y Cynghorydd  Aled Morris Jones â'r Pwyllgor yn ei lle ar sail dros dro. Fe wnaeth pob aelod ddatgan diddordeb lle bo'n briodol  (3.4.8.2.2).

Mae angen i'r Deilydd Portffolio Cyllid, cyn belled ag y bo hynny'n bosib, fynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor (3.4.8.2.2), a mynychodd chwech o'r wyth cyfarfod a gynhaliwyd o'r Pwyllgor yn ystod 2022-23 Atodiad A.

Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn aelod lleyg ac, felly, nid oedd yn Gynghorydd etholedig nac yn aelod o grŵp a oedd yn rhan o Bwyllgor Gwaith y Cyngor (3.4.8.2.3).

Mae swyddogion wedi mynychu cyfarfodydd ar gais aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (3.4.8.2.4).

Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn (3.4.8.2.5). Cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol (cyfarfodydd hybrid) ar wyth achlysur, yn cynnwys dau gyfarfod arbennig i ystyried y Datganiad Cyfrifon drafft a therfynol ar gyfer 2021-22 ac adroddiad yr Archwilydd Allanol ar y Datganiadau Ariannol (Adroddiad ISA 260). Mae'r presenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2022-23 wedi bod yn dda (Atodiad A).

Lle bo angen, mae'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 wedi darparu cyngor i'r Pwyllgor, ac y mae wedi cael mynediad uniongyrchol a dilyffethair i'r Pwyllgor (3.4.8.2.6). Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi comisiynu gwaith yn uniongyrchol gan yr archwilwyr mewnol ar ffurf adroddiadau cynnydd ar archwiliadau unigol (3.4.8.2.7).

Ni fu'n rhaid i'r archwilwyr allanol na mewnol ofyn i'r Cadeirydd ystyried unrhyw fater y dylid ei ddwyn i sylw'r Cyngor ym marn yr archwilwyr (3.4.8.2.8).

Derbyniodd yr aelodau presennol hyfforddiant parhaus (Atodiad B), adroddiadau ar ddeddfwriaeth newydd, canllawiau proffesiynol ac ymchwil. Cynhaliwyd arolwg o wybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, a chafodd y canlyniadau eu hanfon at y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol i'w cynnwys yn y rhaglen hyfforddi ar gyfer aelodau 2023-24 (3.4.8.2.9).

Yn ystod 2021-22, fe wnaeth y Pwyllgor ystyried a chymeradwyo cylch gorchwyl diwygiedig yn dilyn newidiadau yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ym mis Chwefror 2023, fe wnaeth y Pwyllgor adolygu ei gylch gorchwyl cyfredol i wneud yn siŵr ei fod yn addas ac yn cyd-fynd â'r canllawiau penodol ar gyfer y sector a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ym mis Rhagfyr 2022. Gan nad oedd y canllawiau'n cynnwys newidiadau a oedd yn effeithio ar gylch gorchwyl cyfredol y Pwyllgor, penderfynodd y Pwyllgor eu cymeradwyo heb fod angen unrhyw newidiadau.

# TREFNIADAU ATEBOLRWYDD

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn (*'i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant'*) ar ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor; ei drefniadau adrodd ariannol, a'i swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol (3.4.8.3.1).

Y mae hefyd yn bodloni'r gofyniad i adrodd ar effeithiolrwydd y Pwyllgor o ran cyflawni'i bwrpas a'i gylch gorchwyl cytunedig. Yn ystod 2022-23, cynhaliwyd hunanasesiad gwybodaeth a sgiliau gydag aelodau unigol o'r Pwyllgor er mwyn iddynt allu asesu eu heffeithiolrwydd a nodi unrhyw feysydd oedd angen ei ddatblygu a hyfforddiant. O ganlyniad, datblygwyd rhaglen o ddigwyddiadau ar y cyd â'r Rheolwr Datblygu AD (3.4.8.3.2).

Comisiynwyd y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i hwyluso hunanasesiad ansoddol yn 2023-24 gydag aelodau'r Pwyllgor. Bydd hefyd yn cynnwys adborth ar berfformiad y Pwyllgor gyda'r rheiny sy'n ymwneud â'r Pwyllgor neu'n dibynnu ar ei waith, yn cynnwys uwch reolwyr, i werthuso a ydi'r Pwyllgor yn ychwanegu gwerth i'r sefydliad ac, os felly, sut (3.4.8.3.2).

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried ei fusnes yn gyhoeddus, ac eithrio, llo bo'n briodol, pan gyfarfu'n breifat i ystyried eitemau o dan Adran 100 (A) (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972[3]. Yn ystod 2022-23, fe ystyriodd y Pwyllgor dair eitem yn breifat:-

- Adroddiad Diogelwch Seiber 2022 (Medi 2022)
- Diweddariadau ar y Gofrestr Risgiau Strategol (Medi 2022 a Chwefror 2023)
- Adroddiad Archwilio Mewnol 'Galw Gofal – Trefniadau Llywodraethu Partneriaeth' (Chwefror 2023)

Cyflwynwyd y Profion Budd y Cyhoedd priodol i'r Pwyllgor a chawsant eu derbyn ganddo.

[3] Eitemau o dan Atodlen 12A, Paragraff 14: Gwybodaeth yn ymwneud â materion ariannol neu fasnachol unigolyn penodol (gan gynnwys yr awdurdod sy'n dal y wybodaeth honno) a Pharagraff18: Gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw gamau a gymerwyd i atal, ymchwilio neu erlyn trosedd.

Ym mis Chwefror 2023, gofynnodd aelod o'r Pwyllgor a oedd angen eithrio'r Gofrestr Risgiau Strategol yn gyfan gwbl rhag cael ei thrafod mewn sesiwn agored oherwydd bod elfennau ohoni o ddiddordeb i'r cyhoedd . Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, gofynnodd y Pennaeth Archwilio a Risg am gyngor gan y Prif Weithredwr a'r Swyddog Monitro ynglŷn â'r mater a chytunwyd y byddai'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cael ei thrafod mewn sesiwn agored  yn y dyfodol (3.4.8.3.3).

Cafodd yr agenda ac adroddiadau eu cyhoeddi yn unol â'r amserlenni statudol ac roeddent ar gael i'w harchwilio (3.4.8.3.3).

# LLYWODRAETHIANT

Fe wnaeth y Pwyllgor ystyried Côd Llywodraethu Lleol y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2022. Nododd y Pwyllgor ei fod yn cael ei gyflwyno yn dilyn adolygiad mewnol o'r broses yn ystod 2022-23 drwy'r Grŵp Adolygu Perfformiad a Llywodraethu a'r Tîm Arweinyddiaeth, er mwyn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn dal i fod yn gadarn ac yn addas i'r diben a'u bod yn cael eu gweithredu a'u defnyddio'n effeithiol ym mhob agwedd ar fusnes y Cyngor (3.4.8.4.1/5).

Fe amlygodd y Pwyllgor anghysondebau rhwng y fersiwn Gymraeg a Saesneg o'r ddogfen a holwyd a ddylai'r ddogfen, sy'n edrych tua'r dyfodol ac sy'n weithredol am y cyfnod 2023 i 2028, gyfeirio at Gynllun cyfredol y Cyngor gan ei fod yn dod i ben yn 2022. Mewn ymateb, cynghorodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad bod yr ymrwymiadau yn y ddogfen yn nodi'r hyn mae'r Cyngor yn gobeithio'i gyflawni, a bod y dystiolaeth bod y rhain wedi cael eu gwireddu yn dod o'r ffynonellau sicrwydd. Nid yw'r dystiolaeth o ran Cynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2023 i 2028 ar gael eto.

Ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaeth y Pwyllgor adolygu ac asesu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn ystod ei adolygiad o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB) drafft (3.4.8.4.2). Bu i'r Pwyllgor nodi gwelliannau o ran darllenadwyedd a gosodiad y Datganiad ond nododd hefyd y byddai fersiwn cryno'n ddefnyddiol i'r cyhoedd. Fe wnaeth y Pwyllgor hefyd gwestiynu'r asesiad cyffredinol yn erbyn egwyddorion craidd y Fframwaith sydd wedi bod yn "Dda" mewn blynyddoedd dilynol a heb symud i'r lefel nesaf. Mewn ymateb, cynghorodd y Prif Weithredwr bod y categorïau'n eang ac y byddai'n rhaid i'r Cyngor allu dangos ymarfer arloesol er mwyn symud i "Rhagorol", rhywbeth sydd ddim bod amser yn hawdd mewn perthynas â llywodraethu.

Hefyd, gofynnodd y Pwyllgor am eglurder ynglŷn â mynd i'r afael â'r materion llywodraethu a nodwyd yn ystod 2021-22, yn enwedig rheiny'n ymwneud â'r cyfrifoldebau newydd a'r newidiadau a gyflwynwyd yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr bod y Ddeddf bellach yn gosod dyletswyddau a chyfrifoldebau newydd ar y Cyngor, a bod rhai wedi'u gweithredu tra bo eraill ar waith ac y byddant yn cael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

Ym mis Ionawr 2023, derbyniodd y Pwyllgor y fersiwn terfynol o’r DLIB a phenderfynodd ei gymeradwyo ar gyfer 2021-22 a’i gyfeirio i’w gymeradwyo gan y Cyngor llawn a’i lofnodi gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr (3.4.8.6.2).

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn mynnu’i fod yn adolygu’r trefniadau llywodraethu a sicrwydd sydd ar gael ar gyfer partneriaethau neu gydweithio sylweddol (3.4.8.4.6) a’i fod hefyd yn adolygu’r sicrwydd sydd ar gael ar gyfer rheoli’r risgiau sydd ynghlwm ag unrhyw bartneriaethau, yn cynnwys proffil risg y Cyngor fel rhan o’r partneriaethau hynny (3.4.8.8.1). Oherwydd y cylch Cyngor newydd, nid oedd adroddiad ar bartneriaethau sylweddol ar gael yn ystod 2022-23.  Gan nad oedd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio ar gael, bydd y gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cwblhau darn o waith yn ystod 2023-24 i roi’r sicrwydd hwn i’r Pwyllgor.

# RHEOLI TRYSORLYS

Mae'r Cyngor llawn wedi enwebu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys yn cael eu craffu'n effeithiol (3.4.8.5.1). Felly, mae'r Pwyllgor yn ymgymryd â rôl craffu yn unol â Chôd Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys, cyn eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn (3.4.8.5.2).

Ym mis Medi 2022, fe wnaeth y Pwyllgor adolygu'r **Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2022-22**, a oedd yn rhoi trosolwg o weithgareddau benthyca a buddsoddi'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ac yn amlygu perfformiad y Cyngor yn erbyn y dangosyddion darbodus a osodwyd ganddo.  Wrth ystyried yr adroddiad, roedd y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor yn cynnwys gwariant cyfalaf a thanwariant yn y gyllideb gyfalaf, cynnal pwerau prynu'r Cyngor a chynyddu enillion drwy fuddsoddi. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a'i anfon ymlaen i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith heb sylw pellach (3.4.8.5.1/2/3/4).

Ym mis Rhagfyr 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adolygiad canol blwyddyn o weithgareddau rheoli trysorlys a'r sefyllfa bresennol.  Yn dilyn trafodaeth ynglŷn ag amcangyfrifon gwariant cyfalaf y Cyngor, yr hyn sydd wedi achosi oedi  o ran y rhaglen gyfalaf a diogelwch rhoi benthyg a benthyca rhwng awdurdodau lleol,  penderfynodd y Pwyllgor nodi a derbyn yr adolygiad canol blwyddyn heb sylw pellach. Hefyd, penderfynodd y Pwyllgor argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn gofyn i'r Cyngor llawn gymeradwyo newid y cyfyngiad benthyca gwrthbarti ar gyfer awdurdodau lleol eraill yn codi o £5m i £10m (3.4.8.5.1/2/3/4).

Ym mis Chwefror 2023, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r **Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2023-24**, a oedd yn cynnwys y Strategaeth Buddsoddi Blynyddol, y Datganiad Polisi Blynyddol ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf, y Datganiad Polisi ar Reoli'r Trysorlys a'r Cynllun Dirprwyo Rheoli'r Trysorlys (3.8.4.5.1/4).

Yn dilyn trafodaeth ynglŷn ag ymarferoldeb cyllido'r gyllideb gyfalaf, y cynnydd mewn costau benthyca allanol gan fod y Cyngor wedi cyrraedd y terfynau benthyca mewnol  a disgwyliadau cyllido LIC i'r dyfodol a'r gofynion tebygol, e.e. amodau sero net, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn a nodi'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2023-24 a'i anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb sylw pellach.

# GWERTH AM ARIAN

Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu trefniadau cadarn i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau, a bod trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwerth gorau am arian (3.4.8.6.1).

Ym mis Gorffennaf 2022, adolygodd y Pwyllgor ddull cyffredinol y Cyngor tuag at sicrhau gwerth gorau am arian wrth adolygu Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft y Cyngor (3.4.8.6.2).

Ym mis Ebrill 2023, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i **Grynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer 2022**, a'r sicrwydd a'r asesiadau ar effeithiolrwydd o drefniadau'r Cyngor ar gyfer sicrhau gwerth gorau am arian (3.4.8.6.3). Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Pwyllgor bod Archwilio Cymru wedi cwblhau gwaith yn ystod 2021-22 i gwrdd â dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i weld a oedd y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth gorau am arian ar gyfer yr adnoddau a ddefnyddir ganddo. I gwrdd â'r ddyletswydd hon, cwblhaodd Archwilio Cymru brosiectau penodol, gan ddibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith rheoleiddwyr megis Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn (yr arolygiaeth addysg).

Wrth asesu a oedd y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth gorau am arian, cyfeiriodd Archwilio Cymru at ei waith ar ddatganiadau ariannol 2021-22, sy'n nodi bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi barn ddiamod, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor.

Cadarnhaodd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd bod y Cyngor wedi cwrdd â gweddill ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22, a bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran datblygu ei drefniadau i gwrdd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, yn cynnwys drafftio ei hunanasesiad blynyddol cyntaf (gweler yr Adroddiad Hunanasesiad isod). O ran ei gynlluniau lleihau carbon, roedd yr Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod bod gan y Cyngor weledigaeth ar gyfer ei uchelgais o ran datgarboneiddio ond mai dim ond megis dechrau oedd y siwrne, a'i fod angen gwneud gwaith pellach i ddeall ei ôl-troed carbon a'r gost ac effaith ei gamau gweithredu arfaethedig o ran carbon.

Penderfynodd y Pwyllgor nodi Crynodeb Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2022 a'r asesiad ynglŷn â oedd y Cyngor wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth gorau am arian.

# FFRAMWAITH SICRWYDD

Mae cael trosolwg o fframwaith sicrwydd y Cyngor yn galluogi'r Pwyllgor i gymeradwyo'r strategaeth archwilio mewnol yn seiliedig ar risg drwy ganfod i ba raddau y mae'n ddibynnol ar waith archwilio mewnol ar gyfer ei ofynion sicrwydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ceisio cael eglurder ynglŷn â'r sicrwydd a roddir, gwneud yn siŵr bod cyfrifoldebau dros ddarparu sicrwydd yn cael eu dyrannu'n eglur ac osgoi dyblygu gwaith (3.4.8.7.1/2).

Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i sicrwydd ynghylch rheoli risg, archwilio mewnol, a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn ogystal ag adroddiadau gan yr archwilwyr allanol.

Hefyd, yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau gan y darparwyr sicrwydd llinell gyntaf ac ail linell canlynol:-

Ym mis Medi 2022, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Prif Swyddog Iechyd a Diogelwch, sef yr **Adroddiad Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Blynyddol**. Cafwyd trafodaeth ynghylch materion yn ymwneud â darparu a mynychu hyfforddiant a'r gallu i adnabod tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, patrymau a / neu bwyntiau dysgu mewn atgyfeiriadau a wneir i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch  (HSE). Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chefnogi'r argymhelliad y dylai'r Cyngor ddilyn cynllun strategol ar gyfer rheoli Iechyd a Diogelwch a rhoi Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch Corfforaethol ar waith. Fodd bynnag, bu i'r Pwyllgor hefyd argymell bod yr adroddiadau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol Blynyddol yn y dyfodol yn cynnwys data ar y nifer o bobl a ddisgwylir ar sesiynau hyfforddi yn ogystal â'r nifer a fynychodd (3.4.8.7.1).

Hefyd, ym mis Medi 2022, derbyniodd y Pwyllgor yr **adroddiad Diogelwch Seiber TGCh Blynyddol.** Roedd yr adroddiad yn nodi'r bygythiadau seiber cyffredin a wynebir gan y Cyngor ac yn amlinellu'r mesurau lliniarol a gweithredol sydd ar waith i ganfod ac atal gweithgarwch maleisus. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi'r cynnwys (3.4.8.7.1).

Ym mis Rhagfyr 2022, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Prif Weithredwr a'r Rheolwr Newid Hinsawdd a oedd yn amlinellu ymateb y Cyngor i adroddiadau gan **Archwilio Cymru a Zurich Risk Engineering ar agwedd y sector cyhoeddus a Chyngor Sir Ynys Môn tuag at newid hinsawdd.** Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r gost o gyrraedd y targed sero net; sicrhau arbedion drwy'r mesurau sydd eisoes wedi cael eu rhoi ar waith, e.e. gosod paneli solar ar adeiladu'r Cyngor; darparu metrigau ar gyfer mesur cynnydd sero net; cymorth ac arbenigedd allanol; a'r her o fuddsoddi mwy mewn mentrau datgarboneiddio pan fo disgwyl i'r sefyllfa o ran y gyllideb waethygu dros y ddwy flynedd nesaf. Ar ôl nodi'r sicrwydd a roddwyd, gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad cynnydd pellach yng ngwanwyn 2023 (3.4.8.7.1/3.4.8.13).

Ym mis Chwefror 2023, derbyniodd y Pwyllgor **adroddiad y Swyddog Diogelu Data Ysgolion ynglŷn â oedd yn nodi'r materion llywodraethu gwybodaeth allweddol mewn perthynas ag ysgolion Ynys Môn** am y cyfnod Tachwedd 2021 i Ionawr 2023. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r trefniadau sydd ar waith i fynd ar drywydd gweithredu'r camau nesaf a monitro cydymffurfiaeth. Holodd y Pwyllgor ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer hyfforddi staff ysgol; rôl Cwmni CELyn o ran darparu cyngor arbenigol ar lywodraethu gwybodaeth a diogelu data i awdurdodau lleol; a'r trefniadau ar gyfer caffael pecynnau meddalwedd ar gyfer ysgolion a chydymffurfio â'r gofynion GDPR a diogelu data ar yr un pryd. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo camau nesaf arfaethedig y Swyddog Diogelu Data Ysgolion er mwyn galluogi ysgolion i weithredu yn gwbl unol â'r gofynion diogelu data (3.4.8.7.1).

# RHEOLI RISG

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu rheolaeth risg yn y Cyngor (3.4.8.8.1) yn ystod y flwyddyn.

Ym mis Medi 2022, derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar Gofrestr Risgiau Strategol y Cyngor, a oedd yn amlygu'r newidiadau o ran y gofrestr risgiau'n gyffredinol yn ogystal ag unrhyw risgiau penodol o ran tebygolrwydd ac effaith yn dilyn adolygiad y Tîm Arweinyddiaeth. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r saith risg allweddol coch / critigol gweddilliol a amlinellwyd, ac roedd y Pwyllgor yn derbyn y bydd rhai o'r risgiau hyn, oherwydd eu natur, bob amser yn bodoli gan eu bod yn gysylltiedig â phobl, asedau, technoleg gwybodaeth a'r economi ehangach ond bod modd i'r Cyngor eu cadw ar lefel dderbyniol drwy eu nodi, asesu a'u monitro'n rheolaidd. Penderfynodd y Pwyllgor nodi'r newidiadau a wnaed i'r Gofrestr Risgiau Strategol.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad tebyg ym mis Chwefror 2023 ac, yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd nodi'r diwygiadau a wnaed i'r Gofrestr Risgiau Strategol a chymryd sicrwydd bod y Tîm Arweinyddiaeth wedi cydnabod y risgiau wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a'i fod yn eu rheoli.

Ym mis Ebrill 2023, ystyriodd y Pwyllgor y Polisi a'r Strategaeth Rheoli Risg yn ogystal â'r Canllawiau Rheoli Risg atodol. Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â phennu'r archwaeth risg ar gyfer y gwahanol gategorïau risg o fewn y Datganiad Archwaeth Risg; rheoli risgiau'n gysylltiedig â chontractau, yn enwedig yn y sector adeiladu; a gwersi a ddysgwyd sydd wedi dod i'r amlwg, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn y Polisi a Strategaeth Rheoli Risg a nodi eu cynnwys.

# ATAL TWYLL A LLYGREDD

Ym mis Medi 2022, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg **Adroddiad Blynyddol Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd** ar gyfer 2021-22 (3.4.8.9.4). Fel rhan o'r adroddiad hwn, cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg i'r Pwyllgor y gyfradd cydymffurfiaeth bresennol (93%) ar gyfer gwybodaeth a dealltwriaeth y staff o'r Polisi a Chanllawiau Chwythu'r Chwiban  (3.4.8.9.1).

Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â defnyddio technoleg i daclo twyll a'r rhan y mae'r Cyngor yn ei chwarae yn y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI); achosion o dwyll yn ymwneud â'r Disgownt Person Sengl yn y Dreth Gyngor a defnyddio cwmni allanol i ddadansoddi data'r Disgownt Person Sengl pob hyn a hyn er mwyn nodi unrhyw anghysondebau a / neu wallau; pwysigrwydd addysgu staff ynglŷn â'r gwahanol fathau o dwyll a diffyg data rhanbarthol a lleol ynglŷn ag achosion o dwyll mewn sectorau penodol, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.

Ym mis Rhagfyr 2022, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad y Pennaeth Archwilio a Risg ar y **Strategaeth Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredd ar gyfer 2022-25** (3.4.8.9.2/3).

Yn dilyn trafodaeth, cydnabuwyd mai twyll seiber ydi'r risg pennaf i'r Cyngor a bod rhaid i'r Cyngor beidio bod yn hunanfodlon oherwydd maint yr awdurdod, ac fe amlygwyd bod bygythiadau seiber yn hollbresennol ac yn esblygu'n barhaus.

Yn dilyn trafodaeth bellach ynglŷn â'r angen am drefniadau rheoli cadarn ar gyfer rheoli bygythiadau seiber mewn ysgolion a sicrhau bod "canfod" twyll yn amcan allweddol yn strategaeth gwrth-dwyll y Cyngor, penderfynodd y Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

# ARCHWILIO MEWNOL

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi goruchwylio trefniadau archwilio mewnol y Cyngor (3.4.8.10.1). Trwy adolygu'r Strategaeth Archwilio Mewnol, yr Adroddiad Blynyddol ar Archwilio Mewnol a'r Siarter Archwilio Mewnol a diweddariadau rheolaidd gan y Pennaeth Archwilio a Risg, mae'r Pwyllgor wedi goruchwylio annibyniaeth, gwrthrychedd, perfformiad a phroffesiynolrwydd yr adain archwilio mewnol, cefnogi effeithiolrwydd y broses archwilio mewnol a hyrwyddo'r defnydd effeithiol a wneir o archwiliadau mewnol o fewn fframwaith sicrwydd y Cyngor (3.4.8.10.2).

Ym mis Mehefin 2022, derbyniodd y Pwyllgor y **Strategaeth Archwilio mewnol ar gyfer 2022-23** (3.4.8.10.1/2/5/6). Yn dilyn trafodaeth ynglŷn ag ystyr Gwydnwch Ariannol y Cyngor yng nghyd-destun y cynnydd mewn prisiau ynni a deunyddiau ac ar ôl derbyn eglurhad y bydd y gwaith archwilio mewnol yn y maes hwn yn canolbwyntio ar sut mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23 a chymeradwyo'r dull a'r blaenoriaethau a amlinellwyd er mwyn cyflawni anghenion sicrwydd y Cyngor.

Hefyd ym mis Mehefin 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r **Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2021-22**, yn cynnwys barn y Pennaeth Archwilio a Risg ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol y fframwaith llywodraethu a rheolaeth risg y Cyngor, ynghyd â chrynodeb o'r gwaith a oedd yn cefnogi'r farn honno (3.4.8.10.6/7/8/9/12/14/15). Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio a Risg ei bod hi o'r farn, fel 'prif weithredwr archwilio' Cyngor Sir Ynys Môn, bod fframwaith rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad wedi bod yn ddigonol ac effeithiol yn ystod y 12 mis hyd at 31 Mawrth 2022.

O fewn yr adroddiad, bu i'r Pwyllgor nodi y cynhelir yr asesiad sicrhau ansawdd allanol nesaf ar gyfer archwilio mewnol yn ystod yr haf gan adolygiad gan gymheiriaid gan Gyngor Sir y Fflint (3.4.8.10.14).

Yn dilyn trafodaeth ar bob math o feysydd, yn benodol trosiant staff, recriwtio a chadw staff a gweithio o bell, bu i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad.

Ym mis Rhagfyr 2022, fe wnaeth y Pwyllgor adolygu a chymeradwyo'r **Siarter Archwilio Mewnol**, sy'n diffinio'r gweithgareddau, pwrpas, awdurdod a chyfrifoldebau o ran archwilio mewnol (3.4.8.10.3). Yn dilyn trafodaeth ar ddefnyddio'r term 'cwsmeriaid' i ddiffinio derbynwyr gwasanaethau Archwilio Mewnol, penderfynodd y Pwyllgor gymeradwyo priodoldeb parhaus y Siarter Archwilio Mewnol a nodi'r mesurau diogelu a roddwyd ar waith i sicrhau na fydd unrhyw rolau a chyfrifoldebau ychwanegol a ymgymerir gan y Pennaeth Archwilio a Risg y tu allan i'r maes archwilio mewnol yn amharu ar ei hannibyniaeth a gwrthrychedd (3.4.8.10.13).

Drwy gydol y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariad ar weithgareddau archwilio mewnol yn cynnwys canfyddiadau allweddol, meysydd pryder, ymateb rheolwyr a'r camau gweithredu a oedd ar y gweill o ganlyniad i waith archwilio mewnol (Mehefin, Medi, Rhagfyr 2022 a Chwefror ac Ebrill 2023). Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i grynodeb o adroddiadau archwilio mewnol penodol yn ôl y gofyn, yn cynnwys copïau llawn o'r adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig, ynghyd â'r cynlluniau gweithredu a gytunwyd gyda'r rheolwyr (3.4.8.10.10).

Fe wnaeth y Pwyllgor fonitro'r gwaith o weithredu'r camau gweithredu cytunedig drwy dderbyn dau adroddiad, un ym mis Medi 2022 a'r llall ym mis Ebrill 2023 (3.4.8.10.10/11). Ym mis Medi 2022, cefnogodd y Pwyllgor gynnig y byddai perchnogion materion / risgiau sylweddol neu ambr sydd heb eu datrys 12 mis ar ôl y dyddiad targed, yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod or Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflwyno gwybodaeth am y rheswm dros yr oedi wrth fynd i'r afael â'r mater / risg.

Fel rhan o'r protocol newydd hwn, ym mis Ebrill 2023, cafodd y Pwyllgor ddiweddariad gan y Rheolwr Gwasanaeth (Tai Cymunedol) mewn perthynas â mynd i'r afael â mater / risg sylweddol neu ambr a nodwyd wrth archwilio'r broses Dyrannu Tai. Ar ôl gwneud ymholiadau ynglŷn ag ychwanegu amserlenni'r broses Ddyrannu Tai i system Rheoli Perthynas Cwsmer (CRM) y Cyngor, penderfynodd y Pwyllgor nodi cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â materion / risgiau archwilio mewnol sydd yn weddill.

Mae'r Pwyllgor a'r Pennaeth Archwilio a Risg yn ymgysylltu'n effeithiol (3.4.8.10.16). Yn benodol, roedd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob amser ar gael i'r Pennaeth Archwilio a Risg, yn cynnwys y cyfle i gael cyfarfod preifat â'r Pwyllgor, ar gais (3.4.8.10.17).

# ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio trefniadau archwilio allanol ac yn ystyried cwmpas a manylder y gwaith archwilio allanol. Ym mis Mehefin 2022, derbyniodd y Pwyllgor Gynllun gan Archwilio Cymru ar gyfer 2021-22, a oedd yn nodi'r gwaith arfaethedig mewn perthynas ag archwilio ariannol, y rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer y flwyddyn, ynghyd â'r rhaglen ar gyfer y gwaith ardystio grantiau a'r amserlen ar gyfer adroddiadau archwilio (3.4.8.11.1/3).

Ym mis Chwefror 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i lythyr blynyddol yr archwilydd allanol a'r adroddiad ISA 260 '*i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant*' (3.4.8.11.1/2). Yn dilyn trafodaeth ar y ddarpariaeth ar gyfer safle gwastraff Penhesgyn; canlyniadau'r ailbrisiad asedau a'r cynnydd yng ngwerth anheddau'r Cyngor; addasiadau i'r cyfrifon drafft a gwelliannau pellach posib o ran archwilio cyfrifon; penderfynwyd nodi adroddiad yr archwilydd allanol ar ei archwiliad o Ddatganiadau Ariannol 2021-22.

Ym mis Ebrill 2023, penderfynodd y Pwyllgor nodi adroddiad Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru ar gyfer 2022, a oedd yn rhoi crynodeb o ganlyniadau pob darn o waith a gwblhawyd.

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariadau chwarterol (ym mis Mehefin 2022, Medi 2022 ac Ebrill 2023) ac adroddiadau archwilio allanol, yn cynnwys yr archwiliad o'r Cymhorthdal Budd-dal Tai (Mehefin 2022); Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion (Medi 2022); asesiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli ei asedau a'i weithlu (Llamu Ymlaen) (Hydref 2022); a Pharodrwydd y Sector Cyhoeddus ar gyfer Carbon Sero Net erbyn 2030 (Rhagfyr 2022).

Fe wnaeth y Pwyllgor fonitro'r gwaith o weithredu argymhellion archwilio allanol a derbyniodd adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid ym mis Rhagfyr 2022, a oedd yn nodi sut y mae'r Cyngor wedi ymateb i adroddiadau archwilio allanol ynglŷn â'r Cyngor ac adolygiadau cenedlaethol, a'u hargymhellion cysylltiedig (3.4.8.11.3).

Ni chafodd y Pwyllgor ei gymell i wneud unrhyw argymhellion ynglŷn ag effeithlonrwydd y berthynas rhwng yr archwilwyr mewnol ac allanol ac asiantaethau arolygu eraill neu gyrff perthnasol yn ystod y flwyddyn (3.4.8.11.4).

Er bod cyfle i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gwrdd â'r archwilydd allanol yn breifat ac ar wahân, ni fanteisiwyd ar y cyfle yn ystod y flwyddyn hon (3.4.8.11.5).

# ADRODDIADAU ARIANNOL

Mae'r Pwyllgor yn adolygu a chraffu ar faterion ariannol y Cyngor, ac yn gwneud adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â hwy (3.4.8.12.1).

Ym mis Gorffennaf 2022 ac Ionawr 2023, cafodd datganiadau ariannol blynyddol drafft a therfynol yr awdurdod ar gyfer 2021-22 eu hadolygu gan y Pwyllgor yn y drefn honno, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn, yn cynnwys y rhagair esboniadol, negeseuon allweddol, tueddiadau, cysondeb â pherfformiad ariannol, addasrwydd polisïau a thriniaethau cyfrifyddu a chydymffurfiaeth â hwy a meysydd dyfarnu sylweddol (3.4.8.12.2).

Ym mis Gorffennaf 2022, wrth ystyried y datganiadau ariannol drafft, trafododd y Pwyllgor lu o ffactorau, yn cynnwys y cynnydd mewn balansau ysgolion, a hynny oherwydd y cyllid grant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn rhannol er mwyn helpu ysgolion ag effaith barhaus y pandemig ac yn rhannol i helpu disgyblion ddal i fyny â'r addysg a gollwyd yn ystod y cyfnod hwn; prisiad asedau eiddo'r Cyngor, nad yw'n cynnwys ei rwydwaith priffyrdd oherwydd yr her o bennu union werth yr isadeiledd priffyrdd; a'r heriau yn ymwneud â chynllunio a darogan y gyllideb oherwydd bod cyllid yn cyrraedd yn hwyr a'r sefyllfa economaidd bresennol.

Yn dilyn trafodaeth bellach ar y rhwymedigaethau pensiwn a'i effaith ar y cyfrifon, yn ogystal â thanwariant yng nghyllidebau cyfalaf a refeniw'r Cyngor, penderfynodd y Cyngor nodi'r prif ddatganiadau ariannol drafft anarchwiliedig ar gyfer 2021-22.

Ym mis Ionawr 2023, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad yr archwilydd allanol *'i'r rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethiant'* ar faterion a oedd yn deillio o'r cyfrifon archwiliedig, ac a ddylid eu dwyn i sylw'r Cyngor (3.4.8.12.3). Yn dilyn trafodaeth (gweler Archwilio Allanol uchod), penderfynodd y Pwyllgor nodi'r Adroddiad Archwilio Allanol ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2021-22.

# DELIO Â CHWYNION

Mae gan y Pwyllgor gyfrifoldeb dros adolygu ac asesu gallu'r Awdurdod i ddelio â chwynion yn effeithiol (3.4.8.14.1).

Ym mis Medi 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i **Adroddiad Blynyddol Pryderon a Chwynion 2021-22** y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a oedd yn nodi'r materion a godwyd o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2022. Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â pherfformiad y Cyngor o ran ymdrin â chwynion ac eglurhad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mai gwasanaethau sy'n effeithio ar bobl yn bersonol, megis Adnoddau, Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, yw'r prif feysydd gwasanaeth sy'n debygol o ddenu cwynion; penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad.

Hefyd ym mis Medi 2022, derbyniodd y Pwyllgor **Lythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ar gyfer 2021-22**. Roedd y ddogfen yn amlinellu'r gwaith safonau cwynion a gwblhawyd gan OGCC yn ystod y 12 mis ac yn darparu crynodeb o berfformiad y Cyngor yn y maes hwn. Ar ôl ystyried a thrafod y Llythyr Blynyddol 2021-22, penderfynodd y Pwyllgor ei nodi a'i dderbyn ac awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC i gadarnhau bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol ac i roi sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion a, thrwy hynny, roi'r wybodaeth sydd ei hangen i Aelodau graffu ar berfformiad y Cyngor (3.4.8.14.2).

# ADRODDIAD HUNANASESIAD

Yn ystod pob blwyddyn ariannol, bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiad hunanasesiad drafft gan y Cyngor [a fydd yn cael ei ddrafftio yn unol â Phennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau)] (3.4.8.15.1).

Ym mis Gorffennaf a Hydref 2022, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r **Adroddiad Hunanasesiad Blynyddol drafft ar gyfer 2021-22**, sef adroddiad hunanasesiad corfforaethol cyntaf y Cyngor, a luniwyd er mwyn bodloni'r ddyletswydd newydd ar gynghorau yng Nghymru yn sgil Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i adolygu eu perfformiad (3.4.8.1.4).

Croesawyd yr adroddiad gan y Pwyllgor fel asesiad cadarnhaol a ddangosai nifer o gryfderau. Cafwyd trafodaeth fanwl ynglŷn â goblygiadau'r trefniadau gweithio hybrid ar y defnydd a fydd yn cael ei wneud o asedau adeiladau yn y dyfodol; cyfraddau trosiant staff; camddehongli'r cronfeydd wrth gefn uwch yng nghyd-destun asesu'r defnydd o adnoddau fel 'da'; y posibilrwydd o gael archwilio mewnol i arfarnu'r ddogfen hunanasesu yn y dyfodol; ac arddull ac edrychiad yr adroddiad (3.4.8.4.4).

Penderfynodd y Pwyllgor gytuno â chynnwys adroddiad hunanasesu 2021-22 ac argymell bod y Cyngor llawn yn ei ystyried, yn amodol ar ystyried y pwyntiau uchod (3.4.8.15.1/2/3/4).

# ASESIAD PERFFORMIAD PANEL

O leiaf unwaith yn ystod cylch etholiadol rhaid cynnal asesiad perfformiad panel yn y cyfnod rhwng etholiadau cyffredinol i ethol Cynghorwyr i'r Cyngor. Fe all y Cyngor gomisiynu mwy nag un panel asesu yn ystod cylch etholiadol, ond nid yw hynny'n ofynnol o dan y ddeddf (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ei ymateb drafft i'r asesiad perfformiad panel ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae'n rhaid iddo wedyn adolygu'r ymateb drafft a gall argymell unrhyw newidiadau i'r ymateb i'r asesiad panel.

Ni chynhaliwyd asesiad perfformiad panel yn ystod 2022-23 (3.4.8.4.3 / 3.4.8.16).

# ADOLYGIAD ARBENNIG GAN YR ARCHWILYDD CYFFREDINOL

Fe all yr Archwilydd Cyffredinol gynnal adolygiad arbennig o'r Cyngor (os yw'n ystyried bod y Cyngor yn methu, neu y gallai fod yn methu, â bodloni i ofynion perfformiad).

Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cael yr adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rhaid i ymateb drafft y Cyngor fod ar gael i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae'n rhaid iddo ei adolygu. Fe all y Pwyllgor argymell newidiadau i'r ymateb, yn cynnwys camau arfaethedig y Cyngor. Os na caiff argymhellion y Pwyllgor eu mabwysiadu gan y Cyngor cyn cyhoeddi'r ymateb, rhaid nodi'r argymhellion ynghyd â'r rhesymau pam na chafodd y newidiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor  eu gwneud gan y Cyngor (3.4.8.17.1/2/3).

Ni chynhaliwyd adolygiad arbennig o'r Cyngor gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ystod 2022-23.

Tudalen 311

# ATODIAD A: AMLDER CYFARFODYDD A PHRESENOLDEB

| Aelodau | 29/06/22 | 26/07/22 | 28/09/22 | 20/10/22 | 8/12/22 | 18/01/22 | 7/02/23 | 18/04/23 | Cyfanswm cyfarfodydd a fynychwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 8 |
| Cyng. Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | 7 |
| Cyng. Geraint Bebb | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | Na | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 6 |
| Cyng. Neville Evans | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Na | 6 |
| Cyng. Dyfed Wyn Jones | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | 5 |
| Mr William Parry (Aelod Lleyg) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Na | ✓ | ✓ | 7 |
| Cyng. Dafydd Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 8 |
| Cyng. Keith Roberts | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 8 |
| Cyng. Margaret M. Roberts | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | ✓ | 6 |
| Ms Sharon Warnes (Aelod Lleyg) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 8 |
| Mr Michael Wilson (Aelod Lleyg) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Na | ✓ | ✓ | 7 |
| Cyng Liz Wood | ✓ | ✓ | ✓ | Na | Ymddiheuro | ✓ | Na | ✓ | 5 |
| Cyng. Aled Morris Jones (wedi'i benodi ar gyfer un cyfarfod yn unig) | - | - | - | - | - | - | ✓ | - | 1 |
| Cyng. Robin Williams (Deilydd Portffolio Cyllid) | ✓ | ✓ | Ymddiheuro | Ymddiheuro | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 6 |
| Cyfanswm ar gyfer y Pwyllgor[4] | 13 | 10 | 11 | 10 | 11 | 11 | 10 | 12 | |

Dychwelyd i Adran

[4] Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, mae'r pwyllgor yn cynnwys wyth Aelod etholedig ac un aelod lleyg. Ni fydd yr Aelodau etholedig yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith, ond rhaid i'r Deilydd Portffolio Cyllid fynychu pob cyfarfod, cyn belled ag y bo modd.

# ATODIAD B: HYFFORDDIANT A FYNYCHWYD GAN YR AELODAU 2022-23

| | Penodol i'r Pwyllgor | | | | Mandadol | | | | | | Cyfanswm Presenoldeb / Cwblhawyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Anwythiad | Datganiadau Ariannol | Cwynion | Rheoli Trysorlys | GDPR | Ymwybyddiaeth Seiber[5] | Ymwybyddiaeth Diogelu Sylfaenol | Trais yn erbyn menywod, camdriniaeth ddomestig a thrais | Prevent* | Caethwasiaeth fodern* | |
| Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg) (Cadeirydd) | 23/06/22 | 13/07/22 | 9/09/22 | 14/09/22 | 5/09/22 | 12/05/22 | | Dewisol | 12/09/19 | Dewisol | 88% |
| Cyng. Euryn Morris (Dirprwy Gadeirydd) | 23/06/22 | 13/07/22 | 9/09/22 | 14/09/22 | 12/06/22 | 18/05/22 | 20/09/22 | 12/06/22 | 12/06/22 | Ar waith | 90% |
| Cyng. Geraint Bebb | 23/06/22 | 13/07/22 | 9/09/22 | Ymddiheuro | 6/09/22 | 12/05/22 | Absennol | 29/09/22 | Heb ddechrau | Ar waith | 60% |
| Cyng Neville Evans | 23/06/22 | Ymddiheuro | 9/09/22 | 14/09/22 | 6/09/22 | 11/05/22 | 20/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | 60% |
| Cyng. Dyfed Wyn Jones | 23/06/22 | 13/07/22 | Ymddiheuro | Absennol | 06/09/22 | 11/05/22 | 26/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | 50% |
| Mr William Parry (Aelod Lleyg) | Ymddiheuro | Absennol | 9/09/22 | Absennol | | | | Dewisol | Dewisol | Dewisol | 14% |
| Cyng Dafydd Roberts | 23/06/22 | 13/07/22 | Absennol | 14/09/22 | 11/20/22 | 12/05/22 | 20/09/22 | 1/04/18 | 12/10/22 | 12/10/22 | 90% |
| Cyng Keith Roberts | 23/06/22 | 13/07/22 | 9/09/22 | 14/09/22 | 7/09/22 | 11/05/22 | 20/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | 70% |
| Cyng Margaret M. Roberts | 23/06/22 | Ymddiheuro | 21/07/21 | Ymddiheuro | Absennol | 11/05/22 | 20/09/22 | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | 40% |
| Ms Sharon Warnes (Aelod Lleyg) | 23/06/22 | 13/07/22 | 9/09/22 | 14/09/22 | 25/01/20 | 12/05/22 | | Dewisol | Dewisol | Dewisol | 86% |
| Mr Michael Wilson (Aelod Lleyg) | 23/06/22 | 13/07/22 | 9/09/22 | 14/09/22 | 22/02/19 | 12/05/22 | | 21/12/17 | Dewisol | Dewisol | 88% |
| Cyng Liz Wood | 23/06/22 | 13/07/22 | Absennol | Absennol | Absennol | 11/05/22 | Absennol | Heb ddechrau | Heb ddechrau | Heb ddechrau | 30% |
| Cyfanswm | 11/12 (92%) | 9/12 (75%) | 9/12 (75%) | 7/12 (58%) | 9/12 (75%) | 11/12 (92%) | 6/12 (50%) | 4/12 (33%) | 3/12 (25%) | 1/12 (8%) | |

Dychwelyd i Adran

Tudalen 312

[5] Roedd yr hyfforddiant ymwybyddiaeth seiber yn rhan o'r hyfforddiant anwytho ar gyfer y garfan newydd o Gynghorwyr ym mis Mai 2022
*Dewisol ar gyfer aelodau lleyg.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Cyngor Sir |
| **DYDDIAD:** | 12 Medi 2023 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Pwyllgor Safonau |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd ar Weithgareddau'r Pwyllgor Safonau yn 2022/23 a sicrhau cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/24. |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro (est 2568) lbxcs@ynysmon.llyw.cymru |

## 1. Cyflwyniad

Dyma ail adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Sir, wedi ei chwblhau yn unol â gofyniad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Fodd bynnag, yn y Cyngor hwn mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor ers nifer o flynyddoedd. Mae'r pynciau yr ymdriwyd â hwy yn yr adroddiadau hyn yn debyg iawn i'r rhai sydd bellach yn ofynnol o dan ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth newydd.

**Dyma adroddiad y Pwyllgor Safonau ar gyfer y cyfnod Ebrill 2022 – Mawrth 2023.**

## 2. Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor Safonau yn bwyllgor statudol sydd â 9 Aelod (2 Aelod o'r Cyngor Sir, 5 Aelod Annibynnol a 2 Aelod o'r Cynghorau Tref a Chymuned). Mae manylion y Pwyllgor a'i aelodaeth ar gael yn y fan yma.

(A) Aelodau Annibynnol:

Daw tymor pedwar Aelod Annibynnol i ben ar y 19eg o Ragfyr 2027 tra daw tymor y pumed Aelod Annibynnol i ben ar yr 11eg o Ragfyr 2025.

Mae un Aelod Annibynnol wedi penderfynu ymddiswyddo cyn i'w thymor ddod i ben ac mae Panel Dethol y Pwyllgor Safonau ynghanol proses recriwtio ar hyn o bryd er mwyn penodi rhywun i'r rôl. Bydd Mrs Celyn Menai Edwards yn ymddiswyddo ar benodiad yr Aelod Annibynnol newydd.

Rhaid penodi'r Cadeirydd o blith yr Aelodau Annibynnol. Penodwyd Mr John R Jones yn Gadeirydd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau ym mis Chwefror 2020. Penodir y Cadeirydd am gyfnod o bedair blynedd. Gall unigolyn ei ail-ethol i'r Gadair.

Mr Rhys Davies yw'r Is-gadeirydd a daw ei dymor yntau fel Is-gadeirydd hefyd i ben ym mis Chwefror 2024. Mae Mr Davies yn gymwys i gael ei ail-ethol.

(B) Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned:

Yn dilyn proses recriwtio ar ôl yr etholiadau Llywodraeth Leol diwethaf (Mai 2022), penodwyd dau Aelod er mwyn cynrychioli'r Cynghorau Tref a Chymuned gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 6 Rhagfyr 2022, sef y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran a'r Cynghorydd Margaret Ann Thomas o Gyngor Tref Llangefni. Byddant yn eistedd ar y Pwyllgor tan yr etholiadau Llywodraeth Leol nesaf neu hyd nes nad yw'r unigolion a benodwyd yn Aelodau o Gyngor Cymuned mwyach, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf. Gall Aelodau Cyngor Tref a Chymuned gael eu hailbenodi am un tymor arall, ar yr amod bod Cynghorau Tref a Chymuned Ynys Môn wedi cytuno ar y cyd i ddewis Aelodau presennol y Cyngor Tref neu Gymuned fel enwebai ar gyfer y penodiadau.

(C) Aelodau o'r Cyngor Sir:

Y ddau gynrychiolydd Cyngor Sir presennol (ers Mai 2022) yw'r Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes a'r Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas. Mae Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes wedi ymddiswyddo o'i sedd a bydd angen penderfyniad y Cyngor llawn er mwyn llenwi'r sedd honno. Mae hyn yn destun adroddiad ar wahan ar gyfer cyfarfod y Cyngor ar 12 Medi 2023.

## 3. Rôl a Chyfrifoldeb

Mae rolau a swyddogaethau statudol y Pwyllgor Safonau, mewn perthynas ag Aelodau Cyngor Sir a Chynghorau Tref/Cymuned yn cynnwys:-

(a) hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau;
(b) cynorthwyo Aelodau i gadw at eu Cod Ymddygiad;
(c) cynghori, hyfforddi, neu drefnu i hyfforddi Aelodau;
(ch) ystyried ceisiadau am ganiatâd arbennig;
(d) ymdrin ag unrhyw atgyfeiriadau oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), neu Banel Dyfarnu Cymru (y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol i bob pwrpas).

Fodd bynnag, yn sgîl Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('y Ddeddf'), mae dyletswyddau ychwanegol wedi cael eu rhoi ar y Pwyllgor Safonau ers mis Mai 2022. Mae'r rhain wedi'u nodi isod:

➢ Adroddiad Blynyddol:

Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau ddarparu Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn ac unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor Safonau o fewn tri mis o'i dderbyn. Fel isafswm, rhaid i'r adroddiad:

- ddisgrifio sut mae'r Pwyllgor Safonau wedi cyflawni ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn flaenorol;
- cynnwys crynodeb o adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn

ymwneud ag ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad, ac unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y Pwyllgor Safonau;
- disgrifio'r cyngor y mae wedi'i roi ar hyfforddiant i bob Aelod a sut mae'r cyngor hwnnw wedi'i roi ar waith, a
- cynnwys asesiad y Pwyllgor o sut mae Arweinwyr Grŵp wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd i hybu safonau ymddygiad uchel (gweler y pwynt bwled isod).

➢ I fonitro cydymffurfiaeth yr Arweinwyr Grŵp gyda'i dyletswydd i hybu safonau ymddygiad uchel gan Aelodau eu Grŵp a darparu cyngor a hyfforddiant.

Fel nodir uchod, mae dyletswydd newydd wedi cael ei rhoi ar Arweinwyr Grwpiau i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau'r Grŵp. Mae'n ofynnol i Arweinwyr Grwpiau gydymffurfio â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau fonitro sut y mae'r Arweinwyr Grŵp yn cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd ac ystyried sut y mae'n sicrhau ei fod yn bodloni'r gofyniad i ddarparu cyngor a hyfforddiant i Arweinwyr Grŵp o dan gochl y ddyletswydd hon.

## 4. Gwybodaeth ar ddyletswyddau'r Pwyllgor a sut y maent wedi cael eu cyflawni yn ystod 2022/2023

Cymeradwywyd Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/2023 gan y Cyngor llawn ym mis Medi 2022. Mae'r ddogfen yn **Atodiad 1** yn cynnwys Rhaglen Waith gymeradwy'r Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022-23 ynghyd â'r materion ychwanegol, ac mae'n nodi'r camau a gymerwyd mewn perthynas â phob mater.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn fawr i'r swyddogion sydd wedi ei gefnogi gyda'i waith.

### 4.1 Protocol Datrysiad Lleol:

➢ Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Aelodau'r Cyngor Sir:

Cafodd Protocol Datrysiad Lleol ('y Protocol') ar gyfer Aelodau'r Cyngor Sir ei ddatblygu a'i gymeradwyo yn ystod 2022/2023. Datblygwyd y Protocol gan y Pwyllgor Safonau, yn seiliedig ar ofynion y ddeddfwriaeth newydd a'i brofiad hyd yma, ac fe'i cytunwyd â'r Arweinwyr Grŵp.  Mae copi ar gael yn y fan yma.

Rydym o'r farn bod y ddogfen hon yn hawdd i'w defnyddio ac yn syml ac rydym yn hapus iawn i barhau i'w hyrwyddo.

Er yr hoffem feddwl na fydd angen y Protocol o gwbl, rydym yn mawr obeithio y bydd yr Aelodau yn ei ddefnyddio pe bai angen a byddwn yn eu hannog i wneud hynny. Mae'r Aelodau wedi chwarae rhan yn y gwaith o'i ddatblygu (cafwyd cyflwyniad gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau yng nghyfarfod yr Arweinwyr Grŵp, ac yn ystod Sesiwn Briffio ar gyfer yr holl Aelodau); mae'r Pwyllgor Safonau hefyd wedi atgoffa'r Aelodau ynglŷn â'r Protocol a fabwysiadwyd yn y Newyddlen a anfonwyd atynt ym mis Mawrth 2023.

Ni chafodd y Protocol ei ddefnyddio yn ystod cyfnod yr adroddiad hon.

Mae'r Pwyllgor Safonau'n cymryd y cyfle hwn i atgoffa Aelodau bod angen codi pryderon o dan y Protocol mor fuan â phosib wedi'r digwyddiad dan sylw, bod angen ymdrin â'r mater fel blaenoriaeth a sicrhau eu bod yn rhoi sylw dyledus i'r broses. Credir fod hyn yn hanfodol er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'r drefn fod yn llwyddiannus.

- Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned:

Mae Un Llais Cymru (y sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli cynghorau Tref a Chymuned ledled Cymru) wedi datblygu Protocol Datrysiad Lleol (PDLl) ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymru ac mae copi ar gael yn y fan yma. Fodd bynnag, amlinellir yn y PDLl hwn mai'r Clerc a / neu Gadeirydd y Cyngor Tref / Cymuned fydd yn rheoli'r broses. Yn aml iawn, yn ein profiad ni, mae'r Clerc a / neu'r Cadeirydd yn rhan o'r anghydfod neu hwy yw testun y gŵyn ac felly mae'r defnydd y gellir ei wneud o'r PDLl yn gyfyngedig. Felly, bydd y Pwyllgor Safonau hwn yn trafod y posibilrwydd o ddatblygu Protocol i'w ddefnyddio gan y Cynghorau Tref a Chymunedac mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys ar Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023-2024.

Mae materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad o fewn y Cynghorau Tref a Chymuned yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Safonau, fodd bynnag, fel endidau cyfreithiol annibynnol, mae materion cyfansoddiadol neu weithdrefnol o fewn y Cynghorau Tref a Chymunedy tu hwnt i gylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau a'r Cyngor Sir, a rhaid sicrhau na fydd y PDLl yn cael ei ddefnyddio er mwyn delio gyda materion sy'n ymwneud â'r materion hyn.

Gofynnwyd i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau (ynghyd ag Aelodau eraill o'r Pwyllgor Safonau) ddarparu cymorth i rai Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod 2022/2023 ac mae rhagor o wybodaeth ar gael ym mharagraff 4.2 isod.

**4.2 Cynghorau Tref a Chymuned:**

Mae gan y Pwyllgor Safonau hefyd gyfrifoldeb mewn perthynas âg ymddygiad Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned ac i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn mae'r Pwyllgor Safonau wedi ymgymryd â'r gwaith a ganlyn eleni.

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi rhoi nifer o ymyriadau ar waith mewn Cynghorau Tref a Chymuned yn ystod y cyfnod adrodd hwn, fel arfer ar ôl derbyn gwybodaeth gan drydydd parti yn cynnwys Aelodau'r Cyngor Tref/Gymuned neu Gynghorwyr Sir.

Ym mhob achos mae'r broses a ddilynwyd wedi cynnwys ysgrifennu at Gadeirydd neu Glerc y Cyngor penodol yn nodi'r pryderon sydd wedi eu dwyn i sylw Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a chadarnhau y bydd dau Aelod o'r Pwyllgor Safonau'n dod i arsylwi cyfarfod nesaf y Cyngor Tref/Cymuned.

Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, anfonir gohebiaeth at y Clerc a'r Cadeirydd yn eu hysbysu ynglŷn â chasgliadau Aelodau'r Pwyllgor Safonau.

Arsylwyd cyfarfodydd pedwar Cyngor Cymuned yn ystod y cyfnod adrodd hwn / tymor presennol; mae'r manylion yn gyffredinol ac nid ydym wedi enwi neb rhag i'r Cynghorau gael eu hadnabod:

a) Cyngor Cymuned A:
Mewn un Cyngor Cymuned, arsylwyd ail gyfarfod cyn i aelodau'r Pwyllgor Safonau gynnig eu bod yn cynnal Adolygiad o'r Gofrestr Buddiannau a materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad ar ran y Cyngor Cymuned. Cynhaliwyd cyfarfod Adolygu ac anfonwyd gohebiaeth gynhwysfawr at y Clerc a'r Cadeirydd, a oedd yn nodi argymhellion aelodau'r Pwyllgor Safonau. Ni ragwelir y bydd angen cymryd unrhyw gamau pellach yn y Cyngor Cymuned hwn.

b) Cyngor Cymuned B:
Mewn Cyngor Cymuned arall, yn dilyn y cyfarfod arsylwi cyntaf, penderfynwyd mai'r ffordd orau o weithredu oedd cynnig Adolygiad o Gofrestr Buddiannau'r Cyngor Cymuned a materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad. Cytunodd y Clerc ar ran y Cyngor, ond fe gynigiodd ohirio'r amserlen â awgrymwyd gan y Pwyllgor Safonau oherwydd ymrwymiadau eraill. Roedd y Pwyllgor Safonau'n dymuno cynnal yr Adolygiad hwn yn ystod Haf 2023 ond gofynnodd y Cyngor Cymuned am oedi pellach. Mae'r mater wedi'i gynnwys ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024 (**Atodiad 8**).

c) Cyngor Cymuned C:
Yn yr un modd, yng Nghyngor Cymuned C, yn dilyn y cyfarfod arsylwi cyntaf, a darparu adborth am faterion ymddygiad, penderfynwyd mai'r ffordd orau o weithredu oedd cynnig Adolygiad o Gofrestr Buddiannau'r Cyngor a materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad. Gwrthodwyd y cynnig hwn gan y Clerc, ar ran y Cyngor Cymuned, yn y lle cyntaf. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau at y Cyngor Cymuned eto yn gofyn iddynt ailystyried ac egluro mai pwrpas yr Adolygiad ydi cynorthwyo'r Cyngor Cymuned. Yn y gobaith y bydd y Cyngor Cymuned yn ailystyried ac yn derbyn y cynnig, mae'r Adolygiad hwn wedi'i gynnwys ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024 (**Atodiad 8**).

d) Cyngor Cymuned Ch:
Mynychodd dau Aelod o'r Pwyllgor Safonau gyfarfod o Gyngor Cymuned Ch fel arsylwyr. Oherwydd na welwyd ymddygiad oedd yn peri pryder, nid oedd y Pwyllgor Safonau o'r farn fod y Cyngor Cymuned angen cymorth pellach ond cynghorwyd y Clerc, fel rhan o'r adborth ysgrifenedig, y gallai'r Cyngor Cymuned gysylltu â'r Pwyllgor Safonau yn y dyfodol os ydynt yn meddwl y byddai Adolygiad o fudd. Mae'r mater hwn wedi'i gynnwys ar Flaen Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/202 (**Atodiad 8**).

Y patrwm sydd i'w weld yn (a)-(d) uchod yw un o'r rhesymau dros yr awch i ddatblygu Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned gan fod llawer o alw am y math yma o waith ac mae'n effeithio ar gapasiti ac adnoddau'r Pwyllgor Safonau.

Mynychodd y Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau gyfarfod o'r Fforwm Cyngor Tref a Chymuned ar 08.09.2022 [i rannu manylion ynglŷn â chyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2022] a 27.02.2023 [unwaith eto, i rannu manylion ynglŷn â chyfarfod ffurfiol y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022, ac i drafod y Newyddlen ddrafft a oedd yn cael ei datblygu].

4.3 **Newyddlenni**

Ers peth amser, mae'r Pwyllgor Safonau yn cyhoeddi Newyddlenni yn dilyn ei gyfarfodydd chwe-misol. Bernir mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol a hwylus o gyfathrebu âg Aelodau, gan rannu ychydig o wybodaeth, neu eu cyfeirio at ffynhonellau lle gallent ddod o hyd i ragor o wybodaeth, gan dynnu eu sylw at faterion newydd a phwysig.

Cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau Newyddlenni ym mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023, wedi i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd fynychu cyfarfod yr Arweinwyr Grŵp a'r Fforwm Cyngor Tref a Chymuned i drafod eu cynnwys.

Mae'r Newyddlenni a anfonwyd at y Cynghorau Tref a Chymuned ar gael yn **Atodiadau 2 a 3.**

Anfonwyd Newyddlenni tebyg at Aelodau'r Cyngor Sir (etholedig a chyfetholedig) ac maent ar gael yn **Atodiadau 4 a 5.**

Anfonwyd dogfen ychwanegol gyda'r Newyddlenni a anfonwyd ym mis Mawrth 2023 – "Cwrdd ag Aelodau Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn". Mae copi ar gael yn Atodiad **6**.

Annogir Aelodau, a gofynnir wrth Arweinyddion y Grwpiau i atgyfnerthu'r neges hon, i ddarllen y Newyddlenni hyn, gan ystyried yr achosion Cod Ymddygiad adroddir ynddynt yn arbennig.

**4.4 Y ddyletswydd ar yr Arweinwyr Grŵp ac adrodd i'r Pwyllgor Safonau:**

Fel y nodwyd yn Adran 3 uchod, mae dyletswydd newydd wedi cael ei gosod ar Arweinwyr Grwpiau i gymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau uchel gan Aelodau'r Grŵp. Mae disgwyl i Arweinwyr Grwpiau hefyd gydymffurfio â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth arfer swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau.

Yn yr un modd, mae gan y Pwyllgor Safonau ddyletswydd newydd i fonitro sut mae'r Arweinwyr Grŵp yn cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd ac ystyried sut y mae'n sicrhau ei fod yn bodloni'r gofyniad i ddarparu cyngor a hyfforddiant i Arweinwyr Grŵp o dan gochl y ddyletswydd hon.

I'r perwyl hwn, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo yn ystod y cyfnod adrodd hwn o ran y modd y mae'r Arweinwyr Grŵp yn adrodd i'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â hyn, ac mae'n parhau i fod ar Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024.

Cafodd *pro forma* ar gyfer adrodd ar y mater hwn ei ddatblygu a'i rannu â'r Arweinwyr Grŵp. Cyflwynwyd y gwaith papur drafft i'r Arweinwyr Grŵp ar 27 Ebrill 2023, rhoddwyd cyfle iddynt drafod gydag Aelodau eu Grwpiau ac anfon eu sylwadau at y Pwyllgor Safonau, cyn bod y ffurflen derfynol ar gyfer eleni wedi ei rhannu gyda'r Arweinyddion Grwpiau ar 8 Mehefin 2023. Mae copi wâg o'r ffurflen â ddefnyddiwyd i'w gweld yn **Atodiad 7**.

Cyfarfu pedwar Aelod Annibynnol y Pwyllgor Safonau gyda phob Arweinydd Grŵp yn unigol yn ystod mis Gorffennaf 2023 er mwyn trafod yr adroddiadau roedden nhw wedi

eu hanfon at y Pwyllgor Safonau (gan ddefnyddio'r *pro forma* yn **Atodiad 7**). Dymuna'r Pwyllgor Safonau ddiolch yn fawr i'r Arweinyddion Grwpiau am eu cydweithrediad a'u parodrwydd i drafod yn y cyfarfodydd hyn.

Roedd sawl mater yn codi o'r trafodaethau, ac mae gweithredu hyn yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023-2024 (fel nodir yn **Atodiad 8**). Roedd ambell thema penodol yn codi fel materion oedd yn gyffredin ar gyfer un neu fwy o'r Arweinyddion Grwpiau a'r rhain yn cynnwys hyfforddiant Aelodau a hefyd hyfforddiant yr Arweinyddion ar eu dyletswydd newydd; a sut gellir addasu rhai gweithdrefnau er mwyn hwyluso Aelodau i gydymffurfio gyda gofynion e.e. y broses er mwyn cofrestru diddordebau.

Mae'r Aelodau o'r Pwyllgor Safonau fu ynghlwm gyda'r broses wedi creu tabl sy'n nodi'r materion a drafodwyd gan yr Arweinyddion Grwpiau ac mae hwn wedi ei gynnwys fel **Atodiad 9** i'r adroddiad yma.

Roedd materion eraill wedi eu cynnwys fel penawdau o fewn y ffurflen *pro forma* fu'n destun trafodaeth, sy'n cynnwys:

- <u>Hyfforddiant:</u>
  Cadarnheir bod cwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn fandadol. Bydd y ffurflen pro forma yn cael ei haddasu er mwyn sicrhau bod hyn yn glir ar gyfer proses adrodd ynghylch materion yn 2023/2024.

  Roedd y Pwyllgor Safonau'n falch o weld bod pob Aelod wedi cwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ers yr etholiad ym Mai 2022. Anogir Arweinyddion Grwpiau i sicrhau bod pob modiwl hyfforddiant mandadol yn cael ei gwblhau yn amserol.

  Gwneir gwaith pellach gan y Pwyllgor Safonau ynghylch:
  - Amserlen cwblhau hyfforddiant mandadol;
  - A ddylai hyfforddiant TG hefyd gael ei ystyried yn fandadol o fewn 6 mis i unigolyn gael ei ethol;
  - Sut bydd gwybodaeth am hyfforddiant Aelodau yn cael ei rannu gyda'r Arweinyddion Grwpiau

- <u>Adolygiad Blynyddol rhwng Aelodau ac Arweinydd eu Grŵp</u>
  Mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn y byddai'n fanteisiol petai modd i Arweinyddion y Grwpiau ddatblygu system ymysg ei gilydd er mwyn datblygu a chynnig cefnogaeth i'w haelodau. Roedd Aelodau'r Pwyllgor Safonau o'r farn bod diffyg trefn bendant a bod amrywiad ym mhwysigrwydd yr adolygiadau ymysg yr Arweinyddion Grwpiau.

- <u>Adroddiadau Blynyddol Aelodau Etholedig:</u>
  Mae mwyafrif yr Arweinyddion Grwpiau yn cefnogi'r syniad ac yn annog eu haelodau i gwblhau Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd blwyddyn ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw pawb yn gefnogol a chan nad yw'n ofyn statudol, ni all y Pwyllgor Safonau ond ail-adrodd ei fod yn annog yr holl Aelodau i gyflwyno Adroddiad Blynyddol gan ystyried fod hyn yn hybu tryloywder ac yn

darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer y cyhoedd oherwydd ei fod yn cael ei gyhoeddi ar dudalen bywgraffiad pob Aelod.
Er mwyn sicrhau eglurder ar gyfer y cyhoedd, yn ogystal â chyhoeddi adroddiadau'r Aelodau hynny sy'n dymuno cyflwyno Adroddiad Blynyddol, bwriedir cynnwys sylwad ar dudalennau bywgraffiadau'r Aelodau na fydd yn anfon Adroddiad Blynyddol sy'n egluro nad oes dogfen wedi ei chwblhau gan yr Aelod yna.

- Cefnogi llesiant Aelodau:
  Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn dilyn y sgyrsiau gyda'r Arweinyddion Grwpiau ac, fel rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer y flwyddyn i ddod, bwriedir cefnogi gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch materion llesiant Aelodau.
  Deallir bod gohebiaeth wedi ei hanfon at yr holl Aelodau yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl Cenedlaethol ym mis Mai 2023 yn eu hysbysu o'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer Aelodau, sy'n cynnwys mynediad at Gwnsela am ddim ac yn anhysbys. Anngoir Aelodau i gymryd mantais o'r ddarpariaeth hon, os byddai'n ddefnyddiol iddynt.

Roedd y sgyrsiau gyda'r Arweinyddion Grwpiau yn ddiddorol ac adeiladol ac mae sawl mater a godwyd wedi eu hychwanegu at Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024 (**Atodiad 8**), sy'n dystiolaeth o'r pwyslais mae'r Pwyllgor Safonau yn ei roi ar yr hyn â adroddwyd gan yr Arweinyddion Grwpiau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor Safonau'n yn awyddus na fydd y sgrysiau hyn yn troi'n gyfle i Arweinyddion y Grwpiau nodi eu haniddigrwydd gyda materion sydd tu hwnt i gylch gorchwyl y Pwyllgor.

Mae gofynion Deddf 2021 yn bodoli; mae'n broses newydd i Arweinyddion y Grwpiau a'r Pwyllgor Safonau fel ei gilydd. Annogir Arweinyddion Grwpiau i gysylltu gyda'i haelodau'n gyson er mwyn bodloni'r gofyn eu bod yn hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad, ac i dderbyn unrhyw wahoddiad am hyfforddiant â dderbynir ganddynt ynghylch eu rol fel Arweinyddion Grwpiau yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn awyddus addasu rhywfaint ar y drefn â ddilynwyd eleni ar gyfer 2023/2024 a bydd yn siwr o gynnwys Arweinyddion Grwpiau o fewn y trafodaethau hynny. Un opsiwn yr ystyrir ydi cynnal y sgyrsiau gyda'r Arweinyddion Grwpiau unigol gyda dau, yn hytrach na phedwar, Aelod o'r Pwyllgor Safonau. Rhagwelir newidiadau ar gyfer y ffurflen *pro forma* hefyd.

**4.5 Adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol a'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol ('Adroddiad Penn'):**

Ym mis Gorffennaf 2021, cyflwynodd Richard Penn yr Adolygiad o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru. Bu'r Pwyllgor Safonau yn ystyried canlyniadau'r adroddiad hwn ac yn fwy diweddar, bu'r Pwyllgor yn ystyried sut i ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar argymhellion yr Adolygiad Penn.

Mae'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023-2024 (**Atodiad 8**) gan fod rhaid ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 23 Mehefin 2023. Cadarnheir bod ymateb wedi ei anfon gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau yn yr ymgynghoriad hwn ac adroddir ymhellahc yn 2023/2024.

Mae'n debyg y bydd gwaith pellach yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriadgan Lywodraeth Cymru a bydd y Pwyllgor Safonau yn cymryd unrhyw gamau perthnasol yn unol â hynny.

**4.6 Adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC)**

Darperir adroddiadau mewn perthynas â chwynion a dderbyniwyd gan y OGCC ynghylch toriadau honedig o'r Cod Ymddygiad gan Aelodau'r Cyngor Sir neu Gynghorau Tref a Chymuned yn Ynys Môn bob chwarter. Bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cynnwys ar Raglen cyfarfodydd ffurfiol chwe-misol y Pwyllgor Safonau.

- Dros gyfnod yr adroddiad hon, derbyniodd yr OGCC dair cwyn. Derbyniwyd y cwynion hyn yn chwarter 1. Roedd un yn ymwneud âg Aelod o'r Cyngor Sir a dau yn ymwneud âg Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned. O ran y gŵyn yn erbyn y Cynghorydd Sir, penderfynodd OGCC beidio ag ymchwilio ymhellach. Mewn perthynas â'r Cynghorwyr Tref a Chymuned, penderfynodd OGCC beidio ag ymateb i un achos a chafodd yr ymchwiliad i'r achos arall (a ddechreuodd yn y flwyddyn ariannol flaenorol) ei derfynu gan OGCC.
- Mae'n galonogol nodi na dderbyniwyd unrhyw gwynion yn chwarteri 2,3 a 4 y cyfnod.

Mae'r Pwyllgor Safonau wedi ystyried dadansoddi'r cwynion y mae'n eu derbyn ynghyd ag unrhyw batrymau a mesurau lliniaru. Fodd bynnag, ar sail y nifer isel o gwynion a nodir uchod, nid yw wedi bod yn bosib dod o hyd i unrhyw batrymau.

Bydd OGCC, a Phanel Dyfarnu Cymru, yn cyhoeddi crynodeb o achosion gaiff eu hystyried ganddynt ar eu gwefannau. Adroddir ar yr achosion hyn yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau a rhennir grynodeb o'r wybodaeth gydag Aelodau'r Cyngor Sir a'r Cynghorau Tref a Chymuned o fewn y Newyddlenni (gweler adran 4.3 uchod).

**4.7 Caniatâd Arbennig:**

Gall y Pwyllgor Safonau ganiatáu caniatâd arbennig, mewn rhai amgylchiadau a ddiffinnir gan statud, lle na fyddai'r Aelod fel arall yn gallu cymryd rhan mewn dadl neu benderfyniad oherwydd diddordeb personol (rhagfarnol) sylweddol. Weithiau gall y Pwyllgor Safonau fod mewn sefyllfa i orgyrraedd y diddordeb sy'n rhagfarnu os bodlonir amodau penodol. Mae'r Rheoliadau Caniatâd Arbennig yn berthnasol i Aelodau Cynghorau Sir ac Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned.

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am ganiatâd arbennig yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Cynghorir holl Aelodau'r Cyngor Sir ac Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned i ystyried a allai cais am ganiatâd arbennig fod yn briodol iddynt mewn rhai amgylchiadau ac fe'u hanogir i gysylltu â'r Swyddog Monitro am gyngor. Rhennir dolenni i Nodiadau Briffio ar Ganiatâd Arbennig ag aelodau yn y Newyddlenni a anfonir atynt (gweler **Atodiadau 2-5**).

**4.8 Cod Ymddygiad: Pennu'r trothwy ar gyfer cofrestru rhoddion a lletygarwch**

Mae'r Cod Ymddygiad yn gosod dyletswydd ar Aelodau i gofrestru rhoddion a lletygarwch sy'n werth mwy na'r trothwy a bennir gan bob awdurdod.

Ar hyn o bryd £20 ydi'r trothwy yn y Cyngor hwn. Nid yw'r swm wedi newid ers nifer o flynyddoedd.

Yr argymhelliad cyntaf yn yr Adolygiad gan Richard Penn (gweler rhan 4.5 uchod) yw y dylai'r trothwy ar gyfer datgan unrhyw rodd neu letygarwch, gael ei nodi yn y Cod er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru.

Nodir yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru nad oes bwriad i ddiwygio'r Cod Enghreifftiol ond mae Llywodraeth Cymru yn argymell yn ei Ganllawiau Statudol ac Anstatudol sy'n deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) y dylai'r dull o bennu'r trothwy gael ei adolygu a'i gytuno o fewn prif gynghorau unigol ac y dylai'r adolygiad rheolaidd o drothwyon gael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol y pwyllgor safonau. Mae'r Canllawiau hefyd yn awgrymu bod hwn yn fater y dylid ei drafod fel mater o drefn gan y swyddogion monitro a chadeiryddion grwpiau pwyllgorau safonau.

Yn wir, bu rhywfaint o drafod ar lefel genedlaethol (yng nghyfarfodydd y swyddogion monitro a Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgorau Safonau) ynglŷn â chysoni'r trothwy a chael pob awdurdod yng Nghymru i osod yr un trothwy'n wirfoddol, heb orfod newid y ddeddfwriaeth. Y trothwy arfaethedig a drafodwyd yn Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgorau Safonau oedd £25.

Mae'r Pwyllgor Safonau'n cytuno gyda'r newid hwn mewn ymgais i sicrhau cysondeb ag awdurdodau eraill yng Nghymru ac, oherwydd bod y swm yn debyg i'r swm sydd eisoes wedi'i bennu yn yr Awdurdod hwn, nid yw'n debygol o beri unrhyw anawsterau mawr.

Os ydi'r Cyngor yn cytuno i'r cynnig hwn h.y. cynyddu'r lefel cofrestru ar gyfer rhoddion a lletygarwch â dderbynir gan aelodau i £25, awgryma'r Pwyllgor Safonau ei fod yn cynnwys yr argymhelliad yn yr adroddiad nesaf / mwyaf addas ar faterion cyfansoddiadol gaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor llawn.

**4.9 Hyfforddiant**

Cyflwynir adroddiadau gan y Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol yng nghyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau sy'n cynnwys ystyried y cynnwys a'r gweithredu sydd wedi ei gyflawni o fewn Rhaglen Hyfforddi Aelodau'r Cyngor. Rhoddir cyfle i'r Pwyllgor roddi ei fewnbwn ar y Rhaglen wrth iddi gael ei datblygu ac ystyried i ba raddau bydd Aelodau'n cydymyffurfio â'r Rhaglen Hyfforddi.

Yn dilyn cynnal adolygiadau o gyfarfodydd y Cyngor a rhai o'i Bwyllgorau, gwnaeth y Pwyllgor Safonau argymhelliad y dylai hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau fod yn fandadol, wrth iddynt gael eu hethol ac yna bob dwy flynedd os cant eu hail-ethol. Cyflwynwyd y syniad hwn gerbron cyfarfod o'r Arweinyddion Grwpiau a chytunwyd gyda'r argymhelliad hwn.

Mae Hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau'n rhan o Raglen Waith flynyddol y Pwyllgor. Mae'r Hyfforddiant a gynhaliwyd ar gyfer yr Aelodau yn ystod y cyfnod adrodd hwn yn cynnwys hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Aelodau ar 20 Mai 2022 (yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol) ac yna ym mis Chwefror 2023 (yn dilyn penodi dau gynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned i'r Pwyllgor). Mae gwaith ar y gweill gyda'r adran Adnoddau Dynol i sicrhau bod Aelodau'n cwblhau'r modiwlau gorfodol, yn cynnwys hyfforddiant ar Gadeirio Cyfarfodydd ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor Safonau hefyd wedi trefnu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Hydref 2022. Cafodd pedwar sesiwn ei threfnu, gyda dim ond tair yn cael ei chynnal oherwydd diffyg cefnogaeth gan y Cynghorau Tref a Chymuned. Roedd y nifer isel a fynychodd yn destun trafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2022 a rhoddwyd sylw i hynny yn y Newyddlen ac yn ystod y Fforwm Cyngor Tref a Chymuned. Fel Pwyllgor, credwn ei bod hi'n hanfodol bod pob Aelod yn derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ac rydym yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod yr argymhelliad yn yr adroddiad Penn (argymhelliad rhif 7) y dylai hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad fod yn orfodol i bob Aelod. Mae hyn wedi'i gynnwys yn ymateb y Pwyllgor Safonau i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adroddiad Penn (drafodir yn adran 4.5 uchod).

Mae hyfforddiant ar gyfer Arweinwyr Grŵp yn faes arall sydd wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor Safonau a bydd y trafodaethau hyn yn parhau. Mae hyn yn cynnwys edrych ar y modd y gellid datblygu'r hyfforddiant i Arweinwyr Grŵp ar y ddyletswydd newydd (manylion uchod yn adran 4.4) ar y cyd drwy Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgorau Safonau.

Roedd hyfforddiant yn fater gafodd gryn sylw o fewn y trafodaethau gyda'r Arweinyddion Grwpiau yn eu sgyrsiau gyda'r Pwyllgor Safonau hefyd (manylir dan eitem 4.4 uchod).

## 5. <u>Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024</u>

Mae Rhaglen Waith Arfaethedig y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023-2024 ar gael yn **Atodiad 8**. Mae gwaith eisioes wedi ei ddechrau er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon.

## 6. <u>Argymhelliad</u>

6.1 Bod yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo o fewn tri mis o'i dderbyn.

6.2 Bod y Cyngor yn cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2023/2024 (**Atodiad 8**) gan dderbyn y gallai materion ychwanegol gael eu cynnwys, yn unol â'r galw.

**Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023**

**Rhaglen Waith ar gyfer Pwyllgor Safonau 2022/23 – gyda nodiadau ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2022/2023**

| Rhif | Eitem | Camau | Camau a gymerwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad |
|---|---|---|---|
| 1 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor llawn | Pwyllgor i ddechrau ystyried yr Adroddiad Blynyddol nesaf, a dechrau gweithio arno, cyn eu cyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin 2023.<br><br>Rhannu'r adroddiad blynyddol (unwaith y bydd wedi'i ystyried gan y Cyngor) gyda Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru? | Adroddiad 2021/2022 wedi'i gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Medi 2022.<br><br>Adroddiad 2022/2023 (drafft) wedi'i drafod mewn cyfarfod anffurfiol ar 26/5 ac yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin 2023. Trafodwyd ymhellach mewn cyfarfod anffurfiol ar 28/7, yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgor gyda'r Arweinyddion Grwpiau. Mae'r adroddiad terfynol yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Medi 2023. |
| 2 | Adolygu'r Protocol Datrys yn Lleol | Gwnaed diwygiad ym mis Mawrth 2022 – efallai y bydd angen adolygiad ar ôl trafodaeth gydag arweinwyr grŵp. Yr adroddiad wedi gwneud achosion yr ymdriniwyd â nhw yn anhysbys dan broses ddatrys yn lleol Ombwdsmon Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru? | Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig ar gyfer Aelodau'r Cyngor Sirwedi'i dderbyn gan y Pwyllgor Safonau, yn dilyn trafodaeth gydag Arweinwyr Grŵp mewn cyfarfod a chyflwyniad i'r holl Aelodau mewn sesiwn Briffio ym mis Rhagfyr 2022. Eitem wedi'i chynnwys yng Nghylchlythyr y Cyngor Sir ym mis Mawrth 2023.<br><br>Gwaith ar y Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned wedi'i gynnwys yn Rhaglen Waith 2023/24. |
| 3 | Cynnig a Darparu hyfforddiant i arweinwyr grwpiau gwleidyddol. Angen penderfynu:<br>• Pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant<br>• Cyfranogiad aelodau'r pwyllgor safonau<br>• Cynnwys uwch swyddogion? | Angen trafod gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol a'r gwasanaethau democrataidd.<br>Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud ar ddechrau pob gweinyddiaeth ac o fewn 6 mis i'r etholiadau a rhaid eu hadolygu'n flynyddol o leiaf. | Wedi'i drafod gydag Adnoddau Dynol. Ymholiadau wedi'u gwneud i CLlLC am unrhyw hyfforddiant 'penodol' sydd ar gael.<br><br>Parhau gyda Rhaglen Waith 2023/24. Cyfarfod nesaf Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol ym Mehefin 2023. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Cyfathrebu gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol | Proses adrodd ffurfiol gan arweinwyr neu fwy anffurfiol? Cysondeb adroddiadau gan arweinwyr grŵp? Trefnu cyfarfodydd yn rheolaidd er mwyn adolygu ymddygiad? | Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi mynychu cyfarfodydd yr Arweinwyr Grŵp fel a ganlyn:<br><br>29.09.2022 – cyflwyno'r Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig;<br><br>08.12.2022 – cyflwyno arsylwadau a wnaed yn dilyn ymarferiad arsylwi yng nghyfarfodydd y Cyngor;<br><br>16.03.2023 – trafod eitemau o gyfarfod ffurfiol mis Rhagfyr a'r Cylchlythyr i ddilyn;<br><br>27.04.2023 – trafod Templed Adroddiad yr Arweinwyr Grŵp (dyletswydd newydd dan Ddeddf 2021);<br><br>08.06.2023 – cyflwyno ymateb drafft y Pwyllgor Safonau yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru o argymhellion adroddiad Penn; |
| 5 | Ymyrraeth/ hysbysiad cwynion lefel isel, gyda rhai o fewn grwpiau nad ydynt wedi'u hadrodd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. | Angen gweld ymateb gan adroddiad Penn gan Lywodraeth Cymru. Rhaid gwneud pob adroddiad yn anhysbys. | Wedi cyfarfod ar 8/3/21 a 27/5/21.<br><br>Wedi cyhoeddi adroddiad Penn. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar agor dan ddiwedd Mehefin 2023. Bydd y mater hwn yn parhau o fewn Rhaglen Waith 2023/2024. |
| 6 | Cyfarfodydd | Cyfarfod ffurfiol diwethaf 15/12/2021<br><br>Cyfarfod(ydd) anffurfiol angen ystyried:<br>• Ymgynghoriad ar ganllawiau statudol drafft Llywodraeth Cymru ar safonau ymddygiad, fel drafft ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer y Cyngor llawn. (8/3/22) | Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol ar 28/6/22.<br><br>Cyfarfod anffurfiol ar 14/11/22 (arsylwi cyfarfod y Cyngor/Pwyllgor – trafod canfyddiadau)<br><br>Cyfarfod anffurfiol ar 07/12/22 (arsylwi cyfarfod y Cyngor/Pwyllgor – trafod cyflwyniad yng nghyfarfod yr Arweinwyr Grŵp)<br><br>Cyfarfod ffurfiol ar 14/12/22<br><br>Cyfarfod anffurfiol ar 13/1/23 (trafod amrywiaeth o faterion gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | • Rhaglen waith ar gyfer 22/23 (27/4/22)<br><br>Cyfarfod ffurfiol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 28/6/2022. | gynnwys eitemau ar gyfer Cylchlythyrau ac arsylwi cyfarfodydd y Pwyllgor)<br><br>Cyfarfod anffurfiol 24/3/23 (Templed Adroddiad Arweinwyr Grŵp gyda'u dyletswydd newydd dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021)<br><br>Cyfarfod anffurfiol 12/5/22 (ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar adroddiad Penn)<br><br>Cyfarfod anffurfiol 26/5/22 (adroddiad blynyddol a rhaglen waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024)<br><br>Cyfarfod ffurfiol nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 14/6/2023. |
| 7 | Cylchlythyr yn dilyn cyfarfod ffurfiol a gynhaliwyd 15.12.2021 | Aelodau angen ystyried olrhain ymatebion i'r Cylchlythyr gan nifer penodol o gynghorau tref a chymuned yn dilyn trafodaeth ar yr eitem hon yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2021. | Anfonwyd y Cylchlythyr ym mis Awst 2022 (ymgorffori gwybodaeth o gyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau ar 12/2021 a 06/2022).<br><br>Anfonwyd y Cylchlythyr ym mis Mawrth 2023 yn dilyn y cyfarfod ffurfiol ym mis Rhagfyr 2022– yn dilyn cyflwyniad gan bob Fforwm o'r Cynghorau Tref a Chymuned a chyfarfodydd Arweinwyr Grŵp.<br><br>Cylchlythyr yn cael ei anfon yn dilyn y cyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin 2023. |
| 8 | Adrodd am gwynion – Adroddiadau Diweddaru Chwarterol | Angen gweithio ar weithdrefn i alluogi aelodau'r Pwyllgor i gael sicrwydd na fydd achosion a adroddwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dangos unrhyw duedd benodol o ran ymddygiad gwael. Bwriad y broses hon yw gwarchod a pharchu (unrhyw rai | Cwynion ar gyfer Ch1 a Ch2 2022/2023 wedi'u cyflwyno i aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfod Rhagfyr 2022.<br><br>Cwynion ar gyfer Ch3 2022/2023 wedi'u hanfon at aelodau ym mis Ionawr 2023.<br>Cwynion ar gyfer Ch4 2022/2023 wedi'u hanfon at aelodau'r Pwyllgor Safonau ym mis Ebrill 2023.<br>Bydd adroddiadau cwynion Ch3 a Ch4 yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | o) ofynion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch cyfrinachedd y materion hyn. | Safonau ym mis Mehefin 2023. |
| 9 | Pwyllgor Safonau'n arsylwi gwaith Pwyllgorau Cyhoeddus a'r Cyngor llawn | Yn dilyn penderfyniad y bydd aelodau'r Pwyllgor yn ymgymryd â rôl arsylwi gweithdrefnau mewn cyfarfodydd ffurfiol cyhoeddus Pwyllgorau penodol o'r Cyngor (Sgriwtini a Chynllunio) a chyfarfodydd y Cyngor llawn, hysbyswyd Arweinwyr Grŵp fod hyn bellach mewn grym.<br><br>Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor sydd eisiau cymryd rhan yn y rôl arsylwi hon wneud cais i wirfoddoli, fel y gellir paratoi amserlen a neilltuo cyfrifoldebau yn ôl hyn. | Angen datblygu adroddiad profforma i sicrhau bod yr holl faterion yn cael eu cofnodi.<br><br>Cwblhawyd ymarferiad arsylwi rhwng Medi-Rhagfyr 2022. Mae manylion am y broses wedi'u cynnwys mewn adroddiad llawn i'r Pwyllgor Safonau (dolen isod).<br><br>Cyfarfod anffurfiol ar 14/11/22 (arsylwi cyfarfodydd y Cyngor/Pwyllgor – trafod canfyddiadau hyd yma)<br><br>Cyfarfod anffurfiol ar 07/12/22 (arsylwi cyfarfodydd y Cyngor/Pwyllgor – trafod cyflwyniad ar gyfer cyfarfod yr Arweinwyr Grŵp)<br><br>Trafod canfyddiadau gydag Arweinwyr Grŵp mewn cyfarfod ar 08/12/22<br><br>Cyfarfod ffurfio ar 14/12/22. Adroddiad llawn ar gael yma.<br><br>Arsylwadau ar gyfer Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn parhau. 4 aelod i fynychu cyfarfodydd ar 19/01/2023 (bore a phrynhawn).<br><br>Cyfarfod anffurfiol ar 13/1/23 (trafod amrywiaeth o faterion gan gynnwys parhau i arsylwi cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)<br><br>Gohebiaeth wedi'i anfon mewn perthynas â'r mater hwn, gan gynnwys Arweinwyr Grŵp.<br><br>Gwnaed penderfyniad i beidio â pharhau gydag unrhyw arsylwi pellach ar gyfer yr ymarferiad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hwn. Adolygu hyn yn y dyfodol. |
| 10 | Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini | | Trafodaethau'n parhau gydag Adnoddau Dynol.<br><br>Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau ar 20/5/22.<br><br>Cytunwyd bod y canlynol yn ofynnol i aelodau'r Pwyllgor Safonau<br> Moeseg a Safonau<br> GDPR<br> Ymwybyddiaeth seiber<br> Cyflwyniad i amrywiaeth a chydraddoldeb<br>Ar gael ar y gronfa ddysgu.<br><br>Cyfarfodydd cadeirio hefyd yn ofynnol ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau. [argymhellion y Pwyllgor Safonau, Arweinwyr Grŵp wedi cytuno arnynt].<br><br>Hyfforddiant Cod Ymddygiad wedi'i gynnal ar gyfer dau Aelod newydd y Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau (gwahoddiad estynedig i Aelodau eraill o'r Pwyllgor Safonau hefyd) ar 15.02.2023. |
| 11 | Sut i Gwyno | Ystyried sut i hyrwyddo sut i wneud cwyn yn erbyn aelodau etholedig unwaith y cytunir ar y broses ar gyfer cwynion 'lefel isel' yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adolygiad Penn. | Wedi cyhoeddi adroddiad Penn. Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar agor dan ddiwedd Mehefin 2023. Bydd y mater hwn yn parhau o fewn Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024. |

**MATERION A YCHWANEGWYD I'R RHAGLEN WAITH AR ÔL CAEL CYMERADWYAETH GAN Y CYNGOR LLAWN YM MIS MEDI 2023:**

| Rhif | Eitem | Camau | Camau a gymerwyd yn ystod cyfnod yr adroddiad |
|---|---|---|---|
| 12 | Caniatadau Arbennig / Gollyngiadau | Pan fydd ceisiadau'n codi | Dim ceisiadau yn ystod cyfnod yr adroddiad. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 13 | Adroddiadau blynyddol aelodau | Pwyllgor Safonau'n parhau i annog yr arferiad o gwblhau adroddiadau blynyddol | Rheolwr Busnes Gwasanaethau Democrataidd wedi mynychu cyfarfod ffurfiol ar 14/12/2022.<br><br>Penodi Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd newydd ym mis Ionawr 2023.<br><br>Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi cyflwyno'r mater hwn i'r Arweinwyr Grŵp ar 16/03/2023.<br><br>Cafodd y mater hwn ei gynnwys yng Nghylchlythyr y Cyngor Sir.<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd angen mynychu cyfarfod ym mis Mehefin 2023 i drafod gwaith sy'n mynd rhagddo gyda'r Adroddiadau Blynyddol. |
| 14 | Hyfforddiant Mewnol | Angen cofnodi hyfforddiant mewnol a sicrhau ei fod ar gael i aelodau | Ddim ar gael ar hyn o bryd. |
| 15 | Penodi cynghorwyr tref a chymuned eistedd ar y Pwyllgor Safonau | Gwahoddir ceisiadau drwy ohebiaeth a chylchlythyrau | Yn cael ei godi yn fforwm Cynghorau Tref a Chymuned mis Medi.<br>Dyddiad Cau 30/9/22<br>4 cais wedi'i dderbyn. Papur ymgeisio a phleidleisio wedi'i anfon at glerciaid Cynghorau Tref a Chymuned ar 6/10/2022 i'w dychwelyd erbyn 5pm 19/11/2022.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor llawn am benderfyniad ar 6/12/22.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ffurfiol ar 14/12/22. Ar gael yma.<br><br>Penodwyd y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymunedol Bryngwran a Chynghorydd Margaret Ann Thomas o Gyngor Tref Llangefni.. |
| 16 | Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned | Bydd y Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn mynychu cyfarfod y Fforwm | Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi mynychu cyfarfod y Fforwm ar 8/9/22 a 27/2/23. |
| 17 | Hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned | I'w ddarparu gan Un Llais Cymru | Gwahoddiadau wedi'u hanfon 12/8/22. Pedwar diwrnod o hyfforddiant wedi'u trefnu ym mis Hydref, gyda'r gofyniad i gyflwyno ceisiadau erbyn 16/9/22. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Tri dyddiad terfynol (oherwydd diffyg diddordeb gan Gynghorau Tref a Chymuned yn ystod y cyfnod cofrestru):<br>4/10/2022 am 2pm – Cymraeg<br>6/10/2022 am 6.30pm – Saesneg<br>20/10/2022 am 6.30pm – Cymraeg<br><br>Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ffurfiol ar 14/12/22. Ar gael yma.<br><br>Cafodd y mater sylw yng Nghylchlythyr y Cynghorau Tref a Chymuned. Cadeirydd ac Is-gadeirydd wedi mynychu cyfarfod Fforwm ar 27/02/2023 i gyflwyno'r Cylchlythyr/ annog aelodau'r Cynghorau Tref a Chymuned i gwblhau hyfforddiant cod ymddygiad. |
| 18 | Cyngor Cymuned A | Wedi derbyn pryderon lefel isel ynghylch toriadau Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r Cyngor / Cynghorwyr yn y Cyngor. | Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi mynychu dau gyfarfod arsylwi, ac wedi cynnal Adolygiad o'r Gofrestr Buddiannau gyda'r Clerc a'r Cadeirydd rhwng mis Hydref 2022 a Mawrth 2023. |
| 19 | Disgrifiad rôl ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau | Mae'n rhaid darparu disgrifiadau rôl ar gyfer aelodau etholedig a chyfetholedig yn ôl Siarter Datblygu Cymdeithas Llywodraeth Cymru. Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn mabwysiadu'r disgrifiadau rôl newydd. | Disgrifiadau rôl newydd ar-lein, ac yn cynnwys dolenni at dudalen personol bob aelod o'r Pwyllgor Safonau ar y wefan. |
| 20 | Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol | Cynnal y cyfarfod cyntaf ar 8/12/2022. Cadeirydd angen ei fynychu. | Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 27/01/2023. Cadeirydd y Pwyllgor Safonau wedi'i fynychu, ac wedi darparu adborth i Aelodau'r Pwyllgor Safonau drwy e-bost/diweddariad ar lafar yn dilyn hyfforddiant Cod Ymddygiad ym mis Chwefror 2023.<br><br>Cyfarfod nesaf y Fforwm ym mis Mehefin 2023.<br><br>Parhau ar Raglen Waith y Pwyllgor |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Safonau ar gyfer 2023/2024. |
| 21 | Cyngor Cymuned B | Wedi derbyn pryderon lefel isel ynghylch toriadau Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r Cyngor / Cynghorwyr yn y Cyngor. | Mynychwyd cyfarfod arsylwi ym mis Chwefror 2023, a chytunwyd ar gynnig Adolygu'r Gofrestr Buddiannau ar gyfer Haf 2023.<br><br>Parhau ar Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024. |
| 22 | Cyngor Cymuned C | Wedi derbyn pryderon lefel isel ynghylch toriadau Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r Cyngor / Cynghorwyr yn y Cyngor. | Mynychwyd cyfarfod arsylwi ym mis Chwefror 2023, a chytunwyd ar gynnig Adolygu'r Gofrestr Buddiannau ar gyfer Haf 2023.<br><br>Parhau ar Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024. |
| 23 | Cyngor Cymuned CH | Wedi derbyn pryderon lefel isel ynghylch toriadau Cod Ymddygiad mewn perthynas â'r Cyngor / Cynghorwyr yn y Cyngor. | Mynychwyd cyfarfod arsylwi ym mis Ebrill 2023.<br><br>Parhau ar Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024. |

# NEWYDDLEN Y PWYLLGOR SAFONAU CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

2il o Fedi 2022 - Rhifyn 4

## CYFLWYNIAD

Hoffai'r Pwyllgor Safonau eich llongyfarch i gyd ar gael eich ethol neu eich ailethol yn gynghorwyr tref / gymuned. Mae'r Pwyllgor Safonau yma i'ch cefnogi i gadw at y cod ymddygiad a fabwysiadwyd gan eich cyngor. Fel y gwyddoch, mae cynnal y lefelau uchaf o ymddygiad moesegol yn rhan hanfodol o'ch rôl wrth gynrychioli'r cyhoedd.

## DATGAN DIDDORDEB

Mae canllawiau lleol wedi'u cyhoeddi i Gynghorwyr ar ddatganiadau o ddiddordeb ac maent wedi'u darparu i'ch clercod*. Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosibl cael caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau i gymryd rhan mewn penderfyniadau, hyd yn oed os oes gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu (fel yr ydych yn gwybod, mae hwn yn ddiddordeb personol sylweddol sy'n golygu nad ydych yn cael cymryd rhan mewn trafodaeth neu bleidleisio). Mae canllawiau lleol ar sut i wneud cais am ganiatad arbennig wedi'u darparu i'ch clercod*. Cysylltwch â'r Swyddog Monitro am gyngor a chymorth wrth gyflwyno unrhyw gais y dymunwch ei wneud.

*Byddai'r Swyddog Monitro yn hapus i ddarparu copïau pellach ar gais.

## PANEL DYFARNU CYMRU

- Panel Dyfarnu Cymru sy'n gwneud penderfyniad ar achosion difrifol o dorri'r cod ymddygiad. Mae'r Panel yn dribiwnlys sy'n cynnal gwrandawiadau cyhoeddus.
- Adroddir ar yr achosion hyn yn llawn ar wefan y Panel Dyfarnu sydd ar gael ar y ddolen hon
- Os byddai'n well gennych chi weld crynodeb o'r achosion hyn fe adroddir arnynt i'r Pwyllgor Safonau. Mae'r crynodeb diweddaraf a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau ar gael yn y fan yma.

## DATBLYGU AELODAU

- Mae darparu hyfforddiant i chi ar eich cod ymddygiad yn rhan o rôl y Pwyllgor.
- Felly, rydym wedi ysgrifennu at bob clerc i gynnig sesiynau hyfforddi rhithiol ,1.5 awr o hyd, ar y dyddiadau a ganlyn:

Dydd Mawrth 4ydd Hydref, 2pm -Cymraeg
Dydd Iau 6ed Hydref, 6.30pm – Saesneg
Dydd Mawrth 18fed Hydref, 2pm - Saesneg
Dydd Iau 20fed Hydref, 6.30pm – Cymraeg

- Mae lleoedd yn gyfyngedig, felly os ydych yn gallu mynychu un o'r sesiynau yna rhowch wybod i'ch clerc cyn gynted â phosibl.

## EGWYDDORION NOLAN

**Wrth gytuno i ddod yn Gynghorydd fe wnaethoch chi hefyd gytuno i gadw at yr egwyddorion ymddygiad ar gyfer bywyd cyhoeddus a adwaenir yn gyffredinol fel Egwyddorion Nolan. Yng Nghymru, mae'r rhain yn cynnwys y canlynol**

·Anhunanoldeb
·Gonestrwydd
·Unplygrwydd a phriodoldeb
·Dyletswydd i gynnal y gyfraith
·Stiwardiaeth
·Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
·Cydraddoldeb a pharch
·Bod yn agored
·Atebolrwydd
·Arweinyddiaeth

## ADOLYGIADAU LLYWODRAETHU ANFFURFIOL

Mae'r Pwyllgor yn cynnal adolygiadau llywodraethu o rai cynghorau tref/cymuned; edrych ar ymrwymiadau, datganiadau o ddiddordeb, cofnodion a chofnodion hyfforddiant. Pan fu'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal adolygiadau o'r fath, byddent yn cysylltu â'r clercod perthnasol ymlaen llaw. Rydym yn ddiolchgar iawn i'ch clercod am y cymorth y maent wedi'i roi i ni yn y gorffennol.

- Bydd pob cyngor a adolygir yn derbyn adborth ysgrifenedig ac unrhyw argymhellion, i'w hystyried gan bob aelod o'r cyngor, ond ar sail anffurfiol
- Rhoddir adborth cyffredinol a dienw i bob cyngor hefyd, gan gynnwys unrhyw argymhellion a rhannu arfer da. Byddwn yn gofyn i'r adborth hwn gael ei rannu mewn cyfarfod ffurfiol o'r cyngor

## MONITRO YMDDYGIAD

Mae'r Pwyllgor hefyd yn bwriadu, o bryd i'w gilydd, anfon dau o'i aelodau i fonitro ymddygiad yng nghyfarfodydd cyhoeddus rhai cynghorau tref/cymuned. Gobeithiwn gyflawni hyn o bell a byddwn yn cysylltu â'r clercod perthnasol er mwyn gwneud y trefniadau.
Bydd aelodau'r Pwyllgor yn rhoi adborth cynnar i'r cadeirydd a'r clerc; a gall gynhyrchu canfyddiadau cyffredinol i'w dosbarthu i bob cyngor. Bydd y trefniadau monitro hyn yn dechrau yn 2023.

## DYLETSWYDDAU CYFREITHIOL NEWYDD AR GYNGHORAU TREF/CYMUNED

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 rhaid i gynghorau tref a chymuned:

- Cynhyrchu cynllun hyfforddi blynyddol ar gyfer ei gynghorwyr a'i staff, gyda'r cynllun cyntaf yn ofynnol o fewn 6 mis i'r etholiad llywodraeth leol diwethaf ar 5 Mai 2022. Mae'r cynllun hyfforddi yn ddogfen y bydd y Pwyllgor yn gofyn amdani pan fydd yn cynnal ei adolygiadau.
- Cyhoeddi adroddiad blynyddol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol.
- Mae Un Llais Cymru yn cefnogi ei aelodau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd.

## AC YN OLAF...

Mae'r Pwyllgor Safonau angen 2 gynrychiolydd gynghorau tref / cymuned i eistedd ar y Pwyllgor. Mae ceisiadau wedi cael eu hanfon at Glercod y gynghorau tref a chymuned gyda dyddiad cau ar gyfer ymateb erbyn diwedd mis Medi 2022. Os nad yw eich cyngor wedi trafod y cais hwn eto, gofynnwn i chi wneud hynny, ac ystyried cyflwyno enwebiad. Mae'r ffurflen gais berthnasol wedi ei darparu i bob clerc. Os bydd mwy na dau ymgeisydd yn cael eu henwebu, bydd proses pleidlais bost yn dilyn.

Hefyd, rhowch wybod i'ch clercod os ydych yn dymuno mynychu unrhyw un o'r sesiynau hyfforddi a nodir uchod.

Nodyn i'ch atgoffa bod y Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned lleol i fod i gael ei gynnal ar 8 Medi 2022.
Sicrhewch fod eich cyngor yn cael ei gynrychioli.



Bydd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor yn cael ei ystyried gan y Cyngor Sir ar y 29ain o Fedi 2022 a bydd ar gael i chi ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn

# NEWYDDLEN Y PWYLLGOR SAFONAU AR GYFER CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mawrth 2023 - Rhifyn 4

## CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau yma i'ch cefnogi i ddilyn y Cod Ymddygiad y mae'ch Cyngor wedi'i fabwysiadu. Fel y gwyddoch, wrth gynrychioli'r cyhoedd mae'n hanfodol eich bod yn cynnal ymddygiad moesegol o'r safon uchaf.

## EICH CYNRYCHIOLWYR AR Y PWYLLGOR SAFONAU

Yn dilyn pleidlais bost, cafodd y Cynghorydd Iorwerth Roberts o Gyngor Cymuned Bryngwran a'r Cynghorydd Margaret Thomas o Gyngor Tref Llangefni eu hethol i gynrychioli'r cynghorau tref a chymuned ar y Pwyllgor Safonau. Llongyfarchiadau i'r ddau a diolch i'r cynghorau a gymerodd ran yn y broses.

## CWYNION LLEOL

Mae'r Pwyllgor Safonau'n falch bod cyn lleied o gwynion yn cael eu hanfon at yr Ombwdsmon mewn perthynas ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad gan gynghorwyr tref a chymuned yn Ynys Môn.

## ACHOSION OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC) A PHANEL DYFARNU CYMRU (PDC)

Mae OGCC yn ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad. Mae OGCC yn cyhoeddi gwybodaeth gyfyngedig ynglŷn â'r achosion sy'n cael eu cyfeirio ati ar wefan y gwasanaeth. Mae OGCC yn cyfeirio'r achosion mwyaf difrifol at PDC.
Mae'r rhain yn cael eu hadrodd yn llawn ar wefan OGCC ac maent ar gael yma ac ar wefan PDC yma.
Mae crynodeb o'r achosion hyn yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Safonau (PS).
Mae'r crynodeb gan OGCC a ystyriwyd gan y PS ar gael yma ac mae'r crynodeb gan PDC a ystyriwyd gan y PS ar gael yma.

Mae'r themâu allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r Ombwdsmon newydd (yn y rôl ers 1.4.22) yn dal i ddefnyddio'r prawf dau gam wrth ystyried achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad. (1.) A oes tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri? a (2.) A ddylid ymchwilio i'r mater er budd y cyhoedd?
- Mae'n bwysig bod aelodau a chlercod cynghorau tref a chymuned yn cwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

## HYFFORDDIANT

- Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorau lunio cynllun hyfforddi blynyddol ar gyfer cynghorwyr a staff; roedd rhaid cynhyrchu'r cynllun cyntaf o fewn 6 mis i'r etholiadau llywodraeth leol ar 5 Mai 2022.
- **Hoffai'r Pwyllgor Safonau weld eich cynllun hyfforddi chi. Os gwelwch yn dda, anfonwch gopi at medwenjones@ynysmon.llyw.cymru erbyn 31 Mai 2023. Bydd y mater yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.**
- Roedd y Pwyllgor Safonau'n siomedig o weld cyn lleied yn yr hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad ym mis Hydref 2022. Roedd lle i 90, ond dim ond 37 a gwblhaodd yr hyfforddiant ar y Cod. O'r 40 cyngor tref a chymuned ar Ynys Môn roedd 29 heb glerc nac aelod yn bresennol.
- Mae OGCC a PDC yn annog aelodau a chlercod i gwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.
- Os byddwch yn torri'r Cod, a'ch bod heb gwblhau hyfforddiant ar y Cod, bydd hynny'n gwaethygu lefel y gosb fydd yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Safonau neu PDC.

## EGWYDDORION NOLAN

Roedd y rhifyn diwethaf yn cynnwys gwybodaeth am y saith egwyddor mewn bywyd cyhoeddus. Os hoffech edrych arnynt eto, dilynwch y ddolen hon.

## CANIATÂD ARBENNIG

O dan y Cod Ymddygiad fe all aelodau ofyn am ganiatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau i gael cymryd rhan mewn penderfyniadau os oes ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu. Mae'ch clerc wedi derbyn canllawiau ar sut i ofyn am ganiatâd arbennig*. Cysylltwch â'r Swyddog Monitro am gyngor a chymorth mewn perthynas ag unrhyw gais am ganiatâd arbennig.
* Bydd y Swyddog Monitro'n hapus i ddarparu copi arall ar gais.

## FFORWM CENEDLAETHOL PWYLLGORAU SAFONAU CYMRU

Mae fforwm Cenedlaethol wedi cael ei greu ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau safonau. Bydd yn rhoi cyfle i'r 28 awdurdod yng Nghymru y mae'n ofynnol iddynt gael Pwyllgor Safonau ddod at ei gilydd i drafod arfer dda a datrys problemau. Byddwn yn rhannu unrhyw negeseuon allweddol gyda chi.

## AC YN OLAF:

Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 14/12/2022. Os hoffech edrych ar yr eitemau/adroddiadau a gafodd eu hystyried yn ystod y cyfarfod hwn, dilynwch y ddolen hon os gwelwch yn dda.
Os oes angen cyngor neu wybodaeth bellach arnoch, cysylltwch â'r Swyddog Monitro lynnball@ynysmon.llyw.cymru os gwelwch yn dda.

# STANDARDS COMMITTEE NEWSLETTER TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

March 2023 - Issue 4

## INTRODUCTION

The Standards Committee is here to support you in observing the Code of Conduct adopted by your Council. As you know, maintaining the highest level of ethical behaviour is an essential part of your role in representing the public.

## YOUR REPRESENTATIVES ON THE STANDARDS COMMITTEE

Following a postal ballot process, Councillor Iorwerth Roberts from Bryngwran Community Council and Councillor Margaret Thomas from Llangefni Town Council have been selected to represent the town and community councils on the Standards Committee. Congratulations to both and thanks to all councils that took part in the process.

## LOCAL COMPLAINTS

The Standards Committee is pleased with the low numbers of complaints being sent to the Ombudsman in relation to allegations of breaches of the Code of Conduct by both county and community councillors in Anglesey.

## PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES (PSOW) AND ADJUDICATION PANEL FOR WALES (APW) CASES

Allegations of breaches of the Code of Conduct are investigated by the PSOW. The PSOW publishes limited information of the cases that are referred to her office on the website. The PSOW will, in the most serious matters, refer cases to be decided by the APW.

These cases are reported in full on the PSOW's website and are available here and on the APW's website and available here.

Summarised versions of these cases are reported to the Standards Committee (SC) and the link to the PSOW summary considered by the SC is here. and the APW summary considered by the SC is here.

Key themes that arise include:

- The newly appointed PSOW (in the role since 1.4.22) continues to use the two stage test when considering allegations of breaches of the Code of Conduct (1.) Is there evidence of a breach of the Code? and (2.) Is it in the public interest for the matter to be investigated?
- The importance of completing training on the Code of Conduct, for both members and clerks in the town and community councils.

## TRAINING

- Producing an annual training plan for both councillors and staff is now a requirement under the Local Government and Elections (Wales) Act 2021; the first plan was required within 6 months of the local government election on 5 May 2022.
- **The Standards Committee would like to see your training plan. Please send to medwenjones@ynysmon.llyw.cymru by 31 May 2023. The matter will be discussed by the Standards Committee at its June meeting.**
- The Standards Committee considered that the number of attendees at the recent Code of Conduct training in October 2022 was disappointing. Of the 90 spaces available, only 37 completed the training on the Code. There were no clerks or members from 29 of the 40 town and community councils on Anglesey present.
- The PSOW and the APW encourage members and clerks to undertake Code of Conduct training.
- Should you breach the Code, failure to have undertaken training on the Code would be considered an aggravating factor when the issue of sanction was considered by the Standards Committee or the APW.

## THE NOLAN PRINCIPLES

The last edition of the Newsletter provided some detail about the principles of conduct in public life. Should you wish to review these again, please follow this link.

## DISPENSATIONS

It is possible for members to get special permission from the Standards Committee to take part in decisions when that member has a prejudicial interest under the Code of Conduct. A local guidance on how to apply for a dispensation has been provided to your clerks*. Please contact the Monitoring Officer for advice and support in relation to any application you may wish to make.

* The Monitoring Officer would be glad to provide a further copy on request.

## WALES NATIONAL STANDARDS COMMITTEE FORUM

An All-Wales Forum for standards committee chairs has been created. This will be an opportunity for sharing good practice and problem solving amongst the 28 authorities required to have a Standards Committee in Wales. Any key messages from the Forum will be shared with you.

## AND FINALLY:

The Standards Committee held a formal meeting on 14/12/2022 and should you wish to look at the items/reports considered at that meeting, please follow this link.

If you require any assistance, or further information, please contact the Monitoring Officer on lynnball@ynysmon.llyw.cymru

# NEWYDDLEN Y PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR YNYS MÔN

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

5ed o Awst 2022 - Rhifyn 3

## CYFLWYNIAD

**Hoffai'r Pwyllgor Safonau eich llongyfarch ar gael eich hethol neu eich hail-ethol i'r Cyngor Sir. Mae'r Pwyllgor Safonau yma i'ch cynorthwyo i gadw at y Cod Ymddygiad. Fel y gwyddoch, mae cynnal ymddygiad moesegol o'r safon uchaf yn rhan hanfodol o'ch rôl yn cynrychioli'r cyhoedd.**

## DATGAN DIDDORDEB

Mae canllawiau lleol wedi cael eu rhannu â Chynghorwyr mewn perthynas â datgan diddordeb ac maent hefyd ar gael ar y ddolen hon. Mewn rhai amgylchiadau mae'n bosib cael caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau i gymryd rhan mewn proses benderfynu hyd yn oed os oes gennych chi ddiddordeb sy'n rhagfarnu (fel y gwyddoch, mae hyn yn golygu diddordeb personol sylweddol sy'n eich hatal rhag gymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais). Gelwir y caniatâd arbennig hwn gan y Pwyllgor Safonau'n ollyngiad ac mae canllawiau lleol ar sut i wneud cais am ollyngiad ar gael yn y fan yma. Cysylltwch â'r Swyddog Monitro os hoffech gyngor neu gymorth wrth gyflwyno cais.

## PANEL DYFARNU CYMRU

- Panel Dyfarnu Cymru sy'n gwneud penderfyniad ar achosion difrifol o dorri'r Cod Ymddygiad. Mae'r Panel yn dribiwnlys sy'n cynnal gwrandawiadau cyhoeddus.
- Adroddir ar yr achosion hyn yn llawn ar wefan y Panel Dyfarnu sydd ar gael ar y ddolen hon
- Os byddai'n well gennych chi weld crynodeb o'r achosion hyn fe adroddir arnynt i'r Pwyllgor Safonau. Mae'r crynodeb diweddaraf a ystyriwyd gan y Pwyllgor Safonau ar gael yn y fan yma

## DATRYSIAD LLEOL

Mae'r Pwyllgor Safonau yn credu mewn ymyrraeth gynnar, a chyfryngu, er mwyn datrys problemau lle bynnag y bo modd.
I'r perwyl hwn mae'r Pwyllgor wrthi'n datblygu Protocol Datrysiad Lleol newydd, i gynnwys yr Arweinwyr Grŵp, a fydd yn cael ei anfon at bob Cynghorydd maes o law.

## EGWYDDORION NOLAN

**Wrth gytuno i ddod yn Gynghorydd fe wnaethoch chi hefyd gytuno i gadw at yr egwyddorion ymddygiad ar gyfer bywyd cyhoeddus a adwaenir yn gyffredinol fel Egwyddorion Nolan. Yng Nghymru, mae'r rhain yn cynnwys y canlynol**

- Anhunanoldeb
- Gonestrwydd
- Unplygrwydd a phriodoldeb
- Dyletswydd i gynnal y gyfraith
- Stiwardiaeth
- Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau
- Cydraddoldeb a pharch
- Bod yn agored
- Atebolrwydd
- Arweinyddiaeth

## MONITRO YMDDYGIAD

- Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor / ei Bwyllgorau o bryd i'w gilydd i asesu cydymffurfiaeth â'r safonau ymddygiad
- Bydd adborth buan yn cael ei roi i Gadeiryddion Pwyllgorau
- Bydd adborth yn cael ei roi i Arweinwyr Grŵp yn chwarterol

## DATBLYGU AELODAU

- Mae'n rhaid i Gynghorwyr gwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.
- Cynhaliwyd sesiwn ar 20 Mai 2022 a rhannwyd y deunyddiau hyfforddi â phob Cynghorydd
- Fodd bynnag, cynghorir y rheiny nad oedd yn gallu bod yn bresennol i gwblhau'r modiwl "Moeseg a Safonau" ar Gronfa Ddysgu'r Cyngor, 'Learning Pool'. Mae'r ddolen ar gael yn y fan yma

## DYLETSWYDDAU CYFREITHIOL NEWYDD AR Y PWYLLGOR SAFONAU

- Erbyn hyn mae'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau fonitro'r modd y mae Arweinwyr Grwp yn cyflawni'r ddyletswydd statudol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad o safon uchel ymysg yr aelodau o'u grwp
- Sicrhau bod Arweinwyr Grŵp yn derbyn hyfforddiant ar sut i gyflawni y ddyletswydd safonau moesegol
- Rhaid i'r Pwyllgor Safonau gyflawni adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Cyflwynir adroddiad statudol cyntaf y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor ar 29 Medi 2022 a bydd ar gael ar wefan y Cyngor.

## AC YN OLAF......

**Mae'r Pwyllgor Safonau yn chwilio am 2 gynrychiolydd o Gyngor Tref/Cymuned i fod yn rhan o'r Pwyllgor. Anfonwyd cais at Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned a'r dyddiad cau ar gyfer enwebu yw diwedd Medi 2022. Hyd yma, dim ond un enwebiad sydd wedi dod i law ac felly gofynnwn i chi atgoffa'r Cynghorau Cymuned yr ydych chi'n aelod ohonynt / yn eu mynychu'n rheolaidd, i ystyried cyflwyno o leiaf un enwebiad yr un. Os bydd mwy na dau ymgiesydd yn cael ei enwebu, bydd proses bleidlais drwy'r post wedyn yn dilyn.**

**Os oes angen unrhyw gymorth arnoch, neu wybodaeth bellach, cysylltwch â'r Swyddog Monitro os gwelwch yn dda lynnball@ynysmon.llyw.cymru**

# NEWYDDLEN Y PWYLLGOR SAFONAU AR GYFER CYNGHORWYR SIR

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mawrth 2023 - Rhifyn 4

## CYFLWYNIAD

Mae'r Pwyllgor Safonau yma i'ch cefnogi i ddilyn y Cod Ymddygiad i Aelodau. Fel y gwyddoch, wrth gynrychioli'r cyhoedd mae'n hanfodol eich bod yn cynnal ymddygiad moesegol o'r safon uchaf.

### ADRODDIADAU BLYNYDDOL

Mae'r Pwyllgor Safonau'n annog pob aelod etholedig i gwblhau Adroddiad Blynyddol, gan nodi'r gwaith a'r hyfforddiant yr ydych chi wedi'i gyflawni fel aelod o'r Cyngor hwn rhwng 01.04.22-31.03.23. Mae templed ar gael yma.

### CANIATÂD ARBENNIG

O dan y Cod Ymddygiad, gall aelodau ofyn with y Pwyllgor Safonau am ganiatâd arbennig i'w caniatau i gymryd rhan mewn penderfyniadau pan fo ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu. Mae canllawiau lleol ar sut i wneud cais am ganiatâd arbennig ar gael yma. Cysylltwch â'r Swyddog Monitro am gyngor a chymorth mewn perthynas ag unrhyw gais am ganiatâd arbennig.

### MONITRO YMDDYGIAD

Fel rhan o'i raglen waith, mae aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi ymuno â chyfarfodydd (a) y Cyngor, (b) y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (c) y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac (ch) y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i fonitro safonau ymddygiad. Hoffai'r Pwyllgor Safonau fanteisio ar y cyfle i ddiolch i chi am y croeso. Mae adborth wedi cael ei rannu ar lafar gyda chadeiryddion pwyllgorau, mewn cyfarfod o'r Grŵp Arweinyddion ac yn Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini. Mae dolen i'r rhestr lawn o argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Safonau ar gael yma.

### FFORWM CENEDLAETHOL PWYLLGORAU SAFONAU CYMRU

Yn dilyn argymhelliad yn adroddiad Penn, mae fforwm cenedlaethol wedi cael ei sefydlu ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau safonau. Bydd y Fforwm yn gyfle i rannu arfer dda. Byddwn yn rhannu unrhyw negeseuon allweddol gyda chi.

### HYFFORDDIANT I AELODAU

Fe'ch anogir i gwblhau unrhyw hyfforddiant a fydd o gymorth i chi yn eich rôl fel aelod o CSYM. Nod unrhyw hyfforddiant yw eich grymuso a'ch galluogi i weithredu mor effeithiol â phosibl yn eich rôl.

Anogir Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Cyngor a'i bwyllgorau yn gryf i gwblhau'r modiwl Sgiliau Cadeirio.

Os nad ydych wedi cwblhau'r hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, mae'r Pwyllgor Safonau'n eich annog i wneud hynny.

Mae'r holl fodiwlau ar gael ar y Gronfa Ddysgu (Learning Pool) sydd ar gael ar y ddolen hon. Am gyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r Gronfa dilynwch y ddolen hon.

Ar ôl i chi gwblhau unrhyw hyfforddiant yn rhinwedd eich rôl fel aelod, cofiwch nodi manylion yr hyfforddiant hwnnw ar eich tudalen proffil ar y wefan. I gael gwybod sut i wneud hyn dilynwch y ddolen hon.

Os hoffech gael manylion yr hyfforddiant corfforaethol yr ydych chi wedi'i gwblhau, cysylltwch â CefnogaethAelodauEtholedig@ynysmon.llyw.cymru

### CWYNION LLEOL

Mae'r Pwyllgor Safonau'n falch bod cyn lleied o gwynion yn cael eu hanfon at yr Ombwdsmon mewn perthynas ag achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad.

### AC YN OLAF:

Cynhaliwyd cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 14/12/2022. Os hoffech edrych ar yr eitemau/adroddiadau a gafodd eu hystyried yn ystod y cyfarfod hwn, dilynwch y ddolen hon os gwelwch yn dda.

Os oes angen cymorth neu wybodaeth bellach arnoch, cysylltwch â'r Swyddog Monitro lynnball@ynysmon.llyw.cymru os gwelwch yn dda.

### ACHOSION OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (OGCC) A PHANEL DYFARNU CYMRU (PDC)

Mae OGCC yn ymchwilio i achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad. Mae OGCC yn cyhoeddi gwybodaeth gyfyngedig ynglŷn â'r achosion sy'n cael eu cyfeirio ati ar y wefan y gwasanaeth. Mae OGCC yn cyfeirio'r achosion mwyaf difrifol at PDC.

Mae'r rhain yn cael eu hadrodd yn llawn ar wefan OGCC ac maent ar gael yma ac ar wefan PDC yma.

Mae crynodeb o'r achosion hyn yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Safonau (PS). Mae'r crynodeb gan OGCC a ystyriwyd gan y PS ar gael yma ac mae'r crynodeb gan PDC a ystyriwyd gan y PS ar gael yma.

Mae'r themâu allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r Ombwdsmon newydd (yn y rôl ers 1.4.22) yn dal i ddefnyddio'r prawf dau gam wrth ystyried achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad. (1.) A oes tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri? a (2.) A ddylid ymchwilio i'r mater er budd y cyhoedd?
- Pwysigrwydd cwblhau hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

### EGWYDDORION NOLAN

Roedd y rhifyn diwethaf yn cynnwys gwybodaeth am y saith egwyddor mewn bywyd cyhoeddus. Os hoffech edrych arnynt eto, dilynwch y ddolen hon.

### PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

Mae fersiwn diwygiedig o'r protocol datrysiad lleol wedi cael ei fabwysiadu ar ôl ymgynghori ag aelodau. Mae copi ar gael yma.

# STANDARDS COMMITTEE NEWSLETTER COUNTY COUNCILLORS

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

March 2023 - Issue 4

## INTRODUCTION

**The Standards Committee is here to support you in observing the Code of Conduct for members. As you know, maintaining the highest level of ethical behaviour is an essential part of your role in representing the public.**

### ANNUAL REPORTS

The Standards Committee encourages all elected members to complete an Annual Report, detailing the work and training you have undertaken during your year as a member of this Council from 01.04.22-31.03.23. There is a template for your use and it is available here

### DISPENSATIONS

It is possible for members to get special permission from the Standards Committee to take part in decisions when that member has a prejudicial interest under the Code of Conduct. A local guidance on how to apply for a dispensation is available here. Please contact the Monitoring Officer for advice and support in relation to any application you may wish to make.

### MONITORING CONDUCT

As part of its work programme, members of the Standards Committee have attended meetings of (a) the Council, (b) the Planning and Orders Committee, (c) the Corporate Scrutiny Committee and (d) the Partnership and Regeneration Scrutiny Committee to monitor standards of conduct. The Standards Committee takes this opportunity to thank you for your welcome. Verbal feedback has been provided to committee chairs, Group Leaders' meeting and the Scrutiny Committees' Chair and Vice-Chair Forum. A link to the full list of recommendations made by the Standards Committee can be seen here.

### WALES NATIONAL STANDARDS COMMITTEE FORUM

Following a recommendation made in the Penn report, an all-Wales Forum for standards committee chairs has been created. This will be an opportunity for sharing good practice. Any key messages from the Forum will be shared with you.

### TRAINING FOR MEMBERS

You are encouraged to complete any training which assists you in your role as members of the IOACC. Training is intended to empower and to make you as effective as possible in your role. Chairs and vice chairs of the Council and its committees are strongly encouraged to complete the Chairing Skills module.

If you have not yet undertaken recent Code of Conduct training, the Standards Committee urges you to do so.

All modules are available on Learning Pool, the link is here For instructions on how to access Learning Pool follow this link.

When you have completed any training in your role as member, remember to include details of that training on your profile page on the website. For details on how to do this follow this link.

If you need details of your corporately completed training, please contact CefnogaethAelodauEtholedig @ynysmon.llyw.cymru

### LOCAL COMPLAINTS

The Standards Committee is pleased with the low numbers of complaints being sent to the Ombudsman in relation to allegations of breaches of the Code of Conduct .

### AND FINALLY

The Standards Committee held a formal meeting on 14/12/2022 and should you wish to look at the items/reports considered at that meeting, please follow this link.

If you require any assistance, or further information, please contact the Monitoring Officer on lynnball@ynysmon.llyw.cymru

### PUBLIC SERVICES OMBUDSMAN FOR WALES (PSOW) AND ADJUDICATION PANEL FOR WALES (APW) CASES

Allegations of breaches of the Code of Conduct are investigated by the PSOW. The PSOW publishes limited information of the cases that are referred to her office on the website. The PSOW will, in the most serious matters, refer cases to be decided by the APW.

These cases are reported in full on the PSOW's website and are available here and on the APW's website and available here.

Summarised versions of these cases are reported to the Standards Committee (SC) and the link to the PSOW summary considered by the SC is here and the APW summary considered by the SC is here.

Key themes that arise include:

- The newly appointed PSOW (in the role since 1.4.22) continues to use the two stage test when considering allegations of breaches of the Code of Conduct by members: (1.) Is there evidence of a breach of the Code? and (2.) Is it in the public interest for the matter to be investigated?
- The importance of completing training on the Code of Conduct.

### THE NOLAN PRINCIPLES

The last edition of the Newsletter provided some detail about the principles of conduct in public life. Should you wish to review these again, please follow this link.

### LOCAL RESOLUTION PROTOCOL


An amended local resolution protocol has been adopted following consultation with members. A copy is available here.

# CWRDD AG AELODAU PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR YNYS MÔN

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Penodwyd dau aelod newydd i'r Pwyllgor Safonau yn ddiweddar; wrth eu cyflwyno nhw mae hefyd yn gyfle addas i rannu gwybodaeth gyda chi am yr holl aelodau sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn – i chi gael rhoi wyneb i'r rheiny sy'n gyfrifol am Newyddlenni'r Pwyllgor Safonau a gyhoeddir ddwywaith y flwyddyn.**

**Mae gan y Pwyllgor Safonau naw o aelodau: mae pump ohonynt yn aelodau annibynnol sydd wedi cael eu cyfethol yn dilyn proses statudol; mae dau aelod yn cael eu hethol gan y cynghorwyr tref a chymuned lleol fel cynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned; ac mae dau aelod yn cael eu dewis o blith aelodau etholedig y Cyngor Sir.**



## JOHN ROBERT JONES
## Aelod Annibynnol

Cafodd y Cadeirydd, John, ei gyfethol i'r Pwyllgor Safonau yn 2017, blwyddyn ar ôl iddo ymddeol fel Prif Swyddog Medrwn Môn, yr asiantaeth annibynnol sy'n darparu cyngor a chymorth i sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol.
Mae John yn siaradwr Cymraeg a chafodd ei eni a'i fagu ar Ynys Môn ac mae'n dal i fyw ar yr ynys gyda'i deulu.
"Cefais fy ethol yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Safonau yn 2020 ac mae'r Pwyllgor Safonau'n parhau i weithio'n rhagweithiol gydag aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig y Cyngor Sir, yn ogystal â chynghorwyr tref a chymuned, i gynnal y safonau ymddygiad uchaf posib".
Gallwch gysylltu â'r cadeirydd ar JohnJones@ynysmon.llyw.cymru



## RHYS DAVIES
## Aelod Annibynnol

Cafodd Rhys, ei ethol yn Is-gadeirydd yn fuan ar ôl iddo gael ei benodi i'r Pwyllgor Safonau yn 2019. Ar ôl astudio deintyddiaeth yng Nghaerdydd, daeth adref i'w ynys enedigol, Ynys Môn, i weithio fel deintydd am dros 30 mlynedd, nes iddo ymddeol yn 2015.
"Rydw i wedi mwynhau'r profiadau a gefais ers dod yn aelod o'r Pwyllgor Safonau. Byddaf yn hapus i ymroi a chyfrannu at y gwaith o gynorthwyo aelodau i gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Côd Ymddygiad er mwyn sicrhau fod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd dryloyw a bod aelodau'n gweithredu gydag uniondeb".



## CELYN MENAI EDWARDS
## Aelod Annibynnol

Ar hyn o bryd mae Celyn, sydd wedi cymhwyso fel bargyfreithiwr, yn gweithio fel Prif Weithredwr Cymdeithas Elusennol Ynys Môn a chyn hynny roedd yn gweithio i Senedd Cymru. Cafodd ei phenodi i'r Pwyllgor Safonau yn 2019 wedi iddi hi a'i theulu ddychwelyd i Ynys Môn o Gaerdydd.




## GILL MURGATROYD
## Aelod Annibynnol

Mae Gill yn Gymrawd y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu ac, ar hyn o bryd, mae'n Gyfarwyddwr ar ei busnes ymgynghoriaeth Adnoddau Dynol a datblygu sefydliadau y mae'n ei redeg o'i chartref yn Llandudno, Gogledd Cymru.



## SHARON WARNES
## Aelod Annibynnol

Dechreuodd Sharon ei gyrfa fel athrawes ysgol uwchradd ac yna bu'n gweithio yn y sector addysg bellach cyn gweithio mewn llywodraeth leol am dros 30 mlynedd.
Yn ogystal â'i rôl ar y Pwyllgor Safonau ers 2019, mae'n aelod lleyg o Bwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd a hi yw Cadeirydd Pwyllgor Safonau Parc Cenedlaethol Eryri.



## TREFOR LLOYD HUGHES
## Cynrychiolydd Cyngor Sir

Mae Trefor yn aelod o Blaid Cymru ac mae'n cynrychioli Ynys Cybi ar y Cyngor Sir. Cafodd ei benodi i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022; hwn fydd ei ail dymor ar y Pwyllgor.



## DAFYDD RHYS THOMAS
## Cynrychiolydd Cyngor Sir

Mae Dafydd yn aelod o'r Grŵp Annibynnol. Penodwyd Dafydd i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022; hwn fydd ei ail dymor ar y Pwyllgor Safonau ac mae'n cynrychioli Ynys Cybi ar y Cyngor Sir.



## MARGARET THOMAS
## Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned

Mae Margaret wedi bod yn aelod o Gyngor Tref Llangefni am 23 mlynedd a bu'n Faer y Dref bum gwaith yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'n cynrychioli'r Cyngor Tref yng nghyfarfodydd Rhanbarthol Un Llais Cymru a'r pwyllgor ardal.
Mae hi wedi byw ar Ynys Môn gydol ei hoes ac mae'n dal i fyw ar y fferm deuluol, gan olynu ei rhieni. Penodwyd Margaret i'r Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2022.
"Rydw i'n edrych ymlaen at ddefnyddio fy mhrofiad fel Cynghorydd Tref i gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau gyda'i rôl o gynnal lefelau uchel o ymddygiad ymysg aelodau etholedig a chyfetholedig yn Ynys Môn".



## IORWERTH ROBERTS
## Cynrychiolydd Cyngor Tref a Chymuned

Mae Iorwerth yn aelod o Gyngor Cymuned Bryngwran ers 1997 ac, yn ystod y 22 mlynedd diwethaf, mae o wedi bod yn Gadeirydd ar y Cyngor Cymuned.
Bu'n gweithio yn y diwydiant adeiladu am dros 30 mlynedd, gan gynnwys fel tiwtor ac asesydd achrededig. Penodwyd Iorwerth i'r Pwyllgor Safonau am y tro cyntaf yn 2017 a chafodd ei benodi am ail dymor yn ddiweddar.
"Rydw i'n gobeithio y gall fy mhrofiad fel cynghorydd cymuned gynorthwyo'r pwyllgor pan fydd yn trafod materion yn gysylltiedig ag ymddygiad, yn arbennig os ydynt yn ymwneud â chynghorwyr cymuned. Un peth y byddwn yn ei bwysleisio i'r cynghorwyr presennol yw bod hyfforddiant yn hanfodol, ac yn enwedig hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad.

**Mae'r Pwyllgor Safonau yma i'ch cynorthwyo i gadw at y Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan eich Cyngor. Fel y gwyddoch, mae cynnal y lefel uchaf o ymddygiad moesegol yn rhan hanfodol o'ch rôl wrth gynrychioli'r cyhoedd.**

**Am ragor o wybodaeth am waith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn, gweler y Rhaglen Waith ar gyfer 2022/2023 yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.**




**Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau am waith y Pwyllgor Safonau, cysylltwch â'r Swyddog Monitro ar lynnball@ynysmon.llyw.cymru**

# MEET THE MEMBERS OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL'S STANDARDS COMMITTEE

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Two new members have recently been appointed to the Standards Committee; whilst introducing them, it also seems an appropriate time to provide you with information on all the members that collectively form the Isle of Anglesey County Council's Standards Committee – so that you may put faces to those behind the bi-annual Standards Committee Newsletters.

There are 9 members on the Standards Committee: five are independent members who have been co-opted following a statutory process; two are elected by the local town and community councillors as the town and community council representatives; and two are selected from amongst the elected members on the county council.



## JOHN ROBERT JONES
## Independent Member
## Chair

John was co-opted to the SC in 2017, a year after his retirement as Chief Officer at Medrwn Môn, the independent agency which provides advice and support to voluntary organisations and community groups.
A Welsh-speaker, John was born and brought up on Anglesey and continues to live on the island with his family.
"I was elected Chair of the SC in 2020 and the Standards Committee continues to work proactively with County Council elected members and co-opted members as well as the town and community councillors in maintaining the highest possible standards of behaviour".
You may contact the Chair on
JohnJones@ynysmon.llyw.cymru



## RHYS DAVIES
## Independent Member
## Vice-Chair

Rhys was elected Vice-Chair shortly after his appointment to the SC in 2019.
Having studied dentistry in Cardiff, he returned to his native Anglesey to work as a dentist for over 30 years, until his retirement in 2015.
"I've enjoyed the experiences I've had since becoming an SC member. I am happy to contribute to assisting members to conform with their Code of Conduct duties so as to ensure decisions are made with transparency and members act with integrity".



## CELYN MENAI EDWARDS
## Independent Member

A qualified barrister, Celyn currently works as the Chief Executive of the Isle of Anglesey Charitable Association, having worked previously for the Welsh Parliament. Her appointment on the SC in 2019 followed her return from Cardiff to Anglesey with her family.



## GILL MURGATROYD
## Independent Member

Gill is a Fellow of the Chartered Institute of Personnel and Development and is currently the director of her own HR and organisation development consultancy business in North Wales, based at her Llandudno home.



## SHARON WARNES
## Independent Member

Having begun her career as a secondary school teacher, Sharon then worked in further education before working for over 30 years in local government.
In addition to her role on the SC since 2019, she is a lay member of Gwynedd Council's Audit Committee and Chair of Snowdonia National Park's Standards Committee.




## MARGARET THOMAS
## Town and Community Council Representative

Margaret has been a member of Llangefni Town Council for 23 years and has been Town Mayor five times during that time. She represents the Town Council at Regional Meetings of One Voice Wales and the area committee.
She has lived on Anglesey all her life and continues to reside on the family farm, following on from her parents.
for several years.
Margaret was appointed to the SC in December 2022.
"I'm looking forward to using my experience as a Town Councillor to assist the Standards Committee with its role in maintaining high levels of conduct by elected an co-opted members in Anglesey".



## IORWERTH ROBERTS
## Town and Community Council Representative

Iorwerth has been a member of Bryngwran Community Council since 1997 and, for the last 22 years, has been the Chair of the Community Council.
He worked more than 30 years in the construction industry, including as an accredited tutor and assessor.
Iorwerth was first appointed to the SC in 2017 and has recently been appointed for a second term.
"I hope my experience as a community councillor can assist the committee when it discusses behavioural matters, particularly when they involve community councillors. If I can stress one thing to current councillors, it is that training is vital, particularly on the Code of Conduct."



## TREFOR LLOYD HUGHES
## County Council Representative

Trefor is a member of Plaid Cymru – The Party of Wales and represents Ynys Gybi on the County Council. He was appointed to the SC following the election in May 2022; this will be his second term on the Committee.



## DAFYDD RHYS THOMAS
## County Council Representative

Dafydd is a member of Y Grŵp Annibynnol - The Independent Group. He was appointed on the SC following the election in May 2022; this will be his second term on the Committee.p and represents Ynys Gybi on the County Council.

The Standards Committee is here to support you in observing the Code of Conduct adopted by your Council.
As you know, maintaining the highest level of ethical behaviour is an essential part of your role in representing the public.

For more information about the Committee's work for the year, please review the Work Programme for 2022/2023 in the SC's annual report.



Should you have any queries in relation to the Standards Committee's work, please contact the Monitoring Officer on lynnball@ynysmon.llyw.cymru

# Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau a dyletswydd newydd yr Arweinyddion Grwpiau

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

1. O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, erbyn hyn mae gan Arweinyddion Grwpiau ddyletswyddau mewn perthynas â safonau ymddygiad. Rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol (a) gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel gan aelodau'r grŵp a (b) gweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

2. Mae'n bosib y gallai arweinydd grŵp gwleidyddol sy'n methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd newydd mewn ffordd ystyrlon gael eu hystyried i fod yn dwyn anfri ar ei swydd, a'i bod yn debygol eu bod yn torri'r Cod Ymddygiad i Aelodau.

3. Hefyd, mae Deddf 2021 yn gosod dyletswydd ar Bwyllgorau Safonau i lunio adroddiad blynyddol i'r cyngor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol (1 Ebrill- 31 Mawrth). Rhaid i'r adroddiad gael ei ystyried gan y cyngor perthnasol o fewn tri mis i'w dderbyn.

4. Rhaid i adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau gynnwys asesiad y pwyllgor o sut y mae arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd (paragraff 1 uchod). Bydd rhaid i'r Arweinyddion Grwpiau ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Safonau i'w alluogi i wneud hyn.

5. Ar ôl ystyried gofynion Deddf 2021, lluniwyd adroddiad templed drafft i gynorthwyo'r Arweinyddion Grwpiau ac i'w hatgoffa o'r wybodaeth y mae'n rhaid iddynt ei ddarparu yn eu hadroddiad i'r Pwyllgor Safonau. Mae'r templed ar gael yn **Atodiad 1**.

6. Nid yw'r templed yn gofyn am, ac ni ddylid cynnwys, manylion achosion unigol. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y math o gamau a gymerwyd mewn perthynas â phob mater.

7. Gofynnir i Arweinyddion Grwpiau gynhyrchu'r adroddiadau hyn unwaith y flwyddyn; fodd bynnag, os bydd materion o bwys yn codi yn ystod y flwyddyn, gofynnir i'r Arweinyddion Grwpiau ymgynghori â'r Swyddog Monitro, a fydd yn rhoi gwybod i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

8. Ar ôl eu cwblhau dylai'r Arweinyddion Grwpiau anfon y ffurflenni at y Swyddog Monitro erbyn **30 Ebrill**. Bydd y Swyddog Monitro'n adrodd wrth y Pwyllgor Safonau.

9. Bydd y Pwyllgor Safonau'n trefnu i gwrdd â phob Arweinydd Grŵp yn breifat **yn ystod mis Mai** i drafod yr adroddiad.

10. Bydd y Pwyllgor Safonau'n cynnwys gwybodaeth addas o adroddiadau'r Arweinyddion Grwpiau o fewn ei adroddiad blynyddol i'r Cyngor. Bydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn cynnwys crynodeb o'r camau a gymerwyd i gyflawni'r ddyletswydd, barn y pwyllgor ynghylch a yw'r camau a gymerwyd yn ddigonol ac unrhyw ddarnau o waith y gellid eu cyflawni yn y dyfodol ayb.

11. Bydd y Pwyllgor Safonau'n trafod ei adroddiad blynyddol drafft ar gyfer y Cyngor yn ei gyfarfod ffurfiol ym Mehefin. Yn ystod y cyfarfod hwn, bydd y Pwyllgor Safonau'n cytuno ar ei ganfyddiadau oadroddiadau'r Arweinyddion Grwpiau a bydd hefyd yn adnabod, o fewn y fforwm cyhoeddus yma, unrhyw Arweinydd Grŵp sydd wedi methu â chyflwyno adroddiad.

12. Bydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn yn y cyfarfod llawn nesaf sydd ar gael yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Mehefin.

13. Bydd rhaid briffio aelodau di-gysylltiad (sydd ddim yn perthyn i grŵp) yn yr un modd â'r Arweinyddion Grwpiau er mwyn sicrhau bod safonau ymddygiad uchel yn cael eu cynnal gan bob aelod, er na fydd disgwyl iddynt gynhyrchu adroddiad yn y modd hwn.


Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Adroddiad gan Arweinydd Grŵp (AG) i'r Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'i ddyletswydd fel AG:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad gan:** | (enw'r AG) | **Grŵp Gwleidyddol:** | (enw'r Grŵp) |
| **Y cyfnod y mae'r adroddiad yn ymdrin ag o ('y Cyfnod'):** | 1 Ebrill 20___ hyd nes 30 Mawrth 20___ | **Nifer o aelodau yn y grŵp:** | |

### Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn ystod y Cyfnod:

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad:** | |

### Hyfforddiant Modiwlau Mandadol (ac eithrio'r Cod Ymddygiad) yn ystod y Cyfnod:

Gweler y rhestr o Hyfforddiant Mandadol sydd wedi ei gynnwys yn **Atodiad 2.**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Nifer o fodiwlau hyfforddiant mandadol sydd angen eu cwblhau gan holl aelodau'r Grŵp:** | | **Nifer o fodiwlau sydd wedi eu cwblhau:** | |

| | |
|---|---|
| **Nifer o aelodau o fewn y grŵp sydd wedi cwblhau'r holl fodiwlau mandadol gofynnol:** | |

### Cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp yn ystod y Cyfnod:

| | |
|---|---|
| **Nifer o gyfarfodydd Grŵp sydd wedi eu cynnal ar gyfer holl aelodau'r Grŵp:** | |

### Adolygiad blynyddol rhwng aelodau a'r Arweinydd Grŵp yn ystod y Cyfnod:

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cael cynnig adolygiad blynyddol gyda'r AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn y cynnig uchod gyda'r AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi mynychu cyfarfod adolygiad blynyddol gyda'r AG:** | |

### Adroddiadau Blynyddol ar gyfer y Cyfnod:

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cyflwyno adroddiad blynyddol:** | |

### Cofrestr Sefydlog o Ddiddordebau Personol:

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi adolygu eu Cofrestr Sefydlog o Ddiddordebau Personol:** | |

### Cwynion:

| **Cwyn gan:** | **Y camau a gyrhaeddwyd:** | | |
|---|---|---|---|
| (nodwch y niferoedd) | **Anffurfiol** | **Protocol Datrysiad Lleol** | **OGGC** |
| aelod o'r cyhoedd | | | |
| swyddog | | | |
| aelod o'r un grŵp gwleidyddol | | | |
| aelod o wahanol grŵp gwleidyddol / ddim mewn grŵp gwleidyddol | | | |

### Cyfarfodydd cefnogi:

| | |
|---|---|
| **Nifer yr aelodau sydd wedi cael cynnig cyfarfod cefnogi gan yr AG:** | |
| **Nifer yr aelodau sydd wedi derbyn y cynnig am gyfarfod cefnogi gan yr AG:** | |

### Camau a gymerwyd gan yr AG i hybu cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad:

| |
|---|
| Dylech gwblhau'r darn yma yn eich geiriau eich hun. Gweler **Atodiad 3** am fwy o wybodaeth. |
| |

***Anfonwch eich adroddiad, os gwelwch yn dda, at y Swyddog Monitro drwy ebostio LynnBall@ynysmon.llyw.cymru***

***Arwyddwyd gan yr AG:*** ________________________________________ ***Dyddiad:*** __________________

**Modiwlau Hyfforddiant Mandadol**

**Atodiad 2**

**Yn gyffredinol (ac eithrio'r Cod Ymddygiad – sy'n cael sylw o dan bennawd arall):**

- **Diogelwch Seibr**
- **Gwarchod**
- **Prosesu Gwybodaeth (GDPR)**
- **Cydraddoldebau**

**Yn ogystal â:**

- **Ar gyfer holl Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Cyngor a'i Bwyllgorau:**
    - **Cadeirio Cyfarfodydd Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion**
      **Yn ofynnol ar ethol yn Gadeirydd / Is-Gadeirydd ac yna pob dwy flynedd os ail-etholir.**

- **Yr Hyfforddiant perthnasol ar gyfer aelod o Bwyllgor penodol, yn cynnwys:**
    - **Pwyllgor Cynllunio**
    - **Pwyllgor Trwyddedu**
    - **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant**
    - **Pwyllgor Apwyntio**

**Mae gofyn i Aelodau gwblhau ac ail-adrodd yr hyfforddiant mandadol gofynnol yn unol â'r manylion â gyhoeddir gan y Cyngor.**

**Camau a gymerwyd gan yr Arweinydd Grŵp i hybu cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad:**

Dylid cwblhau'r rhan yma o'r adroddiad yn eich geiriau eich hun.

**Nid oes angen cynnwys yr holl wybodaeth a sonir amdano isod**. Mae'r materion sy'n dilyn wedi eu cynnwys fel esiamplau o'r math o wybodaeth y gellid ystyried ei gynnwys fel rhan o'ch ymateb.

Ymrwymiad personol:

- Wedi dangos ymrwymiad personol i ddatblygu drwy fynychu hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb a safonau;
- Wedi gosod esiampl drwy ddangos egwyddorion ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus;
- Wedi defnyddio eich dylanwad i hybu diwylliant cadarnhaol;
- Wedi hybu diwylliant sy'n cefnogi safonau ymddygiad uchel ac uniondeb o fewn y grŵp;
- Wedi delio â phroblemau yn syth;
- Wedi hybu cwrteisi a pharch wrth gyfathrebu â'r grŵp ac yn ystod cyfarfodydd o'r grŵp ac yn ystod cyfarfodydd ffurfiol o'r cyngor;
- Wedi gweithio er mwyn gweithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynghylch gwella safonau;

Annog aelodau'r grŵp:

- wedi annog aelodau'r grŵp i ddatblygu a mynychu hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â chydraddoldeb a safonau;
- wedi sicrhau bod y rhai a enwebir i bwyllgorau wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer y pwyllgor hwnnw;

Cydweithio gydag eraill:

- wedi hybu datrysiadau anffurfiol yn y cyngor, a gweithio gyda'r pwyllgor safonau a swyddog monitro i ddatrys materion yn lleol;
- wedi mynychu cyfarfod o bwyllgor safonau'r cyngor ar gais i drafod materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad;
- wedi mynychu cyfarfodydd gyda'r Swyddog Monitro a/neu Arweinyddion Grŵp eraill i drafod materion yn ymwneud ag ymddygiad yn ôl y galw;
- wedi gweithio gyda'r Arweinyddion Grwpiau eraill o fewn rheswm, i gefnogi cynnal safonau ymddygiad uchel ar y cyd o fewn y cyngor.

## 10 Egwyddor Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus statudol yng Nghymru

- Bod yn anhunanol
- Gonestrwydd
- Uniondeb a Phriodoldeb
- Dyletswydd i hybu'r gyfraith
- Gwarchod
- Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau
- Cydradoldeb a pharch
- Bod yn Agored
- Atebolrwydd
- Arwain

**Atodiad 8 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023**

**<u>Rhaglen Waith Arfaethedig ar gyfer y Pwyllgor Safonau 2023/2024</u>**

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| 1 | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Llawn | Pwyllgor i ddechrau ystyried yr Adroddiad Blynyddol nesaf, a dechrau gweithio arno, cyn eu cyfarfod ffurfiol ym mis Mehefin 2024.<br><br>Pwyllgor i ddechrau datblygu ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2023/2024 (a rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2024/2025) ar ddiwedd tymor 2023/2024.<br><br>Bydd angen adolygu'r broses ddefnyddiwyd yn 2022/2023 ar gyfer Arweinwyr Grŵp yn adrodd ar eu cyfrifoldebau o dan Deddf 2021. Bydd hyn yn destun trafodaeth bellach gydag aelodau'r Pwyllgor Safonau a'r Arweinyddion Grwpiau. | |
| 2 | Adolygu'r Protocol Datrysiad Lleol | Protocol Datrysiad Lleol diwygiedig ar gyfer aelodau CSYM wedi'i dderbyn gan y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 14.12.22. Eitem wedi'i chynnwys yng Nghylchlythyr y Cyngor Sir.<br><br>Mae Protocol Datrysiad Lleol ar gyfer y cynghorau tref a chymuned, oherwydd y nifer o achosion lle gofynnwyd i'r Pwyllgor | |

**Atodiad 8 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023**

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | | Safonau gynorthwyo oherwydd pryderon ymddygiad yn destun adroddiad yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ym Mehefin 2023. Caiff ei hyrwyddo gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned ym Medi 2023. | |
| 3 | Cynnig a Darparu hyfforddiant i arweinwyr grwpiau gwleidyddol. Angen penderfynu:<br>• Pwy fydd yn darparu'r hyfforddiant<br>• Cyfranogiad aelodau'r pwyllgor safonau<br>• Cynnwys uwch swyddogion? | Angen trafod gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol a'r gwasanaethau democrataidd.<br><br>Rhaid i'r trefniadau hyn gael eu gwneud ar ddechrau pob gweinyddiaeth ac o fewn 6 mis i'r etholiadau a rhaid eu hadolygu'n flynyddol o leiaf.<br><br>Trafodwyd hyfforddiant ar gyfer Arweinwyr Grŵp yn Fforwm Cenedlaethol y Pwyllgor Safonau. Mae Cymdeithas Llwyodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn datblygu hyn. Mae'r Pwyllgor Safonau'n anoog Arweinyddion Grwpiau i ymgymryd â'r hyfforddiant hwn pan fydd mwy o wybodaeth ar gael. | |
| 4 | Cyfathrebu gydag arweinwyr grwpiau gwleidyddol | Cadeirydd ac Is-gadeirydd angen mynychu cyfarfod yr Arweinwyr Grŵp yn dilyn pob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau.<br><br>Adrodd/cyfathrebu | |

**Atodiad 8 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023**

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | | ymhellach fel bo angen. | |
| 5 | Dyletswyddau adrodd Arweinwyr Grŵp a'r broses sy'n cael ei dilyn | Adolygu'r broses ddilynwyd ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2022/2023.<br><br>Cyfathrebu gyda'r Arweinyddion Grwpiau, a chael eu cytundeb, gyda sut bydd y broses wedi esblygu er mwyn mewnbynnu gwybodaeth ar gyfer Adroddiad 2023/2024. Bydd y newidiadau yn cynnwys sicrhau bod y Cod Ymddygiad yn cael ei gynnig o fewn modiwlau hyfforddiant mandadol. | |
| 6 | Cyfarfodydd | Cyfarfodydd ffurfiol yn ystod Mehefin a Rhagfyr 2023, a phan y bo'n ofynnol.<br><br>Efallai y trefnir cyfarfodydd anffurfiol pan fo'n ofynnol. | |
| 7 | Newyddlenni yn dilyn y cyfarfod ffurfiol | Parhau (a) i anfon Cylchlythyrau at aelodau etholedig ac aelodau cyfetholedig y Cyngor hwn, a (b) chynghorwyr tref a chymuned.<br><br>Angen ystyried pynciau perthnasol i'w cynnwys. | |
| 8 | Adrodd am gwynion – Adroddiadau Diweddaru Chwarterol | Anfonir adroddiadau at aelodau'r Pwyllgor yn chwarterol. Mae'r adroddiadau hefyd wedi'u cynnwys ar Agenda Ffurfiol y Pwyllgor (adrodd ddwywaith y flwyddyn). | |

**Atodiad 8 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023**

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | | Mae'r adroddiad i'r Pwyllgor yn trafod unrhyw duedd benodol o ran ymddygiad gwael, ond gyda'r lefel bresennol gwynion, nid oes patrwm o'r fath wedi'i adnabod. Angen parhau i adolygu hyn, a sicrhau bod y broses yn cynnal ac yn parchu (unrhyw rai o) ofynion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynghylch cyfrinachedd y materion hyn. | |
| 9 | Hyfforddiant ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau | Sicrhau bod holl aelodau'r Pwyllgor Safonau wedi cwblhau hyfforddiant mandadol.<br><br>Trefnu hyfforddiant cyfryngu.<br><br>Trefnu hyfforddiant Gollyngiadau.<br><br>Trefnu unrhyw hyfforddiant pellach sy'n ofynnol, mewn ymgynghoriad gyda'r Rheolwr Hyfforddiant Adnoddau Dynol. | |
| 10 | Sut i Gwyno | Ystyried sut i hyrwyddo sut i wneud cwyn yn erbyn aelodau etholedig unwaith y cytunir ar y broses ar gyfer cwynion 'lefel isel' yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adolygiad Penn. | |
| 11 | Caniatadau Arbennig / Gollyngiadau | Pan fydd ceisiadau'n codi | |

**Atodiad 8 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023**

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| 12 | Adroddiadau blynyddol aelodau | Pwyllgor Safonau'n parhau i annog yr arferiad o gwblhau adroddiadau blynyddol a gweithio gyda Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar y mater hwn. | |
| 13 | Penodi aelod annibynnol newydd i eistedd ar y Pwyllgor Safonau | Cynhelir y broses ymgeisio drwy Banel Dethol y Pwyllgor Safonau. | |
| 14 | Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned | Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn mynychu cyfarfodydd y Fforwm i gyflwyno materion o ddiddordeb gan y Pwyllgor Safonau i'r Cynghorau Tref a Chymuned. | |
| 15 | Fforwm y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau angen mynychu cyfarfodydd y Fforwm a darparu adborth i aelodau'r Pwyllgor. | |
| 16 | Adrodd achosion gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r PDC. Cynnig crynodeb ar y prif pwyntiau dysgu ar gyfer aelodau'r Pwyllgor. | Darparu adroddiadau ym mhob cyfarfod ffurfiol o'r Pwyllgor Safonau gan grynhoi'r prif bwyntiau o'r achosion a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r PDC.<br><br>Dwyn unrhyw bwyntiau dysgu i sylw'r Cyngor Sir a/neu'r Cynghorau Tref a Chymuned drwy'r Cylchlythyr. | |
| 17 | Trefniadau hyfforddi gan Gynghorau Tref a Chymuned | Gwnaed cais gan y Pwyllgor Safonau yn ei Gylchlythyr mis Mawrth 2023 i Gynghorau Tref a | |

**Atodiad 8 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023**

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | | Chymuned anfon copi o'u Trefniadau Hyfforddi at y Pwyllgor Safonau erbyn diwedd Mai 2023.<br><br>Hybu hyfforddiant a gynigir gan Un Llais Cymru. | |
| 18 | Adroddiad Penn / ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar faterion moesegol | Adroddiad Penn wedi'i gyhoeddi.<br><br>Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar yr adroddiad Penn a drafodwyd mewn cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau ar 12.05.2023.<br><br>Cyflwynwyd ymatebion drafft o'r ymgynghoriad i'r Arweinwyr Grŵp gan y Cadeirydd ar 08.06.2023.<br><br>Eitem ar Raglen cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Safonau ar 14.06.2023.<br><br>Cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad erbyn 23 Mehefin 2023.<br><br>Gwaith pellach ei angen pan fydd ymateb Llywodraeth Cymru i'r Ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi. | |
| 19 | Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor. | Tymor y Cadeirydd ac Is-gadeirydd presennol yn dod i ben 05.02.2024 | |
| 20 | Cyngor Cymuned B | Dau aelod o'r Pwyllgor Safonau am gynnal Adolygiad o'r Cofrestr Buddiannau a Chod | |

**Atodiad 8 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau 2022/2023**

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | | Ymddygiad sy'n berthnasol i faterion yn y Cyngor, a darparu adborth i'r Cyngor drwy'r Cadeirydd. | |
| 21 | Cyngor Cymuned C | Dau aelod o'r Pwyllgor Safonau am gynnal Adolygiad o'r Cofrestr Buddiannau a Chod Ymddygiad sy'n berthnasol i faterion yn y Cyngor, a darparu adborth i'r Cyngor drwy'r Cadeirydd. (Os bydd y Cyngor yn cytuno). | |
| 22 | Cyngor Cymuned Ch | Camau i'w cymryd yn dilyn cyfarfod arsylwi ym mis Ebrill 2023. | |
| 23 | Sgyrsiau Blynyddol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Safonau | Bydd y Cadeirydd yn cyfarfod gyda'r aelodau ac yn adrodd unrhyw allbynnau sydd angen eu trefnu gyda'r Swyddog Monitro.<br><br>Bydd y Cadeirydd yn derbyn sgwrs flynyddol gan y Swyddog Monitro. | |
| 24 | Adolygiad o sampl o Gofrestrau Diddordebau Aelodau'r Cyngor Sir. | Cynhelir adolygiad gwaith papur o Gofrestrau Diddordebau sampl o Aelodau CSYM gan aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau. | |
| 13 | Arsylwi cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau o bryd i'w gilydd. | Bydd aelodau'r Pwyllgor Safonau'n mynychu cyfarfodydd y Cyngor Sir neu ei Bwyllgorau at bwrpas arsylwi os bydd angen, ac, os yn briodol, yn darparu adborth ar gyfer y Cadeirydd perthnasol. | |
| 26 | Cydweithio gyda'r Pwyllgor | Cynorthwyo'r Pwyllgor | |

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau Democrataidd gyda'i waith ar brofiad y cwsmer / cyfarfodydd hybrid (fel yr adroddodd y Pwyllgor Safonau yn dilyn y broses Arsylwi yn ystod 2022/2023) | Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo ystyried yr argymhellion roddwyd gan y Pwyllgor Safonau. | |
| 27 | Cefnogi gwaith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth hybu llesiant aelodau'r Cyngor Sir. | Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wrth iddo arwain yn y maes hwn. | |
| 28 | Mynediad at wybodaeth ynghylch y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor Sir, | Cymryd camau er mwyn sicrhau fod mynediad rhwydd at wybodaeth ynghylch y Pwyllgor Safonau ar wefan y Cyngor. | |
| 29 | Materion yn codi o drafodaethau gydag Arweinyddion y Grwpiau wrth baratoi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor llawn.<br><br>Materion hyfforddiant yn cael eu trafod gyda'r swyddogion o fewn adran Adnoddau Dynol, yn cynnwys:<br>- Darparu rhestr o hyfforddiant mandadol aelodau ar ffurf sy'n haws i'r Arweinyddion Grwpiau adnabod pa aelodau sydd angen eu hannog i gwblhau pa fodiwl. Rhennir y wybodaeth hon yn chwarterol.<br>- Hyfforddiant TG ar gyfer aelodau, sy'n cynnwys cynnig argymhelliad i'r Arweinyddion Grwpiau bod cwblhau hyfforddiant TG o fewn 6 mis o Gynghorwyr yn cael | Materion i gael eu trafod gyda'r swyddogion perthnasol er mwyn canfod datrysiad. | |

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | eu hethol yn fandadol.<br>- cadarnhau pa mor aml sydd angen i aelodau gwblhau modiwlau hyfforddiant mandadol. Awgrymir gan y Pwyllgor Safonau bod y Cod Ymddygiad a Diogelwch Seibr yn cael eu cynnal o fewn 6 mis (a TG yn ddibynnol ar yr uchod); gyda'r materion mandadol eraill yn cael eu cynnal o fewn 12 mis o etholiad.<br><br>Materion sy'n cael eu trafod gyda'r Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd:<br>- Trefn fel bod aelodau yn cael eu hatgoffa am yr angen i gwblhau, diweddaru ac adolygu eu Cofrestrau diddordebau'n rheolaidd;<br>- Symleiddio'r broses ar gyfer cofrestru diddordebau gan aelodau;<br>- Darparu canllaw ar y rôl o fod yn Arweinydd Grŵp.<br><br>Materion eraill â godwyd gan y Pwyllgor Safonau:<br>- Cynnwys nodyn ar dudalen bywgraffiad aelodau sydd ddim yn cwblhau Adroddiad Blynyddol yn nodi nad pes Adroddiad Blynyddol wedi ei chwblhau | | |

| Rhif | Eitem | Camau | Cwblhawyd / Camau Pellach |
|---|---|---|---|
| | gan yr aelod yna. | | |

**Atodiad 9 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2022/2023**

Materion a godwyd gan yr Arweinyddion Grwpiau gyda phedwar aelod y Pwyllgor Safonau yn ystod cyfarfodydd unigol ym mis Gorffennaf 2023:

Ar Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024
Dim gweithredu pellach

Tudalen 355

| | Materion a godwyd: | Gan sawl Arweinydd Grŵp: | Sylwadau'r Pwyllgor: |
|---|---|---|---|
| 1. | Dylid darparu rhestr o hyfforddiant mandadol aelodau ar ffurf sy'n haws i'r Arweinyddion Grwpiau adnabod pa aelodau sydd angen eu hannog i gwblhau pa fodiwl. | 2 | • Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn gweithredu hyn fel rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024 (**Atodiad 8**).<br>• Mae trefniant eisioes wedi ei gytuno bydd Arweinyddion Grwpiau yn derbyn y wybodaeth yn chwarterol. Ceisir canfod trefn sy'n fwy defnyddiol ar gyfer yr Arweinyddion, drwy drafod gyda swyddogion Hyfforddiant (Adnoddau Dynol) a'r Gwasanaeth Democrataidd. |
| 2. | Cynnwys Cod Ymddygiad fel hyfforddiant mandadol. | 1 | • Mae hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn fandadol ar gyfer aelodau o fewn chwe mis o gael eu hethol neu unwaith ym mhob tymor os ydynt yn cael eu hail-ethol, fel â nodir yng Nghod Ymddygiad Cyngor Sir Ynys Môn.<br>• Fel rhan o'r gwaith yn adolygu'r broses eleni, bydd y ffurflen templed (**Atodiad 7**) yn cael ei haddasu er mwyn gwneud hyn yn gliriach ar gyfer yr Arweinyddion Grwpiau. |
| 3. | Darparu mwy o hyfforddiant Technoleg Gwybodaeth. | 2 | • Mae'r Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd eisioes wedi cyflwyno'r mater o hyfforddiant TG gerbron cyfarfod o Arweinyddion y Grwpiau gyda chais bod yr Arweinyddion yn darparu enwau'r Aelodau hynny fyddai'n manteisio o hyfforddiant TG pellach. Cyfeirir yr Aelodau hyn at y tim Hyfforddiant (Adnoddau Dynol). Cadarnheir fod y gwaith yma'n mynd rhagddo, a hynny ar sail 1-1, ac ni fydd y Pwyllgor Safonau'n cymryd camau pellach.<br>• Mae gan fethiannau mewn sgiliau technoleg gwybodaeth oblygiadau ar gyfer aelodau'n cydymffurfio gyda gofynion ymddygiad. Ar sail hyn, bwriad y Pwyllgor Safonau yw gwneud argymhelliad gerbron Arweinyddion y Grwpiau bod hyfforddiant technoleg gwybodaeth yn fandadol o fewn 6 mis cyntaf yn dilyn etholiad ac mae hyn wedi ei gynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024 (**Atodiad 8**). |
| 4. | Darparu hyfforddiant Technoleg | 1 | • Gweler yr ymateb i rif 3 uchod. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gwybodaeth ar sail 1-1 er mwyn cefnogi aelodau. | | |
| 5. | Cynnwys hyfforddiant Cynllunio fel hyfforddiant mandadol. | 1 | • Penderfyniad ar gyfer Arweinyddion Grwpiau ydi pa bynciau sy'n cael eu hystyried yn fandadol. Ond mae posib bod gormod o bynciau yn cael eu gwneud yn fandadol, sy'n ychwanegu at faich gwaith yr aelodau.<br>• Mae cwblhau hyfforddiant Cynllunio eisioes yn fandadol ar gyfer yr Aelodau hynny sy'n eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio.<br>• Ni fydd y Pwyllgor Safonau yn gweithredu ymhellach ar hyn. |
| 6. | Cadarnhau pa mor aml sydd angen cwblhau modiwlau hyfforddiant mandadol. | 3 | • Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn cael penderfyniad ar hyn a'i gyhoeddi. Mae'n rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024 (gweler **Atodiad 8**).<br>• Awgrym y Pwyllgor Safonau ydi y dylai'r Cod Ymddygiad a diogelwch seibr gael eu cwblhau o fewn 6 mis o etholiad; gyda gwarchod, prosesu gwybodaeth a chydraddoldebau yn cael eu cwblhau o fewn y flwyddyn yn dilyn etholiad. Ond bydd hyn yn destun trafodaeth a chytundeb pellach.<br>• Deallir fod cyrsiau mandadol ar gael ar y Gronfa Ddysgu. |
| 7. | Dylai pob Arweinydd Grŵp a darpar Arweinydd Grŵp fynychu cwrs Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Arweinyddiaeth. | 2 | • Deallir mai lle i ddau aelod yn unig gaiff ei gynnig ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y cwrs blynyddol yma.<br>• Tra'n derbyn y cyfyngiadau o ran nifer, mae'r Pwyllgor Safonau'n annog pob Arweinydd Grŵp a darpar Arweinydd Grŵp i fynychu'r cwrs hwn.<br>• Er na fydd y Pwyllgor yn ystyried y mater hwn yn benodol ymhellach, mae ystyried yr hyfforddiant cyffredinol sydd ar gael ar gyfer Arweinyddion Grwpiau yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024 (**Atodiad 8**). |
| 8. | Os bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig mewn ystafell ddosbarth, dylid cynnal gyda'r nosau ac yn ystod y dydd. | 1 | • Cadarnheir gan swyddogion Hyfforddiant (Adnoddau Dynol) bod opsiynnau o sesiwn bore/prynhawn neu sesiwn gyda'r nos yn cael eu cynnig ar gyfer hyfforddiant.<br>• Ni fydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried y pwynt penodol hwn ymhellach, ond bydd yn fater gaiff ei ystyried pan fydd y Pwyllgor yn trafod Rhaglen Flynyddol Hyfforddiant Aelodau. |
| 9. | Sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn y Saesneg a'r Gymraeg | 1 | • Deallir gan swyddogion Hyfforddiant (Adnoddau Dynol) bod hyn yn gwestiwn o ymarferoldeb oherwydd byddai'n anodd cynnal sesiynau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ar wahan, yn hytrach nac yn ddwyieithog. | | Saesneg a Chymraeg ar wahan, tra hefyd yn cynnig sesiynnau dydd a gyda'r nos, oherwydd bydd hyfforddwyr yn aml yn rhoi isfaswm niferoedd er mwyn cynnal y cwrs. Fodd bynnag, mater ar gyfer y Gwasanaeth sy'n gofyn am yr hyfforddiant fyddai hyn.<br>• Mae'r gwasanaeth cyfieithu yn derbyn gwahoddiad er mwyn sicrhau bod sesiynnau hyfforddiant yn ddwyieithog. Ystyria swyddog polisi'r Cyngor bod cynnal sesiynnau dwyieithog yn dderbyniol.<br>• Ni fydd y Pwyllgor Safonau'n ystyried hyn ymhellach ond bydd yn fater gaiff ei ystyried pan fydd y Pwyllgor yn trafod Rhaglen Flynyddol Hyfforddiant Aelodau.. |
| 10. | Bod Arweinyddion Grwpiau yn cael gwybod os ydi aelodau eu grwpiau wedi cwblhau eu Cofrestrau diddordeb. | 3 | • Nid oes ffordd gorfforaethol o wybod os bydd Aelodau wedi diweddaru eu cofrestrau, gan mai proses a wneir gan bob Aelod yn unigol ydi hyn.<br>• Anfonwyd gohebiaeth gan swyddogion at yr holl aelodau yn dilyn yr etholiad ym Mai 2022 yn egluro'r gofynion a'r drefn a ddilynir gyda Chofrestrau Diddrodebau.<br>Anfonwyd gohebiaeth bellach gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ym Mawrth 2023. Mae'n drefniant arferol bod y Cadeirydd yn atgoffa aelodau o'r gofynion hyn yn flynyddol.<br>• Bydd y Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd yn cysylltu gydag Aelodau yn eu hatgoffa o'r gofynion o hyn ymlaen hefyd.<br>• Bwriedir bod y Pwyllgor Safonau'n cynnal adolygiadau o Gofrestrau Diddordeb sampl o Aelodau fel rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024 (gweler **Atodiad 8**) a bydd y Cadeirydd yn cyfathrebu gyda'r holl Aelodau cyn hyn, fydd yn atgoffwr pellach.<br>• Oherwydd mai proses ar gyfer unigolion ydi diweddaru eu cofrestrau, teimlir bod angen cyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r Aelodau oll yn hytrach na dim ond gyda'r Arweinyddion Grwpiau. |
| 11. | Symleiddio'r ffurflen ar gyfer cofrestru diddordebau. | 1 | • Mae'r ffurflen a ddefnyddir ar gyfer cofrestru diddordebau (yn y gofrestr sefydlog, cofrestr datganiadau mewn cyfarfodydd a'r gofrestr rhoddion a lletygarwch) yn cynnwys penawdau sydd wedi eu gosod gan ddeddfwriaeth ac felly ni ellir addasu hyn.<br>• Fodd bynnag, fe wneir gwaith er mwyn edrych ar symleiddio'r broses o gofrestru / diweddaru cofrestrau diddordebau'r Aelodau. Mae hyn yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024 (**Atodiad 8**), ond bydd unrhyw ddatblygiad yn ddibynnol ar gapasiti o fewn y Gwasanaeth Democrataidd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12. | Gwneud y Protocol Datrysiad Lleol yn fandadol yn hytrach na dewisol. | 2 | • Byddai angen newid deddfwriaethol er mwyn gwneud y newid hwn. Nid yw hyn yn rhywbeth sy'n cael ei ystyried yn genedlaethol ar hyn o bryd ac felly bydd y Protocol yn parhau'n ddewisol.<br>• Ni fydd y Pwyllgor Safonau'n cymryd camau pellach ynghylch hyn. |
| 13. | Canllaw ar y rôl o fod yn Arweinydd Grŵp / beth ddisgwylir / sut mae paratoi ayyb | 1 | • Mae'r Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd yn datblygu swydd-ddisgrifiad ar gyfer y rôl o fod yn Arweinydd Grŵp ar sail dogfen gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.<br>• Mae cefnogi'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gyda'r gwaith hwn yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2023/2024 (**Atodiad 8)**. |
| 14. | Cynllun mentora er mwyn cynorthwyo aelodau newydd. | 1 | • Mater gwleidyddol ydi hyn o fewn grwpiau ac nid yw'n fater ar gyfer y Pwyllgor Safonau.<br>• Ni fydd y Pwyllgor Safonau'n cymryd camau pellach ynghylch hyn. |
| 15. | Diweddaru gwybodaeth ymysg ar Arweinyddion Grwpiau yn amlach. | 1 | • Mater gwleidyddol / ar gyfer yr Arweinyddion Grwpiau ydi hyn ac nid yw'n fater ar gyfer y Pwyllgor Safonau.<br>• Deallir bod yr Arweinyddion Grwpiau yn cyfarfod yn gyson a chroesawir cydweithio adeiladol ymysg Arweinyddion y Grwpiau gan y Pwyllgor Safonau. Bydd y Pwyllgor Safonau'n parhau gyda'r drefn o gyflwyno materion gerbron cyfarfodydd Arweinyddion Grwpiau, fel bo'n addas, ac ni drafodir materion cyffredinol y tu allan i hyn, oni bai bod achosion unigol.<br>• Ni fydd y Pwyllgor Safonau'n cymryd camau pellach ynghylch hyn. |
| 16. | Sicrhau bod cyfathrebiaeth gan swyddogion yn cael ei anfon yn newis iaith yr unigolyn. | 1 | • Mae'r Pwyllgor wedi gwneud ymholiadau ac yn deall mai'r drefn ydi bod cyfathrebiadau torfol yn cael eu hanfon yn ddwyieithiog ond bod cyfathrebiadau gydag aelodau etholedig unigol yn cael eu hanfon yn iaith ddewisol yr unigolyn.<br>• Ni fydd y Pwyllgor Safonau'n cymryd camau pellach ynghylch hyn. |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Cyngor Sir** |
| **DYDDIAD:** | **12 Medi, 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2022/23** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeiryddion y:**<br>**1. Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**<br>**2. Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y ddau bwyllgor sgriwtini yn ystod 2022/23 a darparu trosolwg o rhaglen waith sgriwtini ar gyfer 2023/24** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:**<br>**E-bost:**<br>**Rhif Ffôn** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru**<br>**07971167198** |

**1. Argymhellion**

Gofynnir i'r Cyngor:

**A1** Gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini ar gyfer 2022/23

**A2** Nodi'r cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud o ran ein siwrnai ddatblygu Sgriwtini a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ymarfer.

**A3** Penodi cadair y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai, 2023 a Mai, 2024.

**2. Cefndir a chyd-destun**

**2.1** Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn ar Drosolwg a Sgriwtini yn trafod y gwaith a wnaed gan y ddau bwyllgor sgriwtini rhwng Mai 2022 a Mai, 2023.

**2.2** Bu cadeiryddion y ddau bwyllgor sgriwtini yn arwain ar ddatblygu'r blaen raglenni gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Caiff blaen raglenni gwaith y pwyllgorau sgriwtini eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini a gynhelir yn fisol ac i bob cyfarfod o'r pwyllgorau sgriwtini ar gyfer eu cymeradwyo.

**2.3** Bu swyddogaeth sgriwtini y Cyngor drwy daith wella yn sgil comisiynu'r Ganolfan Graffu Gyhoeddus i adolygu ein trefniadau sgriwtini yn lleol (Rhagfyr, 2017). Mae'r rhaglen wella a roddwyd mewn lle o ganlyniad i'r adolygiad wedi dirwyn i ben a rhaglen ddatblygu yn ei lle mewn cyd-destun gwella parhaus a datblygiadau ar gyflymder priodol a amlinellir yn yr adroddiad.

Mae effaith a gwerth ychwanegol gweithgaredd sgriwtini'n cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor drwy gefnogaeth a her.

**3. Rôl Pencampwr Sgriwtini**

**3.1** Mae gan y Pencampwr Sgriwtini rôl bwysig o ran hyrwyddo'r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini yn y Cyngor a gyda phartneriaid allanol yr Awdurdod. Nid yw'n swydd fandadol ac ni cheir unrhyw gydnabyddiaeth ariannol am ei gwneud. Ystyrir bod y rôl yn allweddol wrth ddangos ymrwymiad yr Awdurdod i sicrhau

bod Sgriwtini yn gwneud y gorau o gyfraniad Aelodau nad ydynt yn aelodau'r Pwyllgor Gwaith i berfformiad cyffredinol ac "iechyd corfforaethol" y sefydliad.

**3.2** Ar 14 Mai, 2015 penderfynodd y Cyngor y dylid penodi cadair y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai, 2015 a Mai, 2016 ac y byddai'r rôl yn cael ei gwneud gan y ddau gadair sgriwtini bob yn ail. O'r herwydd, dylid penodi Cadair y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio fel y Pencampwr Sgriwtini dynodedig am y flwyddyn nesaf.

| **Atodiad:** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2022/23 |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol

# Trosolwg a Sgriwtini: 2022-23

SCRUTINY



Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 1 | Rhagair |
| 2 | Ein strwythur lleol |
| 3 | Themâu allweddol lleol ar gyfer sgrwtini |
| 4 | Asesu effaith Sgriwtini |
| 5 | Edrych ymlaen i 2023/24 |
| 6 | Cysylltu â Sgriwtini |

| ATODIADAU | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Beth ydy trosolwg a sgriwtini? |
| Atodiad 2 | Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth ein pwyllgorau sgriwtini |
| Atodiad 3 | Y Weledigaeth ar gyfer Sgriwtini Effeithiol yn y Cyngor |

## 1. RHAGAIR

### Cynghorydd Robert Llewelyn Jones



- **Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2022/23**
- **Pencampwr Sgriwtini → 2022/23**

Pleser yw darparu trosolwg o waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystod y 12 mis diwethaf. Trafodir cwmpas gwaith y Pwyllgor yn yr adroddiad hwn ac mae'n deg nodi bod y baich gwaith yn parhau i fod yn sylweddol ac yn amrywiol. Cynhaliwyd cyfanswm o 10 cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddinesig.

- **Gosod y gyllideb flynyddol 2023/24** – un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw cyfrannu at y broses o osod cyllideb flynyddol y Cyngor. Mae'n rhan hanfodol o'n trefniadau llywodraethu corfforaethol ac mae'n cael effaith bellgyrhaeddol ar bob un o feysydd gwasanaeth y Cyngor yn ogystal ag ar y cyhoedd. Ystyriodd y Pwyllgor y cynigion drafft cychwynnol ar gyfer y gyllideb a hefyd y gyllideb derfynol ddrafft ar gyfer 2023/24 gyda chyfraniad sylweddol gan y Panel Sgriwtini Cyllid.

- **Cynllun y Cyngor: 2023-2028** – gwelwyd yr Aelodau'n craffu ar y blaenoriaethau strategol yn sail i Gynllun newydd y Cyngor ar gyfer y Weinyddiaeth bresennol ynghyd â chanfyddiadau'r broses ymgysylltu ac ymgynghori cyhoeddus. Bu i'r Pwyllgor roi ystyriaeth fanwl i'r Cynllun drafft yn y Gwanwyn cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith a'i fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth, 2023. Argymhellodd y Pwyllgor fod y Cynllun yn cael ei fabwysiadu fel un sy'n darparu cyfeiriad clir i flaenoriaethau strategol y Cyngor dros y 5 mlynedd nesaf.

- **Monitro perfformiad chwarterol** – bu'r Pwyllgor yn monitro perfformiad chwarterol trwy gydol 2022/23, gan ddefnyddio'r cerdyn sgorio corfforaethol sydd yn adrodd ar ystod sylweddol o ddangosyddion ar gyfer pob maes gwasanaeth. Mae'r cerdyn sgorio yn parhau i esblygu fel dull effeithiol i Aelodau Etholedig graffu ar berfformiad a data holl wasanaethau'r Cyngor.

- Roedd ein gwaith fel pwyllgor yn cynnwys monitro a chraffu ar adroddiadau blynyddol hefyd, yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ac Adroddiad Awdurdod Lleol Ynys Môn ar Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022: Chwaraeon Cymru, i enwi rhai ohonynt, ac mae hyn yn elfen graidd o waith y Pwyllgor.

- **Tlodi a'r Heriau Costau Byw** – ar gais y Pwyllgor, rhoddwyd ystyriaeth i'r cyd-destun tlodi a'r heriau costau byw, y budd-daliadau a chefnogaeth ariannol ar gael, y cynllun cinio ysgol am ddim a'r cynlluniau ataliol ar gael yn lleol. Bu i'r Pwyllgor graffu ar wydnwch a digonolrwydd y cynlluniau ac ymyraethau ar waith i gefnogi pobl yr Ynys.

- **Gwasanaethau Tai** – Craffodd y Pwyllgor ar y Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2023/53 sy'n gosod cyfeiriad ar gyfer datblygu a chynnal stoc tai cyngor yr Awdurdod. Rhoddwyd ffocws penodol ar y themâu canlynol gan yr Aelodau – aliniad gyda blaenoriaethau strategol ehangach y Cyngor (Cynllun y Cyngor: 2023/2028); fforddiadwyedd y rhaglen ehangu i gynyddu stoc tai'r Awdurdod Lleol; cyflenwad o lety digonol ar gyfer oedolion a theuluoedd sy'n fregus a'r risgiau ynghlwm wrth yr angen am gapasiti mewnol ac allanol digonol i wireddu'r cynlluniau. Argymhellodd y Pwyllgor fod y cynllun busnes yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor.

- **Gwasanaethau Cymdeithasol** – yn olaf, craffodd Aelodau'n chwe misol ar y cynnydd wnaed wrth wireddu cynlluniau datblygu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Oedolion. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Gwerthuso Perfformiad (arolwg arferol gan Arolygiaeth Gofal Cymru o berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol). Ar ddiwedd y flwyddyn ddinesig, bu i'r Pwyllgor edrych mewn manylder ar y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc mewn Gofal cyn iddi gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn y Gwanwyn. Argymhellodd y Pwyllgor fod y strategaeth yn cael ei mabwysiadu fel un sy'n darparu cyfeiriad clir i'r Cyngor gyflawni ei ymrwymiadau statudol ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal.

Rydw i'n cydnabod gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid a'r Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol ac, i gloi, diolch i holl Aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion sydd wedi cynorthwyo yn ystod 2022/23

**Cynghorydd Robert Llewelyn Jones**

**(Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pencampwr Sgriwtini)**



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Cynghorydd Dylan Rees

- **Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2022/23**



Credaf fod y broses graffu'n chwarae rôl allweddol yn nhrefniadau llywodraethiant corfforaethol y Cyngor - trwy ddwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, herio mewn modd adeiladol ac yn sicrhau bod lleisiau'r cyhoedd a'n cymunedau yn cael eu clywed yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini yn dystiolaeth o ymrwymiad y Cyngor ac yn ffurfioli'r broses i'r cyhoedd leisio eu barn yn y Pwyllgorau Sgriwtini.

Hoffwn ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am eu cyfraniadau a'u hymrwymiad i waith y Pwyllgor sydd wedi gwneud cyfraniad pwysig i wireddu Cynllun y Cyngor ac wrth gynnal safonau ein gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'n bleser gennyf ddarparu trosolwg o waith y Pwyllgor dros y 12 mis diwethaf. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion teg a chadarn i'r Pwyllgor Gwaith ar sawl pwnc a maes allweddol dros y cyfnod hwn a hefyd gwaith partneriaid yr Awdurdod:

- **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd (BCG)** – Mae'r Pwyllgor yn arwain ar y gwaith o graffu ar waith y Bwrdd sy'n bartneriaeth rhwng Gwynedd ac Ynys Môn. Mae hyn yn cynnwys craffu ar wireddu'r Cynllun Llesiant, trefniadau llywodraethiant a'r Adroddiad Blynyddol. Gwelwyd yr Aelodau yn rhoi ystyriaeth fanwl i adrodddiad blynyddol y Bwrdd: 2021/22 a chafwyd enghreifftiau o waith craffu o ansawdd gydag Aelodau yn holi sut mae'r Bwrdd yn cyfarch llithriad yn y ffrydiau gwaith unigol. Hefyd, bu i'r Pwyllgor gyfrannu sylwadau ar asesiadau llesiant drafft Ynys Môn (2023 ymlaen) a hynny fel rhan o'r broses ymgynghori statudol gan y Bwrdd. Yn olaf, rhoddwyd ystyriaeth i Gynllun Llesiant drafft ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn: 2023/2028 cynllun iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Gwaith a'i fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ym mis Mai, 2023.

- **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** – bu i'r Pwyllgor graffu ar yr adroddiadau monitro chwarterol a chodwyd cwestiynau priodol ynghylch cynnydd yn erbyn y prosiectau ar waith ee pa fesurau lliniaru bydd mewn lle i gyfarch unrhyw lithriad a sut y bydd risgiau posib o orwario mewn prosiectau unigol yn cael eu rheoli. Dyma'r Pwyllgor dynodedig sy'n craffu ar waith y Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – rôl hanfodol er mwyn sicrhau y buddion economaidd mwyaf i Ogledd Cymru ac Ynys Môn yn benodol.

- **Craffu Addysg** – Bu i'r Aelodau edrych ar nifer o feysydd allweddol wrth graffu ar addysg yn ystod y flwyddyn ddinesig a thrwy hynny'n ychwanegu gwerth at gyfraniad y Panel Sgriwtini Addysg. Yn yr Hydref, rhoddwyd cyfle i'r Aelodau graffu ar gynnydd yn erbyn argymhellion arolwg diweddar Estyn o'r Awdurdod (Mehefin, 2022) gan gynnig y cynllun ôl-arolwg fel un ystyrlon, cynhwysfawr a chadarn i'w fabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith. Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2021/22 oedd ffocws y Pwyllgor yn y Gwanwyn. Gwelwyd yr Aelodau'n craffu ar effeithiolrwydd y cynnig gan GwE i ysgolion Ynys Môn a hefyd oblygiadau'r Fframwaith Atebolrwydd newydd ar ein dulliau craffu i'r dyfodol.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiadau cynnydd rheolaidd yn ystod y flwyddyn ddinesig ar raglenni gwaith y Panel Sgriwtini Addysg. Mae'r Panel Sgriwtini Addysg yn parhau'n ran allweddol o drefniadau llywodraethiant corfforaethol y Cyngor.

- **Datblygu'r Economi ac Adfywio** – gwelwyd y Pwyllgor yn rhoi ffocws cynyddol ar brosiectau adfywio a datblygu'r economi sydd o flaenoriaeth corfforaethol ee Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn, Strategaeth Gwella Trefi Ynys Môn a Rhaglen Arfor. Bu i'r Pwyllgor gynnig y cynlluniau hyn i'w mabwysiadu gan y Pwyllgor Gwaith.

- **Partneriaethau eraill** – Mae'r Pwyllgor wedi craffu ar nifer o adroddiadau er mwyn dal partneriaid i gyfrif yn ogystal â sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r cyhoedd. Mae'r adroddiadau hyn wedi cynnwys Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru, Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ac Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb. O ganlyniad i ddiffyg capasiti yn y Gwasanaethau Democrataidd, ni bu'n bosibl i nifer o'n prif bartneriaid ddod gerbron y Pwyllgor eleni.

Hoffwn ddiolch i holl aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ac aelodau'r Panel Sgriwtini Addysg am y gwaith tîm effeithiol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r holl aelodau wedi llwyddo i addasu a sicrhau bod y swyddogaeth craffu yn parhau yn hybrid gan ymgymryd â chraffu mewn modd arloesol, gan wneud y defnydd gorau o amser swyddogion ac Aelodau Etholedig. Yn olaf, diolchaf yn ddiffuant i'r swyddogion yn y Tîm Sgriwtini am eu harweiniad, cefnogaeth a chymorth parod pob amser.

**Cynghorydd Dylan Rees**
**(Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)**

**Etholiad 2022: Cyngor Newydd**

1.1 Daeth newid sylweddol yn ein Haelodau Etholedig yn sgil Etholiad 2022 gyda bron 50% yn cael eu hethol fel cynghorwyr am y tro cyntaf. Roedd sawl ffactor wrth wraidd y newid hyn – 5 sedd ychwanegol ar y Cyngor fel canlyniad i adolygiad o ffiniau etholiadau yr Awdurdod Lleol (Comisiwn Ffiniau dros Gymru), a nifer yn penderfynu sefyll lawr fel Aelodau Etholedig.

1.2 Rhoddwyd trefniadau anwytho corfforaethol ar waith yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn ddinesig a hynny fel sylfaen ar gyfer hyfforddiant penodol ar gyfer ein Haelodau Etholedig ar y pwyllgorau a phanelau sgriwtini. Mae'r rhaglenni hyfforddiant a datblygu yn parhau gyda chyfleon rheolaidd i hunan-arfarnu effaith cyfraniad y gwaith Sgriwtini at ein trefniadau llywodraethiant corfforaethol.

**Moderneiddio Ein Trefniadau Cynnal Cyfarfodydd**

1.3 Ers Mehefin, 2022 ac yn unol â gofynion statudol[1], mae datrysiad hybrid ar waith sy'n hwyluso cynnal cyfarfodydd aml-leoliad yn Siambr y Cyngor a'r Ystafell Bwyllgor. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.


1.4 Mae'r ddau Bwyllgor wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi ailafael yn y gwaith craffu a oedd yn flaenoriaeth yn ystod 2022/23. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi craffu'n llwyddiannus, gan sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion ar gyfer ei wasanaethau hefyd. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi craffu ar ambell i bartneriaeth allweddol ac wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol. Er hynny, mae rhai partneriaid y bwriedwyd eu hamserlennu wedi cael eu gohirio oherwydd diffyg capasiti yn y Gwasanaethau Democrataidd. Rydym yn obeithiol y gallem i ail-afael ar y ffocws allweddol hwn yn ystod 2023/24.

# 2 EIN STRWYTHUR LLEOL

Mae pwyllgorau sgriwtini yn rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithredu. Eu prif bwrpas ydy dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliannau, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu polisïau. Trafodir crynodeb o'r cyd-destun polisi cenedlaethol yn **ATODIAD 1.**

[1] Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae ein strwythur lleol yn cynnwys 2 bwyllgor sgriwtini a thri phanel:




Rhoddir crynodeb o gylch gorchwyl ac aelodaeth ein pwyllgorau sgriwtini yn **ATODIAD 2.**

# 3 THEMÂU ALLWEDDOL LLEOL AR GYFER SGRIWTINI

## 3.1 Themâu Allweddol

Gwelwyd ein rhaglenni gwaith sgriwtini lleol yn blaenoriaethu themâu allweddol (ceir crynodeb ohonynt isod), er mwyn darparu fframwaith cadarn i:

- Esbonio rôl a chyfraniad Sgriwtini at drefniadau llywodraethiant y Cyngor
- Nodi'r camau y mae angen eu cymryd yn y tymor byr a'r tymor canol er mwyn gwella Sgriwtini ymhellach yng nghyd-destun y cyfnod y tu hwnt i'r Pandemig a gofynion deddfwriaethol cyfredol.

**THEMÂU ALLWEDDOL LLEOL SGRIWTINI**

- Atgyfnerthu ymagwedd "Cyngor cyfan" i Graffu
- Gwella effaith Craffu
- Adeiladu'r capasiti a'r gallu ar gyfer Craffu effeithiol
- Gwella ymgysylltiad â'r cyhoedd yn ein gwaith Craffu
- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Sgriwtini

# 4 ASESU EFFAITH SGRIWTINI

## 4.1 MESUR ALLBYNNAU

Llwyddodd Sgriwtini i sicrhau nifer o **allbynnau** pwysig yn ystod y flwyddyn sirol ddiwethaf sy'n mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ein cynorthwyo i asesu'r effaith y mae'r swyddogaeth wedi ei chael yn lleol:

**4.1.1 Cyfarfodydd pwyllgor –** cynhaliwyd 19 o gyfarfodydd pwyllgorau sgriwtini yn ystod 2022/23:

| Pwyllgor | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd |
|---|---|
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | **10** |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | **9** |

Mae trefniadau cadarn hefyd wedi'u sefydlu i sicrhau bod cadeiryddion y pwyllgorau sgriwtini yn rhoi adborth yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith ar faterion sydd wedi cael eu hystyried gan y ddau bwyllgor.

**4.1.2 Cyfarfodydd y Panelau Sgriwtini –** cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd o'r 3 phanel sgriwtini dros y 12 mis diwethaf:

| Panel | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd |
|---|---|
| Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | **8** |
| Panel Sgriwtini Cyllid | **8** |
| Panel Sgriwtini Addysg | **9** |

Mae gweithrediad y paneli hyn wedi cael ei sefydlu'n gadarn drwy:

- Sefydlu trefniadau llywodraethiant cadarn i gefnogi pob panel
- Sicrhau ffocws / cylch gorchwyl a rhaglen waith clir ar gyfer y panelau
- Sefydlu proses adrodd / uchafu er mwyn sicrhau yr adroddir ar waith y panelau sgriwtini yn chwarterol i'r ddau Riant Bwyllgor, gyda Chadeiryddion y Panelau'n cynnig argymhellion ar gynlluniau neu benderfyniadau arfaethedig
- Sicrhau'r cyflymder priodol ar waith y panelau sy'n cydymffurfio â blaenoriaethau corfforaethol a chraffu manwl ar bynciau hollbwysig i'r Cyngor.

**4.1.3 Blaen raglenni gwaith** – mae'r arfer o flaen raglennu gwaith wedi hen sefydlu ac mae hynny'n atgyfnerthu gwaith y ddau bwyllgor sgriwtini ynghyd â'r panelau. Mae'r rhaglenni hyn yn bwysig o ran cynorthwyo aelodau pwyllgorau sgriwtini i flaenoriaethu eu gwaith

ac maent yn cael eu trafod gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r naill bwyllgor a'r llall a hefyd y 3 phanel yn adolygu cynnwys eu blaen raglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac er mwyn cadw ar y blaen â blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau blaen raglennu gwaith yn canolbwyntio fwyfwy ar:

i. Agweddau strategol

ii. Ymgysylltiad dinasyddion / rhanddeiliaid eraill a chanlyniadau

iii. Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a'r rhaglen drawsnewid gorfforaethol ar gyfer 2017/22 ynghyd a'r Cynllun Trosiannol (darparu'r paramedrau gweithredol i swyddogion ddarparu ffrydiau gwaith allweddol yn ystod y cyfnod 12 mis sy'n pontio'r cyfnod rhwng y ddwy Weinyddiaeth)

iv. Risgiau

v. Gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio

vi. Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**4.1.4 Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion -** mae'r Fforwm wedi'i hen sefydlu ac yn parhau i gwrdd yn rheolaidd. Ystyrir y Fforwm yn gyfrwng pwysig i oruchwylio rhaglenni gwaith y pwyllgorau sgriwtini ac i gyd-drafod y blaenoriaethau â Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini. Mae hefyd yn cymryd y cyfrifoldeb am arwain ar y gwaith o ddatblygu swyddogaeth drosolwg a sgriwtini'r Cyngor a'i gwella'n barhaus. Mae rôl y Fforwm yn cynnwys sgyrsiau rhwng y Pwyllgor Gwaith (Arweinydd), Cadeiryddion/Is-gadeiryddion Sgriwtini a'r Tîm Arwain (Prif Weithredwr) er mwyn sicrhau gwell aliniad rhwng rhaglenni gwaith**.**

**4.1.5 Datblygu, hyfforddi a chefnogi Aelodau –**

- ✓ mae elfennau sylweddol rhaglen hyfforddiant a datblygu corfforaethol yr Aelodau wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol a hynny yn sgil Etholiad 2022:
  i. Cyflwyniad i Sgriwtini
  ii. Cadeirio Pwyllgorau Sgriwtini (ar gyfer y cadeiryddion / is-gadeiryddion pwyllgorau a phanelau sgriwtini)
  iii. Sgriwtini Effeithiol / Strategaethau Cwestiynu
  iv. Technoleg - uwchsgilio Aelodau gyda'r amcan o sicrhau bod modd i bob un gymryd rhan yn effeithio mewn cyfarfodydd aml-leoliad (**modelau arloesol / amgen o sgriwtini Aelodau**)

- ✓ cynnal sesiynau briffio misol ar gyfer rhannu gwybodaeth / codi ymwybyddiaeth Aelodau ar faterion allweddol (ee Cynllun y Cyngor: 2023-2028, Datblygiadu Tai,

Cynlluniau Cymorth Costau Byw, Rheolaeth Cyrchfan a'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol). Hefyd, fel fforwm ar gyfer hunanasesiad Aelodau / adlewyrchu ar berfformiad sgriwtini.

**4.1.6 Sgriwtini ar draws maes ehangach –** ymagwedd ehangach tuag at sgriwtini gan Aelodau wedi cael ei datblygu ymhellach a'i hatgyfnerthu yn 2022/23 drwy:

- **i.** Gynllunio ymlaen yn effeithiol er mwyn sicrhau bod aliniad rhwng y pynciau a drafodir mewn sesiynau briffio i Aelodau, panelau sgriwtini a chyfarfodydd o'r pwyllgorau sgriwtini llawn
- **ii.** Sicrhau adroddiadau cadarn, lefel uchel ac amserol i'r pwyllgorau sgriwtini gan ddwyn sylw at unrhyw lithriad yn ôl yr angen
- **iii.** Datblygu ystod y pynciau a drafodir mewn sesiynau briffio Aelodau i gefnogi Craffu a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i Aelodau ar bynciau strategol a thrawsnewid.

**4.1.7 "Cau'r cylch Sgriwtini" –** drwy sefydlu trefniadau cadarn i:

- **i.** Adrodd ar gynnydd neu uchafu materion o:
  - Banelau sgriwtini i'r rhiant bwyllgorau
  - Bwyllgorau sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith
  - Y byrddau rhaglen corfforaethol i'r pwyllgorau sgriwtini.
- **ii.** Galluogi ac annog hunan-ddadansoddiad ac adlewyrchiad gan Aelodau Sgriwtini er mwyn nodi cryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad / ffocws pellach.

**4.1.8 Sgriwtini a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol –** datblygu rôl Sgriwtini drwy:

- Sicrhau bod Aelodau'n canolbwyntio ar y 5 ffordd o weithio wrth lunio cwestiynau[2]
- Weithredu'r templed ar gyfer adroddiadau sgriwtini, sy'n rhoi llesiant cenedlaethau'r dyfodol wrth ei wraidd
- Godi ymwybyddiaeth a rhoi gwybodaeth i Aelodau mewn sesiynau briffio a datblygu
- Adolygu'r cynnydd a wnaed o ran datblygu rôl sgriwtini yn erbyn arfer orau
- Gynnal fframwaith i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaethau allweddol.

**4.1.9 Ymgysylltiad dinasyddion â Sgriwtini –**sicrhau y gwrandewir ar lais dinasyddion wrth wneud penderfyniadau yn lleol, ee mae'r Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini yn rhan allweddol o'n trefniadau llywodraethiant corfforaethol. Caiff cyfarfodydd y ddau Bwyllgor Sgrwtini eu darlledu'n fyw a chaiff recordiad ei gadw ar wefan y Cyngor am 12 mis. Rhoddir cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd Pwyllgor drwy rwydweithiau cymdeithasol y Cyngor.

---

[2] Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)

### 4.2 MESUR CANLYNIADAU

Mae sefydlu ac asesu effaith Sgriwtini yn heriol oherwydd nid yw **canlyniadau** gweithgareddau trosolwg a sgriwtini bob amser yn weladwy ac nid oes modd yn aml eu mesur mewn modd systematig. Ymhellach, nid yw'n hawdd mesur gallu'r swyddogaeth sgriwtini i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy drafodaeth a dadl. Fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau ble mae mewnbwn sgriwtini wedi ychwanegu gwerth ac / neu wedi dylanwadu ar y modd y mae cynigion wedi cael eu gweithredu gan y Cyngor.

Mae rhagair yr adroddiad yn egluro beth oedd prif uchafbwyntiau gwaith sgrwtini'r Cyngor am y flwyddyn. Roedd hynny'n cynnwys craffu a darparu sylwadau ar brif gynlluniau strategol y Cyngor, gan gynnwys Cynllun y Cyngor 2023-28. Bu craffu hefyd ar ganlyniadau a threfniadau monitro perfformiad y Cyngor ac ar gynigion cyllideb 23-24.

Yn ystod 2023-24, mae bwriad i weithredu protocol craffu newydd yn y maes addysg a mabwysiadu'r egwyddorion ar draws holl waith craffu'r Cyngor. Byddwn hefyd yn adolygu trefniadau sgrwtini'r Cyngor er mwyn ystyried arfer da a meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill.

## 5.0 Edrych Ymlaen i 2023/24

Bydd yr Awdurdod yn parhau ar y cam nesaf o'i daith ddatblygu craffu a blaenoriaethir y meysydd allweddol canlynol i'w gweithredu dros y flwyddyn i ddod:

**MEYSYDD ALLWEDDOL DATBLYGU SGRIWTINI**

| Thema | Sut | Canlyniad[3] |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth** | Prif lifo ein gweledigaeth yn llawn a sicrhau bod gan bob Aelod Etholedig ddealltwriaeth gadarn o bwrpas a gwerth craffu oddi mewn i lywodraethiant y Cyngor. Defnyddio'r protocol craffu addysg newydd i godi ymwybyddiaeth o egwyddorion craffu ac i ddatblygu egwyddorion cyson. | ***Canlyniadau gwell*** |

[3] Canlyniadau a Nodweddion am Drosolwg a Sgriwtini Effeithiol i Lywodraeth Leol – Craffu Da? Cwestiwn Da! Swyddfa Archwilio Cymru 2014

| Thema | Sut | Canlyniad[3] |
|---|---|---|
| **Datblygiad a chefnogaeth i Aelodau** | • Mae haglen hyfforddiant a datblygu i gefnogi a datblygu Aelodau mewn lle. Mae sgiliau cadeirio effeithiol yn rhan o'r rhaglen a bydd aelodau newydd i Bwyllgorau Sgrwtini yn derbyn hyfforddiant ar waith craffu hefyd.<br>• Cynnal sesiynau briffio / datblygu / adolygu byr yn rheolaidd gyda'r Aelodau Craffu | ***Penderfyniadau gwell*** |
| **Paneli Sgriwtini** | Cefnogi gwaith y paneli craffu drwy:<br>• Sicrhau bod blaen raglenni'r 3 phanel yn cyd-fynd â blaenoriaethau corfforaethol Cynllun y Cyngor 2023-28<br>• Datblygu ffocws esblygol i waith y Paneli<br>• Sicrhau bod y Paneli yn cwblhau ymarferion hunanarfarnu o leiaf unwaith y flwyddyn<br>• Cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y Paneli Craffu fel rhan o strwythur llywodraethiant y Cyngor. | ***Penderfyniadau gwell*** |
| **Ymgysylltiad Cyhoeddus yn ein gwaith Craffu** | Parhau i brif lifo'r Protocol Siarad Cyhoeddus a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd ohono er mwyn sicrhau rhagor o gyfranogiad cyhoeddus drwy ddarparu strwythur clir i'r cyhoedd wneud cais am gael siarad mewn Pwyllgorau.<br>Rhoi cyhoeddusrwydd ymlaen llaw i gyfarfodydd Pwyllgor.<br>Monitro'r niferoedd sy'n gwylio gwe ddarlledidad y Pwyllgor Sgrwtini unai'n fyw, neu'r recordiad. | ***Ymgysylltu'n well*** |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | • Parhau i gefnogi'r cadeiryddion i ddatblygu rôl sgriwtini wrth fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015<br>• Gwreiddio strategaeth gwestiynu gadarn yn llawn drwy ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau y cynhwysir cwestiynau sgriwtini allweddol ymhob adroddiad pwyllgor ac yn cael eu gofyn mewn cyfarfodydd paneli a phwyllgorau<br>• Adolygu ein trefniadau er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | ***Canlyniadau gwell*** |
| **Gwaith partneriaethol** | • Datblygu ac ehangu gwaith craffu ar bartneriaid allweddol yn ddibynnol ar gapasiti. Gweithio gyda'r sector iechyd fel blaenoriaeth a chraffu ar | ***Ymgysylltu'n well*** |

| Thema | Sut | Canlyniad[3] |
| --- | --- | --- |
| | ddatblygiadau strategol mewn meysydd eraill.<br>• Parhau i wahodd partneriaid allweddol i ddod gerbron y Pwyllgorau er mwyn craffu ar eu gwaith ar yr Ynys. | |
| **Modelau arloesol o Sgriwtini gan Aelodau** | Ystyried ffyrdd mwy arloesol ac effeithiol o graffu gan ystyried arfer da a meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill. | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell, ymgysylltu'n well*** |
| **Aliniad a Pherchnogaeth o Raglenni Gwaith Sgriwtini** | • Adolygu a diweddaru rhaglenni gwaith y pwyllgorau a'r paneli craffu yn fisol i alinio gyda'r broses o ddiweddaru blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith<br>• Sicrhau trafodaeth o'r blaen raglen waith ym mhob cyfarfod o'r Fforwm cadeiryddion Sgriwtini / pwyllgor / paneli a cheisio mewnbwn Aelodau wrth lunio'r rhaglenni gwaith er mwyn sicrhau perchnogaeth ohonynt<br>• Gwneud defnydd o'r arfer dda yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i lywio'r rhaglenni gwaith. Cydweithio gyda Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell*** |
| **Hunanasesiad o'n trefniadau Sgriwtini lleol** | Aelodau'n parhau i gwblhau ymarferion hunanasesu sy'n cynnwys dynodi argymhellion er mwyn gwella'r trefniadau craffu presennol:<br>• fel rhan o'r broses o baratoi'r Adroddiad Blynyddol Sgriwtini<br>• i asesu canlyniadau ac effaith ein paneli sgriwtini. | ***Canlyniadau gwell*** |
| **Cau'r Cylch Sgriwtini ac Aliniad gyda'r Byrddau Trawsnewid** | Atebolrwydd drwy adrodd ar gynnydd gwaith y Paneli yn chwarterol, a pharhau i ffurfioli'r drefn o adrodd i'r Pwyllgorau Sgriwtini drwy Gadeiryddion y Paneli fel mater o drefn. | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell, ymgysylltu'n well*** |
| **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** | Parhau i weithredu yn unol â gofynion y Ddeddf a threfnu sesiynau gwybodaeth i aelodau yn ôl yr angen. | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell*** |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## 6.0 CYSYLLTU Â SGRIWTINI

6.1 I ddysgu mwy am sgriwtini ar Ynys Môn neu i wneud unrhyw sylwadau cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Yr Uned Sgriwtini,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfeydd y Cyngor,
Llangefni.
Ynys Môn.
LL77 7TW

| | | |
|---|---|---|
| Anwen Davies | Rheolwr Sgriwtini | (01248) 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru |

# Adroddiad Blynyddol
# Trosolwg a Sgriwtini: 2022/23

# ATODIADAU



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

**ATODIAD 1**

# BETH YW TROSOLWG A SGRIWTINI?
## Cyd-destun polisi cenedlaethol

**Cyd-destun cenedlaethol:**
Mae pwyllgorau sgriwtini yn rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithredu. Yn ogystal â sefydlu Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau, mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu un neu ragor o bwyllgorau sgriwtini. Eu rôl pennaf yw dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliant, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rôl wrth ddatblygu ac adolygu polisïau.

Mae'r Ganolfan Llywodraethiant a Chraffu Gyhoeddus (CfGS)[4] yn arddel pedair egwyddor allweddol i gefnogi gwaith sgriwtini effeithiol gan Aelodau:

i. Darparu her "cyfaill beirniadol" i'r rheini sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau
ii. Sicrhau y clywir llais a phryderon y cyhoedd a chymunedau
iii. "Llywodraethwyr annibynnol eu meddwl" sy'n arwain y broses sgriwtini ac yn cymryd perchnogaeth ohoni
iv. Yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gyrru gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.

[4] Canllaw Sgriwtini Da, Canolfan Llywodraethiant a Chraffu 2004

**ATODIAD 2**

# CYLCH GORCHWYL AC AELODAETH EIN PWYLLGORAU SGRIWTINI

Mae'r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gael ei chyflawni drwy gyfrwng strwythur sy'n cynnwys dau o riant bwyllgorau sgriwtini – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

## Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

### Cylch gorchwyl:

- Ffocws gwaith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yw darparu sicrwydd ynghylch cyflawni a darparu'r holl wasanaethau; sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion ar gyfer ei wasanaethau (fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol, y Gyllideb Flynyddol, y Fframwaith Polisi a Chyllideb, y Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu eu cynlluniau a'u polisïau olynol); a chefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus.
- Mae aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cynnal cyfarfodydd paratoi cyn pob pwyllgor er mwyn paratoi a rhoi ffocws i'r drafodaeth yng nghyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor. Ystyrir bod hyn yn arfer dda a bwriedir parhau â'r trefniadau hyn yn 2023/24.

### Aelodaeth

- Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones yw cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a chaiff gefnogaeth gan yr Is-gadeirydd, sef y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones. Mae deuddeg o aelodau'n gwasanaethu ar y pwyllgor[5] gyda darpariaeth ar gyfer 4 aelod cyfetholedig:

[5] Mae aelodaeth cynghorwyr ar y Pwyllgorau Sgriwtini yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor

## Aelodaeth Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol / Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng Geraint ap Ifan Bebb | Cefni | Plaid Cymru |
|  | Cyng Neville Evans | Crigyll | Plaid Cymru |
|  | Cyng Dyfed Wyn Jones (Is-gadair) | Aethwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng Jackie Lewis | Talybolion | Plaid Cymru |
|  | Cyng Llio A Owen | Talybolion | Plaid Cymru |
|  | Cyng. Aled M Jones | Twrcelyn | Annibynwyr Môn |

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol / Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng Alwen Watkin | Bodowyr | Plaid Cymru |
|  | Cyng Arfon Wyn | Bro Aberffraw | Plad Cymru |
|  | Cyng Dafydd Roberts | Bodowyr | Gwp Annibynnol |
|  | Cyng Keith Roberts | Ynys Gybi | Llafur Cymru |
|  | Cyng Robert Llewelyn Jones (Cadair) | Parc a'r Mynydd | Annibynwyr Môn |
|  | Cyng. Douglas M. Fowlie | Crigyll | Annibynwyr Môn |

<table>
<tr><td colspan="2">Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystod rhan o 2022/23</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyng Sonia Williams</td></tr>
<tr><td></td><td>Aethwy</td></tr>
</table>

## PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

**Cylch gorchwyl:**

- Prif ffocws y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yw sicrhau yr hyrwyddir buddiannau Dinasyddion Ynys Môn ac y gwneir y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor, yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor, sy'n dangos gwerth ychwanegol yn sgil gweithio gyda phartneriaid. Mae cylch gorchwyl y pwyllgor yn cynnwys trefniadau rhanbarthol a chenedlaethol yn ogystal â threfniadau lleol.
- Y pwyllgor hefyd yw'r Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn enwebedig sy'n delio â materion trosedd ac anhrefn, fel sy'n ofynnol o dan Adrannau 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006. Hwn yw'r pwyllgor dynodedig hefyd ar gyfer craffu gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd.
- Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno'r arfer o gynnal cyfarfodydd briffio gydag aelodau cyn pob cyfarfod ffurfiol o'r pwyllgor sgriwtini. Caiff hyn ei weld fel arfer da a bwriedir parhau â'r trefniadau hyn yn 2023/24.

**Aelodaeth:**

- Y Cynghorydd Dylan Rees yw Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a chaiff gefnogaeth gan yr Is-gadeirydd, sef y Cynghorydd Gwilym Owen Jones. Mae deuddeg o aelodau hefyd yn gwasanaethu ar y Pwyllgor hwn gyda darpariaeth ar gyfer 4 aelod cyfetholedig:

## Aelodaeth Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol/ Grŵp | | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol / Grŵp |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng Dylan Rees (Cadair) | Canolbarth Môn | Plaid Cymru |  | Cyng John Ifan Jones | Bro Aberffraw | Plaid Cymru |
|  | Cyng Gwilym O Jones (Is-gadair) | Bro'r Llynnoedd | Y Grŵp Annibynnol |  | Cyng Margaret ROberts | Lligwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng Non Dafydd | Canolbarth Môn | Plaid Cymru |  | Cyng Paul Ellis | Canolbarth Môn | Annibynwyr Môn |
|  | Cyng Euryn Morris | Lligwy | Plaid Cymru |  | Cyng Jeff Evans | Tref Cybi | Annibynwyr Môn |
|  | Cyng Trefor Lloyd Hughes | Ynys Gybi | Plaid Cymru |  | Cyng Derek Owen | Twrcelyn | Annibynwyr Môn |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng. Ken Taylor | Bro'r Llynoedd | Plaid Cymru |  | Cyng. Pip O'Neill | Tref Caergybi | Llafur Cymru |

Gall ein pwyllgorau sgriwtini wneud eu gwaith mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- Ystyried y pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol
- Ystyried y pwnc yn fanylach drwy sefydlu panel canlyniad sgriwtini NEU
- Cynnal sesiynau anffurfiol ar faes polisi penodol.

Unwaith eto yn ystod 2022/23, roedd y pwyllgorau sgriwtini yn ymwybodol o'r angen i geisio canolbwyntio eu gwaith ar ganlyniadau ac o fewn fframwaith Archwilio Cymru o nodweddion a chanlyniadau sgriwtini a throsolwg effeithiol mewn llywodraeth leol[6]:

- Canlyniadau gwell
- Penderfyniadau gwell
- Ymgysylltu'n well

**Galw penderfyniadau i mewn:** gall pwyllgorau sgriwtini "alw i mewn" penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, Aelod Portffolio neu swyddog sydd wedi cael pwerau dirprwyol gan y Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniad penodol. Nid yw'r pwyllgorau sgriwtini ond yn galw penderfyniad i mewn pan mae rheswm da dros wneud hynny (drwy Brawf o Arwyddocâd), ac yn ystod 2022/23 ni chafodd hyn ei wneud.

[6] Craffu Da? Cwestiwn Da! Swyddfa Archwilio Cymru, 2014

# ATODIAD 3

## Ein Gweledigaeth ar gyfer sgriwtini effeithiol yng Nghyngor Sir Ynys Môn

### Gweledigaeth

Mae Sgriwtini ar Ynys Môn yn anelu at sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion a chymunedau a hefyd ychwanegu at effeithiolrwydd y Cyngor drwy helpu i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy tryloyw, cynhwysol, atebol a chost effeithiol.

### Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Sgriwtini ar Ynys Môn

- Mae sgriwtini'n creu awyrgylch o gyd-ymddiriedaeth, cydweithio a rhannu cyfrifoldebau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer cymunedau lleol ar Ynys Môn
- Mae Aelodau Sgriwtini yn anwleidyddol yn y modd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cefnogi a herio
- Mae gweithgaredd Sgriwtini'n ehangu yn uniongyrchol y sylfaen dystiolaeth ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyflwyno rhaglenni trawsnewid oherwydd mae'n rhoi syniad o'r modd y mae cymunedau lleol yn debygol o deimlo am y cynigion
- Mae Aelodau Sgriwtini yn helpu i sicrhau y cymerir ymagwedd strategol, tymor hir pan mae bwriad i ail ystyried strategaethau sylweddol gan wasanaethau a hynny drwy gynnig her adeiladol wrth roi prawf ar ragdybiaethau, edrych ar risgiau ac herio sut y mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu.

### Ein Gwerthoedd

### Sgriwtini ar Ynys Môn .....

- Mae'n edrych ymlaen ac at allan ac yn rhagweithiol (yn hytrach na mewnol ac ymatebol)
- Rôl wedi'i diffinio'n glir ac sy'n cael ei gwerthfawrogi yn nhrefniadau llywodraethiant a gwella'r Cyngor
- Anwleidyddol ac yn cynnwys amrediad eang o ffynonellau tystiolaeth a safbwyntiau gan gynnwys rhai gan bartneriaid strategol, rheoleiddwyr a'r cyhoedd
- Arwain gan Aelodau Etholedig sydd â'r cyfleon hyfforddi a datblygu maent eu hangen i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol
- Derbyn cefnogaeth effeithiol gan Dîm Arwain y Cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ar gyfer Sgriwtini o ansawdd uchel ac ar gael yn amserol a chyson
- Cymryd i ystyriaeth bryderon a fynegir ar lefel ward mewn modd nad yw'n blwyfol wrth reoli ei raglen waith
- Cael ei gynllunio'n dda, ei gadeirio'n effeithiol ac mae'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt
- Cael ei gydnabod gan y Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Arwain fel dull pwysig yn y Cyngor ar gyfer ymgysylltiad cymunedol a dinasyddion yn ymwneud â llywodraethiant
- Adeiladu ymddiriedaeth a pherthnasau cadarnhaol gydag amrediad eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.

This page is intentionally left blank